# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 02/12/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
1. Questions to the Minister for Health and Social Services

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
2. Questions to the Minister for Education and Skills

3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Y Diwydiant Dur
3. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): The Steel Industry

4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Adolygiad o Wariant a Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU
4. Welsh Conservatives Debate: The UK Government's Spending Review and Autumn Statement

5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Busnesau Bach
5. Welsh Conservatives Debate: Small Businesses

6. Cyfnod Pleidleisio
6. Voting Time

7. Dadl Fer: Gwastraffu ein Talent? Menywod a'r Economi yng Nghymru
7. Short Debate: Wasting our Talent? Women and the Economy in Wales


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order. The National Assembly is in session.

Trefn, trefn. Dyma ddechrau trafodion y Cynulliad Cenedlaethol.

# 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

# 1. Questions to the Minister for Health and Social Services

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 1, questions to the Minister for Health and Social Services. Question 1, John Griffiths.

Eitem 1, cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cwestiwn 1, John Griffiths.

### Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Mwy Integredig

### Greater Integrated Health and Social Care

13:30

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig? OAQ(4)0664(HSS)*

*1. Will the Minister make a statement on Welsh Government progress in delivering greater integrated health and social care? OAQ(4)0664(HSS)*

13:30 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Senedd.tv Fideo Video

I thank John Griffiths for the question. The establishment of regional partnership boards, under the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 is one of a series of actions taken to deliver integrated health and social care. The partnerships bring together health boards, social services and the third sector to plan and provide jointly for the needs of their population.

Diolch i John Griffiths am y cwestiwn. Mae sefydlu byrddau partneriaeth rhanbarthol, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn un o gyfres o gamau a gymerwyd i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae'r partneriaethau yn dod â byrddau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector at ei gilydd i gynllunio a darparu ar y cyd ar gyfer anghenion eu poblogaeth.

13:30 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. With regard to those regional partnership boards, and the third sector involvement that you mentioned, could you tell the Assembly what representations you received from third sector bodies in terms of their involvement on those boards and what action you will take in response to those views?

Diolch i chi am yr ateb, Weinidog. O ran y byrddau partneriaeth rhanbarthol hynny, ac ymwneud y trydydd sector a grybwyllwyd gennych, a allech ddweud wrth y Cynulliad pa sylwadau a gawsoch gan gyrff y trydydd sector o ran eu hymwneud ar y byrddau hynny a pha gamau y byddwch yn eu cymryd mewn ymateb i'r safbwyntiau?

13:31 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank John Griffiths for that. During the consultation on the regulations, which were approved by the Assembly yesterday, on regional partnership boards, there was a strong strand of response from third sector organisations, asking us to strengthen their representation on those partnership boards. As a result, I agreed that we would double the number of representatives so that there will be one representative from local third sector organisations, and that each regional partnership board would also have a member representing national third sector organisations on those boards as well. The statutory guidance will flesh out the role and responsibilities of those third sector representations and make sure that they are properly heard at the board.

Diolch i John Griffiths am hynny. Yn ystod yr ymgynghoriad ar y rheoliadau, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ddoe, ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol, cafwyd ymateb cryf gan sefydliadau trydydd sector, yn gofyn i ni gryfhau eu cynrychiolaeth ar y byrddau partneriaeth. O ganlyniad, cytunais y byddem yn dyblu nifer y cynrychiolwyr fel y bydd un cynrychiolydd o sefydliadau trydydd sector lleol, ac y byddai gan bob bwrdd partneriaeth rhanbarthol hefyd aelod yn cynrychioli sefydliadau trydydd sector cenedlaethol ar y byrddau hynny. Bydd y canllawiau statudol yn rhoi cnawd ar esgyrn ar rôl a chyfrifoldebau'r cynrychiolwyr trydydd sector hynny ac yn sicrhau eu bod yn cael eu clywed yn briodol ar y bwrdd.

13:32 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one purpose of greater integrated health and social care is to deliver better care for our ageing population. If we are to achieve an age-friendly Wales, all older people must have access to quality health and social care that meets their needs effectively, and protects their dignity. What is the Minister doing to create effective joint working and to focus on providing person-centred and relationship-centred care for the older population?

Weinidog, un o ddibenion iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig yw darparu gofal gwell ar gyfer ein poblogaeth sy'n heneiddio. Os ydym am greu Cymru oed-gyfeillgar, mae'n rhaid i bob person hŷn gael mynediad at ofal iechyd a gofal cymdeithasol o safon sy'n diwallu eu hanghenion yn effeithiol, ac yn diogelu eu hurddas. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau cydweithio effeithiol ac i roi ffocws ar ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n canolbwyntio ar berthynas ar gyfer y boblogaeth hŷn?

13:33

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I certainly agree with the Member that individual older people rely on the services that they receive from both health and social care organisations. It's why, in Wales, we have protected the budgets of health and social care in the round—spending levels 7 per cent above those in England—because it simply makes no sense from the point of view of that individual older person to find themselves stuck in one part of a system because the other part of the system isn't able to attend to their needs. Through the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, through the intermediate care fund, and by a series of other measures, our aim is to do exactly as the Member suggested—to make sure that it is the needs of the individual, what matters to them, is the first question that they are asked, and then services are brought together to respond to what they identify as the things that they think would make the greatest difference to them in their circumstances.

Rwy'n sicr yn cytuno â'r Aelod fod unigolion hŷn yn dibynnu ar y gwasanaethau y maent yn eu cael gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Dyna pam, yng Nghymru, ein bod wedi diogelu cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol yn eu cyfanrwydd—gyda lefelau gwario 7 y cant yn uwch na'r rhai yn Lloegr—oherwydd, yn syml, nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr o safbwynt yr unigolyn hŷn i fod yn gaeth mewn un rhan o'r system oherwydd nad yw rhan arall o'r system yn gallu rhoi sylw i'w anghenion. Trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, trwy'r gronfa gofal canolraddol, a thrwy gyfres o fesurau eraill, ein nod yw gwneud yn union fel yr awgrymodd yr Aelod—sicrhau mai anghenion yr unigolyn, yr hyn sy'n bwysig iddynt, yw'r cwestiwn cyntaf y gofynnir iddynt, ac yna caiff gwasanaethau eu dwyn ynghyd i ymateb i'r hyn a nodant yw'r pethau y credant y byddant yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf iddynt yn y sefyllfa y maent ynddi.

13:34

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, the number of delayed-transfer-of-care patients has fallen, as the most recent set of figures published last week shows. How has the intermediate care fund assisted in the creation of an integrated service, which helps to bring down delayed transfers in care?

Weinidog, mae nifer y cleifion sy'n wynebu oedi wrth drosglwyddo gofal wedi gostwng, fel y mae'r set ddiweddaraf o ffigurau a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn ei ddangos. Sut y mae'r gronfa gofal canolraddol wedi cynorthwyo i greu gwasanaeth integredig sy'n helpu i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal?

13:34

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Christine Chapman for the question. I think she points very directly to one of the reasons why delayed transfers of care in the Welsh NHS have been stable, and have fallen in the last period. That's because the ICF brings together local authority social services departments, local health boards, and third sector organisations, focused on avoiding unnecessary hospital admissions, and preventing delays in hospital discharges. As many Members here will know from having visited ICF projects, they include things like reablement services, interim care beds, rapid response teams, housing adaptations, telecare equipment and many other very practical ways in which we can make sure that someone whose treatment in a hospital is at an end can be quickly discharged to a more suitable setting.

Diolch i Christine Chapman am y cwestiwn. Rwy'n credu ei bod yn cyfeirio'n bendant iawn at un o'r rhesymau pam y mae nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn y GIG yng Nghymru wedi bod yn sefydlog, ac wedi gostwng yn y cyfnod diwethaf. Mae'n deillio o'r ffaith fod y gronfa gofal canolraddol yn dwyn adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, a sefydliadau trydydd sector ynghyd, i ganolbwyntio ar osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty, ac atal oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Fel y bydd llawer o'r Aelodau yma yn gwybod o weld prosiectau'r gronfa gofal canolraddol, maent yn cynnwys pethau fel gwasanaethau ailalluogi, gwelyau gofal dros dro, timau ymateb cyflym, addasiadau i dai, offer teleofal a llawer o ffyrdd eraill ymarferol iawn o sicrhau y gellir rhyddhau rhywun y mae ei driniaeth mewn ysbyty ar fin dod i ben i leoliad mwy addas yn gyflym.

13:35

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, when we in Plaid Cymru refer to integrated health and social care, we use the dictionary definition of integrated, which is 'combining one thing with another to make a single unit'. What definition are you using when you refer to integrated health and social care?

Weinidog, pan fyddwn ni ym Mhlaid Cymru yn cyfeirio at iechyd a gofal cymdeithasol integredig, rydym yn defnyddio diffiniad y geiriadur o integredig, sef cyfuno un peth â pheth arall i greu un uned. Pa ddiffiniad rydych chi'n ei ddefnyddio pan fyddwch yn cyfeirio at iechyd a gofal cymdeithasol integredig?

13:35 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The definition that I use, Dirprwy Lywydd, is not one that focuses on structures, but one that focuses on services. Plaid Cymru's plans, as the Member has fairly outlined, is to embark on yet another upheaval and reorganisation in which we move organisational boundaries around on the map as though that would solve the problem of bringing services together. So, the definition that I use is one in which we concentrate on the service: we bring services together in the way that I've described and we certainly avoid the massive destruction that would lie behind Plaid Cymru's ideas.

Nid yw'r diffiniad rwyf fi'n ei ddefnyddio, Ddirprwy Lywydd, yn un sy'n canolbwyntio ar strwythurau—mae'n canolbwyntio ar wasanaethau. Cynlluniau Plaid Cymru, fel y mae'r Aelod wedi amlinellu'n deg, yw bwrw iddi ar broses arall o ddymchwel ac ad-drefnu lle rydym yn symud ffiniau sefydliadol o gwmpas ar y map fel pe bai hynny'n datrys y broblem o ddod â gwasanaethau at ei gilydd. Felly, mae'r diffiniad rwy'n ei ddefnyddio yn un lle rydym yn canolbwyntio ar y gwasanaeth: down â gwasanaethau at ei gilydd yn y ffordd rwyf wedi'i disgrifio, ac rydym yn bendant yn osgoi'r dinistr enfawr a fyddai wrth wraidd syniadau Plaid Cymru.

13:36 **Peter Black** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, the integrated care fund is actually very important and very valuable in terms of dealing with this particular issue. How is that proposed to be taken forward over the next few years and will there be budget provision when we come to see the draft budget?

Weinidog, mae'r gronfa gofal integredig yn bwysig iawn ac yn werthfawr iawn ar gyfer ymdrin â'r mater hwn. Sut y bwriedir ei datblygu dros y blynyddoedd nesaf ac a fydd darpariaeth yn y gyllideb pan welwn y gyllideb ddrafft?

13:36 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank Peter Black for that. As he will recall, the original ICF was a one-year budget agreement between the political parties. There was revenue of £35 million in that first year. Given the constraints on Welsh Government budgets, it wasn't possible to replicate the full £35 million in this year's budget, but we were able to find £20 million, and the plus side for our partners in local authorities and health boards is that whereas the £35 million was one-off funding, the £20 million is recurring. It's there in the baseline. It will be there next year. Members will have to restrain their excitement in relation to the budget that the Minister for Finance and Government Business will lay down next week.

Diolch i Peter Black am hynny. Fel y bydd yn cofio, cytundeb cyllidebol un flwyddyn rhwng y pleidiau gwleidyddol oedd y gronfa gofal canolraddol wreiddiol. Cafwyd refeniw o £35 miliwn yn y flwyddyn gyntaf honno. O ystyried y cyfyngiadau ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, nid oedd yn bosibl ailadrodd y £35 miliwn llawn yn y gyllideb eleni, ond daethom o hyd i £20 miliwn, ac er mai cyllid untro oedd y £35 miliwn, yr ochr gadarnhaol i'n partneriaid yn yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd yw bod yr £20 miliwn yn gyllid cylchol. Mae yno yn y gyllideb sylfaenol. Bydd yno y flwyddyn nesaf. Bydd yn rhaid i'r Aelodau ffrwyno'u cyffro mewn perthynas â'r gyllideb y bydd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn ei gosod yr wythnos nesaf.

## Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol

## Primary and Community Care Services

13:37 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad i wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0659(HSS)*

*2. Will the Minister make a statement on access to primary and community care services in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)0659(HSS)*

13:37 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank Kirsty Williams for that question. Primary and community care practitioners in Powys are amongst the most creative in the United Kingdom. The local health board works with its three primary care clusters to support practices where necessary and to extend services through new investment.

Diolch i Kirsty Williams am y cwestiwn. Mae ymarferwyr gofal sylfaenol a chymunedol ym Mhowys ymhlith y mwyaf creadigol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r bwrdd iechyd lleol yn gweithio gyda'i thri chlwstwr gofal sylfaenol i gefnogi practisau lle y bo angen ac i ymestyn gwasanaethau drwy fuddsoddiad newydd.

13:37 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that, Minister. In recent weeks, a number of doctor surgeries had stopped carrying out ear syringing activities. Now, that might seem like a trivial matter, but for those who are suffering from hearing problems or health problems as a result of that, it's very disconcerting. They've been told either to go privately or to travel considerable distances to obtain a service. Minister, would you not agree with me this is precisely the kind of service that can be properly and safely administered in primary and community care settings and, actually, is not a trivial thing and that Powys health board and the GP clusters need to look again at ensuring that this service is available for local residents?

Diolch am hynny, Weinidog. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae nifer o feddygfeydd wedi rhoi'r gorau i gyflawni triniaethau chwistrellu clustiau. Nawr, gall ymddangos fel mater dibwys, ond i'r rhai sy'n dioddef o broblemau clyw neu broblemau iechyd o ganlyniad i hynny, mae'n peri pryder mawr. Dywedwyd wrthynt naill ai i fynd yn breifat neu i deithio cryn bellter i gael y gwasanaeth. Weinidog, oni fyddech yn cytuno mai dyma'n union y math o wasanaeth y gellir ei weinyddu'n briodol ac yn ddiogel mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol ac nad yw'n fater dibwys mewn gwirionedd, a bod angen i fwrdd iechyd Powys a chlystyrau meddygon teulu edrych eto ar sicrhau bod y gwasanaeth hwn ar gael i drigolion lleol?

13:38 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It is not a trivial matter, I agree. I am concerned at the developments she's pointed to and I've had correspondence with the Member on it. From memory, she might be interested to know that the single greatest cause of claims against primary care clinicians turns out to be as a result of ear syringing. So, that is why there is some anxiety in some GP practices at carrying out this activity. However, our plan is that this should be a primary care responsibility. I was lucky enough to meet recently with the Welsh Scientific Advisory Committee and met the lead audiology member of that committee. They have drawn up an audiology primary care practitioner role for the Welsh NHS. Funding has been secured from the primary care fund in three local health boards in Wales to introduce audiology primary care practitioners. They will be able to see patients directly. It will mean that GPs don't have to see people who can be properly seen by a different member of a primary care team, and taking on wax removal is one of the things that those new audiology primary care practitioners will be intended to discharge. I'm very happy to have discussions with the Powys LHB as to how that initiative might be extended to Powys.

Nid yw'n fater dibwys, rwy'n cytuno. Rwy'n pryderu am y datblygiadau y mae hi wedi tynnu sylw atynt ac rwyf wedi gohebu â'r Aelod yn eu cylch. Os cofiaf yn iawn, efallai y byddai o ddiddordeb iddi mai canlyniadau chwystrellu clustiau yw'r prif achos unigol dros hawliadau yn erbyn clinigwyr gofal sylfaenol. Felly, dyna pam y mae rhai practisau meddygon teulu yn pryderu rhywfaint ynglŷn â chyflawni'r driniaeth hon. Fodd bynnag, ein bwriad yw sicrhau ei fod yn gyfrifoldeb gofal sylfaenol. Yn ddiweddar, roeddwn yn ddigon ffodus i gyfarfod â Phwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru a chyfarfod ag aelod arweiniol y pwyllgor ar awdioleg. Maent wedi llunio rôl ymarferydd gofal sylfaenol awdioleg ar gyfer y GIG yng Nghymru. Rhyddhawyd cyllid gan y gronfa gofal sylfaenol mewn tri bwrdd iechyd lleol yng Nghymru i gyflwyno ymarferwyr gofal sylfaenol awdioleg. Byddant yn gallu gweld cleifion yn uniongyrchol. Bydd yn golygu nad oes rhaid i feddygon teulu weld pobl y gallai aelod gwahanol o dîm gofal sylfaenol eu trin yn briodol, ac mae tynnu cwyr yn un o'r pethau y bwriedir i'r ymarferwyr gofal sylfaenol awdioleg newydd ei gyflawni. Rwy'n hapus iawn i drafod gyda Bwrdd Iechyd Lleol Powys sut y gellid ymestyn y fenter i gynnwys Powys.

13:40 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I was going to raise exactly the same issue about GP practices opting out of the non-essential services, like ear syringing. But it is the case, Minister, that Powys health board has plugged the gap by arranging clinics in Llandrindod and Brecon, but, of course, that doesn't alleviate the problem for people who live a fair distance away. But the health board, to its credit, is pioneering a number of successful schemes, which do reduce patient travel, like the My Health text service and mobile MRIs. Would you encourage further such initiatives, Minister, to ensure that patients in the Brecon and Radnorshire constituency can continue to access non-essential health services close to their homes?

Weinidog, roeddwn am grybwyll yr un mater yn union ynglŷn â meddygfeydd teulu yn optio allan o wasanaethau nad ydynt yn hanfodol, fel chwistrellu clustiau. Ond mae'n wir, Weinidog, fod bwrdd iechyd Powys wedi llenwi'r bwlch drwy drefnu clinigau yn Llandrindod ac Aberhonddu, ond wrth gwrs, nid yw hynny'n lliniaru'r broblem i bobl sydd yn byw gryn bellter i ffwrdd. Ond mae'r bwrdd iechyd, er clod iddo, yn arloesi ar nifer o gynlluniau llwyddiannus, sy'n lleihau pellter teithio i gleifion, fel y gwasanaeth negeseuon testun Fy Iechyd ac MRI symudol. A fyddech yn annog mentrau o'r fath ymhellach, Weinidog, er mwyn sicrhau y gall cleifion yn etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed barhau i gael mynediad at wasanaethau iechyd nad ydynt yn hanfodol yn agos at eu cartrefi?

13:40 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Joyce Watson for that, and, as I said in my original answer, I do think that the Powys local health board, and Brecon and Radnorshire, have some of the most creative practitioners who do provide services closer to people's homes in a way that might not be available in other circumstances. The mobile MRI scanning arrangements that she referred to is certainly one of those. I think the My Health text service, which is now available in 60 per cent of all GP practices in Wales, is already having the impact of cutting down on missed appointments and providing information to patients in a way that prevents them from having to travel. And I was very pleased recently to able to approve expenditure for Powys health board to move wet age-related macular degeneration clinics out of secondary care and into primary care—£46,000 in revenue and £80,000 in capital—which will mean that, in future, Powys residents will not have to travel long distances for that very necessary service.

Hoffwn ddiolch i Joyce Watson am hynny, ac fel y dywedais yn fy ateb gwreiddiol, credaf fod gan fwrdd iechyd lleol Powys, a Brycheiniog a Sir Faesyfed, rai o'r ymarferwyr mwyaf creadigol sydd yn darparu gwasanaethau yn nes at gartrefi pobl mewn ffordd na fyddai ar gael o dan amgylchiadau eraill o bosibl. Mae'r trefniadau sganio MRI symudol y cyfeiriodd atynt yn sicr yn un o'r rheini. Rwy'n credu bod y gwasanaeth negeseuon testun, Fy Iechyd, sydd bellach ar gael yn 60 y cant o'r holl feddygfeydd teulu yng Nghymru, eisoes yn effeithiol o ran gostwng lefelau apwyntiadau a gollwyd a darparu gwybodaeth i gleifion mewn modd sy'n eu hatal rhag gorfod teithio. Ac roeddwn yn falch iawn yn ddiweddar o allu cymeradwyo gwariant i fwrdd iechyd Powys ar gyfer symud clinigau dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint o ofal eilaidd i ofal sylfaenol—£46,000 mewn refeniw a £80,000 mewn cyfalaf—a fydd yn golygu na fydd yn rhaid i drigolion Powys deithio pellter hir am y gwasanaeth angenrheidiol hwn yn y dyfodol.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call the party spokespeople to question the Minister, starting this week with the Welsh Conservative spokesperson, Darren Millar.

Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog, gan ddechrau yr wythnos hon gyda llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Darren Millar.

13:42 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, just a couple of weeks ago, the First Minister hinted that the Betsi Cadwaladr University Local Health Board could be split up. Do you want to comment on your views on that matter?

Weinidog, wythnos neu ddwy yn ôl, awgrymodd y Prif Weinidog y gellid rhannu Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. A ydych am wneud sylwadau ar eich barn ar y mater?

13:42 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You heard what the First Minister said on that matter. He was answering a question at a public meeting. My experience of going to Betsi Cadwaladr is that you don't have to be there for too long before somebody asks you the question, 'Is Betsi too big?' This is not something invented here; it's something that people in north Wales very regularly raise when you go there. My response to the question is that my aim is to make the current arrangements work in the best possible way and to deliver the best possible services to people locally.

Clywsoch yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog ar y mater. Roedd yn ateb cwestiwn mewn cyfarfod cyhoeddus. O'm profiad i o fynd i Betsi Cadwaladr, nid oes rhaid i chi fod yno'n rhy hir cyn i rywun ofyn y cwestiwn, 'A yw Betsi'n rhy fawr?' Nid yw'n rhywbeth a ddyfeisiwyd yma; mae'n rhywbeth y mae pobl yng ngogledd Cymru yn ei leisio'n rheolaidd pan ewch yno. Fy ymateb i'r cwestiwn yw mai fy nod yw gwneud i'r trefniadau presennol weithio yn y ffordd orau bosibl ac i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i bobl yn lleol.

13:42 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that response, Minister. You'll be aware, obviously, that Plaid Cymru have suggested that upheaval and reorganisation is the way forward for the Welsh NHS. You poured cold water on their views a few moments ago, yet you don't seem to be completely dismissing what the First Minister said about the future shape of the service in north Wales. Can I ask you again: do you support splitting the Betsi Cadwaladr university health board up into two or more local health boards or not? Just a simple 'yes' or 'no' will do.

Diolch i chi am yr ateb, Weinidog. Fe fyddwch yn ymwybodol, yn amlwg, fod Plaid Cymru wedi awgrymu mai proses o ddymchwel ac ad-drefnu yw'r ffordd ymlaen i'r GIG yng Nghymru. Fe dafloch ddŵr oer ar eu safbwyntiau ychydig funudau'n ôl, ac eto nid yw'n ymddangos eich bod yn diystyru'n llwyr yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog ynglŷn â ffurf y gwasanaeth yng ngogledd Cymru yn y dyfodol. A gaf fi ofyn i chi eto: a ydych yn cefnogi rhannu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ddau neu fwy o fyrddau iechyd lleol ai peidio? Bydd 'ie' neu 'na' syml yn gwneud y tro.

13:43 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm afraid the Member will have to put up with the answer that I give him rather than the one that he invented for himself, and I'll just tell him what I told him already: my ambition, in the time that I am health Minister, is to make Betsi Cadwaladr health board, as it is today, go on improving, to provide the services that people rely on, and to do so in a way that captures the confidence of its local population.

Wel, yn anffodus bydd yn rhaid i'r Aelod dderbyn yr ateb a roddaf iddo yn hytrach na'r un a ddyfeisiodd drosto'i hun, a dywedaf wrtho yr hyn rwyf wedi'i ddweud wrtho eisoes: fy uchelgais, yn fy amser fel Gweinidog Iechyd, yw gwneud i fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, fel y mae heddiw, barhau i wella, i ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt, ac i wneud hynny mewn ffordd sy'n ennyn hyder ei boblogaeth leol.

13:43 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you accept, Minister, that the First Minister's intervention and discussion on this issue is not helpful at a time when the health board is seeking to recruit a new chief executive, and now, of course, as we know, a new medical director? And, if you do agree that it was poor judgment, what action and discussions are you having with the First Minister on this issue?

A ydych yn derbyn, Weinidog, nad yw'r ffaith fod y Prif Weinidog yn ymyrryd ac yn trafod y mater yn ddefnyddiol ar adeg pan fo'r bwrdd iechyd yn ceisio recriwtio prif weithredwr newydd, a chyfarwyddwr meddygol newydd fel y gwyddom bellach, wrth gwrs? Ac os ydych yn cytuno mai diffyg crebwyll oedd hyn, pa gamau a thrafodaethau rydych yn eu cael gyda'r Prif Weinidog ar y mater?

13:44 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I've taken the trouble to make enquiries at Betsi Cadwaladr about the way that the recruitment exercise is going. The closing date is within the next few days. They are encouraged by the number and calibre of people who have expressed an interest in that post and who appear to be applying for it. I look forward to the sift being made on 10 December and for interviews to take place on 17 December, and I am confident that we will secure a high-calibre candidate for that post, who will dedicate themselves to providing the services the people in north Wales require.

Rwyf wedi mynd i'r drafferth o wneud ymholiadau yn Betsi Cadwaladr ynglŷn â sut y mae'r ymarfer recriwtio yn mynd yn ei flaen. Mae'r dyddiad cau yn ystod y dyddiau nesaf. Mae nifer a safon y bobl sydd wedi mynegi diddordeb yn y swydd ac sydd i'w gweld yn ymgeisio amdani yn destun calondid iddynt. Edrychaf ymlaen at y broses sifftio ar 10 Rhagfyr ac at y cyfweliadau a gynhelir ar 17 Rhagfyr, ac rwy'n hyderus y byddwn yn cael ymgeisydd o'r radd flaenaf ar gyfer y swydd, a fydd yn ymroi i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl gogledd Cymru.

13:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Kirsty Williams.

Yn awr, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, what assessment have you made of the financial sustainability of the residential care sector in Wales?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, pa asesiad a wnaethoch o gynaliadwyedd ariannol y sector gofal preswyl yng Nghymru?

13:44 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Kirsty Williams for that question, because it's a very important one. We are assessing the state of the care home sector in Wales in a number of different ways, through an oversight group that is chaired by Albert Heaney, the director of social services at the Welsh Government. We have secured additional reports, independently from Oxford Brookes University, into this matter and we work with Care Forum Wales on it as well.

Diolch i Kirsty Williams am y cwestiwn oherwydd mae'n un pwysig iawn. Rydym yn asesu cyflwr y sector cartrefi gofal yng Nghymru mewn nifer o wahanol ffyrdd, drwy grŵp goruchwylio a gadeirir gan Albert Heaney, cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru. Rydym wedi trefnu adroddiadau ychwanegol, yn annibynnol o Brifysgol Oxford Brookes, ar y mater hwn ac rydym yn gweithio arno gyda Fforwm Gofal Cymru hefyd.

As she will be aware, I'm sure, there is a great deal of anxiety in the care home sector at the Chancellor's announcement some time ago, that a so-called living wage would be paid in the care home sector without a single idea of how funds for that are to be found. We work carefully with them to try and find solutions here in Wales.

Fel y mae hi'n gwybod, rwy'n siŵr, mae llawer iawn o bryder yn y sector cartrefi gofal yn dilyn cyhoeddiad y Canghellor beth amser yn ôl, y byddai cyflog byw, fel y'i gelwir, yn cael ei dalu yn y sector cartrefi gofal heb unrhyw fath o syniad o ble y dôi'r arian ar gyfer hynny. Rydym yn gweithio'n ofalus gyda hwy i geisio dod o hyd i atebion yma yng Nghymru.

13:45 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for his answer. Minister, this week, the chairman of the Four Seasons Health Care organisation—one of the largest providers of residential care in the UK, and they have eight homes here in Wales—said that the social care sector was facing an existential crisis due to financial pressures and the failure of those financial pressures to be addressed by George Osborne in the autumn statement. They said that they were looking at the real prospect of potentially closing homes and not being able to invest in them in a way that they would like to. What discussions are you having with the residential care sector in Wales and are you aware of any providers that may not be able to continue to supply much-needed residential care beds in Wales? If they are to go to the wall, what steps will you be taking to ensure that there is alternative provision in place?

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Weinidog, yr wythnos hon, dywedodd cadeirydd sefydliad Four Seasons Health Care—un o'r darparwyr gofal preswyl mwyaf yn y DU, ac mae ganddynt wyth cartref yma yng Nghymru—fod y sector gofal cymdeithasol yn wynebu argyfwng dirfodol oherwydd pwysau ariannol a methiant George Osborne i fynd i'r afael â'r pwysau ariannol hwnnw yn natganiad yr hydref. Dywedent eu bod yn edrych ar y posibilrwydd real o orfod cau cartrefi a methu â buddsoddi ynddynt yn y modd y byddent yn ei hoffi. Pa drafodaethau rydych yn eu cael gyda'r sector gofal preswyl yng Nghymru ac a ydych yn ymwybodol o unrhyw ddarparwyr nad ydynt o bosibl yn gallu parhau i ddarparu gwelyau gofal preswyl mawr eu hangen yng Nghymru? Os byddant yn methu, pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau bod darpariaeth amgen i'w chael yn eu lle?

13:46 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

My officials have had direct contact with Four Seasons as a result of some of the statements they've made recently and some of the decisions they've made in relation to their portfolio of residential care homes in Northern Ireland. The indications that we have from the company is that they have no plans to reduce the number of properties that they currently operate in Wales. That obviously depends on market conditions and the state of the company overall.

Mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad uniongyrchol â Four Seasons o ganlyniad i rai o'r datganiadau a wnaethant yn ddiweddar a rhai o'r penderfyniadau a wnaethant mewn perthynas â'u portffolio o gartrefi gofal preswyl yng Ngogledd Iwerddon. Yr hyn a ddynodwyd gan y cwmni yw nad oes ganddynt unrhyw gynlluniau i leihau nifer yr eiddo y maent yn eu gweithredu ar hyn o bryd yng Nghymru. Mae hynny'n amlwg yn dibynnu ar sefyllfa'r farchnad a sefyllfa'r cwmni yn gyffredinol.

The shape of the residential care market in Wales is different to that in England in particular. Eighty per cent of care homes in Wales continue to be run by people who own either one or two care homes. We're not quite in the same position as they are in England, where the market is dominated by a small number of very large providers and if one of those providers were to walk away from one of their local authority contracts, there would be a very big problem indeed. But as Kirsty Williams will know, through the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 and the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill, we helped put obligations in place on local authorities to plan for their local markets and market stability, but also obligations on them to act in circumstances where care homes close, including in the case of large care home providers.

Mae siâp y farchnad gofal preswyl yng Nghymru yn wahanol i'r un yn Lloegr, yn benodol. Pobl sy'n berchen ar un neu ddau o gartrefi gofal sy'n rhedeg wyth deg y cant o'r cartrefi gofal yng Nghymru o hyd. Nid ydym yn yr un sefyllfa'n hollol ag yn Lloegr, lle y dominyddir y farchnad gan nifer fach o ddarparwyr mawr iawn a phe bai un o'r darparwyr hynny'n troi cefn ar un o'u contractau ag awdurdod lleol, byddai'n broblem fawr iawn, yn wir. Ond fel y bydd Kirsty Williams yn gwybod, drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), rydym wedi helpu i roi rhwymedigaethau ar awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer eu marchnadoedd lleol a sefydlogrwydd y farchnad, ac i roi rhwymedigaethau arnynt hefyd i weithredu mewn amgylchiadau lle y bydd cartrefi gofal yn cau, gan gynnwys yn achos darparwyr cartrefi gofal mawr.

13:48 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, I accept that the structure of our industry in Wales is different, but I have had many conversations with those owners of one or two homes who are expressing great fears about their ability to continue to provide these services.

Weinidog, rwy'n derbyn bod strwythur ein diwydiant yng Nghymru yn wahanol, ond rwyf wedi cael llawer o sgyrsiau gyda pherchnogion un neu ddau o gartrefi sy'n mynegi pryderon mawr ynghylch eu gallu i barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

You've already mentioned the impact of the so-called living wage. Nobody would argue with those working in the care sector being paid a decent wage, but unless that is reflected in increases in fee levels from local authorities that pay for that care, I'm really worried that some homes will go to the wall. What discussions are you having with local authorities about the adequacy of the fee levels that they're paying for residents who they place in the residential care sector?

Rydych eisoes wedi crybwyll effaith y cyflog byw, fel y'i gelwir. Ni fyddai neb yn dadlau na ddylid talu cyflog gweddus i'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal, ond oni chaiff hynny ei adlewyrchu mewn cynnydd yn y ffioedd gan awdurdodau lleol sy'n talu am y gofal, rwy'n poeni'n fawr y bydd rhai cartrefi'n cau. Pa drafodaethau rydych yn eu cael gydag awdurdodau lleol ynglŷn â pha mor ddigonol yw'r ffioedd a delir ganddynt am y trigolion y maent yn eu gosod yn y sector gofal preswyl?

13:48 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Once again, I agree that the Member has identified a very important public policy issue for us here in Wales. The care home oversight group, which I mentioned, has local authority members well represented on it. We have all discussions with them there. The difficulty that we will face, as a Welsh Government, and that local authorities in Wales will face as well, is that when you have an autumn statement and a comprehensive spending review that shows no recognition at all of the cost pressures that the same Government has created, it would be left to us and to our local authority partners, working closely with the sector, to try and find some ways in which we can mitigate that impact in Wales and to continue to support the sustainability of this very important sector.

Unwaith eto, rwy'n cytuno bod yr Aelod wedi nodi mater polisi cyhoeddus pwysig iawn i ni yma yng Nghymru. Mae gan y grŵp goruchwylio cartrefi gofal a grybwyllais gynrychiolaeth dda o aelodau o'r awdurdodau lleol. Rydym yn trafod y cyfan gyda hwy yno. Yr anhawster y byddwn yn ei wynebu, fel Llywodraeth Cymru, a'r anhawster y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn ei wynebu hefyd, yw pan fo gennych ddatganiad yr hydref ac adolygiad cynhwysfawr o wariant nad ydynt yn dangos unrhyw gydnabyddiaeth o gwbl o'r pwysau ariannol y mae'r Llywodraeth honno wedi'u creu, bydd yn rhaid i ni a'n partneriaid awdurdod lleol, gan weithio'n agos gyda'r sector, geisio dod o hyd i ffyrdd o liniaru'r effaith yng Nghymru a pharhau i gynnal cynaliadwyedd y sector pwysig hwn.

13:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now the Plaid Cymru spokesperson, Elin Jones.

Yn awr, llefarydd Plaid Cymru, Elin Jones.

13:49 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, yr wythnos yma, rydych wedi ysgrifennu at Lywodraeth San Steffan i ofyn am waharddiad ar hysbysebu bwyd a diod gorfelys cyn 9 o'r gloch y nos ar y teledu. Rydych wedi bod yn gofyn i Lywodraeth San Steffan gymryd camau i leihau cynnwys a marchnata siwgr ers amser erbyn hyn. A oes gennych chi unrhyw hyder eu bod nhw yn bwriadu gweithredu ar hyn, neu ar unrhyw beth, yn ôl eich dymuniad chi?

Minister, this week, you've written to the Westminster Government to ask for a ban on the advertising of sugary foods and drinks before 9 o'clock. You've been asking the Westminster Government to take steps to deal with sugar content and marketing for some time. Do you have any confidence that they intend to act on this, or on anything, according to your aspiration?

13:50 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have very little confidence that actions will be taken at the Department of Health. As Elin Jones will know, my aim has been to act in concert with Scottish and Northern Irish Ministers on these matters. We meet quarterly. We often discuss public health matters in particular, where we have a collectively more progressive approach, and an approach that believes that government has a responsibility to take the actions that government can take to create the conditions in which people are better able to look after their own health. Sadly, so far, not one of us have had much success in persuading our Westminster counterparts to act in the same way.

Ychydig iawn o hyder sydd gennyf y bydd camau yn cael eu cymryd yn yr Adran Iechyd. Fel y bydd Elin Jones yn gwybod, fy nod oedd gweithredu ar y cyd â Gweinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon ar y materion hyn. Rydym yn cyfarfod bob chwarter. Rydym yn aml yn trafod materion iechyd y cyhoedd yn arbennig, ac mae gennym ddull mwy blaengar o weithredu ar y cyd, a dull sy'n credu bod gan lywodraeth gyfrifoldeb i gymryd y camau y gall eu rhoi ar waith i greu'r amodau lle y gall pobl edrych ar ôl eu hiechyd eu hunain yn well. Yn anffodus, hyd yn hyn, nid oes un ohonom wedi cael llawer o lwyddiant yn perswadio ein cymheiriaid yn San Steffan i weithredu yn yr un modd.

13:50 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn absenoldeb unrhyw hyder yn Llywodraeth San Steffan yn cymryd unrhyw gamau yn y maes pwysig yma, a gaf i ofyn ichi a ydych chi'n bwriadu cymryd unrhyw gamau o fewn eich cyfrifoldebau chi yn y maes yma? Mae pwerau trethi bach newydd ym mynd i fod ar gael i Lywodraeth nesaf Cymru o dan Ddeddf Cymru 2014. A ydych chi, felly, wedi cymryd y penderfyniad i ofyn i'ch adran chi i baratoi ar gyfer y pwerau newydd yma a fydd ar gael, er mwyn eu defnyddio nhw ar gyfer cyflwyno treth diodydd melys yng Nghymru—'pop tax'?

In the absence of any confidence in the Westminster Government taking any steps in this important area, could I ask you whether you intend to take any steps within your remit? Minor taxation powers are to be available for the next Welsh Government under the Wales Act 2014. Have you, therefore, taken a decision to ask your department to make preparations for the implementation of these new powers, so that they can be used to introduce a tax on sugary drinks in Wales—a pop tax?

13:51 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Work does go on in my department all the time, Dirprwy Lywydd, to think of all the different ways in which we have tools in our hands already, and potential tools in the future that will allow us to do things ourselves that we are currently unable to do. So, that preparatory work does go on. We try and focus as much as we can on the things that we are able to do immediately, but that doesn't mean, of course, we don't prepare for what we might be able to do in the future.

Mae gwaith yn cael ei wneud yn fy adran i drwy'r amser, Ddirprwy Lywydd, i feddwl am yr holl wahanol ffyrdd y mae gennym adnoddau'n barod, ac adnoddau posibl yn y dyfodol a fydd yn caniatáu i ni wneud pethau ein hunain, pethau na allwn eu gwneud ar hyn o bryd. Felly, mae'r gwaith paratoadol yn parhau. Rydym yn ceisio canolbwyntio cymaint ag y gallwn ar y pethau y gallwn eu gwneud ar unwaith, ond nid yw hynny'n golygu, wrth gwrs, nad ydym yn paratoi ar gyfer yr hyn y gallem ei wneud yn y dyfodol.

13:51 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Roedd hynny'n ateb cyffredinol hyfryd iawn, Weinidog. A gaf i ofyn ichi unwaith eto i fod yn benodol iawn yn eich ateb i'r cwestiwn? A ydych chi yn barod i gytuno, yn sgil y ffaith bod yna gonsensws nawr yn datblygu ymysg pawb sydd yn ymddiddori mewn iechyd y cyhoedd, boed yn feddygol neu yn gymdeithasol, ei bod hi'n bryd i edrych i gyflwyno treth ar ddiodydd melys? I ddweud y gwir, dim ond Llywodraeth San Steffan, Llywodraeth Cymru fan hyn a'r diwydiant diodydd melys sydd, erbyn hyn, yn erbyn trafod y syniad yma. Fe fydd y grymoedd ar gael i Lywodraeth nesaf Cymru. Mae'r Gweinidog cyllid yn paratoi ar gyfer y defnydd o'r pwerau hynny yn ei phortffolio hi—fe fyddan nhw yn y portffolio iechyd hefyd, ar gyfer y Gweinidog nesaf. Ond fe allwch chi gomisiynu heddiw eich adran chi i gychwyn ar y gwaith o baratoi syniadau i ddefnyddio'r pwerau hynny i gyflwyno treth diodydd melys yng Nghymru. A wnewch chi ymrwymo heddiw i ofyn i'ch adran a'ch swyddogion i gychwyn ar y gwaith penodol yna?

That was a wonderful, broad-ranging answer, Minister. Can I ask you once again to be very specific in your response to the question? Are you willing to agree, in light of the fact that there is now a consensus developing among everyone who takes interest in public health issues, both socially and medically, that it is now time to look at introducing a tax on sugary drinks? In fact, it's only the Westminster Government, the Welsh Government here and the sugary drinks industry who now oppose discussing this idea. The powers will be available for the next Welsh Government. The Minister for finance is making preparations for the use of those powers in her portfolio—they will also fall in to the health portfolio for the next Minister. But you could today commission some work within your department on preparing ideas for using those powers to introduce a sugary drinks tax here in Wales. Will you commit today to ask your department and your officials to start that specific piece of work?

13:53 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, Dirprwy Lywydd, it is sensible for us to look at the potential for public health taxes and what they may provide in the future, and that would include taxes that could impact on sugary drinks. It wouldn't be a matter of starting it now. I myself visited the Republic of Ireland, went particularly to their public health department, and met with the most senior officials there on the basis of the report that they had prepared on the imposition of taxes on sugary drinks in the Republic of Ireland. So, it wouldn't be a matter of starting this work. It's something that anybody sensible would want to be keeping within—[Interruption.]

Wrth gwrs, Ddirprwy Lywydd, mae'n synhwyrol i ni edrych ar y potensial am drethi iechyd y cyhoedd a'r hyn y gallant ei ddarparu yn y dyfodol, a byddai hynny'n cynnwys trethi a allai effeithio ar ddiodydd llawn siwgr. Ni fyddai'n fater o'i gychwyn yn awr. Ymwelais innau â Gweriniaeth Iwerddon, â'u hadran iechyd y cyhoedd yn benodol, a chyfarfod â'r uwch-swyddogion yno ynglŷn â'r adroddiad roeddent wedi'i baratoi ar osod trethi ar ddiodydd llawn siwgr yng Ngweriniaeth Iwerddon. Felly, ni fyddai'n fater o gychwyn y gwaith. Mae'n rhywbeth y byddai unrhyw un call eisiau ei gadw mewn—[Torri ar draws.]

Dirprwy Lywydd, let me make this point, because Plaid Cymru continually get it wrong. The objections that we've had on this side of the Chamber are not to the idea of a potential tax on sugary drinks, were we to be in a position to make one—but we're not, so we don't pretend that we are by saying we'll have a policy to do something that we don't have the power to do. If we were in a position to do it, we would certainly look at it, but what we would certainly not do—and this is where your policy unravels in front of you—is we would not hypothecate the proceeds of such a tax for a particular purpose where, in order to fund the health service, you'd be asking people to consume more of the very products you're trying to persuade them to have less of.

Ddirprwy Lywydd, gadewch i mi wneud y pwynt hwn, gan fod Plaid Cymru yn ei gael yn anghywir yn gyson. Nid yw'r gwrthwynebiadau a fu gennym ar yr ochr hon i'r Siambr yn ymwneud â'r syniad o dreth bosibl ar ddiodydd llawn siwgr, pe baem mewn sefyllfa i godi un—ond nid ydym yn y sefyllfa honno, felly nid ydym yn esgus ein bod ni drwy ddweud y bydd gennym bolisi i wneud rhywbeth nad oes gennym y pŵer i'w wneud. Pe baem mewn sefyllfa i wneud hynny, byddem yn sicr yn edrych arno, ond yn bendant, yr hyn na fyddem yn ei wneud—a dyma lle y mae eich polisi yn datod o'ch blaenau—yw clustnodi elw treth o'r fath at ddiben penodol lle y byddech, er mwyn ariannu'r gwasanaeth iechyd, yn gofyn i bobl yfed mwy o'r cynnyrch rydych yn ceisio eu perswadio i yfed llai ohono.

### Recriwtio a Chadw Meddygon

### Recruitment and Retention of Doctors

13:54 **William Powell** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am recriwtio a chadw meddygon yn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)0660(HSS)*

*3. Will the Minister make a statement on the recruitment and retention of doctors in the Welsh NHS? OAQ(4)0660(HSS)*

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

I thank William Powell for that question. Recruitment and retention of doctors is carried out by heath boards and trusts in Wales. In doing that, they are supported by the Welsh Government through actions such as those set out in our primary care workforce plan and our campaign to encourage junior doctors to make their future part of our future here in Wales.

Diolch i William Powell am y cwestiwn. Yng Nghymru, y byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd sy'n cyflawni gwaith ar recriwtio a chadw meddygon. Cânt gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny drwy gamau gweithredu megis y rhai a nodir yn ein cynllun gweithlu gofal sylfaenol a'n hymgyrch i annog meddygon iau i wneud eu dyfodol yn rhan o'n dyfodol ni yma yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **William Powell** Bywgraffiad Biography

I'm grateful to the Minister for that response. You've referred to the importance of the primary care workforce plan. One strand of that plan includes the proposal to undertake a future supply and demand exercise to inform future GP training numbers. Previous exercises, I understand, have included an attempt to identify the impact brought about not just by retirements, but also by reallocating tasks to other healthcare workers so as to relieve some of the burden. The date set alongside the current plan, I believe, is this month—December 2015. I wonder if the Minister could please give us an update as to how that particular assessment's going, given the importance of having a sustainable GP network.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ymateb. Rydych wedi cyfeirio at bwysigrwydd y cynllun gweithlu gofal sylfaenol. Mae un elfen o'r cynllun yn cynnwys yr argymhelliad i gynnal ymarfer cyflenwad a galw yn y dyfodol er mwyn casglu gwybodaeth am y niferoedd a fydd yn hyfforddi i fod yn feddygon teulu yn y dyfodol. Deallaf fod ymarferion blaenorol wedi cynnwys ymgais i nodi effaith ailddyrannu tasgau i weithwyr gofal iechyd eraill er mwyn lleddfu peth o'r baich, yn ogystal ag ymddeoliadau. Y dyddiad a bennwyd ar gyfer y cynllun presennol, rwy'n credu, yw'r mis yma—Rhagfyr 2015. Tybed a allai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynglŷn â'r asesiad penodol hwnnw, o ystyried pwysigrwydd cael rhwydwaith cynaliadwy o feddygon teulu.

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Well, that work is going on, as the Member said, and very important work it is, too. It's become very much part of our solution to going on providing primary care in the future in Wales to diversify the nature of the primary care workforce, to make sure we capture the clinical contributions of all those who are able to make a contribution and to free up the time of doctors, therefore, to do the things that only doctors can do. I was very encouraged recently to learn that, as a result of the money we've put in primary care this year, there are now 50 clinical pharmacists working in primary care here in Wales, taking appointments that otherwise GPs would have had to have taken, and freeing up the time of GPs in the process.

Wel, mae'r gwaith yn mynd rhagddo, fel y dywedodd yr Aelod, a gwaith pwysig iawn ydyw hefyd. Mae wedi dod yn rhan bwysig o'n hateb ar gyfer parhau i ddarparu gofal sylfaenol yn y dyfodol yng Nghymru er mwyn amrywio natur y gweithlu gofal sylfaenol, sicrhau ein bod yn casglu cyfraniadau clinigol pawb sy'n gallu gwneud cyfraniad a rhyddhau amser meddygon i wneud y pethau na all neb ond meddygon eu gwneud. Cefais fy nghalonogi'n ddiweddar o ddysgu, o ganlyniad i'r arian rydym wedi'i roi i ofal sylfaenol eleni, fod 50 o fferyllwyr clinigol bellach yn gweithio mewn gofal sylfaenol yma yng Nghymru, gan gymryd apwyntiadau y byddai meddygon teulu fel arall wedi gorfod eu cymryd, a rhyddhau amser meddygon teulu yn y broses.

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Minister, I want to highlight how much better health is run in Wales and ask: how many undervalued junior doctors in England have expressed an interest in working in a national health service based upon the principles of Nye Bevan?

Weinidog, rwyf am dynnu sylw at gymaint yn well y darparir gwasanaethau iechyd yng Nghymru a gofyn: faint o feddygon iau nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn yn Lloegr sydd wedi dangos diddordeb mewn gweithio mewn gwasanaeth iechyd gwladol sy'n seiliedig ar egwyddorion Nye Bevan?

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Mike Hedges. This is the point in the year when junior doctors are making important decisions about their own careers. Those applications will close on 3 December and, as every year, we have a campaign designed to highlight for them the many attractions of coming to work here in Wales. That's the purpose of our campaign: it is to make sure that people outside Wales, and inside Wales, are alert to the advantages we can provide for them in training, working and living here in Wales. This year's campaign has had a higher profile because of issues elsewhere, and the Member is absolutely right that one of the key attractions we offer people coming to work in Wales is that we have a genuinely national health service, based on the founding principles of Aneurin Bevan.

Diolch i Mike Hedges. Dyma'r adeg o'r flwyddyn y bydd meddygon iau yn gwneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â'u gyrfaoedd eu hunain. Bydd y ceisiadau hynny'n cau ar 3 Rhagfyr ac fel pob blwyddyn, mae gennym ymgyrch wedi'i llunio ar eu cyfer i dynnu sylw at y nifer helaeth o atyniadau sy'n gysylltiedig â dod yma i weithio yng Nghymru. Dyna bwrpas ein hymgyrch: mae'n sicrhau bod pobl y tu hwnt i Gymru, ac yng Nghymru, yn effro i'r manteision y gallwn eu darparu ar eu cyfer o ran hyfforddi, gweithio a byw yma yng Nghymru. Mae'r ymgyrch eleni wedi cael proffil uwch oherwydd materion mewn mannau eraill, ac mae'r Aelod yn llygad ei le mai un o'r atyniadau allweddol rydym yn ei gynnig i bobl sy'n dod i weithio yng Nghymru yw bod gennym wasanaeth iechyd sy'n wirioneddol genedlaethol, yn seiliedig ar egwyddorion sylfaenol Aneurin Bevan.

13:58 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, GPs in my constituency have raised with me that the lack of security over the value of their premises is a real threat to the recruitment of GPs, especially in rural Wales. A number of examples have been presented to me. One example was a GP who was near to attending a practice, but was put off due to the fact that the property could then be devalued if, later, the practice folded. Clearly, this could be something that the Welsh Government could examine to offer some kind of protection in these circumstances. I wonder if you will give this consideration.

Weinidog, mae meddygon teulu yn fy etholaeth wedi tynnu fy sylw at y ffaith fod diffyg sicrwydd ynghylch gwerth eu heiddo yn fygythiad gwirioneddol i recriwtio meddygon teulu, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru. Cyflwynwyd nifer o enghreifftiau i mi. Un enghraifft oedd meddyg teulu a oedd bron â mynd yn rhan o bractis, ond yr hyn a'i rhwystrodd oedd y ffaith y gallai'r eiddo ostwng yn ei werth wedyn, yn nes ymlaen, pe bai'r practis yn methu. Yn amlwg, gallai hyn fod yn rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru ei archwilio er mwyn cynnig rhyw fath o sicrwydd mewn amgylchiadau o'r fath. Tybed a wnewch chi ystyried hyn.

13:58 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, we discuss these matters regularly with the General Practitioners Committee Wales. I made some adjustments to the rules in Wales this year in order to mitigate some of the problems that GPC Wales was identifying in the area that the Member has talked about, and I'm very happy that our officials can continue to have those discussions through the mechanisms we have for talking to GPs where those matters arise.

Wel, rydym yn trafod y materion hyn yn rheolaidd gyda Phwyllgor Meddygon Teulu Cymru. Gwneuthum rai addasiadau i'r rheolau yng Nghymru eleni er mwyn lliniaru rhai o'r problemau roedd Pwyllgor Meddygon Teulu Cymru yn eu nodi yn y maes roedd yr Aelod yn sôn amdano, ac rwy'n hapus iawn y gall ein swyddogion barhau i gael y trafodaethau hynny drwy'r mecanweithiau sydd gennym ar gyfer siarad â meddygon teulu lle y mae'r materion hynny'n codi.

13:59 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, the Welsh Government previously indicated that, to tackle some of the issues regarding the recruitment of doctors, you would actually go overseas to look for doctors. Could you provide details as to which countries have been targeted for that recruitment, and how many doctors actually have been recruited overseas?

Weinidog, er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r problemau'n ymwneud â recriwtio meddygon, nododd Llywodraeth Cymru yn flaenorol y byddech yn mynd dramor i chwilio am feddygon. A wnewch chi roi manylion ynglŷn â pha wledydd a dargedwyd ar gyfer recriwtio, a faint o feddygon sydd wedi cael eu recriwtio dramor?

13:59 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is absolutely right to say that we have active recruitment campaigns beyond Wales. Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board has so far recruited 11 overseas doctors over the last few months, and have a further three being offered employment. They have drawn those doctors from Pakistan, India, Egypt, Saudi Arabia, Sudan, Greece and Poland. Betsi Cadwaladr University Local Health Board have recently recruited six doctors in a targeted recruitment exercise in India, and are currently exploring the possibility of some doctors from the Netherlands coming to work in north Wales. Cardiff and Vale have recently recruited 15 overseas doctors via the medical training initiative. They've come from India, Sri Lanka, Sudan, Greece and Poland, and in Hywel Dda we have been able to secure six core medical trainees from abroad, who are helping significantly to provide services at Withybush General Hospital. And I'm happy to acknowledge the assistance of the Secretary of State for Wales in ensuring that those trainees secured the necessary entry visas so that they could take up employment.

Mae'r Aelod yn gwbl gywir yn dweud bod gennym ymgyrchoedd recriwtio gweithredol y tu hwnt i Gymru. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg hyd yn hyn wedi recriwtio 11 o feddygon tramor yn ystod y misoedd diwethaf, ac wedi cynnig gwaith i dri arall. Daw'r meddygon hynny o Bacistan, India, yr Aifft, Sawdi-Arabia, Swdan, Gwlad Groeg a Gwlad Pwyl. Yn ddiweddar, mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi recriwtio chwe meddyg mewn ymarfer recriwtio wedi'i dargedu yn India, ac ar hyn o bryd mae'n archwilio'r posibilrwydd o ddenu meddygon o'r Iseldiroedd i weithio yng ngogledd Cymru. Mae Caerdydd a'r Fro wedi recriwtio 15 o feddygon tramor yn ddiweddar drwy'r fenter hyfforddiant meddygol. Dônt o India, Sri Lanca, Swdan, Gwlad Groeg a Gwlad Pwyl, ac yn Hywel Dda, rydym wedi gallu sicrhau chwech o hyfforddeion meddygol craidd o dramor, sy'n helpu'n fawr i ddarparu gwasanaethau yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Ac rwy'n hapus i gydnabod cymorth Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn sicrhau bod y fisâu mynediad angenrheidiol gan yr hyfforddeion hynny er mwyn iddynt allu dechrau yn eu swyddi.

## Mesurau Iechyd Ataliol

## Preventative Healthcare Measures

14:00 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i fesurau iechyd ataliol yng Nghymru? OAQ(4)0665(HSS)*

*4. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for preventative healthcare measures in Wales? OAQ(4)0665(HSS)*

14:00 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you for the question. The Welsh Government continues to invest millions of pounds in a broad range of preventative healthcare measures such as screening and immunisations, as well as in approaches to help people achieve good health and maintain their wellbeing.

Diolch am y cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi miliynau o bunnoedd mewn ystod eang o fesurau gofal iechyd ataliol, megis sgrinio ac imiwneiddio, yn ogystal â dulliau o helpu pobl i gadw'n iach a chynnal eu lles.

14:00 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, obviously, the health service in Wales, as elsewhere, faces major challenges in terms of an aging society, and I believe that moving more on to the preventative healthcare agenda would help meet those challenges, particularly given funding restraints. In Newport East, I arranged a meeting between the health board, Newport City Council, the leisure trust, sports bodies and others to try and work up a common agenda to have a more active local population. Is that the sort of initiative that Welsh Government supports and would like to see rolled out across Wales?

Weinidog, yn amlwg, mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, fel mewn mannau eraill, yn wynebu heriau mawr yn sgil cymdeithas sy'n heneiddio, ac rwy'n credu y byddai symud mwy tuag at agenda gofal iechyd ataliol yn helpu i ateb yr heriau hynny, yn enwedig o ystyried cyfyngiadau cyllido. Yn nwyrain Casnewydd, trefnais gyfarfod rhwng y bwrdd iechyd, Cyngor Dinas Casnewydd, yr ymddiriedolaeth hamdden, cyrff chwaraeon ac eraill i geisio llunio agenda gyffredin er mwyn cael poblogaeth leol sy'n gwneud mwy o weithgarwch corfforol. Ai dyna'r math o fenter y mae Llywodraeth Cymru yn ei chefnogi ac yn dymuno ei gweld yn cael ei chyflwyno ledled Cymru?

14:01

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for the follow-up question. It's a good example and I thank the Member for bringing it to my attention and the work that he's done on bringing that together, because we need to see these sorts of partnerships between the health service, between housing and between leisure services to recognise the different parts of the health service and where they can direct people towards, because this is a cross-Government and cross-society imperative. We all recognise the big dangers in terms of diet, exercise and smoking, and the fact that if we don't have a more active population, we're likely to have a less healthy population, but that also when people get referred into medical treatment, there are alternatives for them. So, the exercise referral programme—in north Wales, for example, I'm very pleased to see, where a number of people have been referred for orthopaedic operations, over 300 of those people have gone into a weight management programme, and then over 70 per cent of those people got more active as a result, and those did not then need to have an operation as well. So, there are real and significant benefits to the individual and the communities they live in, and we do, of course, have the physical activity executive group within Government to promote this work on a more broad and consistent basis right across Wales.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn dilynol. Mae'n enghraifft dda ac rwy'n diolch i'r Aelod am ei ddwyn i fy sylw a'r gwaith y mae wedi'i wneud ar ddod â hynny at ei gilydd, oherwydd mae angen i ni weld y mathau hyn o bartneriaethau rhwng y gwasanaeth iechyd, rhwng gwasanaethau tai a rhwng gwasanaethau hamdden, er mwyn cydnabod y gwahanol rannau o'r gwasanaeth iechyd a ble y gallant gyfeirio pobl, am fod hyn yn rheidrwydd ar draws y Llywodraeth ac ar draws y gymdeithas. Rydym i gyd yn cydnabod y peryglon mawr o ran deiet, ymarfer corff ac ysmygu, a'r ffaith ein bod yn fwy tebygol o gael poblogaeth lai iach os nad oes gennym boblogaeth sy'n gwneud mwy o weithgarwch corfforol, ond hefyd pan gaiff pobl eu hatgyfeirio i gael triniaeth feddygol, mae yna ddewisiadau eraill ar eu cyfer. Felly, y rhaglen atgyfeirio ymarfer corff—yng ngogledd Cymru, er enghraifft, rwy'n falch iawn o weld, lle'r atgyfeiriwyd nifer o bobl i gael llawdriniaethau orthopedig, mae dros 300 o'r bobl hynny wedi ymuno â rhaglen rheoli pwysau, daeth dros 70 y cant ohonynt yn gwneud mwy o weithgarwch corfforol o ganlyniad i hynny, ac nid oedd angen llawdriniaeth arnynt wedyn. Felly, mae manteision gwirioneddol a sylweddol i'r unigolyn ac i'r cymunedau y maent yn byw ynddynt, ac mae gennym, wrth gwrs, y grŵp gweithredol gweithgarwch corfforol yn y Llywodraeth i hyrwyddo'r gwaith hwn ar sail ehangach a mwy cyson ledled Cymru.

14:02

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Minister, cigarette smoking remains the leading cause of preventable ill health in Wales. Organisations such as ASH Wales, Cancer Research UK and Tenovus have expressed concern that your ban on e-cigarettes will have an adverse impact on public health. What evidence does the Minister have that banning e-cigarettes will not undermine efforts to reduce smoking rates in Wales, please?

Ddirprwy Weinidog, ysmygu sigaréts yw prif achos afiechyd y gellid ei atal yng Nghymru o hyd. Mae sefydliadau megis ASH Cymru, Cancer Research UK a Tenovus wedi mynegi pryder y bydd eich gwaharddiad ar e-sigaréts yn effeithio'n andwyol ar iechyd y cyhoedd. Pa dystiolaeth sydd gan y Gweinidog na fydd gwahardd e-sigaréts yn tanseilio ymdrechion i leihau cyfraddau ysmygu yng Nghymru?

14:03

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Member will know, of course, that there aren't any proposals for a ban on e-cigarettes. It's important that we make that point every time an erroneous and incorrect allegation is made, such as that made by Mohammad Asghar again today. It's also worth noting that there are a whole range of people who are in favour of there being measures taken on how and where e-cigarettes are used, and particularly the way they are targeted at children. So, there are serious and real concerns to be dealt with. The British Medical Association, for example, and the World Health Organization have concerns about the proliferation of e-cigarettes.

Bydd yr Aelod yn gwybod, wrth gwrs, nad oes unrhyw argymhellion i wahardd e-sigaréts. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud y pwynt hwnnw bob tro y gwneir honiad gwallus ac anghywir, fel yr un a wnaed gan Mohammad Asghar eto heddiw. Mae hefyd yn werth nodi bod yna amrywiaeth eang o bobl sydd o blaid cyflwyno mesurau ar sut a lle y caiff e-sigaréts eu defnyddio, ac yn enwedig y modd y cânt eu targedu at blant. Felly, mae yna bryderon difrifol a real i fynd i'r afael â hwy. Mae Cymdeithas Feddygol Prydain, er enghraifft, a Sefydliad Iechyd y Byd yn pryderu am ledaeniad e-sigaréts.

But, on the broader point about smoking cessation, we agree that smoking is a significant and continuing public health risk. We need to see greater value and greater efficiency come from the smoking cessation service. That's why we've invested in a range of different approaches, in particular, for example, for pregnant women at various points in their pregnancy, supporting them through the midwifery service and the health visitor service, to recognise that every day that they stop smoking, there is an almost immediate health benefit for them. So, there's a very clear message that we have and will continue to have through Government about helping people to quit smoking with all the available means that we have to us.

Ond ar y pwynt ehangach ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu, cytunwn fod ysmygu yn creu risg sylweddol a pharhaus i iechyd y cyhoedd. Mae angen i ni sicrhau mwy o werth ac effeithlonrwydd gan y gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu. Dyna pam ein bod wedi buddsoddi mewn ystod o wahanol ddulliau, yn enwedig, er enghraifft, ar gyfer menywod beichiog ar wahanol adegau yn eu beichiogrwydd, i'w cefnogi drwy'r gwasanaeth bydwreigiaeth a'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd, i gydnabod y budd i'w hiechyd bron ar unwaith am bob diwrnod y maent yn rhoi'r gorau i ysmygu. Felly, mae gennym neges glir iawn y byddwn yn parhau i'w chyflwyno drwy'r Llywodraeth ynglŷn â helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu gyda'r holl ddulliau sydd ar gael i ni.

14:04 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Agwedd bwysig arall, wrth gwrs, yw ansawdd y stoc dai yng Nghymru, a'r ffaith bod gormod o bobl yn byw mewn tai o ansawdd sâl ac yn byw mewn tai oer, ac mae yna un asesiad yn awgrymu bod hynny yn costio o gwmpas rhyw £50 miliwn i'r gwasanaeth iechyd. Rydym yn gwybod fod enghreifftiau mewn lleoedd fel Sunderland lle mae meddygon teulu yn presgreibio inswleiddio tai. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad i ddatblygu'r cysyniad yna yng Nghymru?

Another important aspect, of course, is the quality of the housing stock in Wales, and the fact that too many people live in low quality houses and in cold houses, and there is one assessment that suggests that that costs some £50 million to the health service. We know that there are examples in places such as Sunderland where general practitioners prescribe the insulation of homes. Does the Welsh Government have any intention to develop that concept here in Wales?

14:04 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the question and the point more broadly. We agree and acknowledge the important role that good quality housing has to play in improving individual family and community health. That's why we have been actively encouraging a greater and more constructive relationship between housing providers, health services and social services as well. It's important for a whole range of things, from delayed transfers through to the quality of provision and healthcare within our communities. I've just had a meeting this morning in fact with the Minister for communities and local government about improving partnerships between housing associations and the health service. We want to see that in every particular—. But our real focus, though, is on improving the quality of housing available to make sure that people have the right to a healthy and warm home in whichever community they happen to live in.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn a'r pwynt yn ehangach. Rydym yn cytuno ac yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan dai o ansawdd da o ran gwella iechyd unigolion, teuluoedd a'r gymuned. Dyna pam yr aethom ati i annog perthynas well a mwy adeiladol rhwng darparwyr tai, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol hefyd. Mae'n bwysig mewn perthynas ag amrywiaeth eang o bethau, o oedi wrth drosglwyddo gofal i ansawdd darpariaeth a gofal iechyd yn ein cymunedau. Rwyf newydd gael cyfarfod y bore yma gyda'r Gweinidog cymunedau a llywodraeth leol ynglŷn â gwella partneriaethau rhwng cymdeithasau tai a'r gwasanaeth iechyd. Rydym am weld hynny ym mhob—. Fodd bynnag, mae ein ffocws go iawn ar wella ansawdd y tai sydd ar gael er mwyn sicrhau bod gan bobl yr hawl i gartref iach a chynnes ym mha gymuned bynnag y maent yn digwydd byw ynddi.

### Cyfraddau Bwydo ar y Fron

### Breastfeeding Rates

14:05 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru? OAQ(4)0669(HSS)*

*5. Will the Minister make a statement on breastfeeding rates in Wales? OAQ(4)0669(HSS)*

14:05 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the question. Public Health Wales has a national programme of activities within the NHS, communities and the voluntary sector to promote and sustain breastfeeding, with the aim of increasing breastfeeding rates across Wales, particularly amongst young mothers and in socially deprived areas. A new data collection system has been developed to track progress.

Diolch am y cwestiwn. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru raglen genedlaethol o weithgareddau yn y GIG, y cymunedau a'r sector gwirfoddol i hyrwyddo a chynnal bwydo ar y fron, gyda'r nod o gynyddu cyfraddau bwydo ar y fron ledled Cymru, yn enwedig ymysg mamau ifanc ac mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol. Datblygwyd system gasglu data newydd ar gyfer olrhain cynnydd.

14:06 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Deputy Minister for that response. I'm sure the Minister is aware of research from Cardiff University, by Dr Kate Boyer, which was published last week about relatively low breastfeeding rates in Wales. I recently went to the National Childbirth Trust's 'latch on' group at Ararat in my constituency, where I was told that there are many mothers there who are very keen to become breastfeeding peer support councillors so that they can help mothers in the early days of breastfeeding so that they don't get turned off, but they actually find it difficult to get access to training. Would the Minister look into this and has he got any comments on that situation?

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am yr ymateb. Rwy'n siŵr fod y Gweinidog yn ymwybodol o waith ymchwil gan Dr Kate Boyer o Brifysgol Caerdydd, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, ynglŷn â'r cyfraddau bwydo ar y fron cymharol isel yng Nghymru. Yn ddiweddar, euthum i grŵp 'latch on' yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant yn Ararat yn fy etholaeth, lle y dywedwyd wrthyf fod llawer o famau yno sy'n awyddus iawn i ddod yn gynghorwyr cymorth bwydo ar y fron fel y gallant helpu mamau yn nyddiau cynnar bwydo ar y fron fel nad ydynt yn gwangalonni, ond maent yn cael trafferth cael mynediad at hyfforddiant. A fyddai'r Gweinidog yn ymchwilio i hyn ac a oes ganddo unrhyw sylwadau ar y sefyllfa?

14:06 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm not sure I should declare this, but I'm actually a member of NCT as well, following my not-so-recent addition to the world of parenthood. I'm grateful that she's raised the issue, because whilst there is a challenge about improving breastfeeding rates across Wales, I think all of us would want to see more people electing to choose to breastfeed and being supported to do so. It's not just important for the child, but mothers also benefit as women who breastfeed have reduced risks of breast and ovarian cancer and osteoporosis.

Nid wyf yn siŵr y dylwn ddatgan hyn, ond rwy'n aelod o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant hefyd, wedi i mi ddod yn rhiant heb fod mor ddiweddar â hynny. Rwy'n ddiolchgar ei bod wedi tynnu sylw at y mater oherwydd, er bod gwella cyfraddau bwydo ar y fron ledled Cymru yn her, rwy'n meddwl y byddai pob un ohonom am weld mwy o bobl yn dewis bwydo ar y fron ac yn cael eu cynorthwyo i wneud hynny. Mae'n bwysig i'r plentyn, ac mae mamau hefyd yn elwa gan fod menywod sy'n bwydo ar y fron yn wynebu llai o risg o ganser y fron a'r ofari ac osteoporosis.

On the specific issue that you raised, I'd be very happy for officials to meet them to discuss a way forward, to look at what's being done, what's possible to provide a more co-ordinated approach, because we do have a shared ambition to see more people take up breastfeeding, and this isn't just about women and parents making different choices; it's also about a broader societal attitude towards breastfeeding and being a deal more grown up and enlightened about this.

O ran y mater penodol a godwyd gennych, byddwn yn hapus iawn i swyddogion gyfarfod â hwy i drafod ffordd ymlaen, i edrych ar yr hyn sy'n cael ei wneud, yr hyn sy'n bosibl, er mwyn darparu ymagwedd fwy cydgysylltiedig, gan ein bod yn rhannu'r uchelgais i weld mwy o bobl yn bwydo ar y fron, ac nid yw hyn yn ymwneud yn unig â menywod a rhieni'n gwneud gwahanol ddewisiadau; mae hefyd yn ymwneud ag agwedd gymdeithasol ehangach tuag at fwydo ar y fron a bod yn llawer mwy aeddfed a goleuedig ynglŷn â hyn.

14:07 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister may recall the 'breast is best' campaign, which was successfully launched in Wales some years ago. Unfortunately, I read a study here that a third of nursing mothers in Wales have been told to stop or move out of the way of direct view—as the Minister will know, that's in direct contravention of the law. High street names such as John Lewis, Mothercare, Costa Coffee and Debenhams have been praised as being most supportive for breastfeeding families. What more can the Welsh Government do to encourage retailers to be more supportive of breastfeeding mothers?

Efallai y bydd y Gweinidog yn cofio'r ymgyrch 'breast is best', a lansiwyd yn llwyddiannus yng Nghymru rai blynyddoedd yn ôl. Yn anffodus, darllenais astudiaeth yma a ddywedai fod traean o famau sy'n bwydo ar y fron yng Nghymru wedi cael gorchymyn i roi'r gorau iddi neu i symud o'r golwg—fel y bydd y Gweinidog yn gwybod, mae hynny'n gwbl groes i'r gyfraith. Canmolwyd siopau stryd fawr megis John Lewis, Mothercare, Costa Coffee a Debenhams fel y rhai sy'n fwyaf cefnogol tuag at deuluoedd sy'n bwydo ar y fron. Beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i annog manwerthwyr i fod yn fwy cefnogol tuag at famau sy'n bwydo ar y fron?

14:08 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for raising the point that I ended the last question on. There's a point here about leaders being really clear about what we expect in public places. As I say, I struggle to understand why people would take such a—not just and old-world view, but such an unpleasant and unconscionable view of women who are doing one of the most natural things possible in feeding their child. Not everyone can breastfeed; there are reasons why people can't do it. You're not to judge people for the choices that they make; we ought to support people to make choices. I think, from our point of view, this Government will continue to maintain a consistent perspective that women should be encouraged to undertake breastfeeding, to be supported in doing so, and we do want to see attitudes continue to change so that more people accept and support women wherever they chose to breastfeed, whether in public or in any other places as well. We've seen some very difficult stories over the last year or two of retailers not taking that enlightened attitude that we wish to see promoted here in Wales.

Diolch i'r Aelod am godi'r pwynt y gorffennais y cwestiwn olaf ag ef. Ceir pwynt yma ynglŷn ag arweinwyr yn bod yn glir iawn am yr hyn rydym yn ei ddisgwyl mewn mannau cyhoeddus. Fel y dywedais, rwy'n ei chael yn anodd deall pam y byddai gan bobl—nid barn hen ffasiwn yn unig, ond barn mor annymunol ac afresymol ynghylch menywod sy'n gwneud un o'r pethau mwyaf naturiol posibl, sef bwydo eu plentyn. Nid pawb sy'n gallu bwydo ar y fron; mae rhesymau pam na all pobl ei wneud. Ni ddylech farnu pobl am y dewisiadau a wnant; dylem gefnogi pobl i ddewis. Rwy'n credu, o'n safbwynt ni, y bydd y Llywodraeth hon yn parhau i gynnal safbwynt cyson y dylid annog menywod i fwydo ar y fron, i'w cefnogi i wneud hynny, ac rydym am weld agweddau'n parhau i newid fel bod mwy o bobl yn derbyn ac yn cefnogi menywod ble bynnag y dewisant fwydo ar y fron, boed yn gyhoeddus neu mewn unrhyw fan arall. Rydym wedi clywed storïau anodd iawn dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf am fanwerthwyr nad oedd ganddynt yr agwedd oleuedig rydym yn dymuno ei gweld yn cael ei hyrwyddo yma yng Nghymru.

### Meddyginiaethau Haenedig

### Stratified Medicines

14:09 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella mynediad i feddyginiaethau haenedig yng Nghymru? OAQ(4)0661(HSS)*

*6. What is the Welsh Government doing to improve access to stratified medicines in Wales? OAQ(4)0661(HSS)*

14:09 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the question. Stratified medicine is a relatively new application of science in diagnostics and treatment. The all-Wales medical genetics service leads a co-ordinated approach to the delivery of a national service here in Wales. Wales also plays a leading part in the Cancer Research UK stratified medicine programme.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae meddygaeth haenedig yn ddefnydd cymharol newydd o wyddoniaeth mewn diagnosteg a thriniaeth. Mae'r gwasanaeth geneteg feddygol i Gymru gyfan yn arwain ymagwedd gydlynol tuag at gyflwyno gwasanaeth cenedlaethol yma yng Nghymru. Mae Cymru hefyd yn chwarae rhan flaenllaw yn rhaglen feddygaeth haenedig Cancer Research UK.

14:09 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Stratified medicines offer massive opportunities to improve patients' outcomes, particularly in cancer treatment where only 25 per cent of patients respond to traditional treatment. As Wales is the only part of the United Kingdom that does not have a strategic policy on stratified medicines, will you commit to introduce a Welsh stratified medicines strategy?

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae meddyginiaethau haenedig yn cynnig cyfleoedd enfawr ar gyfer gwella canlyniadau i gleifion, yn enwedig mewn triniaeth ar gyfer canser lle nad yw ond 25 y cant yn unig o gleifion yn ymateb i driniaeth draddodiadol. Gan mai Cymru yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig nad oes ganddi bolisi strategol ar feddyginiaethau haenedig, a wnewch chi ymrwymo i gyflwyno strategaeth feddyginiaethau haenedig i Gymru?

14:10 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the question. We are very keen to develop such a strategy. Professor Julian Sampson, who leads on a number of these things here in Cardiff, is part of the group that is looking at that. I met him recently to talk about progress and to think of ways in which we can accelerate the completion of the strategy that we would wish to see.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rydym yn awyddus iawn i ddatblygu strategaeth o'r fath. Mae'r Athro Julian Sampson, sy'n arwain ar nifer o'r materion hyn yma yng Nghaerdydd, yn rhan o'r grŵp sy'n edrych ar hynny. Cyfarfûm ag ef yn ddiweddar i siarad am gynnydd ac i feddwl am ffyrdd y gallwn gyflymu'r broses o gwblhau'r strategaeth y byddem yn dymuno ei gweld.

14:10 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cardiff University has recently been named as one of six centres of excellence for the UK precision medicine catapult. How will this add to our ability to develop targeted and effective treatments through precision medicine in Wales?

Yn ddiweddar, enwyd Prifysgol Caerdydd yn un o chwe chanolfan rhagoriaeth ar gyfer catapwlt meddygaeth fanwl y DU. Sut y bydd hyn yn ychwanegu at ein gallu i ddatblygu triniaethau effeithiol wedi'u targedu drwy feddygaeth fanwl yng Nghymru?

14:10 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Jenny Rathbone. Of course, I was very pleased when Cardiff was named as one of the six centres of excellence for the precision medicine catapult. It provides real opportunities for us here in Wales to be part of that wider UK effort. It will co-ordinate stakeholders and clinical, academic, industry and funding sectors. The Welsh contribution to the UK catapult will be particularly at the translational end of precision medicine, looking at ways in which work in the laboratory can make a difference to the lives of patients as quickly as possible, and I look forward to it accelerating the development and adoption of precision medical technologies right across Wales.

Diolch i Jenny Rathbone. Wrth gwrs, roeddwn yn falch iawn pan enwyd Caerdydd fel un o'r chwe chanolfan rhagoriaeth ar gyfer y catapwlt meddygaeth fanwl. Mae'n cynnig cyfleoedd go iawn i ni yma yng Nghymru i fod yn rhan o ymdrech ehangach y DU. Bydd yn cydgysylltu rhanddeiliaid a sectorau clinigol academaidd, diwydiant a chyllid. Bydd cyfraniad Cymru i gatapwlt y DU yn benodol ar ben trosiadol meddygaeth fanwl, gan edrych ar ffyrdd y gall gwaith yn y labordy wneud gwahaniaeth i fywydau cleifion cyn gynted ag y bo modd, ac edrychaf ymlaen at ei weld yn cyflymu'r broses o ddatblygu a mabwysiadu technolegau meddygol manwl ledled Cymru.

14:11 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, molecular diagnostic testing examines the genetic code of a patient and a disease they may have, enabling medicines to become more targeted and therefore effective. However, currently, access to this testing in Wales is limited. As a result, in 2014, it was estimated that 237 cancer patients missed prospects for a better outcome from treatment. When does the Welsh Government expect molecular diagnostic testing to be offered to every cancer patient within Wales, given the progress is so patchy at the moment?

Weinidog, mae profion diagnostig moleciwlaidd yn archwilio cod genetig claf a chlefyd a allai fod ganddynt, gan ei gwneud hi'n bosibl targedu meddyginiaethau'n well fel eu bod yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae mynediad at y profion hyn yng Nghymru yn gyfyngedig. O ganlyniad, yn 2014, amcangyfrifwyd bod 237 o gleifion canser wedi colli cyfle i gael canlyniad gwell o'u triniaeth. Pa bryd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd profion diagnostig moleciwlaidd yn cael eu cynnig i bob claf canser yng Nghymru, o ystyried bod y cynnydd mor anghyson ar hyn o bryd?

14:12 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, we do have an NHS Wales molecular diagnostic testing service for cancer patients here in Wales, and that service identifies the genetic faults that underpin a cancer patient's cancer where that cancer is susceptible to such diagnosis. We have an all-Wales NHS genetics laboratory, which works with the UK genetics testing network. I am very keen that we can extend the availability of that service across Wales. It depends upon some advances in science as well as upon capacity, but we are very keen to make sure that, here in Wales, we remain at the leading edge of our ability to provide such a service for cancer patients.

Wel, mae gennym wasanaeth profion diagnostig moleciwlaidd GIG Cymru ar gyfer cleifion canser yma yng Nghymru, ac mae'r gwasanaeth hwnnw'n nodi'r diffygion genetig sy'n sail i ganser claf canser lle y bo'r canser hwnnw'n agored i ddiagnosis o'r fath. Mae gennym labordy geneteg GIG Cymru gyfan, sy'n gweithio gyda rhwydwaith profion geneteg y DU. Rwy'n awyddus iawn i ni allu sicrhau bod y gwasanaeth ar gael yn fwy eang ar draws Cymru. Mae'n dibynnu ar ddatblygiadau gwyddonol yn ogystal â chapasiti, ond rydym yn awyddus iawn i wneud yn siŵr ein bod ni yma yng Nghymru yn parhau ar flaen y gad o ran ein gallu i ddarparu gwasanaeth o'r fath i gleifion canser.

14:13 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, developments in new forms of medicine mean that drugs are more and more stratified to smaller and smaller populations. Would you agree with me that the pharmaceutical industry has a shared responsibility to make sure that drugs are available at a price that can be afforded by the NHS? Does he share my serious concern that the company Roche has reduced the cost of the breast cancer drug trastuzumab emtansine for patients in England but not in Wales?

Weinidog, mae datblygu ffurfiau newydd o feddyginiaethau yn golygu bod cyffuriau yn fwyfwy haenedig i boblogaethau llai a llai. A fyddech yn cytuno fod gan y diwydiant fferyllol gydgyfrifoldeb i sicrhau bod cyffuriau ar gael am bris y gall y GIG ei fforddio? A yw'n rhannu fy mhryder difrifol fod cwmni Roche wedi gostwng cost trastuzumab emtansine, sef cyffur canser y fron, ar gyfer cleifion yn Lloegr ond nid yng Nghymru?

14:13 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Lynne Neagle is absolutely right that, in future, the pharmaceutical industry is going to be developing very effective drugs, we hope, but which impact on the lives of a relatively small number of people. There will be a conundrum for health services everywhere as to how we can afford those drugs for those patients. We do have examples of the sort that she has just described. The drug Kadcyla, for example, was not approved by the National Institute for Health and Clinical Excellence on 17 November on the grounds that it is not cost-effective, but we do try to engage with the manufacturer here in Wales through the Wales patient access scheme. Similarly, Abraxane, a drug used in the treatment of pancreatic cancer, has been available here in Wales, but NICE has now decided not to approve it on cost-effective grounds, and we continue to discuss access to that therapy with the manufacturer. But manufacturers do have a responsibility, as well as Governments, to make drugs available to patients on an affordability basis.

Mae Lynne Neagle yn gwbl gywir yn dweud ein bod yn gobeithio y bydd y diwydiant fferyllol yn datblygu cyffuriau effeithiol iawn yn y dyfodol, ond cyffuriau a fydd yn effeithio ar fywydau nifer cymharol fach o bobl fydd y rhain. Bydd gwasanaethau iechyd ym mhob man yn wynebu cyfyng-gyngor o ran sut y gallwn fforddio'r cyffuriau hyn ar gyfer y cleifion hynny. Mae gennym enghreifftiau o'r math y mae hi newydd ei ddisgrifio. Ni chafodd y cyffur Kadcyla, er enghraifft, ei gymeradwyo gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ar 17 Tachwedd ar y sail nad yw'n gosteffeithiol, ond rydym yn ceisio ymgysylltu â'r gwneuthurwr yma yng Nghymru drwy gynllun mynediad cleifion Cymru. Yn yr un modd, mae Abraxane, cyffur a ddefnyddir i drin canser y pancreas, wedi bod ar gael yma yng Nghymru, ond mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol bellach wedi penderfynu peidio â'i gymeradwyo ar y sail nad yw'n gosteffeithiol, ac rydym yn parhau i drafod mynediad at y therapi gyda'r gwneuthurwr. Ond mae cyfrifoldeb ar wneuthurwyr, yn ogystal â Llywodraethau, i sicrhau bod cyffuriau ar gael i gleifion ar sail fforddiadwyedd.

### Gwasanaethau Mamolaeth (Gogledd Cymru)

### Maternity Services (North Wales)

14:14 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau mamolaeth yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0670(HSS)[W]*

*7. Will the Minister make a statement on maternity services in north Wales? OAQ(4)0670(HSS)[W]*

14:15 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for the question. Around 7,200 babies are delivered each year in north Wales. This includes about 1,000 delivered in midwifery-led units and a further 120 home births. A consultation on the short-term future of consultant-led care is being rehearsed by the health board next week, following a paper published yesterday.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae tua 7,200 o fabanod yn cael eu geni bob blwyddyn yng ngogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys tua 1,000 o fabanod sy'n cael eu geni mewn unedau dan arweiniad bydwragedd yn ogystal â thua 120 o enedigaethau cartref. Bydd y bwrdd iechyd yn cynnal ymgynghoriad ar ddyfodol byrdymor gofal dan arweiniad meddygon ymgynghorol yr wythnos nesaf, yn dilyn papur a gyhoeddwyd ddoe.

14:15 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr. A ydy'r Dirprwy Weinidog yn croesawu argymhelliad bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr ddoe ei fod am adael tair uned famolaeth o dan arweiniad meddygon yn y gogledd? A ydy hyn yn tanseilio datganiad y Prif Weinidog i ni yn y Siambr y bydd sefydliad SuRNICC yn Ysbyty Glan Clwyd yn golygu newidiadau sylfaenol i unedau mamolaeth eraill yn y gogledd?

Thank you very much. Does the Deputy Minister welcome the recommendation made by the Betsi Cadwaladr health board yesterday that they are going to retain the three maternity units that are consultant led in north Wales? Does this undermine the statement made by the First Minister in this Chamber that the establishment of the SuRNICC at Ysbyty Glan Clwyd will mean fundamental changes to other maternity units in north Wales?

14:15 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the follow-up question. The reality is that there's a consultation process that's been undergone and, as people in this Chamber and across north Wales wanted to see, the health board went out and listened. It understood and engaged with the public and with its staff, and it has come to a point of view that reflects the fact that the facts have changed, because they've been successful in recruiting extra consultants, including hybrid roles that have changed their position materially. They've also recruited an additional 27 midwives, so they're Birthrate Plus compliant and the service is in a different position. That's the consultation response with a recommendation going to the board, and I trust they will discuss that properly, fully and carefully in their public board meeting next week, when the health board make a decision about the immediate future of the service.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn dilynol. Y realiti yw bod yna broses ymgynghori wedi'i chynnal, ac fel roedd pobl yn y Siambr hon ac ar draws gogledd Cymru eisiau ei weld, mae'r bwrdd iechyd wedi gwrando. Mae wedi deall ac wedi ymgysylltu â'r cyhoedd a'i staff, ac mae wedi ffurfio barn sy'n adlewyrchu'r ffaith fod y ffeithiau wedi newid, oherwydd eu bod wedi llwyddo i recriwtio ymgynghorwyr ychwanegol, gan gynnwys rolau hybrid sydd wedi newid eu safbwynt yn sylweddol. Maent hefyd wedi recriwtio 27 o fydwragedd ychwanegol, felly maent yn cydymffurfio â Birthrate Plus ac mae'r gwasanaeth mewn sefyllfa wahanol. Dyna'r ymateb i'r ymgynghoriad gydag argymhelliad i'r bwrdd, a hyderaf y byddant yn trafod hwnnw'n briodol, yn llawn ac yn ofalus yn eu cyfarfod bwrdd cyhoeddus yr wythnos nesaf, pan fydd y bwrdd iechyd yn gwneud penderfyniad ynglŷn â dyfodol uniongyrchol y gwasanaeth.

I don't accept his point about the SuRNICC. We've just announced a £1.4 million investment in making the SuRNICC happen. You'll be aware, of course, that the First Minister made a decision on the siting of the SuRNICC based upon a recommendation from the Royal College of Paediatrics and Child Health; it was not a decision he took in the absence of any evidence or advice, and, of course, Llyr Gruffydd, on the day that the announcement was made, was very clear that he welcomed the decision on the siting of the SuRNICC. So, I think we're doing the right thing. At the time, your party was in favour of the decision that had been taken. We've been very clear that it will be delivered and, at the same time, we're absolutely clear that we want to see high-quality maternity services available for the population of north Wales who deserve them. That does mean that the health board need to monitor the current position and the future position to ensure the provision is properly safe for the women and their families who will rely upon it.

Nid wyf yn derbyn ei bwynt ynglŷn â'r Ganolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig. Rydym newydd gyhoeddi buddsoddiad o £1.4 miliwn i sicrhau y bydd y Ganolfan hon yn digwydd. Fe fyddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, fod y Prif Weinidog wedi gwneud penderfyniad ar leoliad y Ganolfan yn seiliedig ar argymhelliad gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant; nid oedd yn benderfyniad a wnaeth yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth neu gyngor, ac wrth gwrs, roedd Llyr Gruffydd, ar y diwrnod y gwnaed y cyhoeddiad, yn glir iawn ei fod yn croesawu'r penderfyniad ar leoliad y Ganolfan. Felly, rwy'n credu ein bod yn gwneud y peth iawn. Ar y pryd, roedd eich plaid o blaid y penderfyniad a wnaed. Rydym wedi dweud yn glir iawn y bydd y Ganolfan yn cael ei darparu, ac ar yr un pryd, rydym yn gwbl glir ein bod am sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth o safon uchel ar gael ar gyfer y boblogaeth yng ngogledd Cymru fel y maent yn eu haeddu. Mae hynny'n golygu bod angen i'r bwrdd iechyd fonitro'r sefyllfa bresennol a'r sefyllfa yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn hollol ddiogel ar gyfer y menywod a'u teuluoedd a fydd yn dibynnu arni.

### Triniaeth HIV

### HIV Treatment

14:17 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am driniaeth HIV yn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)0667(HSS)*

*8. Will the Minister make a statement on HIV treatment within the Welsh NHS? OAQ(4)0667(HSS)*

14:17 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

HIV treatment is provided in the NHS in line with current British HIV Association guidelines. These set out the best clinical practice in the treatment and management of those with HIV infection and were developed with the involvement of clinical professionals and people living with HIV.

Darparir triniaeth HIV yn y GIG yn unol â chanllawiau cyfredol Cymdeithas HIV Prydain. Mae'r rhain yn nodi'r arferion clinigol gorau wrth drin a rheoli'r rhai sydd â haint HIV a chawsant eu datblygu gyda chyfraniad gweithwyr proffesiynol clinigol a phobl sy'n byw gyda HIV.

14:17 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Whilst the development over the last 20 years of effective treatments for HIV to manage the condition are fantastic, we still don't have a cure, but we do have a preventative measure that we can take. I wonder what plans the Welsh Government has to ensure that people who are at the highest risk of developing HIV, for example, those people in a relationship with someone who has HIV, have access to pre-exposure prophylaxis to protect them in the future.

Diolch yn fawr, Weinidog. Er bod datblygiad triniaethau effeithiol dros yr 20 mlynedd diwethaf i reoli cyflwr HIV yn wych, nid oes gennym wellhad o hyd, ond mae gennym gamau ataliol y gallwn eu cymryd. Tybed pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pobl sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddatblygu HIV, er enghraifft, pobl sydd mewn perthynas â rhywun sydd â HIV, yn cael mynediad at broffylacsis cyn-gysylltiol i'w diogelu yn y dyfodol.

14:18 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that question. Of course, I'm aware of that potential treatment. We continue to be guided in the decisions we make in Wales by UK advisory committees on this matter. I look forward to their definitive advice on the availability of such preventative treatment, and then we will look to see how we could implement any such advice in Wales.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Wrth gwrs, rwy'n ymwybodol o'r driniaeth bosibl honno. Rydym yn parhau i gael ein llywio yn y penderfyniadau a wnawn yng Nghymru gan bwyllgorau ymgynghorol y DU ar y mater hwn. Rwy'n edrych ymlaen at eu cyngor terfynol ar argaeledd triniaethau ataliol o'r fath, ac yna byddwn yn edrych i weld sut y gallem weithredu cyngor o'r fath yng Nghymru.

14:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

## 2. Questions to the Minister for Education and Skills

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

14:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 2 is questions to the Minister for Education and Skills. Question 1, Lindsay Whittle.

Eitem 2 yw'r cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Cwestiwn 1, Lindsay Whittle.

### Seicolegwyr Addysgol

### Educational Psychologists

14:18 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau y bydd digon o seicolegwyr addysgol i weithio mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ(4)0652(ESK)*

*1. What arrangements are in place to make sure that there will be enough educational psychologists to work in schools in Wales? OAQ(4)0652(ESK)*

14:18 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

My thanks to the Member for South Wales East. Local authorities are responsible for the provision of educational psychology services accessible by schools. However, the Welsh Government recognises the important role that educational psychologists play in supporting learners in education and we are committed to funding Cardiff University to deliver the doctorate in educational psychology programme until 2018.

Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau seicoleg addysgol sy'n hygyrch i ysgolion. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl bwysig y mae seicolegwyr addysgol yn ei chwarae yn cefnogi dysgwyr mewn addysg ac rydym wedi ymrwymo i ariannu Prifysgol Caerdydd i gyflwyno'r rhaglen ddoethuriaeth mewn seicoleg addysgol tan 2018.

14:19 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his answer to that question. The Welsh Government's strategy for school-based counselling in Wales was published in 2008 and refers to the need for counsellors to link with educational psychologists when specialist services are needed. With the increasing number of school children suffering from emotional and mental health problems, how well are schools in Wales coping with this very worrying trend, please?

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb i'r cwestiwn. Cyhoeddwyd strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru yn 2008 ac mae'n cyfeirio at yr angen i gwnselwyr gysylltu â seicolegwyr addysgol pan fo angen gwasanaethau arbenigol. Gyda nifer cynyddol o blant ysgol yn dioddef o broblemau iechyd emosiynol a meddyliol, pa mor dda y mae ysgolion Cymru yn ymdopi â'r duedd hon sy'n destun pryder mawr?

14:19 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, all of our schools now have access to counselling services—something that simply didn't exist just a few years ago. I will look to strengthen these services, increase the professional capacity around those services and, indeed, amongst the general teaching population as we move forward with the new deal for the education workforce. We'll be looking, with advice, towards boosting the numbers of teachers who are specialising in guidance and support matters in our secondary schools, to begin with. But, this will be a matter that will unfold as the new deal for the workforce gains momentum.

Wel, mae ein holl ysgolion bellach yn gallu manteisio ar wasanaethau cwnsela—rhywbeth nad oedd yn bodoli ychydig flynyddoedd yn ôl. Byddaf yn ceisio cryfhau'r gwasanaethau hyn, gan gynyddu'r gallu proffesiynol yn y gwasanaethau hynny ac yn wir, ymhlith addysgwyr yn gyffredinol wrth i ni symud ymlaen gyda'r fargen newydd ar gyfer y gweithlu addysg. Gyda chyngor, ein nod fydd hybu nifer yr athrawon sy'n arbenigo ar faterion arwain a chymorth yn ein hysgolion uwchradd, i ddechrau. Ond bydd hwn yn fater a fydd yn datblygu wrth i'r fargen newydd ar gyfer y gweithlu fagu momentwm.

14:20 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in discussing the draft Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill last week in committee, I did raise concerns as to what I see as a lack of clarity from yourself regarding the direction of the Bill. We already have 12,500 eligible pupils across Wales now waiting unreasonable lengths of time to be assessed in this regard. How on earth are you going to ensure that, with an increase to 105,000 children, assessments will be timely? And how are you planning the future workforce planning to ensure we've got the actual psychologists in place to ensure that no child is left behind?

Weinidog, wrth drafod y Bil drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yr wythnos diwethaf yn y pwyllgor, mynegais bryderon ynghylch yr hyn rwy'n ei weld fel diffyg eglurder ar eich rhan chi ynglŷn â chyfeiriad y Bil. Mae gennym eisoes 12,500 o ddisgyblion cymwys ledled Cymru yn awr sy'n aros am gyfnodau afresymol o hir i gael eu hasesu yn hyn o beth. Sut ar y ddaear rydych chi am sicrhau, wrth i nifer y plant gynyddu i 105,000, y bydd yr asesiadau yn amserol? A sut rydych yn bwriadu cynllunio'r gweithlu yn y dyfodol i sicrhau bod gennym seicolegwyr ar waith i wneud yn siŵr nad oes unrhyw blentyn yn cael ei adael ar ôl?

14:21 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Presiding Officer, I've just, in my previous answer, underlined how we will secure the number of educational psychologists within the system to make sure that none of our young people are disadvantaged in that regard. The whole point of the draft ALN Bill is to streamline the process for young people and for their parents, and I would encourage the Member to make her contributions to the consultation on that draft Bill.

Wel, Lywydd, yn fy ateb blaenorol, tanlinellais sut y byddwn yn sicrhau'r nifer o seicolegwyr addysgol o fewn y system i wneud yn siŵr nad oes unrhyw un o'n pobl ifanc dan anfantais yn hynny o beth. Holl bwynt Bil drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yw symleiddio'r broses i bobl ifanc a'u rhieni, a byddwn yn annog yr Aelod i gyfrannu at yr ymgynghoriad ar y Bil drafft.

14:21 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last week, in the session that's already been referred to of the children and young people's committee, there were concerns expressed with regard to capacity in terms of some of the key educational employees in this regard, particularly around educational psychology. What more can the Welsh Government do, particularly in the rural areas of Wales, to ensure that students of educational psychology don't need to cross the border to gain their training, particularly given the increasingly divergent legislative framework that we have between our nations?

Weinidog, yr wythnos diwethaf, yn y sesiwn y cyfeiriwyd ati eisoes o'r pwyllgor plant a phobl ifanc mynegwyd pryderon ynglŷn â'r capasiti o ran rhai o'r gweithwyr addysgol allweddol yn hyn o beth, yn enwedig ym maes seicoleg addysgol. Beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, yn enwedig yn ardaloedd gwledig Cymru, i sicrhau nad oes angen i fyfyrwyr seicoleg addysgol groesi'r ffin i gael eu hyfforddi, yn enwedig o ystyried y fframwaith deddfwriaethol cynyddol wahanol sydd gennym rhwng ein gwledydd?

14:22 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Well, Presiding Officer, as I say, there is no call for that to happen. In September, following extensive discussions with the Welsh Local Government Association, with the Higher Education Funding Council for Wales and with Cardiff University, I announced that the Welsh Government would directly fund the provision of the doctorate in educational psychology at Cardiff University. That guarantee goes towards a minimum of three new cohorts, with each consisting of a maximum of 10 trainees. All the advice that I have received assures me that that will be more than sufficient in terms of numbers of new trainees coming through to meet the needs of the system at present.

Wel, Lywydd, fel y dywedaf, nid oes galw am hynny. Ym mis Medi, yn dilyn trafodaethau helaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chyda Phrifysgol Caerdydd, cyhoeddais y byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu'r ddoethuriaeth mewn seicoleg addysgol ym Mhrifysgol Caerdydd yn uniongyrchol. Mae'r warant honno ar gyfer lleiafswm o dri chohort newydd, gyda phob un yn cynnwys uchafswm o 10 o hyfforddeion. Mae'r holl gyngor rwyf wedi'i dderbyn yn fy sicrhau y bydd hynny'n fwy na digon o ran niferoedd hyfforddeion newydd i ddiwallu anghenion y system ar hyn o bryd.

Senedd.tv Fideo Video

## Grant Amddifadedd Disgyblion

## The Pupil Deprivation Grant

14:23 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant y grant amddifadedd disgyblion hyd yma o ran pontio'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion o deuluoedd tlawd a mwy cefnog? OAQ(4)0662(ESK)*

*2. Will the Minister make a statement on the success of the pupil deprivation grant to date in bridging the gap in attainment between pupils from poor and better off households? OAQ(4)0662(ESK)*

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

My thanks to the Member for Cardiff Central. Latest published figures for the attainment of learners eligible for free school meals show our highest ever results. Our analysis shows that the rate of improvement has doubled since the introduction of the PDG in 2012. We are making real progress, but, of course, there is much more yet to be done.

Diolch i'r Aelod dros Ganol Caerdydd. Mae'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyrhaeddiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn dangos ein canlyniadau gorau erioed. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod cyfradd y gwelliant wedi dyblu ers cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2012. Rydym yn gwneud cynnydd gwirioneddol, ond wrth gwrs, mae angen gwneud llawer mwy eto.

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

That's a very impressive set of statistics, Minister, and thank you very much indeed for that. Last week, you and I visited St Teilo's Church in Wales High School in Llanedeyrn in my constituency, and we saw a lesson targeting pupils who were behind on their literacy levels when they entered the secondary system. I have talked to previous cohorts who have said how transformative this targeting of the PDG has been in enabling them to fully access the secondary curriculum. I wondered if you could just contrast that with what is going on in England, where they are removing all money from more deprived schools and equalising the amount of money that pupils are getting in each school, and how you think that is going to enable our students to shine much more effectively without that gap in attainment.

Mae honno'n set drawiadol iawn o ystadegau, Weinidog, a diolch yn fawr iawn amdani. Yr wythnos diwethaf, bûm gyda chi yn ymweld ag Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant yn Llanedern yn fy etholaeth, a gwelsom wers yn targedu disgyblion a oedd ar ei hôl hi o ran eu lefelau llythrennedd pan oeddent yn cychwyn yn yr ysgol uwchradd. Rwyf wedi siarad â chohortau blaenorol sydd wedi dweud pa mor drawsffurfiol y mae targedu'r Grant Amddifadedd Disgyblion wedi bod i'w galluogi i gael mynediad llawn at y cwricwlwm uwchradd. Roeddwn yn meddwl tybed a allech chi gyferbynnu hynny â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, lle y maent yn cadw'r holl arian i ysgolion mwy difreintiedig yn ôl ac yn cydraddoli'r swm o arian y mae disgyblion yn ei gael ym mhob ysgol, a sut rydych yn credu y bydd hynny'n galluogi ein myfyrwyr i ddisgleirio'n llawer mwy effeithiol heb y bwlch hwnnw yn y cyrhaeddiad.

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Well, Presiding Officer, I think Jenny Rathbone is quite correct to point to the sophisticated and caring approach at St Teilo's school. I was equally as impressed by the systems that they are developing, which are becoming more and more sophisticated in terms of the targeting of the pupil deprivation grant towards the needs of individual learners. That literacy catch-up session was a case in point. We are seeing, right across the Welsh schools system now, an increase in the understanding of professionals, an increase in terms of targeting rigorously the PDG upon the literacy needs of young people in particular, and an increase in the use of evidence-based interventions. This is paying off. I cannot answer for the situation in England, but I would be worried if the situation were to arise whereby schools serving more deprived communities, as seems to be the case in England, might be looking forward to cuts in their overall budget because of where they happen to be.

Wel, Lywydd, rwy'n credu bod Jenny Rathbone yn eithaf cywir i nodi'r ymagwedd soffistigedig a gofalgar yn ysgol Teilo Sant. Cafodd y systemau y maent yn eu datblygu, sy'n dod yn fwyfwy soffistigedig o ran targedu'r grant amddifadedd disgyblion tuag at anghenion dysgwyr unigol, yr un argraff fawr arnaf innau. Roedd y sesiwn ddal i fyny honno ar lythrennedd yn enghraifft o hyn. Ar draws y system ysgolion yng Nghymru yn awr, gwelwn gynnydd yn nealltwriaeth gweithwyr proffesiynol, cynnydd o ran targedu'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn drwyadl ar anghenion llythrennedd pobl ifanc yn arbennig, a chynnydd yn y defnydd o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn dwyn ffrwyth. Ni allaf ateb dros y sefyllfa yn Lloegr, ond byddwn yn bryderus pe bai gennym sefyllfa lle y byddai ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau mwy difreintiedig, fel y mae'n ymddangos sy'n digwydd yn Lloegr, yn edrych ar doriadau yn eu cyllideb gyffredinol oherwydd lle y maent yn digwydd bod.

Senedd.tv
Fideo Video

14:26 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Minister, the recent report by the Wales Institute of Social and Economic Research, Data and Methods pointed out a considerable variation in the delivery of the programme, and also did talk about the ambiguity around how much of the improvement could be attributed to the scheme itself. What measures have the Welsh Government—to undertake the assessment of the report—made of the inconsistencies, and in consideration of the considerable variations in the delivery of the scheme?

Weinidog, nododd adroddiad diweddar gan Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru amrywio sylweddol o ran y modd y cyflawnir y rhaglen, a soniai hefyd am yr amwysedd ynglŷn â faint o'r gwelliannau y gellid eu priodoli i'r cynllun ei hun. Sut y mae Llywodraeth Cymru—er mwyn cynnal asesiad o'r adroddiad—wedi mynd ati i fesur yr anghysondebau, ac i ystyried yr amrywiadau sylweddol yn y gwaith o gyflawni'r cynllun?

Senedd.tv
Fideo Video

14:26 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Well, the Member's quite right; we should always be concerned about whether or not the young people are getting value for money in terms of the usage of the PDG. Of course, there will be ongoing evaluation. I am currently awaiting Ipsos MORI's WISERD evaluation of the PDG report into the use of the PDG in schools. It is very difficult, even with rigorous academic investigation, to pin down the improvements that we are genuinely seeing in our schools to one particular cause, but 100 per cent of the teachers that I have spoken to, that are engaged in this sort of work, point to the PDG as something that is giving them the tools that they need to increase the levels of attainment for these young people.

Wel, mae'r Aelod yn hollol gywir; dylem fod yn bryderus bob amser ynglŷn ag a yw'r bobl ifanc yn cael gwerth am arian ai peidio o ran y defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Wrth gwrs, byddwn yn gwerthuso'n barhaus. Ar hyn o bryd rwy'n disgwyl gwerthusiad WISERD Ipsos MORI o'r adroddiad Grant Amddifadedd Disgyblion ar y defnydd o'r Grant Amddifadedd mewn ysgolion. Mae'n anodd iawn, hyd yn oed gydag ymchwiliad academaidd trylwyr, priodoli'r gwelliannau rydym yn eu gweld mewn gwirionedd yn ein hysgolion i un achos penodol, ond mae 100 y cant o'r athrawon rwyf wedi siarad â hwy, sy'n ymwneud â'r math hwn o waith, wedi nodi'r Grant Amddifadedd Disgyblion fel rhywbeth sy'n rhoi'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i godi lefelau cyrhaeddiad y bobl ifanc hyn.

Senedd.tv
Fideo Video

14:27 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Fel roeddech yn ei ddweud yn eich ateb i'r cwestiwn cyntaf, mae canlyniadau TGAU a lefel A yn awgrymu bod y bwlch rhwng canlyniadau'r plant sy'n gymwys i dderbyn y grant amddifadedd ac eraill wedi cau. Serch hynny, y mae wedi cau yn llai na chanlyniadau gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig. Pam mae'r bwlch mor araf yn cau, a beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod y bwlch yma yn cau yn gynt?

As you said in your response to the first question, GCSE and A-level results do suggest that the gap between the results of the children who qualify for the pupil deprivation grant and others has closed. However, it has closed less than in the results of other nations of the UK. Why is this gap so slow in closing, and what is the Government doing to ensure that this gap is closed more quickly?

Senedd.tv
Fideo Video

14:27 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Deputy Presiding Officer, I don't recognise that we're anywhere behind what's happening in the rest of the United Kingdom in this regard at all. In fact, we're considerably ahead—I can tell you that—of the situation that prevails in Scotland. The situation across the regions of England, of course, varies a very great deal. Great strides have been made in London, for instance, but not so much necessarily in the north-east. What I can tell him is that, unequivocally, the rate of improvement in level 2 inclusive scores, before the PDG was introduced, was pretty consistently 1.1 per cent in Wales. The rate of improvement now, on that same measure, after the PDG has been in use, is 2.8 per cent. We're near to three times as fast in terms of the gap being closed. I don't think it's any coincidence that the PDG came into play and had an influence on those figures. So, I think we have much to be proud about, but we should never be satisfied at the rate of change of the gap that still remains between the most deprived young people and the rest.

Wel, Ddirprwy Lywydd, nid wyf yn cydnabod ein bod ar ei hôl hi o gwbl o ran yr hyn sy'n digwydd yng ngweddill y Deyrnas Unedig yn hyn o beth. Yn wir, rydym ar y blaen yn sylweddol—gallaf ddweud hynny wrthych—o gymharu â'r sefyllfa yn yr Alban. Mae'r sefyllfa ar draws rhanbarthau Lloegr, wrth gwrs, yn amrywio cryn dipyn. Mae camau mawr wedi'u gwneud yn Llundain, er enghraifft, ond nid cymaint o reidrwydd yn y gogledd-ddwyrain. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrtho'n ddiamwys yw bod cyfradd y gwelliant yn sgoriau cynwysedig lefel 2, cyn i'r Grant Amddifadedd Disgyblion gael ei gyflwyno, yn 1.1 y cant yn eithaf cyson yng Nghymru. Mae cyfradd y gwelliant erbyn hyn, yn ôl yr un mesur, ers dechrau defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion, yn 2.8 y cant. Rydym yn cau'r bwlch bron â bod dair gwaith mor gyflym. Nid wyf yn credu ei bod yn gyd-ddigwyddiad fod y Grant Amddifadedd Disgyblion wedi'i gyflwyno a'i fod wedi dylanwadu ar y ffigurau hynny. Felly, rwy'n credu bod gennym lawer i fod yn falch ohono, ond ni ddylem byth fodloni ar gyfradd newid y bwlch sy'n dal i fodoli rhwng y bobl ifanc mwyaf difreintiedig a'r gweddill.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call the party spokespeople, starting this week with the Welsh Conservatives' spokesperson, Angela Burns.

Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau, gan ddechrau yr wythnos hon gyda llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Angela Burns.

14:29 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Good afternoon, Minister.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Prynhawn da, Weinidog.

14:29 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon.

Prynhawn Da.

14:29 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

UCAS numbers show that the tuition fee increases since 2012 have not had a negative impact on the number of young people applying for university. This is the case not only, Minister, for Scotland and England, but also runs true for Wales. With this in mind, does the Minister agree with the Universities Wales recent statement that your vanity project of higher education subsidy has irrevocably damaged the current financial capability of higher education institutions? [Laughter.]

Mae niferoedd UCAS yn dangos nad yw'r cynnydd yn y ffioedd dysgu ers 2012 wedi cael effaith negyddol ar nifer y bobl ifanc sy'n ceisio am le mewn prifysgol. Mae hyn yn wir, Weinidog, nid yn unig yn yr Alban a Lloegr, ond mae hefyd yn wir am Gymru. Gyda hyn mewn golwg, a yw'r Gweinidog yn cytuno â datganiad diweddar Prifysgolion Cymru fod eich prosiect porthi balchder, y cymhorthdal addysg uwch, wedi gwneud niwed parhaol i allu ariannol cyfredol sefydliadau addysg uwch? [Chwerthin.]

14:29 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Conservatives consider it a vanity project to invest in our young people. Given their attitude towards public spending in general, I suppose that's consistent with their world view and their set of values—a set of values I do not share. Universities Wales, obviously, can make their views known. The all-important Diamond review, which is looking at issues around student support, will take on board all the evidence that is out there, in terms of what has been effective and what may not have been, in terms of access to higher education. But, unashamedly, the Welsh Government—the Welsh Labour Government—will continue to invest in the prospects of young people.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig o'r farn fod buddsoddi yn ein pobl ifanc yn brosiect porthi balchder. O ystyried eu hagwedd tuag at wariant cyhoeddus yn gyffredinol, mae'n debyg fod hynny'n gyson â'u golwg ar y byd a'u gwerthoedd—gwerthoedd nad wyf yn eu rhannu. Yn amlwg, gall Prifysgolion Cymru wneud eu barn yn hysbys. Bydd yr adolygiad Diamond hollbwysig, sy'n edrych ar faterion yn ymwneud â chymorth i fyfyrwyr, yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, o ran yr hyn sydd wedi bod yn effeithiol a'r hyn na fu'n effeithiol o bosibl, o ran mynediad at addysg uwch. Ond mae Llywodraeth Cymru—Llywodraeth Lafur Cymru—yn mynd i barhau, yn ddiedifar, i fuddsoddi yn rhagolygon pobl ifanc.

14:30 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Minister, thank you for not really answering my question. Now, I'm sure that you are aware of the recent London Economics report, commissioned by the University and College Union. It shows that £10,928 is spent on Welsh students studying in English universities, and that's more than double the sum given to Scottish students learning in England. To put it another way, Minister, Welsh taxpayers are paying a 9 per cent premium to allow Welsh students to study in England. And, as for Welsh students deciding to study in Wales, year-on-year spending on these learners, between 2012-13 and 2013-14, increased by 9.5 per cent. Ultimately, the current policy is too expensive and unsustainable, and we don't need the long-drawn-out Diamond review to figure this out. Do you not agree that this vanity project that is higher education funding has cost our universities, has cost our public services alternative investment, and has cost our young people true opportunity and access?

Wel, Weinidog, diolch i chi am beidio ag ateb fy nghwestiwn mewn gwirionedd. Nawr, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o adroddiad diweddar London Economics, a gomisiynwyd gan yr Undeb Prifysgolion a Cholegau. Mae'n dangos bod £10,928 yn cael ei wario ar fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn prifysgolion yn Lloegr, ac mae hynny'n fwy na dwbl y swm a roddir i fyfyrwyr o'r Alban sy'n astudio yn Lloegr. O'i roi mewn ffordd arall, Weinidog, mae trethdalwyr Cymru yn talu premiwm o 9 y cant i ganiatáu i fyfyrwyr o Gymru astudio yn Lloegr. Ac o ran myfyrwyr o Gymru sy'n penderfynu astudio yng Nghymru, mae gwariant o flwyddyn i flwyddyn ar y dysgwyr hyn wedi cynyddu 9.5 y cant rhwng 2012-13 a 2013-14. Yn y pen draw, mae'r polisi cyfredol yn rhy ddrud ac yn anghynaliadwy, ac nid oes angen yr adolygiad Diamond hirfaith arnom i ddeall hyn. Onid ydych yn cytuno bod y prosiect porthi balchder hwn, sef cyllid addysg uwch, wedi costio i'n prifysgolion, i'n gwasanaethau cyhoeddus o ran yr arian y gellid bod wedi'i fuddsoddi ynddynt, ac i'n pobl ifanc o ran mynediad a chyfleoedd go iawn?

14:31 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government, Deputy Presiding Officer, has invested in the prospects of young people, and it has stuck by those young people and their ambitions, wherever they wish to study in the United Kingdom. I believe that is something to be proud of. If the Welsh Conservatives are today drawing a line in the sand, and telling young people and parents out there that they will not keep faith with young people's ambitions, and they will constrain them, then they'd better spell out exactly what they mean by that. And if they're saying today that they're walking away from the Diamond review, on which they are represented, then let them spell that out clearly too. I'm a little confused, and, if I was a parent with a young person in my care who was looking forward to going to university in the next couple of years, I'd be listening very carefully to what the Conservative spokespeople are saying today.

Mae Llywodraeth Cymru, Ddirprwy Lywydd, wedi buddsoddi yn rhagolygon pobl ifanc, ac mae wedi aros yn deyrngar i'r bobl ifanc hynny a'u huchelgeisiau, lle bynnag y maent yn dymuno astudio yn y Deyrnas Unedig. Credaf fod hynny'n rhywbeth i fod yn falch ohono. Os yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn tynnu llinell yn y tywod heddiw, a dweud wrth bobl ifanc a rhieni Cymru na fyddant yn cynnal eu ffydd yn uchelgeisiau pobl ifanc, ac y byddant yn eu cyfyngu, yna byddai'n well iddynt egluro'n union beth y maent yn ei olygu wrth hynny. Ac os ydynt yn dweud heddiw eu bod yn troi eu cefnau ar adolygiad Diamond y cawsant eu cynrychioli ynddo, yna gadewch iddynt egluro hynny hefyd. Rwyf mewn penbleth braidd, a phe bawn yn rhiant yn gofalu am berson ifanc a oedd yn edrych ymlaen at fynd i brifysgol yn ystod y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn gwrando'n ofalus iawn ar yr hyn y mae llefarwyr y Ceidwadwyr yn ei ddweud heddiw.

14:32 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Acceding to a Government request to nominate a representative is not the same as having somebody on a review. Big difference, Minister—you really need to have a good, long look at that.

Nid yw cytuno i gais Llywodraeth i enwebu cynrychiolydd yr un peth â chael rhywun yn rhan o adolygiad. Gwahaniaeth mawr, Weinidog—mae gwir angen i chi gael golwg iawn ar hynny.

The point of this is that you talk about inclusion, you talk about trying to break the poverty barrier, but let's be really clear. A report by Cardiff University released this month revealed that only 2.4 per cent of looked-after children and young people progress to higher education. It is crucial that these learners are not disadvantaged further, and are given as much support as possible. Would it not be better to be spending that kind of money on those young people, to really narrow the attainment gap, really try to stop the poverty drain here in Wales, rather than carrying on with your vanity project?

Y pwynt yn y fan hon yw eich bod yn siarad am gynhwysiant, rydych yn sôn am geisio torri drwy rwystr tlodi, ond gadewch i ni fod yn wirioneddol glir. Roedd adroddiad gan Brifysgol Caerdydd a ryddhawyd y mis hwn yn dangos mai 2.4 y cant yn unig o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sy'n camu ymlaen i addysg uwch. Mae'n hanfodol nad yw'r dysgwyr hyn yn cael eu rhoi dan anfantais bellach, a'u bod yn cael cymaint o gefnogaeth ag y bo modd. Oni fyddai'n well gwario'r math hwn o arian ar y bobl ifanc hynny, er mwyn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad go iawn, a cheisio atal y draen tlodi yma yng Nghymru, yn hytrach na pharhau â'ch prosiect porthi balchder?

14:33

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, if it's a vanity project, Deputy Presiding Officer, to ensure that the young people of Wales have £17,000 less debt, on average, when they graduate and move into adult life and the world of work, then vanity project so be it. I am particularly proud of the investment that this Welsh Labour Government has made in those young people. And if the Welsh Conservatives now are stepping away from any form of consensus around the Diamond review, and what may pertain as to student support in the years to come, then let them spell out to the Welsh public exactly what that means. Because I can reassure parents and I can reassure young people across Wales that Welsh Labour will keep faith with their ambitions, wherever it is in the UK they wish to study.

Wel, os mai prosiect porthi balchder, Ddirprwy Lywydd, yw sicrhau bod gan bobl ifanc Cymru £17,000 yn llai o ddyled, ar gyfartaledd, pan fyddant yn graddio ac yn dechrau ar fywyd fel oedolion a byd gwaith, yna caiff fod yn brosiect porthi balchder. Rwy'n arbennig o falch o'r buddsoddiad y mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi ei wneud yn y bobl ifanc hynny. Ac os yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn awr yn cefnu ar unrhyw lun ar gonsensws ynghylch adolygiad Diamond, a'r hyn a allai ddigwydd o ran cymorth i fyfyrwyr yn y blynyddoedd i ddod, yna gadewch iddynt egluro i'r cyhoedd yng Nghymru yn union beth y mae hynny'n ei olygu. Oherwydd gallaf roi sicrwydd i rieni a gallaf roi sicrwydd i bobl ifanc ledled Cymru y bydd y Blaid Lafur yng Nghymru yn cynnal ei ffydd yn eu huchelgeisiau, lle bynnag y maent yn dymuno astudio yn y DU.

14:34

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And now Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.

Ac yn awr llefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.

14:34

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, do you agree with me that strong leadership, at all levels, will be essential for the delivery of the new ambitious national curriculum, as outlined in the Donaldson report? And are you therefore confident that there is strong enough leadership—beginning with yourself, of course—to carry out these ambitious reforms?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, a ydych yn cytuno bod arweinyddiaeth gref, ar bob lefel, yn hanfodol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol uchelgeisiol newydd, fel y'i hamlinellwyd yn adroddiad Donaldson? Ac a ydych yn hyderus felly fod yr arweinyddiaeth yn ddigon cryf—gan ddechrau â chi'ch hun, wrth gwrs—i gyflawni'r diwygiadau uchelgeisiol hyn?

14:34

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Strong leadership—yes, Deputy Presiding Officer, that matters, but by no means any form of coercion or dictatorship. The Member will be aware that the very warm welcome of the Donaldson review—almost universal acclaim throughout the teaching profession for Donaldson's review—is something very precious that shouldn't be squandered. And it is in those new deal pioneer schools that this new curriculum will be forged, with professionals, teachers, at work in the classroom being at the forefront of that development. I think that's the way it should be and the leadership of politicians should be more about making sure they have the tools to do the job and that we keep to time and so on rather than dictating every last dot and comma of the new curriculum to them.

Arweinyddiaeth gref—ydi, Ddirprwy Lywydd, mae'n bwysig, ond nid gorfodaeth neu unbennaeth o unrhyw fath. Bydd yr Aelod yn ymwybodol fod y croeso cynnes iawn a roddwyd i'r adolygiad—canmoliaeth gyffredinol bron ar draws y proffesiwn addysgu i adolygiad Donaldson—yn rhywbeth gwerthfawr iawn na ddylid ei wastraffu. Ac yn ysgolion arloesi y fargen newydd y bydd y cwricwlwm newydd hwn yn cael ei ffurfio, gyda gweithwyr proffesiynol, athrawon, yn gweithio yn yr ystafell ddosbarth ar flaen y gad yn y datblygiad hwnnw. Rwy'n credu mai dyna'r ffordd y dylai fod a dylai arweinyddiaeth gwleidyddion ymwneud mwy â sicrhau bod ganddynt yr adnoddau i wneud y gwaith a'n bod yn cadw at yr amserlen ac yn y blaen yn hytrach na phennu pob manylyn o'r cwricwlwm newydd ar eu cyfer.

14:35 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I certainly agree and want to see the Donaldson recommendations implemented in spirit and in principle and in full throughout Wales. That's why I was concerned to read Estyn's thematic report on standards of leadership in schools two weeks ago that says that current performance management systems for existing and potential leaders is not effective. It says that headteacher skills are not being developed, the quality of their work is not being adequately monitored or evaluated, and it also says that the leadership skills of the rest of the workforce are not being developed so there will be not be enough candidates with the right skills for headships in the future. I think we all know of schools that have suffered already, let alone in the future, with that. So, without strong leadership in all our schools, and not just in the excellent pioneer schools that you've already chosen, Minister, how will the new national curriculum really be implemented on the ground and have you identified extra resources to put in place to ensure that it is implemented in the way you've outlined?

Wel, rwy'n sicr yn cytuno a hoffwn weld argymhellion Donaldson yn cael eu gweithredu mewn ysbryd ac egwyddor ac yn llawn ledled Cymru. Dyna pam roeddwn yn bryderus wrth ddarllen adroddiad thematig Estyn ar safonau arweinyddiaeth mewn ysgolion bythefnos yn ôl sy'n dweud nad yw systemau rheoli perfformiad cyfredol ar gyfer arweinwyr cyfredol a darpar arweinwyr yn effeithiol. Mae'n dweud nad yw sgiliau penaethiaid yn cael eu datblygu, nad yw ansawdd eu gwaith yn cael ei fonitro na'i werthuso'n ddigonol, ac mae hefyd yn dweud nad oedd sgiliau arweinyddiaeth gweddill y gweithlu yn cael eu datblygu felly ni fydd digon o ymgeiswyr â'r sgiliau cywir ar gyfer swyddi penaethiaid yn y dyfodol. Rwy'n credu ein bod i gyd yn gwybod am ysgolion sydd wedi dioddef yn sgil hynny eisoes, heb sôn am y rhai a fydd yn dioddef yn y dyfodol. Felly, heb arweinyddiaeth gref yn ein holl ysgolion, ac nid yn yr ysgolion arloesi gwych rydych eisoes wedi'u dewis yn unig, Weinidog, sut y bydd y cwricwlwm cenedlaethol newydd yn cael ei weithredu ar lawr gwlad mewn gwirionedd ac a ydych wedi nodi adnoddau ychwanegol ar gyfer sicrhau y caiff ei roi ar waith yn y ffordd rydych wedi'i hamlinellu?

14:36 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the Member is quite right to point to the importance of leadership on the ground and to the professional development particularly of leaders within the system as being essential in order to make the new curriculum a success, and that's why the curriculum reform goes hand in hand with an entirely new development within the Welsh educational system: the idea of a new deal for the educational workforce, where we shift away from the old idea of professional development being about one-off seminars or INSET days with presentations and move towards a professional development regime, which is quality controlled by the professionals themselves, that is of the highest possible quality. And, of course, leadership development will be critical in all that. So, it is through that new deal for the workforce, which will be hammered together within our new deal pioneer schools, that that new regime concerning support for professionals will be forged alongside the curriculum itself. Estyn's quite right, the Member's quite right: we are not where we need to be. We need to construct something entirely new because what has gone before has let down teachers in terms of their leadership ambitions and it's plain to see.

Wel, mae'r Aelod yn hollol gywir yn tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth ar lawr gwlad ac at ddatblygiad proffesiynol, yn arbennig datblygiad proffesiynol arweinwyr o fewn y system, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y cwricwlwm newydd, a dyna pam y mae diwygio'r cwricwlwm yn mynd law yn llaw â datblygiad cwbl newydd yn y system addysg yng Nghymru: y syniad o fargen newydd i'r gweithlu addysgol, lle y symudwn o'r hen syniad fod datblygiad proffesiynol yn ymwneud â seminarau unigol neu ddiwrnodau HMS gyda chyflwyniadau a thuag at gyfundrefn datblygiad proffesiynol o'r safon uchaf posibl gyda'r gweithwyr proffesiynol eu hunain yn rheoli ansawdd y gyfundrefn honno. Ac wrth gwrs, bydd datblygu arweinyddiaeth yn hollbwysig yn hynny i gyd. Felly, bydd y gyfundrefn newydd honno i gefnogi gweithwyr proffesiynol yn cael ei chreu ochr yn ochr â'r cwricwlwm ei hun drwy'r fargen newydd ar gyfer y gweithlu a lunnir yn ysgolion arloesi y fargen newydd,. Mae Estyn yn hollol gywir, mae'r Aelod yn hollol gywir: nid ydym wedi cyrraedd lle y mae angen i ni fod. Mae angen i ni adeiladu rhywbeth hollol newydd am fod yr hyn sydd wedi digwydd o'r blaen wedi gwneud cam ag athrawon o ran eu huchelgais i arwain ac mae'n amlwg i bawb.

14:37 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Minister, you've described all this process—in other ways that you've just described—as being putting the scaffold in place and that good leadership will determine its success. However, a number of things that you've outlined in answer to my questions today are not in place and are only proposals. In particular, you're not announcing a draft plan for school leadership until the new year, which suggests to me that a lot of the scaffold will be constructed after the house demolition has already started. But, specifically on continuous professional development, is it your ambition to ensure that this now becomes mandatory for all teachers in Wales?

Wel, Weinidog, rydych wedi disgrifio'r broses hon—mewn ffyrdd eraill rydych newydd eu disgrifio—fel gosod y sgaffald yn ei lle, a bydd arweinyddiaeth dda yn pennu ei llwyddiant. Fodd bynnag, mae nifer o bethau a amlinelloch wrth ateb fy nghwestiynau heddiw heb fod yn eu lle ac argymhellion yn unig ydynt. Yn benodol, nid ydych yn cyhoeddi cynllun drafft ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion tan y flwyddyn newydd, sy'n awgrymu i mi y bydd llawer o'r sgaffald yn cael ei chodi ar ôl dechrau'r broses o ddymchwel y tŷ. Ond yn benodol ar ddatblygiad proffesiynol parhaus, ai eich uchelgais yw sicrhau bod hwn yn dod yn orfodol yn awr ar gyfer holl athrawon Cymru?

14:38 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd describe this as an entitlement for professionals within the system, and that description and that opportunity has been embraced by all of the teaching unions, as far as I'm aware, including those unions who represent leaders, heads, within the system. What I envisage here, and what I've consistently described, is a system of professional development that, over time, will be shepherded and quality controlled by the Education Workforce Council, by professionals on behalf of professionals, without politicians mandating exactly how that development should run or how often training should be attended. This should be about a profession that is within itself self-improving, in the way that doctors, lawyers and nurses, for instance, have that approach and that ability around the structures relating to their professional development. They have that ability to plan their careers and see the support supplied to them. That's the support system we need around the teaching profession if we're going to move forward.

Byddwn yn disgrifio hyn fel hawl i weithwyr proffesiynol o fewn y system, ac mae'r disgrifiad a'r cyfle hwnnw wedi cael croeso gan bob un o'r undebau athrawon, hyd y gwn i, gan gynnwys yr undebau sy'n cynrychioli arweinwyr, penaethiaid, o fewn y system. Yr hyn rwy'n ei ragweld yma, a'r hyn rwyf wedi'i ddisgrifio'n gyson, yw system o ddatblygiad proffesiynol a fugeilir ac y rheolir ei hansawdd dros gyfnod o amser gan y Cyngor Gweithlu Addysg, gweithwyr proffesiynol ar ran gweithwyr proffesiynol, heb wleidyddion i bennu sut yn union y dylid cynnal y datblygiad hwnnw neu ba mor aml y dylid mynychu hyfforddiant. Dylai fod yn broffesiwn sydd ynddo'i hun yn gwella'i hun, yn y ffordd y mae gan feddygon, cyfreithwyr a nyrsys, er enghraifft, ymagwedd a gallu o'r fath i drefnu strwythurau sy'n ymwneud â'u datblygiad proffesiynol. Mae ganddynt allu i gynllunio eu gyrfaoedd a gweld y cymorth sydd ar gael iddynt. Dyna'r system gymorth sydd ei hangen arnom ar gyfer y proffesiwn addysgu os ydym am symud ymlaen.

14:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Aled Roberts.

A llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts.

14:39 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, mi oeddech chi yn derbyn, wrth gynnig tystiolaeth i'r pwyllgor plant ym mis Ionawr, bod yna broblemau ynglŷn â'r ffordd y mae addysg uwch yn cael ei reoli a'ch bod yn awyddus i symud i gyfundrefn newydd. Roeddech hefyd yn dweud bod yna bryderon ynglŷn â materion trawsffiniol. Mi oedd rheini wedi cael eu codi gan rai prifysgolion a hefyd gan Unsain, yr undeb, ac, wrth ddweud hynny, roeddech yn dweud eich bod yn mynd i gynnal trafodaethau efo Llywodraeth Prydain ynghylch newidiadau. Wrth gofio, wrth gwrs, bod y gyfundrefn newydd yn dod i rym ym mis Ionawr, a allwch chi ddweud bod y trafodaethau yna wedi'u cwblhau, ac a ydy hi'n fwriad gyda chi i gyhoeddi rheol 150, rwy'n meddwl roeddech yn cyfeirio ato, er mwyn rheoleiddio'r sefyllfa?

Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, you accepted, in giving evidence to the children's committee in January, that there are problems as regards the way in which higher education is managed and that you're eager to move to a new system. You also said that there were concerns about the cross-boundary issues. These had been raised by some universities and also by Unison, the union, and, in saying that, you said you were going to hold discussions with the UK Government about possible changes. Bearing in mind, of course, that the new system will be coming into force in January, can you say that those discussions are now complete, and is it your intention to publish regulation 150, I think you were referring to, in order to regulate the situation?

14:40 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My officials, of course, are in close contact with the UK Government on all these matters, and the recent United Kingdom Government Green Paper on higher education governance really has opened up a great number of unanswered questions around where the whole thrust of policy development, at the UK level, in England, is going to take us. I've recently held a tripartite conversation with my equivalents in Northern Ireland and in Scotland, and they share my concern around these issues. That's why I've asked Professor Ellen Hazelkorn, alongside Ian Diamond's review, to take a look at what the prospects—how the Welsh higher education community can be best regulated and governed going into the future to make sure that we take best advantage, I suppose, of the devolved layer of Government. So, there are a great many imponderables here, because of what the United Kingdom Government has opened up as regards the debate around HE governance. It does seem as if the UK Government has a marketised system in mind. That view is not shared by the Governments in Northern Ireland and in Scotland, and we will set about forging an alternative around our universities.

Mae fy swyddogion, wrth gwrs, mewn cysylltiad agos â Llywodraeth y DU ar yr holl faterion hyn, ac mae Papur Gwyrdd diweddar Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar lywodraethu addysg uwch wedi cyflwyno nifer fawr o gwestiynau heb eu hateb ynglŷn â ble y mae holl bwyslais datblygu polisi, ar lefel y DU, yn Lloegr, yn mynd i'n harwain. Yn ddiweddar, cynhaliais drafodaeth dair ffordd gyda fy ngweinidogion cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon ac yn yr Alban, ac maent yn rhannu fy mhryder ynglŷn â'r materion hyn. Dyna pam rwyf wedi gofyn i'r Athro Ellen Hazelkorn, ochr yn ochr ag adolygiad Ian Diamond, i fwrw golwg ar y rhagolygon—beth yw'r ffordd orau o reoleiddio a llywodraethu'r gymuned addysg uwch yng Nghymru yn y dyfodol er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn manteisio i'r eithaf, rwy'n tybio, ar yr haen ddatganoledig o Lywodraeth. Felly, mae llawer iawn o elfennau annelwig yma, oherwydd yr hyn y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ei gychwyn o ran y ddadl ynghylch llywodraethu addysg uwch. Mae'n ymddangos fel pe bai gan Lywodraeth y DU system wedi'i marchnadeiddio mewn golwg. Nid yw Llywodraethau Gogledd Iwerddon a'r Alban yn rhannu'r farn honno, a byddwn yn mynd ati i greu dewis arall mewn perthynas â'n prifysgolion.

14:42 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf droi yn ôl felly at Gymru? Mi oedd Simon Thomas yn cyfeirio at y newidiadau o ran Donaldson, a'r ffaith bod y cwricwlwm yn newid. Ond tra rydym yn teithio ar y siwrne yna, wrth gwrs, mae nifer o arholiadau TGAU ac ati yn newid. Mae TGAU mathemateg wedi cael ei gyflwyno. Mi fyddwn yn symud ymlaen at wyddoniaeth a phynciau eraill. Mi oedd un athro seicoleg yn gofyn i mi ym mis Awst pam roedd yna werslyfrau a gwaith cwrs yn cael ei baratoi yn Saesneg yn unig ar gyfer yr arholiad newydd, a pham ei fod e fel athro yn gorfod gwario'r gwyliau'r haf yn cyfieithu defnydd ar gyfer ei fyfyrwyr. Roeddwn i'n meddwl mai achos unigol oedd hynny, ond, a dweud y gwir, rwy'n ymwybodol bod problemau tebyg efo'r arholiad mathemateg newydd, lle mae CBAC wedi cyhoeddi mai Hodder fydd yn gyfrifol am y defnydd cwrs. Mae'r defnydd yna ar gael eisoes yn Saesneg, ond eto mae swyddogion y Llywodraeth wedi dweud na fydd y defnydd ar gael yn y Gymraeg tan fis Mai. Felly, mae rhai athrawon eto yn gorfod mynd ati i gyfieithu defnydd achos nad ydyn nhw eisiau i'w myfyrwyr nhw fod yn wahanol i'r myfyrwyr sy'n cael eu haddysgu drwy'r Saesneg. A ydy'r sefyllfa yna yn dderbyniol yn eich tyb chi—i swyddogion Llywodraeth swyddogion ddweud y bydd rhyw naw mis cyn i ddefnydd fod ar gael yn y Gymraeg o gymharu â defnydd Saesneg?

May I come back to Wales? Simon Thomas referred to the changes as regards Donaldson, and the fact that that the curriculum will be changing. But while we are travelling along that path, of course, a number of GCSE examinations and so on will be changing. GCSE maths has been introduced. We'll be moving on to science and other subjects. One psychology teacher asked me in August why there were text books and course work being prepared in English only for the new examination, and why he as a teacher had to spend his summer holidays translating materials for his students. I thought that that was just an individual case, but, to be honest, I'm aware that there are similar problems with the new mathematics examination, where WJEC have announced that Hodder will be responsible for the course materials. Those materials are already available in English, but Government officials have stated that those materials won't be available in Welsh until May. So, some teachers, once again, have to go about translating materials because they don't want their students to be any different to those students who are educated through the medium of English. Is that situation acceptable in your view—for Government officials to say that it will be about nine months before materials will be available in Welsh as opposed to the English materials?

14:44 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I acknowledge that the Member has put his finger on a particular issue as regards mathematics. There does seem to be an issue around this. The situation is that the Welsh Government undertakes, with the WJEC, to provide these classroom materials, as far as is possible, with English and Welsh available simultaneously. That has been something that's been accomplished in most cases. My understanding is that there has been a delay as regards the maths, and Qualifications Wales and the WJEC are working together to try and minimise that delay. I don't recognise the timescales that have been related to you. But I will underscore that the Welsh Government pays the WJEC to make sure that it gets these things right, and their relationship now is with the regulator, with Qualifications Wales, but if there are individual teachers out there who have worries and concerns, I would encourage them to contact you or me directly in order to chase down those concerns and get to the bottom of the situation.

Rwy'n cydnabod bod yr Aelod wedi cyffwrdd â phroblem benodol o ran mathemateg. Mae'n ymddangos bod yna broblem gyda hyn. Y sefyllfa yw bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo, gyda CBAC, i ddarparu'r deunyddiau hyn ar gyfer yr ystafell ddosbarth, gyda'r Saesneg a'r Gymraeg ar gael ar yr un pryd cyn belled ag y bo modd. Cyflawnwyd hynny yn y rhan fwyaf o achosion. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, bu oedi o ran mathemateg, ac mae Cymwysterau Cymru a CBAC yn gweithio gyda'i gilydd i geisio lleihau'r oedi hwnnw. Nid wyf yn cydnabod yr amserlenni a roddwyd i chi. Ond rwy'n pwysleisio bod Llywodraeth Cymru yn talu CBAC i wneud yn siŵr ei fod yn gwneud y pethau hyn yn iawn, ac mae eu perthynas yn awr gyda'r rheoleiddiwr, gyda Cymwysterau Cymru, ond os oes yna athrawon unigol sy'n gofidio ac yn pryderu, byddwn yn eu hannog i gysylltu gyda chi neu gyda mi yn uniongyrchol er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hynny a mynd at wraidd y sefyllfa.

14:45 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r sefyllfa wedi cael ei derbyn ar gyfer seicoleg. Rŷch chi wedi derbyn y prynhawn yma fod yna broblemau efo mathemateg. Wrth ystyried bod yr arholiad gwyddoniaeth newydd yn mynd i gael ei gyflwyno ym mis Medi 2016, a wnewch chi roi addewid i ni'r prynhawn yma fod y defnydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un adeg, a bydd eich swyddogion chi'n gwarantu hynny ac yn rhoi pwysau ar Gymwysterau Cymru, a hefyd ar CBAC, fel nad yw myfyrwyr yn ein hysgolion Cymraeg mewn sefyllfa waeth na myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg?

The situation has been acknowledged for psychology, and you've acknowledged this afternoon that there are problems with mathematics. In considering that the new science examination will be introduced in September 2016, will you give a pledge this afternoon that the materials will be available in Welsh and English simultaneously, and that your officials will give a guarantee of that and that they will bring pressure to bear on Qualifications Wales and on the WJEC so that students in our Welsh schools aren't in a worse situation than those in English-medium schools?

14:46 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can certainly undertake—. Already, that pressure is being brought to bear. I can't give that guarantee around mathematics, but what we can seek to do is to minimise the amount of delay as much as we possibly can. It's worth bearing in mind here, of course, that these are new and additional materials and that there is a wealth of bilingual materials available already online to each and every teacher across the country, through our Hwb and Hwb+ online platform. So, there is more than enough, really, for classroom teaching to begin with. But in terms of those materials aimed specifically at those new GCSEs, I will acknowledge that there has been an issue around mathematics in particular. I will reiterate that this is a matter for the WJEC.

Gallaf yn sicr fynd ati—. Mae pwysau'n cael ei roi arnynt eisoes. Ni allaf roi sicrwydd ynghylch mathemateg, ond yr hyn y gallwn geisio ei wneud yw lleihau'r oedi cymaint ag y gallwn. Mae'n werth cofio fan hyn, wrth gwrs, mai deunyddiau newydd ac ychwanegol yw'r rhain a bod toreth o ddeunyddiau dwyieithog eisoes ar gael ar-lein i bob athro ar draws y wlad, drwy ein platfform ar-lein Hwb a Hwb+. Felly, mae mwy na digon, mewn gwirionedd, ar gyfer addysgu yn yr ystafell ddosbarth yn barod. Ond o ran y deunydd penodol ar gyfer y TGAU newydd, rwy'n cydnabod bod problem wedi bod ynghylch mathemateg yn arbennig. Rwy'n ailadrodd mai mater i CBAC yw hwn.

### Addysg Ôl-16

### Post-16 Education

14:46 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i ad-drefnu addysg ôl-16 yn Nhorfaen? OAQ(4)0651(ESK)*

*3. Will the Minister make a statement on plans to reorganise post-16 education in Torfaen? OAQ(4)0651(ESK)*

14:47 **Julie James** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Senedd.tv Fideo Video

It is important that an appropriate and affordable option for delivery is agreed for post-16 education, and I am pleased that Torfaen local authority has recently submitted a strategic outline case, which has been approved for further development. We now await further details from the local authority.

Mae'n bwysig fod opsiwn priodol a fforddiadwy yn cael ei gytuno ar gyfer y ddarpariaeth addysg ôl-16, ac rwy'n falch bod awdurdod lleol Torfaen wedi cyflwyno achos amlinellol strategol yn ddiweddar a gymeradwywyd ar gyfer ei ddatblygu ymhellach. Rydym yn aros yn awr am fanylion pellach gan yr awdurdod lleol.

**Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Thank you for that reply, Minister. You'll be aware of the plan by Torfaen County Borough Council to replace all local authority sixth forms with a 1,000-place college in Cwmbran. Given that approval of this new college would mean the closure of sixth forms such as those of West Monmouth School and other secondary schools, will the Minister commit to making a decision on this proposal as soon as possible to end the uncertainty over post-16 provision in Torfaen?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fe fyddwch yn ymwybodol o gynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i gael gwared ar bob chweched dosbarth yn ardal yr awdurdod lleol a chreu coleg yn eu lle i 1,000 o ddisgyblion yng Nghwmbrân. O ystyried y byddai cymeradwyo'r coleg newydd hwn yn golygu cau unedau chweched dosbarth fel chweched dosbarth Ysgol Gyfun Gorllewin Trefynwy ac ysgolion uwchradd eraill, a wnaiff y Gweinidog ymrwymo i wneud penderfyniad ar y cynnig hwn cyn gynted â phosibl i roi diwedd ar yr ansicrwydd ynglŷn â'r ddarpariaeth ôl-16 yn Nhorfaen?

14:47 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's important that we get an affordable and deliverable option for post-16 education in Torfaen, and I pay tribute to the Member for Torfaen, Lynne Neagle, who has tirelessly kept this on the agenda of the Government, both during my tenure in this post and through the tenures of various Deputy Ministers before me. Through her efforts and mine, we are in a situation where we have a viable solution on the table and we will, of course, work as efficiently as we possibly can to ensure that that solution is both deliverable and affordable in order to take it forward in Torfaen to the best of our ability. But, obviously, we won't go any faster than is commensurate with good governance.

Mae'n bwysig fod gennym ddewis fforddiadwy a chyflawnadwy ar gyfer addysg ôl-16 yn Nhorfaen, ac rwy'n rhoi teyrnged i'r Aelod dros Dorfaen, Lynne Neagle, sydd wedi cadw'r mater hwn ar agenda'r Llywodraeth yn ddiflino, yn ystod fy nghyfnod yn y swydd hon a thrwy gydol cyfnodau amryw o Ddirprwy Weinidogion yn y gorffennol. Drwy ei hymdrechion hi a fy rhai i, rydym mewn sefyllfa lle y mae gennym ateb ymarferol ar y bwrdd a byddwn yn gweithio mor effeithlon ag y gallwn, wrth gwrs, i sicrhau bod yr ateb hwnnw'n gyflawnadwy ac yn fforddiadwy er mwyn bwrw ymlaen ag ef yn Nhorfaen hyd eithaf ein gallu. Ond yn amlwg, ni fyddwn yn symud yn gynt na'r hyn sy'n gydnaws ag arfer llywodraethu da.

14:48 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Minister for her update today and for the hard work and impetus that she has given to taking forward this very important project? As you know, Torfaen is unique in that half the borough doesn't have any access to sixth-form provision. So, will you take this opportunity to restate your commitment to ending this iniquity for students in my constituency?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am roi'r wybodaeth ddiweddaraf heddiw ac am y gwaith caled a wnaeth a'r hwb a roddodd i ddatblygu'r prosiect pwysig hwn? Fel y gwyddoch, mae Torfaen yn unigryw am nad oes gan hanner y fwrdeistref unrhyw fynediad at ddarpariaeth chweched dosbarth. Felly, a wnewch chi fanteisio ar y cyfle i ailddatgan eich ymrwymiad i roi terfyn ar yr anghyfiawnder hwn i fyfyrwyr yn fy etholaeth?

14:49 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely. I'm committed to helping to find a solution for this issue, but it is the responsibility of the local authority and, more appropriately, a partner college to bring forward a solution. At the moment, we have a business case in front of us. It's an iterative process between us and the local authority. The local authority and officials are working very hard to bring it to a successful conclusion, and I know that the Member has been keeping a close eye on us to make sure that we take it forward with good dispatch.

Gwnaf, yn sicr. Rwyf wedi ymrwymo i helpu i ddod o hyd i ateb i'r mater hwn, ond cyfrifoldeb yr awdurdod lleol, ac yn fwy priodol, coleg partner yw darparu ateb. Ar hyn o bryd, mae gennym achos busnes o'n blaen. Mae'n broses ailadroddus rhyngom ni a'r awdurdod lleol. Mae'r awdurdod lleol a'r swyddogion yn gweithio'n galed iawn i ddod ag ef i ben yn llwyddiannus, ac rwy'n gwybod bod yr Aelod wedi bod yn cadw llygad barcud arnom i sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen ag ef mor gyflym ag sy'n bosibl.

## Rhieni Wedi'u Carcharu (Cefnogi Plant)

## Parental Imprisonment (Supporting Children)

14:49 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae plant yr effeithir arnynt gan fod eu rhieni wedi'u carcharu yn cael eu cefnogi o fewn y system addysg yng Nghymru? OAQ(4)0655(ESK)*

*4. Will the Minister provide an update on how children affected by parental imprisonment are supported within the Welsh education system? OAQ(4)0655(ESK)*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:49 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Cynon Valley. I recognise that there can be a negative impact on a child's self-esteem and confidence when a parent is detained. Many children in Wales have a variety of support needs. Recognising this and providing support and counselling is something many of our schools do very well.

Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon. Rwy'n cydnabod y gallai carchariad rhiant effeithio'n negyddol ar hunan-barch a hyder plentyn. Mae gan lawer o blant yng Nghymru amrywiaeth o anghenion cymorth. Mae cydnabod hyn a darparu cymorth a chwnsela yn rhywbeth y mae llawer o'n hysgolion yn ei wneud yn dda iawn.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:50 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. At last week's meeting of the cross-party group on this, which I chair, we did hear from children and young people affected by this issue. Asked about the response of their teachers, the evidence was overwhelmingly positive, with statements made by the children that the teacher supported them, that they cared for them and that they are kind to them, which I thought were very good statements. I'm sure that you will join with me in welcoming this support for vulnerable children, but how can the Welsh Government integrate these good experiences so we are assured that they become the norm?

Diolch yn fawr, Weinidog. Yng nghyfarfod y grŵp trawsbleidiol ar y mater hwn yr wythnos diwethaf, grŵp rwy'n ei gadeirio, clywsom gan blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt yn y ffordd hon. Pan ofynnwyd iddynt am ymateb eu hathrawon, roedd y dystiolaeth yn gadarnhaol iawn, gyda'r plant yn gwneud datganiadau fod eu hathro wedi eu cynorthwyo, eu bod yn gofalu amdanynt a'u bod yn garedig wrthynt, ac roeddwn i'n credu eu bod yn ddatganiadau da iawn. Rwy'n siŵr y byddwch yn ategu fy nghroeso i'r gefnogaeth hon i blant sy'n agored i niwed, ond sut y gall Llywodraeth Cymru integreiddio'r profiadau da hyn er mwyn ein sicrhau mai dyma fydd y norm?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:50 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My thanks again to the Member. I'm glad that the young people concerned had a direct say through the cross-party group on this very important issue. There has been work along these lines, and, in 2014, Barnardo's Cymru published a handbook for schools to develop good practice in supporting children whose parents were affected by imprisonment. The handbook recognised in particular the excellent work going on in Rhondda Cynon Taf, and the Welsh Government worked with them—Barnardo's, that is—to promote the handbook and draw it to the attention of education services across Wales. I know that Barnardo's intends to publish its 'Locked Out' report today, which is about the child's experiences of visiting prison, which will add to our understanding of this debate. I would draw Members' attention, and the attention of schools, to that very important work undertaken by Barnardo's Cymru.

Hoffwn ddiolch unwaith eto i'r Aelod. Rwy'n falch fod y bobl ifanc dan sylw wedi cael dweud eu barn yn uniongyrchol drwy'r grŵp trawsbleidiol ar y mater pwysig hwn. Gwnaed gwaith tebyg i hyn o'r blaen, ac yn 2014, cyhoeddodd Barnardo's Cymru lawlyfr ar gyfer ysgolion i ddatblygu arfer da wrth gefnogi plant yr effeithiwyd arnynt yn sgil carcharu eu rhieni. Roedd y llawlyfr yn cydnabod yn arbennig y gwaith ardderchog sy'n digwydd yn Rhondda Cynon Taf, a bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda hwy—Barnardo's, hynny yw—i hyrwyddo'r llawlyfr a thynnu sylw gwasanaethau addysg ledled Cymru ato. Gwn fod Barnardo's yn bwriadu cyhoeddi ei adroddiad 'Locked Out' heddiw, sy'n sôn am brofiadau'r plentyn o ymweld â'r carchar, a bydd yn ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r drafodaeth hon. Hoffwn dynnu sylw'r Aelodau, a sylw ysgolion, at y gwaith pwysig hwn a wnaed gan Barnardo's Cymru.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:51 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm pleased that Chris Chapman has raised this important issue, Minister. There are some specific issues for children with parents imprisoned outside of Wales—travelling time to name but one. Some of these issues may well be addressed by the new prison in north Wales, but, in the meantime, what guidance has been given to schools on how best to safeguard the interests of this vulnerable group of children?

Rwy'n falch fod Chris Chapman wedi crybwyll y mater pwysig hwn, Weinidog. Mae yna rai problemau penodol gan blant sydd â rhieni wedi'u carcharu y tu allan i Gymru—amser teithio i enwi un yn unig. Mae'n bosibl y bydd y carchar newydd yng ngogledd Cymru yn ateb rhai o'r problemau hyn, ond yn y cyfamser, pa ganllawiau a roddwyd i ysgolion ar y ffordd orau o ddiogelu lles y grŵp hwn o blant sy'n agored i niwed?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:52 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

The Member is quite right to point out some of the very deleterious effects that parental imprisonment can have on young people; it can be quite a devastating experience for them. Once again, I would refer Members to that Barnardo's Cymru handbook, which, if in their casework they're coming across instances of young people in this situation, I think is the best first call in terms of bringing that to their schools' attention. But there is also much to learn, I think, from projects such as the Invisible Walls Wales project at Parc prison, which has undertaken some groundbreaking work that we're taking a look at presently, in terms of trying to minimise the effects on children of a parent's imprisonment. I would happily write to the Member with details of Invisible Walls and encourage Members, actually, if they are able, to visit Parc prison to take a look at that fantastic work.

Mae'r Aelod yn hollol gywir i dynnu sylw at rai o'r effeithiau niweidiol iawn y gall carcharu rhiant eu cael ar bobl ifanc; gall fod yn brofiad eithaf dinistriol iddynt. Unwaith eto, hoffwn gyfeirio'r Aelodau at lawlyfr Barnardo's Cymru, oherwydd os dônt ar draws achosion o bobl ifanc yn y sefyllfa hon yn eu gwaith, rwy'n credu mai'r llawlyfr hwnnw yw'r man cychwyn gorau o ran ei ddwyn i sylw eu hysgolion. Ond mae llawer i'w ddysgu hefyd, rwy'n credu, o brosiectau megis prosiect Waliau Anweledig Cymru yng ngharchar Parc, sydd wedi gwneud gwaith arloesol rydym yn edrych arno ar hyn o bryd, o ran ceisio lleihau effeithiau carchariad rhiant ar blentyn. Byddwn yn hapus i ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion prosiect Waliau Anweledig Cymru ac annog yr Aelodau, mewn gwirionedd, os gallant, i ymweld â charchar y Parc i weld y gwaith gwych hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

14:53 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Minister, I wonder if you can tell us whether you've put any work into whether children in these circumstances have financial education beyond what is happening at the moment. Obviously, you know it's a passion of mine. They may not have the structures at home to allow them to have that education; quite often, parents don't have those skills themselves. Are you making sure that those children are utilising financial education systems within Wales?

Weinidog, tybed a allech chi ddweud wrthym a ydych wedi gwneud unrhyw waith i weld a yw plant yn y sefyllfa hon yn derbyn addysg ariannol y tu hwnt i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Yn amlwg, fe wyddoch ei fod yn fater rwy'n teimlo'n angerddol iawn yn ei gylch. Efallai nad oes ganddynt strwythurau gartref i ganiatáu iddynt gael yr addysg hon; yn aml iawn, nid yw'r rhieni'n meddu ar sgiliau o'r fath eu hunain. A ydych yn gwneud yn siŵr fod y plant hyn yn defnyddio systemau addysg ariannol yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:53 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Yes, of course, and I reassure the Member, as I have done before, that financial education is now already very much part of our current curriculum. It will be part of the new Donaldson curriculum as it develops, and it is now an inherent part of GCSE numeracy, which will be taught in our schools very soon. A large part, in fact, of that GCSE numeracy qualification that almost all of our young people will be sitting is concerned with very practical day-to-day financial education matters.

Wrth gwrs, ac rwy'n sicrhau'r Aelodau, fel y gwneuthum o'r blaen, fod addysg ariannol eisoes yn rhan bwysig o'n cwricwlwm cyfredol. Bydd yn rhan o'r cwricwlwm Donaldson newydd wrth iddo ddatblygu, ac mae bellach yn rhan annatod o'r TGAU rhifedd, a fydd yn cael ei ddysgu yn ein hysgolion yn fuan iawn. Mae rhan fawr, mewn gwirionedd, o'r cymhwyster TGAU rhifedd y bydd bron bob un o'n pobl ifanc yn ei astudio yn ymwneud â materion addysg ariannol ymarferol o ddydd i ddydd.

Senedd.tv Fideo Video

### Ffedereiddio Ysgolion

### School Federation

14:54 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffedereiddio ysgolion fel dewis amgen yn hytrach na chau ysgolion ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0654(ESK)*

*5. Will the Minister make a statement on school federation as an alternative to closure in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)0654(ESK)*

Senedd.tv Fideo Video

14:54 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

My thanks to the Member for Brecon and Radnorshire. The school organisation code makes it clear that consideration should be given to the alternative of federating schools when local authorities review provision with a view to potential closure. When proposing change, local authorities should place the interests of learners above all others.

Diolch i'r Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed. Mae'r cod trefniadaeth ysgolion yn ei gwneud yn glir y dylid ystyried y dewis arall o ffedereiddio ysgolion pan fydd awdurdodau lleol yn adolygu'r ddarpariaeth gyda golwg ar y posibilrwydd o gau. Wrth argymell newid, dylai awdurdodau lleol roi lles dysgwyr uwchlaw popeth arall.

Senedd.tv Fideo Video

14:54 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, Minister. As you say, your Government's own policy sees the benefits of federation, especially for our youngest children, if it allows them to be educated in their own communities rather than being bussed for many miles. Yesterday, on the steps of this building, the parents and pupils of Nantmel School were here to protest about the potential closure of their school, and the absolute failure of Powys County Council to engage with them on the possibilities of a successful federation with a neighbouring larger school. Minister, would you agree to meet those parents, or at least take up their case with Powys County Council, to ensure that all proper consideration has been given to keeping the school in Nantmel open and federating it with a neighbouring primary school?

Diolch am hynny, Weinidog. Fel y dywedwch, mae polisi eich Llywodraeth eich hun yn gweld manteision ffederasiwn, yn enwedig i'n plant ieuengaf, os yw'n caniatáu iddynt gael eu haddysgu yn eu cymunedau eu hunain yn hytrach na chael eu cludo mewn bysiau am lawer o filltiroedd. Ddoe, ar risiau'r adeilad hwn, roedd rhieni a disgyblion Ysgol Nantmel yma'n protestio yn erbyn y posibilrwydd y bydd eu hysgol yn cau, a methiant llwyr Cyngor Sir Powys i ymgysylltu â hwy ynglŷn â phosibiliadau ffederasiwn llwyddiannus gydag ysgol gyfagos fwy o faint. Weinidog, a fyddech yn cytuno i gyfarfod â'r rhieni hynny, neu o leiaf drafod eu hachos gyda Chyngor Sir Powys, i sicrhau bod pob ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i gadw'r ysgol yn Nantmel yn agored a'i ffedereiddio gydag ysgol gynradd gyfagos?

14:55 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, what I can say is that I agree with the Member that there is a huge amount of evidence setting out the benefits that federation can bring. Schools in a federation are able to share resources, staff, expertise, facilities, and particularly rural and small schools can benefit from shared governance as they develop joint leadership. But I have to say that matters such as this are matters for local authorities, and it's difficult for me to comment on any particular proposals for change that might be under consideration given that these could be referred to me under certain circumstances. It's important that I don't prejudice a decision that I might need to make in that event.

Wel, yr hyn y gallaf ei ddweud yw fy mod yn cytuno â'r Aelod fod yna dystiolaeth enfawr sy'n nodi'r buddiannau posibl yn sgil creu ffederasiwn. Mae ysgolion mewn ffederasiwn yn gallu rhannu adnoddau, staff, arbenigedd, cyfleusterau, ac yn arbennig, gall ysgolion bach a gwledig elwa o drefniadau cydlywodraethu wrth iddynt ddatblygu arweinyddiaeth ar y cyd. Ond mae'n rhaid i mi ddweud mai materion ar gyfer awdurdodau lleol yw'r rhain, ac mae'n anodd i mi wneud sylwadau ar unrhyw gynigion penodol ar gyfer newid a allai fod dan ystyriaeth o gofio y gallai'r rhain gael eu cyfeirio ataf mewn rhai amgylchiadau. Mae'n bwysig nad wyf yn rhagfarnu penderfyniad y gallai fod angen i mi ei wneud pe bai hynny'n digwydd.

## Gwella Safonau Addysg (Canol De Cymru)

## Improving Education Standards (South Wales Central)

14:56 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa fesurau sy'n cael eu gweithredu i wella safonau addysg ledled Canol De Cymru? OAQ(4)0648(ESK)*

*6. Will the Minister outline what measures are being implemented to improve education standards across South Wales Central? OAQ(4)0648(ESK)*

14:56 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My thanks to the Member for South Wales Central. 'Qualified for Life', our education improvement plan for three to 19-year-olds, sets out a range of actions to improve educational standards in Wales. It's pleasing to note an improvement in outcomes for learners based in South Wales Central.

Diolch i'r Aelod dros Ganol De Cymru. Mae 'Cymwys am Oes', ein cynllun gwella addysg ar gyfer plant tair i 19 mlwydd oed, yn nodi ystod o gamau gweithredu i wella safonau addysgol yng Nghymru. Mae'n dda nodi gwelliant yng nghanlyniadau dysgwyr yng Nghanol De Cymru.

14:56 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that answer. Obviously, what would greatly help attainment levels is the ability to make sure that the financial resource that is made available by the Welsh Government is spent on education for our young people. In light of the 'Week In, Week Out' programme last night, and bearing in mind that the West London Vocational Training College is based in Cardiff, are you now able to give any more assurances that clearly say that the remarkable exposure last night of how easy it was to defraud the system that was intended for learning is not commonplace in the Welsh education system, and that you do have confidence that there are robust measures in place to make sure that this practice is not more widespread across Wales?

Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn amlwg, yr hyn a fyddai'n gymorth mawr i'r lefelau cyrhaeddiad fyddai'r gallu i wneud yn siŵr fod yr adnodd ariannol a ryddheir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei wario ar addysg ar gyfer ein pobl ifanc. Yn sgil rhaglen 'Week In, Week Out' neithiwr, ac o gofio fod Coleg Hyfforddiant Galwedigaethol Gorllewin Llundain wedi'i leoli yng Nghaerdydd, a allwch roi sicrwydd pellach nad yw'r datguddiad syfrdanol a gafwyd neithiwr o ba mor hawdd oedd hi i dwyllo system a fwriadwyd ar gyfer dysgu yn gyffredin yn y system addysg yng Nghymru, a bod gennych hyder fod mesurau cadarn ar waith i wneud yn siŵr nad yw'r arfer hwn yn digwydd yn fwy eang ledled Cymru?

14:57 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I will reiterate, as I said yesterday, that this college is the only private English-based college operating in Wales at present. Perhaps I could update Members, as I've just learned in the last hour or so that South Wales Police economic crime unit and the Welsh Government's counter-fraud branch are now working together in investigating the allegations of fraud made in the BBC programme 'Week In, Week Out' yesterday evening. So, the police have confirmed that they are investigating this matter.

Wel, rwyf am ailadrodd, fel y dywedais ddoe, mai'r coleg hwn yw'r unig goleg preifat o Loegr sy'n gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd. Efallai y gallwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau, gan fy mod newydd ddeall yn ystod yr awr ddiwethaf fod uned troseddu economaidd Heddlu De Cymru a changen atal twyll Llywodraeth Cymru bellach yn gweithio gyda'i gilydd i ymchwilio i'r honiadau o dwyll a wnaed ar raglen 'Week In,Week Out' y BBC neithiwr. Felly, mae'r heddlu wedi cadarnhau eu bod yn ymchwilio i'r mater hwn.

Our system of higher education is continually overseen by Student Finance Wales. Of course, this is a matter of continuous monitoring. As I mentioned yesterday, we are also moving towards a situation where all such HE providers in Wales will be required to be charitable institutions. I can assure the Member that, other than the West London Vocational Training College, there is currently no English-based HE provider with a Welsh campus. So, I think it's very unlikely that, if there is a problem here, it has spread much further afield.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn goruchwylio ein system addysg uwch yn barhaus. Wrth gwrs, mae hwn yn fater sy'n galw am fonitro parhaus. Fel y soniais ddoe, rydym hefyd yn symud tuag at sefyllfa lle y bydd gofyn i bob darparwr addysg uwch o'r fath yng Nghymru fod yn sefydliadau elusennol. Gallaf sicrhau'r Aelod, ar wahân i Goleg Hyfforddiant Galwedigaethol Gorllewin Llundain, nad oes gan unrhyw ddarparwr addysg uwch o Loegr gampws yng Nghymru ar hyn o bryd. Felly, rwy'n credu ei bod yn annhebygol iawn, os oes problem yma, ei bod wedi lledaenu'n llawer pellach.

14:58 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I think we'd all agree that it's the outcome of the standards of all the pupils in our education system that we should be mindful of, not just the standards overall. I'm particularly concerned about the length of time it's taking some of our local authorities to provide a diagnosis for young people who have additional learning needs, and in particular the Vale of Glamorgan local authority—I have a lot of casework from that authority about pupils waiting a long time. I wonder if, as part of the Bill that you are bringing forward, you would require local authorities to monitor and report on the referral-to-diagnosis time for additional learning needs, please.

Weinidog, rwy'n credu y byddem i gyd yn cytuno mai'r hyn y dylem fod yn ymwybodol ohono yw canlyniadau safonau'r holl ddisgyblion yn ein system addysg, nid y safonau yn gyffredinol yn unig. Rwy'n arbennig o bryderus ynglŷn â'r amser y mae'n ei gymryd i rai o'n hawdurdodau lleol ddarparu diagnosis ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn arbennig awdurdod lleol Bro Morgannwg—mae gennyf lawer o waith achos o'r awdurdod hwnnw am ddisgyblion yn aros am gyfnodau hir o amser. Fel rhan o'r Bil rydych yn ei gyflwyno, tybed a allech ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fonitro ac adrodd ar yr amser rhwng atgyfeirio a chael diagnosis ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

14:59 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Well, I think the Member will have anticipated my answer. This is a matter for the development of the Bill, and this is something that she'll be free to put forward as a proposal within the new system. It is the intention that the new regime around additional learning needs within our schools loses that element of adversarial contact between parents and the authorities, if you like, and that we move to a system that is much quicker to react, which reacts much earlier, and reacts on the basis of common sense and consensus, rather than the situation that pertains too often at present, where parents feel they have to go out and fight for the correct provision for their young people. That's the whole purpose of the Bill. These are difficult matters, and I know that the Member will have her input into the development and the responses around the draft Bill in particular.

Wel, rwy'n credu y bydd yr Aelod wedi rhagweld fy ateb. Mater ar gyfer proses ddatblygu'r Bil yw hwn, ac mae'n rhywbeth y bydd hi'n rhydd i'w gyflwyno fel argymhelliad yn y system newydd. Y bwriad yw sicrhau bod y drefn newydd ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn ein hysgolion yn colli'r elfen o wrthdaro rhwng rhieni a'r awdurdodau, os mynnwch chi, a'n bod yn symud at system sy'n ymateb yn gyflymach o lawer, sy'n ymateb yn gynharach o lawer, ac sy'n ymateb ar sail synnwyr cyffredin a chonsensws, yn hytrach na'r sefyllfa sydd i'w gweld yn rhy aml ar hyn o bryd, lle y mae rhieni'n teimlo bod yn rhaid iddynt frwydro i gael y ddarpariaeth gywir ar gyfer eu pobl ifanc. Dyna holl bwrpas y Bil. Mae'r rhain yn faterion anodd, a gwn y bydd yr Aelod yn cyfrannu at y broses o ddatblygu'r Bil drafft yn benodol, a'r ymatebion iddo.

Senedd.tv Fideo Video

### Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain

### The Twenty-first Century Schools Programme

15:00 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn Islwyn? OAQ(4)0653(ESK)*

*7. Will the Minister make a statement on the progress of the Welsh Government's 21st Century Schools programme in Islwyn? OAQ(4)0653(ESK)*

Senedd.tv Fideo Video

15:00 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I will, and my thanks to the Member for Islwyn. Investment of almost £26 million has been approved to date for Islwyn through the twenty-first century schools and education programme. The funding is earmarked for a new 1,050-place comprehensive school for the area.

Gwnaf, a hoffwn ddiolch i'r Aelod dros Islwyn. Hyd yn hyn, mae buddsoddiad o bron i £26 miliwn ar gyfer Islwyn wedi'i gymeradwyo drwy raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer ysgol gyfun newydd ar gyfer yr ardal gyda lle i 1,050 o ddisgyblion.

Senedd.tv Fideo Video

15:01 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer. Minister, do you agree with me that the planned sharing of facilities being built at the new Islwyn high school in my constituency is the way forward?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw. Weinidog, a ydych yn cytuno mai'r bwriad i rannu cyfleusterau sy'n cael eu hadeiladu yn yr ysgol uwchradd newydd yn Islwyn yn fy etholaeth yw'r ffordd ymlaen?

Senedd.tv Fideo Video

15:01 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I do agree, and I would like to see very much more of this sort of initiative. I'm delighted when any new facilities are provided under the twenty-first century schools programme can be used to benefit not just young people but the wider community, and the Welsh Government actively encourages local authorities to maximise the use of these assets. My understanding is that there's to be a 3G pitch and other sporting facilities as well as a resource for assisted learning, and that can only be a positive way forward.

Ydw, rwy'n cytuno, a hoffwn weld llawer iawn mwy o fentrau o'r fath. Rwyf wrth fy modd pan fydd hi'n bosibl defnyddio cyfleusterau newydd a ddarperir drwy raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain er budd y gymuned ehangach yn ogystal â phobl ifanc, ac mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o'r asedau hyn. Fy nealltwriaeth i yw y bydd cae 3G a chyfleusterau chwaraeon eraill yno, yn ogystal ag adnodd ar gyfer dysgu a gynorthwyir, ac ni all hynny ond bod yn ffordd gadarnhaol ymlaen.

Senedd.tv Fideo Video

### Ysgolion yn Ymweld â Chyfandir Ewrop

### Schools Visiting Continental Europe

15:01 **William Graham** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyngor a ddarperir i ysgolion ynghylch ymweld â chyfandir Ewrop? OAQ(4)0656(ESK)*

*8. Will the Minister make a statement on the advice provided to schools on visiting continental Europe? OAQ(4)0656(ESK)*

Senedd.tv Fideo Video

15:01 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Yes. My thanks to the Member for South Wales East for this important question. I think it's something that will be in the minds of lots of parents at the moment. The Foreign and Commonwealth Office provides advice on travel abroad and has issued advice to schools that are planning to take groups, in particular to France. Schools have a duty under the Health and Safety at Work etc. Act 1974 to ensure risk management procedures are in place for school trips.

Ie. Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru am y cwestiwn pwysig hwn. Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth a fydd ym meddyliau llawer o rieni ar hyn o bryd. Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn rhoi cyngor ar deithio dramor ac mae wedi cyhoeddi cyngor ar gyfer ysgolion sy'n bwriadu mynd â grwpiau, yn enwedig i Ffrainc. Mae'n ddyletswydd ar ysgolion, o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, i sicrhau bod gweithdrefnau rheoli risg ar waith ar gyfer teithiau ysgolion.

Senedd.tv Fideo Video

15:02 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I'm most grateful to the Minister for his reply. Would he undertake to make sure that all schools in Wales receive copies of that valuable information?

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ateb. A fyddai'n ymrwymo i sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn cael copïau o'r wybodaeth werthfawr honno?

Senedd.tv Fideo Video

15:02 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Of course; I can undertake to remind schools, through our regular electronic newsletter, of the excellent service provided by the FCO. It would be pointless, really, for the Welsh Government to try and duplicate or second-guess the FCO advice, but, I will undertake to remind schools to take a look at that advice before they draw up their plans.

Wrth gwrs; gallaf atgoffa ysgolion, drwy ein cylchlythyr electronig rheolaidd, am y gwasanaeth ardderchog a ddarperir gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Byddai'n ddibwrpas, mewn gwirionedd, i Lywodraeth Cymru geisio dyblygu neu ragweld cyngor y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, ond rwy'n ymrwymo i atgoffa ysgolion i edrych ar y cyngor hwnnw cyn iddynt lunio eu cynlluniau.

Senedd.tv Fideo Video

## Ardoll Prentisiaethau

## The Apprenticeship Levy

15:02 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

*9. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith yr ardoll prentisiaethau ar Gymru? OAQ(4)0658(ESK)[W]*

*9. What assessment has the Minister made of the impact of the apprenticeship levy on Wales? OAQ(4)0658(ESK)[W]*

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Thank you for the question. It's a little too early to have completed a proper assessment, as we only got some of the detail last Wednesday. But, we're continuing to work with the UK Government to get to the bottom of the detail.

Diolch am y cwestiwn. Mae hi ychydig yn rhy gynnar i fod wedi cwblhau asesiad priodol, gan mai rhai o'r manylion yn unig a gawsom ddydd Mercher diwethaf. Ond rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i fynd at wraidd y manylion.

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am yr ateb, ond rwy'n poeni nad oes mwy o fanylion ar gael eto. Mae'r ardoll, fel y mae wedi cael ei gynnig yn Lloegr, ar gyfer busnesau sy'n ennill, yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall, dros £3 miliwn y flwyddyn, sy'n cau allan nifer fawr o fusnesau yng Nghymru, wrth gwrs. Os bydd hwn yn cael ei gyflwyno yng Nghymru, byddwn i am i gymaint o fusnesau ag sy'n bosib i fod yn rhan o'r cynllun, ac, wrth gwrs, cynifer ag sy'n bosib o brentisiaethau yn dod yn sgil hynny. A oes lle, felly, i adeiladu cynllun amgen i Gymru yn benodol?

I thank the Deputy Minister for that response, but I am concerned that there aren't further details available. The levy, as it's been proposed in England, is for businesses earning, as I understand it, over £3 million per year, which actually excludes many businesses in Wales, of course. If this is to be introduced in Wales, then I would want as many businesses as possible to be part of the programme, and, of course, as many apprenticeships as possible to be created as a result of that. Is there room, therefore, to build an alternative proposal specifically for Wales?

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We're in a lot of negotiations at the moment about how this will work. Nobody's quite clear about it, including, I have to say, the Minister for business, innovation and skills. We think that the effect is that companies employing around 109 to 130 people—but we don't even know absolutely—will be affected, including all of our public sector organisations. Effectively, it works as an additional tax on payroll; it has unintended consequences either side of the threshold, as I'm sure the Member will realise.

Rydym yn cymryd rhan mewn llawer o drafodaethau ar hyn o bryd ynglŷn â sut y bydd hyn yn gweithio. Nid oes neb yn glir iawn ar y mater, gan gynnwys, mae'n rhaid i mi ddweud, y Gweinidog busnes, arloesi a sgiliau. Rydym yn credu mai'r effaith yw y bydd cwmnïau sy'n cyflogi tua 109 i 130 o bobl—ond nid ydym yn gwybod yn union—yn cael eu heffeithio, gan gynnwys pob un o'n sefydliadau sector cyhoeddus. I bob pwrpas, mae'n gweithio fel treth ychwanegol ar y gyflogres; mae iddo ganlyniadau anfwriadol ar y naill ochr a'r llall i'r trothwy, fel rwy'n siŵr y bydd yr Aelod yn sylweddoli.

But, we're in discussions about an enormous range of things. For example, the spending review also abolished the UK Commission for Employment and Skills, which is the organisation that actually gives us all the employer information on which we base our labour market intelligence. That also does the national standards for apprenticeships, for example, and a number of other important underpinnings to our world-class apprenticeship system. It's been met with, I think, universal opprobrium from absolutely everybody—the Confederation of British Industry, the Construction Industry Training Board, the Chartered Institute of Building; you name the organisation, they are not fond of this proposal. We wait to see what will happen. Happily, the UK Government occasionally does u-turns when there's mass disapproval of its systems, but I think that might be a little optimistic in this case. We will continue to make the best of it. It will not stop us from progressing our world-class apprenticeships system, but a lot more detail needs to be worked out before we will truly know the effect of it here in Wales.

Ond rydym yn cael trafodaethau ar ystod enfawr o bethau. Er enghraifft, roedd yr adolygiad o wariant hefyd yn diddymu Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, sef y sefydliad sy'n rhoi'r holl wybodaeth i ni am gyflogwyr i ni allu seilio ein gwybodaeth am y farchnad lafur arni. Y sefydliad hwnnw hefyd sy'n llunio'r safonau cenedlaethol ar gyfer prentisiaethau, er enghraifft, a nifer o danategion pwysig eraill i'n system brentisiaethau o'r radd flaenaf. Rwy'n credu bod hyn yn destun beirniadaeth gyffredinol gan bawb—Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu, y Sefydliad Siartredig Adeiladu; pa sefydliad bynnag a enwch, ni fyddant yn hoff o'r cynnig hwn. Rydym yn aros i weld beth fydd yn digwydd. Yn ffodus, mae Llywodraeth y DU, yn achlysurol, yn gwneud tro pedol pan geir anghymeradwyaeth dorfol i'w systemau, ond rwy'n credu efallai fod hynny braidd yn optimistaidd yn yr achos hwn. Byddwn yn parhau i wneud y gorau o'r sefyllfa. Ni fydd yn ein hatal rhag datblygu ein system brentisiaethau o'r radd flaenaf, ond mae angen i ni gael llawer mwy o fanylion cyn y byddwn yn gwybod mewn gwirionedd beth fydd ei effaith yma yng Nghymru.

15:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

*Daeth y Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) i'r Gadair.*

*The Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) took the Chair.*

## 3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Y Diwydiant Dur

## 3. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): The Steel Industry

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

*[R] signifies the Member has declared an interest.*

15:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 3, which is the debate by individual Members. I call on David Rees to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef y ddadl gan Aelodau unigol. Galwaf ar David Rees i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5881 David Rees, Mike Hedges, Aled Roberts

Motion NDM5881 David Rees, Mike Hedges, Aled Roberts

Cefnogwyd gan Lindsay Whittle, William Powell, Peter Black, Jenny Rathbone, John Griffiths, Lynne Neagle, Jeff Cuthbert, Keith Davies, William Graham, Simon Thomas, Llyr Gruffydd, Alun Davies [R], Christine Chapman

Supported by Lindsay Whittle, William Powell, Peter Black, Jenny Rathbone, John Griffiths, Lynne Neagle, Jeff Cuthbert, Keith Davies, William Graham, Simon Thomas, Llyr Gruffydd, Alun Davies [R], Christine Chapman

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cynhyrchu dur i economi Cymru;

1. Recognises the importance of steel production to the Welsh economy.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi'r diwydiant dur yn ystod y cyfnod anodd hwn; a

2. Calls on the Welsh Government to continue to do all that it can to support the steel industry during these difficult times.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU i gymryd camau brys ar nifer o feysydd, gan gynnwys mynd i'r afael â'r costau ynni uchel a wynebir gan y diwydiannau ynni dwys yng Nghymru, megis y diwydiant dur, er mwyn sicrhau y gallant gystadlu yn erbyn cynhyrchwyr Ewropeaidd eraill o fewn marchnad fyd-eang.

3. Calls on the UK Government to take urgent action on a number of areas including addressing the high energy costs faced by energy intensive industries in Wales, such as steel, to ensure they can be competitive with other European producers in a global market.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:05

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We should all be aware that steelmaking is a hazardous process, and before I open the debate on the future of our steel industry, I wish to express my condolences, and I'm sure the condolences of all Members, to the families of Peter O'Brien and Mark Sim, who recently lost their lives in the explosion at the Celsa steelworks here in Cardiff. Such incidents highlight the dangers that workers in the steel industry face daily, and as we debate today, let us all remember those who have lost their lives or have been injured whilst doing their job.

Dylem i gyd fod yn ymwybodol fod cynhyrchu dur yn broses beryglus, a chyn i mi gychwyn y ddadl ar ddyfodol ein diwydiant dur, hoffwn fynegi fy nghydymdeimlad, a chydymdeimlad yr holl Aelodau rwy'n siŵr, i deuluoedd Peter O'Brien a Mark Sim, a gollodd eu bywydau yn ddiweddar yn y ffrwydrad yng ngwaith dur Celsa yma yng Nghaerdydd. Mae digwyddiadau o'r fath yn tynnu sylw at y peryglon y mae gweithwyr yn y diwydiant dur yn eu hwynebu bob dydd, ac wrth i ni drafod heddiw, gadewch i ni gyd gofio'r rhai sydd wedi colli eu bywydau neu wedi cael eu hanafu wrth wneud eu gwaith.

Llywydd, I move the motion in my name and the names of Aled Roberts and Mike Hedges. I am pleased to have secured this vitally important debate today, and I would like to thank all Members who supported the motion calling for urgent action to be taken to protect and help our steel industry. Can I also welcome the many steelworkers in the gallery who are here today to show their support for the industry? Their trade unions—Community, Unite, UCATT and the GMB—have been tirelessly campaigning for a fair deal for steel, and I hope that this debate will offer further support. On their behalf, I would like to thank those Members who met with them this lunchtime outside the Senedd to show that support.

Lywydd, Cynigiaf y cynnig yn fy enw i ac yn enwau Aled Roberts a Mike Hedges. Rwy'n falch o fod wedi sicrhau'r ddadl hanfodol bwysig hon heddiw, a hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau a gefnogodd y cynnig sy'n galw am gymryd camau brys i ddiogelu a helpu ein diwydiant dur. A gaf fi hefyd groesawu'r nifer o weithwyr dur yn yr oriel sydd yma heddiw i ddangos eu cefnogaeth i'r diwydiant? Mae eu hundebau llafur—Community, Unite, UCATT a GMB—wedi bod yn ymgyrchu'n ddiflino dros gael bargen deg ar gyfer dur, ac rwy'n gobeithio y bydd y ddadl hon yn cynnig cefnogaeth bellach. Ar eu rhan, hoffwn ddiolch i'r Aelodau a gyfarfu â hwy amser cinio heddiw y tu allan i'r Senedd i ddangos y gefnogaeth honno.

Members should, by now, be aware that my constituency includes my home town of Port Talbot, which is a proud steel town. For over 100 years, the steel industry in Port Talbot has been providing jobs and apprenticeships for the people of the town and surrounding areas, and I'm grateful to the generations of workers who have helped keep steelmaking productive and vibrant over those years. As Alan Coombes, chair of the multi-union committee at the plant, said at the recent rally in Sheffield, steel is now in the DNA of many local people. It's at our heart.

Erbyn hyn, bydd yr Aelodau'n gwybod bod fy etholaeth yn cynnwys Port Talbot, fy nhref enedigol, sy'n dref ddur falch. Am dros 100 mlynedd, mae'r diwydiant dur ym Mhort Talbot wedi bod yn darparu swyddi a phrentisiaethau ar gyfer pobl y dref a'r ardaloedd cyfagos, ac rwy'n ddiolchgar i'r cenedlaethau o weithwyr sydd wedi helpu i gadw'r gwaith dur yn gynhyrchiol ac yn fywiog dros y blynyddoedd hynny. Fel y dywedodd Alan Coombes, cadeirydd pwyllgor aml-undeb y gwaith, yn y rali yn Sheffield yn ddiweddar, mae dur yn rhan o DNA llawer o bobl leol bellach. Mae yn ein calonnau.

But steelmaking is not only at the heart of Port Talbot—it's a wider industry; it is a UK industry of national strategic importance and it should be fully supported by the Governments here in Wales and in Westminster. Steel is at the heart of UK manufacturing, and, as such, it helps balance the books and is critical to other sectors, including defence and automotive.

Ond nid yng nghalon Port Talbot yn unig y mae'r diwydiant cynhyrchu dur—mae'n ddiwydiant ehangach; mae'n ddiwydiant sydd o bwys strategol cenedlaethol yn y DU a dylai'r Llywodraethau yma yng Nghymru ac yn San Steffan ei gefnogi'n llawn. Mae dur yn ganolog i weithgynhyrchu yn y DU, ac yn hynny o beth, mae'n helpu i fantoli'r cyfrifon ac yn allweddol i sectorau eraill, gan gynnwys y sector amddiffyn a'r sector modurol.

However, today the steel industry is at breaking point. This is a crisis for one of the most important foundation industries in the British economy, an industry that employs approximately 30,000 people in the UK in highly-skilled and well-paid jobs, with over 8,000 of those employed within Wales. These jobs usually exist in our industrial heartlands, areas where we also see high unemployment, and thus not only does steel drive national and local economies, it also offers hope and opportunities to many seeking employment. Further to those directly employed, the steel industry also supports thousands more jobs, with Cardiff Business School estimating that 18,000 here in Wales are dependent upon Tata Steel alone.

Fodd bynnag, heddiw mae'r diwydiant dur ar ben ei dennyn. Mae'n argyfwng ar un o'r diwydiannau sylfaenol pwysicaf yn economi Prydain, diwydiant sy'n cyflogi tua 30,000 o bobl yn y DU mewn swyddi medrus iawn sy'n talu'n dda, gyda thros 8,000 ohonynt yng Nghymru. Fel arfer, mae'r swyddi hyn wedi'u lleoli yn ein cadarnleoedd diwydiannol, ardaloedd lle rydym hefyd yn gweld lefelau uchel o ddiweithdra, ac felly mae dur nid yn unig yn cynnal economïau cenedlaethol a lleol, mae hefyd yn cynnig gobaith a chyfleoedd i lawer o bobl sy'n chwilio am waith. Yn ychwanegol at y rhai a gyflogir yn uniongyrchol, mae'r diwydiant dur hefyd yn cefnogi miloedd yn fwy o swyddi, gydag Ysgol Fusnes Caerdydd yn amcangyfrif bod 18,000 o swyddi yma yng Nghymru yn dibynnu ar Tata Steel yn unig.

Steel is also fundamental to strategic sectors like automotive, rail, construction and energy. With the World Steel Association estimating that global steel use will rise from approximately 1.5 billion tonnes a year currently to around 2.5 billion tonnes by 2050, it has the potential to enjoy a long, sustainable, innovative and productive future. It seems we just need the UK Government to see that.

Mae dur hefyd yn hanfodol i sectorau strategol fel y sectorau modurol, rheilffyrdd, adeiladu ac ynni. Gyda Chymdeithas Dur y Byd yn amcangyfrif y bydd y defnydd byd-eang o ddur yn codi o tua 1.5 biliwn o dunelli y flwyddyn ar hyn o bryd i tua 2.5 biliwn o dunelli erbyn 2050, mae ganddo'r potensial i fwynhau dyfodol hir, cynaliadwy, arloesol a chynhyrchiol. Mae'n ymddangos mai'r hyn sydd ei angen arnom yw i Lywodraeth y DU weld hynny.

But, today, the industry faces a number of urgent and critical challenges. Not only is there a growing crisis here in Wales and the UK, but there is also a global crisis facing the steel industry. We must ensure that we put in place strategies to ensure that we give the British steel industry the opportunity to compete fully and competitively in this changing market. I find it astonishing that the UK's Secretary of State for business was quoted as 'not liking' an industrial strategy. I hope there are Welsh MPs, including Tory MPs, who will be telling him that the existence of such an industrial strategy is key to protecting our heavy industries and manufacturing sectors.

Ond heddiw, mae'r diwydiant yn wynebu nifer o heriau dwys a difrifol. Mae argyfwng cynyddol yn wynebu'r diwydiant dur, nid yn unig yma yng Nghymru ac yn y DU, ond yn fyd-eang hefyd. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn sefydlu strategaethau i wneud yn siŵr ein bod yn rhoi cyfle i ddiwydiant dur Prydain gystadlu'n llawn ac yn gystadleuol yn y farchnad sy'n newid. Mae'n rhyfeddol i mi fod Ysgrifennydd Gwladol y DU dros fusnes, wedi dweud nad yw'n hoffi strategaeth ddiwydiannol. Rwy'n gobeithio y bydd Aelodau Seneddol Cymreig, gan gynnwys Aelodau Seneddol Torïaidd, yn dweud wrtho fod bodolaeth strategaeth ddiwydiannol o'r fath yn allweddol i ddiogelu ein diwydiannau trwm a'n sectorau gweithgynhyrchu.

Research undertaken in partnership with UK Steel has shown that the steel industry in the UK is disadvantaged to the tune of £431 million a year compared with our global competitors as a result of the exchange rate, energy policy costs, air pollution targets and business rates. I fully support international trade, but free trade must also be fair. We should be restricting a torrent of cheap, low quality steel being 'dumped' on European markets. China's surplus production is almost twice the annual production of the whole of the EU. It is dumping this surplus within the EU and it is strangling our steel industries. The UK should be at the forefront of demanding rapid and effective action to stop it. Action to tackle dumping is vital and long overdue.

Mae ymchwil a gynhaliwyd ar y cyd gydag UK Steel wedi dangos bod diwydiant dur y DU dan oddeutu £431 miliwn y flwyddyn o anfantais o gymharu â'n cystadleuwyr byd-eang yn sgil y gyfradd gyfnewid, costau polisi ynni, targedau llygredd aer ac ardrethi busnes. Rwy'n llwyr gefnogi'r fasnach ryngwladol, ond mae'n rhaid i fasnach rydd fod yn deg hefyd. Dylem fod yn cyfyngu ar y domen o ddur rhad, o ansawdd isel sy'n cael ei 'ddadlwytho' ar farchnadoedd Ewropeaidd. Mae gorgynhyrchiant Tsieina bron ddwywaith cymaint â chyfanswm cynhyrchiant blynyddol yr UE. Mae'n dadlwytho'r gormodedd hwn yn yr UE ac mae'n tagu ein diwydiannau dur. Dylai'r DU fod ar flaen y gad yn galw am gamau gweithredu cyflym ac effeithiol i atal hyn. Mae'n hanfodol, ac yn hen bryd cymryd camau i fynd i'r afael â dadlwytho.

High production costs, such as energy and environmental taxes, are crippling the industry, and added to that, the strong pound makes exports more expensive in the markets. I and others have been calling for action on energy costs for many years to ensure that UK manufacturing is on a level playing field with its European competitors. Again, UK action is needed now.

Mae costau cynhyrchu uchel, megis trethi ynni a threthi amgylcheddol, yn niweidio'r diwydiant, ac yn ychwanegol at hynny, mae'r bunt gref yn gwneud allforion yn ddrutach yn y marchnadoedd. Rwyf innau ac eraill wedi bod yn galw am weithredu ar gostau ynni ers blynyddoedd lawer er mwyn sicrhau chwarae teg rhwng cwmnïau gweithgynhyrchu'r DU a chystadleuwyr Ewropeaidd. Unwaith eto, mae angen gweithredu yn y DU ar unwaith.

What has the UK Government done to help the steel industry? I welcome the announcement in last week's CSR to remove the environmental taxes it has previously imposed against the industry. This does provide a better solution than simply offering compensation—but it is far too little, far too late and it won't truly take effect until 2017, which will be too far in the future for some, if not all, in the industry. Karl Köhler of Tata Steel has said that the impact is marginal in today's business environment, that there's no clarity when such levies will be stopped and that there is a lack of concrete action by the UK Government since the recent steel summit.

Beth y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud i helpu'r diwydiant dur? Croesawaf gyhoeddiad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yr wythnos diwethaf i ddileu'r trethi amgylcheddol yr arferai eu codi ar y diwydiant. Mae hyn yn ateb gwell na chynnig iawndal yn unig—ond mae'n llawer rhy ychydig, yn llawer rhy hwyr ac ni ddaw i rym mewn gwirionedd tan 2017, a fydd yn rhy bell yn y dyfodol i ambell un, os nad pob un, yn y diwydiant. Mae Karl Köhler o Tata Steel wedi dweud mai prin yw'r effaith yn amgylchedd busnes heddiw, nad oes unrhyw eglurder o ran pa bryd y bydd ardollau o'r fath yn dod i ben ac nad yw Llywodraeth y DU wedi rhoi camau pendant ar waith ers yr uwchgynhadledd ddiweddar ar ddur.

Once again, the chancellor has failed to address the most critical issue: the high energy costs facing the steel industry. Despite announcing in the autumn statement 2011 about the ability to lower energy costs, four years on we are still waiting. It shows that the Tory Government has no time for steel; it actually took a crisis in Redcar for the business Secretary to even consider holding talks on it, and backbencher and opposition debates to make him go to Europe for talks. I fear that this all points to a lack of enthusiasm and commitment by this Tory Government to maintain a strong steel industry within the UK.

Unwaith eto, mae'r canghellor wedi methu â mynd i'r afael â'r mater mwyaf allweddol: y costau ynni uchel sy'n wynebu'r diwydiant dur. Er gwaethaf y cyhoeddiad yn natganiad yr hydref 2011 ynghylch y gallu i ostwng costau ynni, bedair blynedd yn ddiweddarach, rydym yn dal i aros. Mae'n dangos nad oes gan y Llywodraeth Dorïaidd amser ar gyfer dur; bu'n rhaid cael argyfwng yn Redcar cyn i'r Ysgrifennydd busnes hyd yn oed ystyried cynnal trafodaethau yn ei gylch, a dadleuon gan y meinciau cefn a'r gwrthbleidiau i wneud iddo fynd i Ewrop i drafod. Mae arnaf ofn fod hyn oll yn awgrymu diffyg brwdfrydedd ac ymrwymiad gan y Llywodraeth Dorïaidd hon i gynnal diwydiant dur cryf yn y DU.

The Welsh Government has more limited actions it can take and I ask the Minister if she can provide details of what it intends to do. I can offer some thoughts. By being creative in its approach, the Welsh Government can use its public procurement policy to support the steel industry. It can also increase pressure on the UK Government to ensure that Welsh or British steel has every chance of being used in the huge infrastructure projects, such as HS2, that the Prime Minister and the Chancellor keep boasting of, rather than importing lower-quality Chinese or Turkish steel. It's ridiculous that a factory in Oakdale is actually getting steel from Sweden and not just down the road to build scout specialist vehicles.

Mae gan Lywodraeth Cymru gamau gweithredu mwy cyfyngedig y gall eu cymryd a gofynnaf i'r Gweinidog a yw'n gallu rhoi manylion am yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud. Gallaf gynnig rai syniadau. Drwy fod yn greadigol o ran ei dull, gallai Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei pholisi caffael cyhoeddus i gefnogi'r diwydiant dur. Gallai hefyd gynyddu pwysau ar Lywodraeth y DU i sicrhau pob cyfle i ddefnyddio dur Cymru neu Brydain yn y prosiectau seilwaith mawr, megis HS2, sy'n destun brolio mawr i'r Prif Weinidog a'r Canghellor, yn hytrach na mewnforio dur o ansawdd gwaeth o Tsieina neu Dwrci. Mae'n hurt fod ffatri yn Oakdale yn cael ei dur o Sweden mewn gwirionedd yn hytrach nag o lawr y ffordd ar gyfer adeiladu cerbydau 'scout' arbenigol.

I also ask the Minister to look at what action could be taken in respect of relieving costs on industrial businesses, such as business rates. We should strive to bring business rates in Wales for capital-intensive firms in line with those for their competitors in other EU countries such as France and Germany. UK companies currently pay between five and 10 times more than their EU competitors.

Gofynnaf hefyd i'r Gweinidog edrych ar ba gamau y gellid eu cymryd i leihau costau i fusnesau diwydiannol, megis ardrethi busnes. Dylem ymdrechu i sicrhau bod ardrethi busnes yng Nghymru ar gyfer cwmnïau cyfalaf-ddwys yn unol â'r rhai ar gyfer eu cystadleuwyr mewn gwledydd eraill yn yr UE fel Ffrainc a'r Almaen. Ar hyn o bryd mae cwmnïau yn y DU yn talu rhwng pump a 10 gwaith yn fwy na'u cystadleuwyr yn yr UE.

The Minister has also previously indicated that another action could be the removal of plant and machinery from the business rates valuation process for manufacturing. Plant and machinery can make up a significant proportion of a steel site's rateable value. Under the current system, manufacturers that invest in new plant and machinery to make innovative products, to make them more efficient and to meet regulatory standards, are punished by business rates. Tata Steel recently invested £185 million in the construction of a new blast furnace in Port Talbot and subsequently faced a £400,000 increase in its business rates bill. It is important that we incentivise investment in our manufacturing industries to ensure their continual development and operation.

Mae'r Gweinidog hefyd wedi nodi y gellid cael gwared ar offer a pheiriannau o'r broses o brisio ardrethi busnes ar gyfer gweithgynhyrchu. Gall offer a pheiriannau ffurfio cyfran sylweddol o werth ardrethol safle dur. O dan y system bresennol, mae cynhyrchwyr sy'n buddsoddi mewn offer a pheiriannau newydd i wneud cynhyrchion arloesol, er mwyn eu gwneud yn fwy effeithlon ac i gyrraedd safonau rheoleiddio, yn cael eu cosbi gan ardrethi busnes. Yn ddiweddar, buddsoddodd Tata Steel £185 miliwn yn y gwaith o adeiladu ffwrnais chwyth newydd ym Mhort Talbot ac wynebu cynnydd o £400,000 yn eu bil ardrethi busnes. Mae'n bwysig ein bod yn cymell buddsoddi yn ein diwydiannau gweithgynhyrchu er mwyn sicrhau eu datblygiad a'u gweithrediad parhaus.

We can also look at how we help support apprenticeships and training, especially following the UK Government's announcement of actually imposing a levy on large business for apprenticeships. We want to invest in our next generation of skilled workers, not put barriers up to businesses to halt them.

Gallwn hefyd edrych ar sut rydym yn helpu i gefnogi prentisiaethau a hyfforddiant, yn enwedig ar ôl cyhoeddiad Llywodraeth y DU ynglŷn â gosod ardollau ar fusnesau mawr ar gyfer prentisiaethau. Rydym yn awyddus i fuddsoddi yn ein cenhedlaeth nesaf o weithwyr medrus, yn hytrach na gosod rhwystrau i atal busnesau.

Llywydd, the steel industry has a proud past. Many Members here today will talk about that past. It's vitally important in the present—its role in our manufacturing is unquestionable—but it should also have a truly promising future. I hope that the actions taken today and in future by the Welsh Government and hopefully the UK Government, if it gets its act together, will support that future.

Lywydd, mae gan y diwydiant dur orffennol balch. Bydd llawer o'r Aelodau yma heddiw yn siarad am y gorffennol hwnnw. Mae'n hanfodol bwysig ar hyn o bryd—mae ei rôl yn ein sector gweithgynhyrchu yn ddiamheuol—ond dylai hefyd gael dyfodol gwirioneddol addawol. Gobeithiaf y bydd y camau a gymerir heddiw ac yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru, a chan Lywodraeth y DU gobeithio, os yw'n rhoi trefn ar ei phethau, yn cefnogi'r dyfodol hwnnw.

To conclude my contribution, we must remember that the thousands of workers who depend upon the steel industry and their families are under a grey cloud of uncertainty about their futures. We must do everything possible to protect those jobs. We do not wish to see the devastation to our communities that is currently being seen in the north of England as a consequence of the decisions taken to close Redcar and limit the production in Scunthorpe. It's time we now take action. It's time the UK Government took action. It's time to support and save our steel industry.

I gloi fy nghyfraniad, rhaid i ni gofio bod y miloedd o weithwyr sy'n dibynnu ar y diwydiant dur a'u teuluoedd o dan gwmwl llwyd o ansicrwydd ynghylch eu dyfodol. Rhaid i ni wneud popeth yn ein gallu i ddiogelu'r swyddi hynny. Nid ydym yn dymuno gweld yr un dinistr i'n cymunedau ni â'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yng ngogledd Lloegr o ganlyniad i'r penderfyniadau i gau Redcar ac i gyfyngu ar y cynhyrchiant yn Scunthorpe. Mae'n bryd i ni weithredu. Mae'n bryd i Lywodraeth y DU weithredu. Mae'n bryd cefnogi ac achub ein diwydiant dur.

15:14 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, there's universal understanding on the issues affecting the UK steel industry, and the recent fall in international demand for steel combined with continuing growth in production has clearly created a glut of steel on the international market.

Yn amlwg, ceir dealltwriaeth gyffredinol o'r materion sy'n effeithio ar ddiwydiant dur y DU, ac mae'r cwymp diweddar yn y galw rhyngwladol am ddur ynghyd â'r twf parhaus mewn cynhyrchiant wedi creu gormodedd o ddur yn y farchnad ryngwladol.

Since the turn of the century, world steel production has increased by 96 per cent, mostly driven by increases in Chinese steel production, which in 2013 totalled 779 million tonnes: 48 per cent of the world total. Clearly, this has pushed down steel prices, magnifying the comparative expense of steel produced in the United Kingdom. The UK produced some 12 million tonnes, exporting 7.6 million tonnes, but importing 6.4 million tonnes. In contrast, 2007-08 saw a sharp decline of 31 per cent of output of steel in the United Kingdom. Some analysts have questioned the economic viability of the United Kingdom steel industry, but the Prime Minister has stated the UK Government's committed support to this industry, which he describes as vital. This support has been demonstrated by calling for—speaking strongly at the EU's Competitiveness Council to investigate measures that may be taken to address the steel dumping by China. There was the announcement in the autumn statement that the energy-intensive industries, such as steel and chemicals, would be permanently exempted from green levies. The Chancellor highlighted that this exemption would help to keep their bills down, keep them competitive and keep them here. It places our industry on the same level terms with other EU countries. It was a measure steelmakers immediately acknowledged to cut their energy bills, offering early relief. Karl Köhler, as already described, said:

Ers troad y ganrif, mae cynhyrchiant dur y byd wedi cynyddu 96 y cant, yn bennaf oherwydd y cynnydd yng nghynhyrchiant dur Tsieina, sef cyfanswm o 779 miliwn o dunelli yn 2013: 48 y cant o gyfanswm y byd. Yn amlwg, mae hyn wedi gwthio prisiau dur i lawr, gan chwyddo cost gymharol y dur a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig. Cynhyrchodd y DU oddeutu 12 miliwn o dunelli, gan allforio 7.6 miliwn o dunelli, ond gan fewnforio 6.4 miliwn o dunelli. Ar y llaw arall, bu gostyngiad sydyn o 31 y cant yn 2007-08 yn allbwn dur y Deyrnas Unedig. Mae rhai dadansoddwyr wedi cwestiynu hyfywedd economaidd diwydiant dur y Deyrnas Unedig, ond mae'r Prif Weinidog wedi datgan cefnogaeth ymroddedig Llywodraeth y DU i'r diwydiant hwn, ac mae'n ei ddisgrifio fel diwydiant hanfodol. Dangoswyd y gefnogaeth hon drwy alw am—drwy siarad yn gryf yng Nghyngor Cystadleurwydd yr UE ynghylch ymchwilio i fesurau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r dadlwytho dur gan Tsieina. Roedd cyhoeddiad yn natganiad yr hydref y byddai'r diwydiannau ynni-ddwys, fel dur a chemegion, yn cael eu heithrio'n barhaol rhag ardollau gwyrdd. Dynododd y Canghellor y byddai'r eithriad hwn yn helpu i gadw eu biliau'n is, eu cadw'n gystadleuol a'u cadw yma. Mae'n sicrhau chwarae teg i'n diwydiant ar yr un telerau â gwledydd eraill yr UE. Roedd yn fesur y cydnabu'r cynhyrchwyr dur ar unwaith y byddai'n lleihau eu biliau ynni, gan gynnig rhyddhad cynnar. Fel y disgrifiwyd eisoes, dywedodd Karl Köhler:

'It is welcome as an exemption gives greater clarity that these costly levies will not reappear.'

'It is welcome as an exemption gives greater clarity that these costly levies will not reappear.'

But other commentators have mentioned that Tata Steel could do their bit in using more of the steel they produce in their automotive projects. We also understand these measures only begin to address the issues facing our steel industry. In addition to taking measures to exempt and compensate energy-intensive industries, the UK Government is also examining how the business rates system can be revised to assist business growth. I know that, here in Wales, the Minister has made strenuous efforts and will no doubt announce more in the future to help that one particular thing that the Welsh Government can do to help our steel industry in Wales. The UK Government has created infrastructure pipelines, setting out the UK's future infrastructure needs, defining steel requirements for the UK to enable capacity planning. Public contract regulations have been altered to include social and environmental considerations—

Ond mae sylwebyddion eraill wedi crybwyll y gallai Tata Steel chwarae eu rhan drwy ddefnyddio mwy o'r dur y maent yn ei gynhyrchu yn eu prosiectau moduro. Deallwn hefyd mai dechrau mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu ein diwydiant dur yn unig y mae'r mesurau hyn. Yn ogystal â chymryd camau i eithrio a digolledu diwydiannau ynni-ddwys, mae Llywodraeth y DU hefyd yn archwilio sut y gellid diwygio'r system ardrethi busnes i hybu twf busnes. Gwn fod y Gweinidog, yma yng Nghymru, wedi ymdrechu'n ddygn ac y bydd, heb os, yn cyhoeddi mwy yn y dyfodol i helpu'r un peth penodol y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu ein diwydiant dur yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU wedi creu piblinellau seilwaith, gan nodi anghenion seilwaith y DU ar gyfer y dyfodol, a diffinio gofynion dur y DU fel bod modd cynllunio capasiti. Mae rheoliadau contractau cyhoeddus wedi eu newid i gynnwys ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol—

15:17 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member taken an intervention?

A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?

15:17 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will, of course.

Gwnaf, wrth gwrs.

15:17 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If the UK Government are so enthusiastic about British steel, why on earth have they got the Chinese to be bringing over the steel for the new nuclear power station over the estuary there?

Os yw Llywodraeth y DU mor frwdfrydig ynglŷn â dur Prydain, pam ar y ddaear ei bod yn defnyddio dur o Tsieina ar gyfer yr orsaf bŵer niwclear newydd dros yr aber?

15:17 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can't answer that question. Clearly, it's done by procurement and by free competition, but directing public procurement, as I've said and making UK contracts and producers easier to find and encouraging private sector manufacturers in the UK to use UK suppliers of steel—. In terms of major infrastructure projects, 97 per cent of Crossrail was actually United Kingdom content. Vitally, the UK Government continues to secure a more rigorous system of anti-dumping rules that can be enforced across the EU that prevent particularly Chinese firms selling steel at below market rates within the EU, and £50 million has already been provided by the United Kingdom Government to energy-intensive industries, but I'm sure we can all take heart from the recommencement of steel processing at Liberty Steel in Newport more than two years after the plant was put out of operation. While this is good news for Newport and re-emphasises the importance of the steel industry to the local and the Welsh economies, this plant will import slabs of steel from countries and process them to coil steel.

Ni allaf ateb y cwestiwn hwnnw. Yn amlwg, caiff ei wneud drwy gaffael a thrwy gystadleuaeth rydd, ond drwy gyfeirio caffael cyhoeddus, fel y dywedais, a gwneud contractau a chynhyrchwyr yn y DU yn haws i'w darganfod ac annog gweithgynhyrchwyr sector preifat y DU i ddefnyddio cyflenwyr dur y DU—. O ran prosiectau seilwaith mawr, roedd 97 y cant o Crossrail yn defnyddio cynnwys o'r Deyrnas Unedig. Yn hanfodol, mae Llywodraeth y DU yn dal i geisio sicrhau system fwy trylwyr o reolau gwrth-ddadlwytho y gellir eu gorfodi ledled yr UE i atal cwmnïau, yn enwedig cwmnïau o Tsieina, rhag gwerthu dur yn rhatach na chyfraddau'r farchnad yn yr Undeb Ewropeaidd, ac mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisoes wedi darparu £50 miliwn i'r diwydiannau ynni-ddwys, ond rwy'n sicr bod ailddechrau prosesu dur yng Liberty Steel yng Nghasnewydd dros ddwy flynedd wedi i'r gwaith orffen gweithredu yn galondid i bawb yma. Er bod hyn yn newyddion da i Gasnewydd ac yn ailbwysleisio pwysigrwydd y diwydiant dur i'r economi leol ac i economi Cymru, bydd y gwaith hwn yn mewnforio slabiau o ddur o wledydd ac yn eu prosesu i ffurfio dur coil.

## William Graham Bywgraffiad Biography

The actions called for within this motion are already being enacted by the UK Government, notably the regard to the energy costs faced by energy-intensive industries in Wales and ensuring the competitiveness of our steel producers in a global market. In supporting this motion, it is vital that all levels of government continue to implement every possible measure to ensure we sustain our steel industry, a goal that will be most effectively achieved with full collaboration between the Welsh Government, the United Kingdom Government and the European Union.

Mae'r camau gweithredu y mae'r cynnig hwn yn galw amdanynt eisoes ar waith gan Lywodraeth y DU, yn fwyaf penodol y sylw i'r costau ynni a wynebir gan ddiwydiannau ynni-ddwys Cymru a sicrhau cystadleurwydd ein cynhyrchwyr dur mewn marchnad fyd-eang. Wrth gefnogi'r cynnig hwn, mae'n hanfodol i bob haen o lywodraeth barhau i weithredu pob cam posibl i sicrhau ein bod yn cynnal ein diwydiant dur, nod a gyflawnir yn fwyaf effeithiol drwy gydweithrediad llawn rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

15:19

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The economy of the area of Llanelli, Neath Port Talbot and Swansea was historically based on coal and metal industries. Port Talbot's steelworks and Trostre's tinplate works are the only large-scale metalworking plants left in the area. There are some smaller plants, but they are the only very large-scale ones. I speak as an ex-steelworker, employed in the research centre in Port Talbot, who worked in Port Talbot, Llanwern, Ebbw Vale, Orb and Redcar sites. The Port Talbot steelworks at the time of peak employment in the 1960s was Europe's largest steelworks and the largest single employer in Wales with a workforce of 18,000. Output in Port Talbot is currently taken by rail to Shotton for coating, Trostre for tinplating, or direct to the west midlands for the motor industry and domestic goods factories. Trostre is the last of the tinplate plants left that were created to replace the hand mills that were spread throughout Swansea and Llanelli.

Yn y dyddiau a fu, roedd economi ardal Llanelli, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yn seiliedig ar y diwydiannau glo a metel. Gwaith dur Port Talbot a gwaith tunplat Trostre yw'r unig weithfeydd metel mawr sydd ar ôl yn yr ardal. Ceir rhai gweithfeydd llai, ond y rhain yw'r unig rai ar raddfa fawr iawn. Rwy'n siarad fel cyn-weithiwr dur, a gyflogwyd yn y ganolfan ymchwil ym Mhort Talbot, a gweithiais ar safleoedd Port Talbot, Llanwern, Glynebwy, Orb a Redcar. Gwaith dur Port Talbot, ar yr adeg pan oedd nifer y gweithwyr yno ar ei lefel uchaf yn y 1960au, oedd gwaith dur mwyaf Ewrop a chyflogwr unigol mwyaf Cymru gyda gweithlu o 18,000. Mae allbwn Port Talbot ar hyn o bryd yn mynd ar y rheilffordd i Shotton ar gyfer cotio, Trostre ar gyfer tunplatio, neu'n uniongyrchol i orllewin canolbarth Lloegr ar gyfer y diwydiant moduron a'r ffatrïoedd nwyddau domestig. Trostre yw'r unig waith tunplat sydd ar ôl o'r gweithfeydd a grëwyd yn lle'r melinau llaw a welid ledled Abertawe a Llanelli.

Many of my constituents work in the steel industry, but very many more, like myself, used to work in the steel industry, and I follow a long line. My grandfather worked in the Mannesmann works as a plumber, my father worked in the Mannesmann works as a crane driver and I worked in British Steel. I can guarantee probably one day saying my daughter will almost certainly not be working in a steelworks. I think that's a very sad position to be in.

Mae llawer o fy etholwyr yn gweithio yn y diwydiant dur, ond mae mwy o lawer a oedd, fel minnau, yn arfer gweithio yn y diwydiant dur, ac rwy'n dod o linach hir. Gweithiai fy nhaid yng ngwaith Mannesmann fel plymwr, fy nhad yng ngwaith Mannesmann fel gyrrwr craen a minnau yn British Steel. Mae'n debyg y gallaf warantu y byddaf un diwrnod yn dweud bron yn sicr na fydd fy merch yn gweithio mewn gwaith dur. Rwy'n credu bod honno'n sefyllfa drist iawn i fod ynddi.

It is hugely beneficial to the local economy in terms of direct employment, employment of contractors and the supply chain. It has also historically been a high wage payer compared to other employment in the area. The loss of either Port Talbot or Trostre would be catastrophic to the economy of the area and the Welsh GDP. And as people keep talking about devolving income tax, it would have a serious effect on the income tax collected in Wales and also to the individuals who will obviously lose their jobs.

Mae'n hynod fuddiol i'r economi leol o ran cyflogaeth uniongyrchol, cyflogi contractwyr a'r gadwyn gyflenwi. Yn hanesyddol, mae hefyd wedi talu cyflogau uchel o gymharu â mathau eraill o gyflogaeth yn yr ardal. Byddai colli naill ai Port Talbot neu Drostre yn drychinebus i economi'r ardal a chynnyrch domestig gros Cymru. Ac wrth i bobl barhau i siarad am ddatganoli treth incwm, byddai'n cael effaith ddifrifol ar y dreth incwm a gesglir yng Nghymru a hefyd, yn amlwg, ar yr unigolion a fydd yn colli eu swyddi.

Steel making is a relatively simple process. You start with the raw materials coal, limestone and iron ore and you create sinter. Iron is made in a blast furnace, and steel in a basic oxygen steel-making plant. The steel is continuously cast, it goes into the soaking pits, and is hot rolled, cold rolled and then sent out. Apart from cold rolling, all the above processes are very highly energy intensive. Steel's melting point is about 1370 degrees centigrade, so it would have to be above that when it's being poured. Hot rolling: the starting temperature, depending on the type of steel, is 1100 to 1300 degrees centigrade, and the finishing temperature of hot rolling is 900 if you're creating austenite and 750 if you're creating ferrite. That's hot, and you've got to get the energy and the temperature to get that and that's highly expensive.

Mae gwneud dur yn broses gymharol syml. Rydych yn dechrau gyda'r deunyddiau crai, sef glo, calchfaen a mwyn haearn ac yn creu sinter. Gwneir haearn mewn ffwrnais chwyth, a dur mewn ffatri ocsigen sylfaenol ar gyfer gwneud dur. Mae'r dur yn cael ei gastio'n barhaus, mae'n mynd i mewn i'r pyllau mwydo, ac yn cael ei rolio'n boeth, ei rolio'n oer ac yna'i ddanfon allan. Ar wahân i rolio oer, mae'r holl brosesau uchod yn defnyddio llawer iawn o ynni. Mae toddbwynt dur oddeutu 1,370 gradd canradd, felly mae'n rhaid iddo fod yn uwch na hynny pan fo'n cael ei dywallt. Rholio poeth: mae'r tymheredd cychwynnol, yn dibynnu ar y math o ddur, rhwng 1100 a 1300 gradd canradd, ac mae tymheredd wrth orffen proses rholio poeth yn 900 os ydych yn creu awstenit ac yn 750 os ydych yn creu fferrit. Mae hynny'n boeth, ac i gael hynny mae'n rhaid i chi gael yr ynni a'r tymheredd, ac mae hynny'n hynod o ddrud.

We have in south Wales lost a previous high-energy-using metal manufacture in the aluminium industry: the company BACo—the British Aluminium Company—a subsidiary of Tube Investments; AWCO—the Aluminium Wire and Cable Co.—in Swansea East and in the Aberavon constituencies; and BACo's two plants in Neath—all closed due to high energy costs. We cannot allow the steel industry to go the same way.

Yn ne Cymru rydym wedi colli gweithgynhyrchu metel ynni-ddwys yn y diwydiant alwminiwm: cwmni BACo—y British Aluminium Company—is-gwmni Tube Investments; AWCO—yr Aluminium Wire and Cable Co.—yn etholaethau Dwyrain Abertawe ac Aberafan; a dau o weithfeydd BACo yng Nghastell-nedd—mae pob un ohonynt wedi cau oherwydd costau ynni uchel. Ni allwn ganiatáu i'r diwydiant dur fynd yr un ffordd.

The energy costs for major industries need to be set at the same level as our European competitors, and more importantly, our competitors in China. We are strong on quality. We cannot compete on price, mainly because our energy costs are so high. We need guaranteed low energy prices for Welsh steelworks. We need to reject steel that comes in at a lower standard than that being produced in Europe and at a lower standard than the British standards. Then we will save the Welsh steel industry. If we don't do that, we will lose our steel industry. I think it's really important that the Government at Westminster listen to us, because they have the power at their disposal in order to save an industry, which I think is tremendously important to the economy of Wales.

Mae angen gosod costau ynni ar gyfer ein diwydiannau mawr ar yr un lefel â'n cystadleuwyr yn Ewrop, ac yn bwysicach, ein cystadleuwyr yn Tsieina. Mae ansawdd yn bwysig i ni. Ni allwn gystadlu ar bris, yn bennaf am fod ein costau ynni mor uchel. Mae angen gwarantu prisiau ynni isel ar gyfer y gwaith dur yng Nghymru. Mae angen i ni wrthod dur a ddaw i mewn sydd o safon is na'r hyn sy'n cael ei gynhyrchu yn Ewrop ac o safon is na safonau Prydain. Yna, gallwn achub diwydiant dur Cymru. Os na wnawn hynny, fe gollwn ein diwydiant dur. Credaf ei bod yn bwysig iawn i Lywodraeth San Steffan wrando arnom, gan fod y pŵer ganddynt at eu defnydd i arbed diwydiant sy'n hynod o bwysig i economi Cymru yn fy marn i.

15:22 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In the heart of the Port Talbot steelworks—the Abbey works—there stands a wall. Dwarfed by the nearby apparatus of industry, this wall is believed to be all that is left of Margam Abbey, founded in the twelfth century by the Cistercian friars, one of whom, the Red Monk, is rumoured to haunt the site and bestow good fortune upon those who see him. That wall is carefully avoided, and meticulously cared for. There's no shortage of volunteers for this work, because it is said that if the wall falls, then the works will close its gates, never to reopen.

Yng nghanol gwaith dur Port Talbot—gweithfeydd Abbey—mae yna wal. Nid yw'n ddim o beth o gymharu â pheiriannau'r diwydiant gerllaw, a chredir mai'r wal hon yw'r cyfan sydd ar ôl o Abaty Margam, a sefydlwyd yn y ddeuddegfed ganrif gan y brodyr Sistersaidd, ac mae si fod un ohonynt, y Mynach Coch, yn cerdded y safle ac yn rhoddi lwc dda i'r rhai sy'n ei weld. Mae'r wal honno'n cael llonydd a gofal mawr. Nid oes prinder gwirfoddolwyr i wneud y gwaith hwn, oherwydd pe bai'r wal yn disgyn, honnir y byddai'r gweithfeydd yn cau a byth yn ailagor.

Stories of this kind often grow up in industries where the work can be dangerous. I tell it because it gives an insight into the culture of the works, and of a town that has grown up on steel making, and which relies overwhelmingly on the Abbey works' good fortunes. But it goes further than that. The reaction of people in Port Talbot to both the recent double tragedy in Cardiff and the closure of Redcar tells us how people in steel-making towns across the world see themselves very much as part of a single community.

Mae straeon o'r fath i'w clywed yn aml mewn diwydiannau lle y gallai'r gwaith fod yn beryglus. Rwy'n ei hadrodd am ei bod yn taflu goleuni ar ddiwylliant y gwaith, ac ar dref sydd wedi ei magu ar wneud dur, ac sy'n dibynnu i raddau helaeth ar ffawd gweithfeydd Abbey. Ond mae'n mynd ymhellach na hynny. Mae ymateb pobl Port Talbot i'r drasiedi ddiweddar yng Nghaerdydd a chau Redcar yn dweud wrthym sut y mae pobl mewn trefi sy'n gwneud dur ledled y byd yn ystyried eu hunain yn rhan o'r un gymuned.

I want to focus my contribution on what Wales and the Welsh Government can do in this regard. In the past few weeks, we've had a list of actions from the Minister for the Economy, Science and Transport. But what I'd like to do is satisfy myself that the support of the Welsh Government is targeted at the specific needs of Welsh steel makers, because what we're getting at the moment are assertions and headlines in this regard.

Rwyf am ganolbwyntio fy nghyfraniad ar yr hyn y gall Cymru a Llywodraeth Cymru ei wneud yn hyn o beth. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi cael rhestr o gamau gweithredu gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Ond yr hyn yr hoffwn ei wneud yw sicrhau fy hun fod cefnogaeth Llywodraeth Cymru wedi'i thargedu at anghenion penodol gwneuthurwyr dur Cymru, gan mai'r hyn a gawn ar hyn o bryd yn y cyswllt hwn yw haeriadau a phenawdau.

We know this crisis is being partly caused by the wholesale dumping of Chinese steel on world markets, as has been said, exacerbating the uncompetitiveness of domestic steel prices. We've heard the Community union call for a greater commitment to the procurement of UK-made steel on the part of Governments—something the Minister says she is exploring. I'm concerned that this could be seen as a panacea to all the problems facing Welsh steel, when, in fact, it could be an oversimplification of the issues, particularly in the markets it predominantly operates within.

Gwyddom fod yr argyfwng hwn wedi'i achosi'n rhannol gan ddadlwytho dur Tsieina ar farchnadoedd y byd sydd, fel y dywedwyd, yn gwaethygu diffyg cystadleurwydd prisiau dur domestig. Rydym wedi clywed undeb Community yn galw am fwy o ymrwymiad gan y Llywodraethau i gaffael dur a wnaed yn y DU—rhywbeth y mae'r Gweinidog yn dweud ei bod yn ei archwilio. Rwy'n bryderus y gellid dehongli hyn fel un ateb i'r holl broblemau sy'n wynebu dur yng Nghymru, pan allai, mewn gwirionedd, fod yn gorsymleiddio'r problemau, yn enwedig yn y marchnadoedd y mae'n gweithredu'n bennaf ynddynt.

Tata, at Port Talbot and at Llanwern, makes strip products. Their main uses include car door panels, white goods and other manufactured items. If the discussion around increased procurement is based on more infrastructure spend, where the requirement is predominantly for structural steel, then I have to ask how that is going to assist Tata in Wales. I accept that it may help Tata elsewhere and that may, in turn, strengthen the company's support for its Welsh operations, but that doesn't seem to be the long-term approach. So, I want to know what consideration the Welsh Government has given to stimulating domestic demand, here in Wales, for Tata strip products.

Mae Tata, ym Mhort Talbot ac yn Llanwern, yn gwneud cynhyrchion stribed. Fe'u defnyddir yn bennaf ar gyfer paneli drysau ceir, nwyddau gwynion ac eitemau eraill wedi'u gweithgynhyrchu. Os yw'r drafodaeth ynghylch caffael cynyddol yn seiliedig ar fwy o wariant ar seilwaith, lle y mae'r galw yn bennaf am ddur adeiladu, yna mae'n rhaid i mi ofyn sut y mae hynny'n mynd i gynorthwyo Tata yng Nghymru. Rwy'n derbyn y gallai fod o gymorth i Tata mewn mannau eraill ac y gallai hynny, yn ei dro, gryfhau cefnogaeth y cwmni i'w weithgarwch yng Nghymru, ond nid yw'n ymddangos mai dyna'r ymagwedd hirdymor. Felly, rwyf am wybod pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i ysgogi galw domestig, yma yng Nghymru, am gynhyrchion stribed Tata.

There was a time when the Welsh automotive industry stretched from Llanelli to Cardiff. Now, it is a shadow of its former self. Ford, Visteon, Linamar and Resolven—these are some of the companies that have sold up or moved from South Wales West in the time I've represented the region. I bet there are other ones that I haven't been able to list here today. Ford Bridgend's local procurement is dismal, and helps to explain, in part, why the value of iron and steel imports into Wales rose by 620 per cent between 1997 and 2010. It is a testament to the diligence and the endeavour of our steelworkers that our iron and steel exports increased by 94 per cent over the same period. So, does the Welsh Government know who buys steel in Wales? Is it playing a part in putting them together with Welsh steel firms? Is it taking a holistic approach to foundation industries and their manufacturing customers, or potential customers?

Bu adeg pan oedd diwydiant moduro Cymru yn ymestyn o Lanelli i Gaerdydd. Erbyn hyn, mae'n gysgod o'r hyn a fu. Ford, Visteon, Linamar a Resolven—dyma rai o'r cwmnïau sydd wedi gwerthu neu wedi symud o Orllewin De Cymru yn ystod y cyfnod y bûm yn cynrychioli'r rhanbarth. Rwy'n siŵr fod yna rai eraill nad wyf wedi gallu eu rhestru yma heddiw. Mae caffael lleol Ford Pen-y-bont ar Ogwr yn warthus, ac yn esbonio'n rhannol pam y cododd gwerth mewnforion haearn a dur i Gymru 620 y cant rhwng 1997 a 2010. Mae'r ffaith fod ein hallforion haearn a dur wedi cynyddu 94 y cant dros yr un cyfnod yn dystiolaeth o ddiwydrwydd ac ymdrech ein gweithwyr dur. Felly, a yw Llywodraeth Cymru yn gwybod pwy sy'n prynu dur yng Nghymru? A yw'n chwarae ei rhan yn eu rhoi mewn cysylltiad â chwmnïau dur Cymru? A yw'n mabwysiadu ymagwedd gyfannol tuag at ddiwydiannau sylfaenol a'u cwsmeriaid gweithgynhyrchu, neu gwsmeriaid posibl?

I'm sure the Minister will remind us that there's a lot going on in the steel industry that is beyond this Chamber's control, and no doubt that is true. But we have to lead where the UK Government is clearly not prioritising. Instead, it should be a call to arms, a challenge to us all to think sideways, to go around the problem and to do everything we can to seek solutions. We need a greater focus on skills short—if I can say the word—shortages, longer term productivity growth and a clearly defined economic strategy that takes on responsibility for our steel industry and its workers, not shifting the blame or the responsibility to Brussels or Beijing. Because I will tell you something, and I'll finish on this, I don't, and I'm sure the steelworkers here today don't want to live in a Wales that doesn't make steel. We should all feel ashamed to live in such a country if that day ever comes. That's a reason for us all to fight to save our steel.

Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ein hatgoffa bod llawer yn digwydd yn y diwydiant dur sydd y tu hwnt i reolaeth y Siambr hon, ac mae hynny'n wir heb os. Ond mae'n rhaid i ni arwain lle y mae'n amlwg nad yw Llywodraeth y DU yn blaenoriaethu. Yn hytrach, dylai fod yn alwad i'r gad, yn her i ni i gyd i feddwl yn ddargyfeiriol, i ddatrys y broblem ac i wneud popeth yn ein gallu i ddod o hyd i atebion. Mae arnom angen mwy o ffocws ar brinder sgiliau, twf cynhyrchiant yn y tymor hwy a strategaeth economaidd glir sy'n cymryd cyfrifoldeb dros ein diwydiant dur a'i weithwyr, yn hytrach na rhoi'r bai ar, neu'r cyfrifoldeb i, Frwsel neu Beijing. Oherwydd rwy'n dweud hyn wrthych, a gorffennaf gyda hyn, nid wyf fi na'r gweithwyr dur yma heddiw, rwy'n sicr, eisiau byw mewn Cymru nad yw'n gwneud dur. Dylem i gyd deimlo cywilydd ein bod yn byw mewn gwlad o'r fath os daw'r diwrnod hwnnw byth. Dyna reswm i bob un ohonom ymladd i achub ein dur.

15:27 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I begin by adding my condolences to the family of Mark Sim who lived in Caldicot and whose family remain in Caldicot, who died in the Celsa explosion, as mentioned by David Rees earlier? He was well known in the area and helped coach youth football with the Caldicot football team. It's a great loss to the community and, of course, his family.

A gaf fi ddechrau drwy fynegi fy nghydymdeimlad â theulu Mark Sim a oedd yn byw yng Nghil-y-coed, a lle y mae ei deulu o hyd, y gŵr a fu farw yn ffrwydrad Celsa, fel y soniodd David Rees yn gynharach? Roedd yn adnabyddus yn yr ardal ac yn helpu i hyfforddi pêl-droed i ieuenctid gyda thîm pêl-droed Cil-y-coed. Mae'n golled fawr i'r gymuned, ac wrth gwrs, i'w deulu.

Llywydd, in Newport East, steel still looms large in terms of the economic and industrial make-up of the constituency and, of course, it has done for very many years. Newport East is a strong steel area, and Caldicot is, actually, a good example, because areas like Caldicot, like the Ringland estate and like the Underwood estate—if you go there, you meet very many people who have strong associations with the steel industry. In fact, much of the accommodation has been used over the years by people working at Llanwern and elsewhere. The ties between Newport East and the steel industry have been very strong and remain very strong, but, obviously, we have seen mixed fortunes in recent times that have very much weakened the job scene in steel in Newport East. Many of us are familiar with that history.

Lywydd, yn Nwyrain Casnewydd, mae dur yn dal i ffurfio rhan fawr o gyfansoddiad economaidd a diwydiannol yr etholaeth, ac wrth gwrs, mae wedi gwneud hynny ers blynyddoedd lawer. Mae Dwyrain Casnewydd yn ardal ddur gref, ac mae Cil-y-coed yn enghraifft dda, gan fod ardaloedd fel Cil-y-coed, fel ystad Ringland ac ystad Underwood—os ewch yno, byddwch yn cyfarfod â llawer iawn o bobl sydd â chysylltiadau cryf â'r diwydiant dur. Yn wir, mae llawer o'r adeiladau wedi'u defnyddio dros y blynyddoedd gan bobl a oedd yn gweithio yn Llanwern a mannau eraill. Mae'r cysylltiadau rhwng Dwyrain Casnewydd a'r diwydiant dur wedi bod yn gryf iawn ac yn parhau i fod yn gryf iawn, ond yn amlwg, mae ei hanes wedi bod yn fwy cymysg yn ddiweddar ac mae hynny wedi gwanhau'r cyfleoedd am swyddi dur yn Nwyrain Casnewydd. Mae llawer ohonom yn gyfarwydd â'r hanes.

More recently still, of course, we've seen mixed fortunes in terms of Liberty Steel actually expanding and taking on people to work full-time again, having kept them on a half-time basis for quite some time. But, at Llanwern, we've seen mothballing of some of the capacity. Other steel plants in Newport East remain in reasonably good health. So, it is a mixed picture, but, obviously, we want to see full production as was, up until recently, restored at Llanwern, and a recognition of the quality of the workforce there and the quality of the products they produce. Examples of that are the Zodiac plant, for example, which remains in production and produces steel for the car industry, which is a very high quality product indeed, and other treatment and finishing processes at Llanwern.

Yn fwy diweddar, wrth gwrs, cafwyd datblygiadau mwy cymysg eto wrth i Liberty Steel ehangu a chyflogi pobl i weithio'n llawn amser unwaith eto, ar ôl eu cadw ar sail ran-amser ers tro. Ond yn Llanwern, gwelsom beth o'r gwaith yn cael ei gau dros dro. Mae gweithfeydd dur eraill yn Nwyrain Casnewydd yn parhau i fod yn weddol iach. Felly, mae'r darlun yn un cymysg, ond yn amlwg, rydym am weld adfer y cynhyrchiant llawn yn Llanwern, fel y cafwyd tan yn ddiweddar, a chydnabyddiaeth o ansawdd y gweithlu yno ac ansawdd y cynhyrchion y maent yn eu cynhyrchu. Enghraifft o hynny yw gwaith Zodiac, sy'n parhau i gynhyrchu dur o ansawdd uchel iawn ar gyfer y diwydiant ceir, a phrosesau trin a gorffen eraill yn Llanwern.

There is a strong future for steel, Llywydd, if we have the right sort of governmental commitment to that future. I think we're all aware of the crucial levers that are in the possession of the UK Government, and also how those similar levers are used elsewhere, in the European Union, for example, where we see France, Germany, Italy and others understanding that their steel industries are of strategic economic importance, and taking the necessary steps to give governmental support for their steel sectors. Unfortunately, we see very little sign of that recognition of strategic importance and urgent action, here and now in the UK, from the UK Government. So, I would very much like to add my voice to the many calling for that UK Government action.

Mae gan ddur ddyfodol cryf iawn, Lywydd, os gallwn sicrhau'r math iawn o ymrwymiad gan y llywodraeth i'r dyfodol hwnnw. Credaf ein bod i gyd yn ymwybodol o'r pwerau allweddol sydd gan Lywodraeth y DU, a hefyd, sut y defnyddir pwerau tebyg iddynt mewn mannau eraill, yn yr Undeb Ewropeaidd, er enghraifft, lle y gwelwn fod Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal ac eraill yn deall pwysigrwydd economaidd strategol eu diwydiannau dur, ac yn rhoi'r camau angenrheidiol ar waith i roi cefnogaeth lywodraethol i'w sectorau dur. Yn anffodus, ychydig iawn o arwydd a welwn o'r gydnabyddiaeth honno o bwysigrwydd strategol ac o unrhyw weithredu ar frys, ar hyn o bryd yn y DU, gan Lywodraeth y DU. Felly, hoffwn ategu'r alwad gan lawer ar Lywodraeth y DU i weithredu ar hyn.

I think we're all aware of projects elsewhere. One that I was reading of recently is in Germany, where they actually have Government aid for much greater energy efficiency, which is helping deal with the energy cost for the steel industry in Germany. And they're able to do that to a very significant level of funding notwithstanding the state aid rules, which shows that, if there is Government commitment, those rules are not necessarily an obstruction to that sort of action and policy. And what we want to see in Wales is that same help coming from the UK Government.

Credaf ein bod i gyd yn ymwybodol o brosiectau mewn mannau eraill. Yn ddiweddar darllenais am un yn yr Almaen, lle y maent yn cael cymorth gan y Llywodraeth ar gyfer sicrhau gwell effeithlonrwydd ynni, sy'n helpu i ymdopi â chost ynni i'r diwydiant dur yn yr Almaen. A gallant sicrhau lefel sylweddol iawn o gyllid er gwaethaf y rheolau cymorth gwladwriaethol, sy'n dangos nad yw'r rheolau hynny o reidrwydd yn rhwystr i'r math hwn o weithredu a pholisi os ceir ymrwymiad gan y Llywodraeth. A'r hyn rydym am ei weld yng Nghymru yw'r un cymorth yn dod gan Lywodraeth y DU.

It's also true, of course, that offering help in the future is not dealing with the here and now, and the urgency of the situation as faced. So, the announcement in the comprehensive spending review, in terms of help with energy costs in 2017, doesn't understand the very grave situation that we currently face, which may well mean that, if action is not taken, there'll be very little left of the steel industry in Wales and the UK by the time we get to 2017. The help is needed now, and the help is needed here in Wales, as well as the rest of the UK.

Mae hefyd yn wir, wrth gwrs, nad yw cynnig cymorth yn y dyfodol yn ymdrin â phethau fel y maent ar hyn o bryd, a difrifoldeb y sefyllfa a wynebir. Felly, nid yw'r cyhoeddiad yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ar gymorth tuag at gostau ynni yn 2017 yn dangos amgyffred o'r sefyllfa ddifrifol iawn rydym yn ei hwynebu ar hyn o bryd, a allai olygu, os na roddir camau ar waith, mai ychydig iawn o ddiwydiant dur Cymru a'r DU fydd ar ôl erbyn 2017. Mae angen y cymorth yn awr, ac mae angen y cymorth hwnnw yma yng Nghymru, yn ogystal â gweddill y DU.

If that case isn't understood by UK Government, and acted upon, as the Welsh Government has understood and acted, then the steel communities in Wales will, I am sure, not just take a grave view, but will take necessary steps when it comes to support for political parties, and Governments, when the appropriate time arrives.

Os nad yw Llywodraeth y DU yn deall yr achos, ac yn gweithredu yn ei gylch, fel y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddeall ac wedi gweithredu arno, yna bydd y cymunedau dur yng Nghymru, rwy'n sicr, nid yn unig yn anfodlon iawn, ond byddant yn rhoi'r camau angenrheidiol ar waith o ran cefnogi pleidiau gwleidyddol, a Llywodraethau, pan ddaw'r amser.

15:32

## Peter Black [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The UK is the second largest producer of steel, and I think that, despite the job losses and the closures that have been referred to by other Members today, steel still has the potential to be a key player in sustained economic growth in Wales, if we adopt the right policies both here and in Westminster.

Y DU yw'r cynhyrchydd dur mwyaf ond un, ac er gwaethaf y swyddi a gollwyd a'r gweithfeydd a gaewyd, fel y cyfeiriodd Aelodau eraill atynt heddiw, credaf fod gan ddur botensial o hyd i chwarae rhan allweddol yn nhwf economaidd parhaus Cymru, os awn ati i fabwysiadu'r polisïau cywir yma ac yn San Steffan.

The industry has faced great difficulties since the economic downturn of 2008-09, with increasing costs and a collapsing market. There have been great advances in the quality of the steel produced, along with the efficiency of its use. New steels are stronger, and up to 35 per cent lighter than in the past. And, if the Eiffel Tower was rebuilt, it would need just a third of the steel that stands today.

Mae'r diwydiant wedi wynebu anawsterau mawr ers dirywiad economaidd 2008-09, gyda chostau cynyddol a chwymp yn y farchnad. Mae datblygiadau mawr wedi bod yn ansawdd y dur a gynhyrchir, ynghyd ag effeithlonrwydd ei ddefnydd. Mae dur newydd yn gryfach, a hyd at 35 y cant yn ysgafnach nag yn y gorffennol. A phe bai Tŵr Eiffel yn cael ei ailadeiladu, ni fyddai ond angen traean o'r dur sy'n sefyll yno heddiw.

But Tata Steel, along with other steel companies, have been hit by heavy costs. Between quarter 1 2008 and quarter 1 2009, the iron and steel industry saw a 43 per cent fall in output, in real terms, compared to a 13 per cent fall in manufacturing output, and a 6 per cent fall in output from the whole UK economy. That is all the more reason to implement change into the way in which we are protecting and supporting the industry as a whole.

Ond mae Tata Steel, ynghyd â chwmnïau dur eraill, wedi cael eu taro gan gostau sylweddol. Rhwng chwarter cyntaf 2008 a chwarter cyntaf 2009, bu gostyngiad o 43 y cant yn allbwn y diwydiant haearn a dur, mewn termau real, o gymharu â gostyngiad o 13 y cant mewn allbwn gweithgynhyrchu, a gostyngiad o 6 y cant yn allbwn economi'r DU gyfan. Mae'n fwy o reswm byth dros newid y ffordd yr awn ati i ddiogelu a chefnogi'r diwydiant yn ei gyfanrwydd.

We need to ensure that tracking standards within the steel industry are effective, in order to ensure that VAT charges are consistent, whether as an alloy or steel product. We need to protect the steel industry, and encourage development and growth within Wales and the UK. Sixty per cent of goods going into building investment are sourced from China. Maximum value needs to be derived from British workers. In October, the economy Minister said, in response to Eluned Parrott, that this is an issue she would be taking up with the UK Government. And I'd be grateful, if she has anything to report back on that, that she could say so, in responding to this motion.

Mae angen i ni sicrhau bod safonau olrhain yn y diwydiant dur yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod taliadau TAW yn gyson, boed fel aloi neu gynnyrch dur. Mae angen i ni ddiogelu'r diwydiant dur, ac annog datblygiad a thwf yng Nghymru a'r DU. Mae 60 y cant o'r nwyddau a ddefnyddir mewn buddsoddiadau adeiladu yn dod o Tsieina. Mae angen sicrhau'r gwerth mwyaf posibl gan weithwyr Prydain. Ym mis Hydref, dywedodd Gweinidog yr economi, mewn ymateb i Eluned Parrott, fod hwn yn fater y byddai'n ei ddwyn i sylw Llywodraeth y DU. A byddwn yn ddiolchgar, os oes ganddi unrhyw beth i'w adrodd ar hynny, ei bod yn dweud hynny wrth ymateb i'r cynnig hwn.

If the steel industry is to remain competitive across Europe, we need to challenge the high costs of energy within the UK, which are proving debilitating for steel companies. The importance of Tata Steel within Wales should be acknowledged, with every effort made by the Welsh Government to work alongside and maintain its strong relationship with the company, and every effort made to get the UK Government to recognise the importance of that industry, and to act accordingly. With Tata Steel's 25 per cent reduction in its workforce, along with 250 jobs losses at its Llanwern site this summer, the industry is constantly under threat, and action needs to be taken to ensure Tata remains a key player in the Welsh steel industry.

Os yw'r diwydiant dur i barhau'n gystadleuol ar draws Ewrop, mae angen i ni herio costau uchel ynni yn y DU, sy'n gwanychu'r cwmnïau dur. Dylid cydnabod pwysigrwydd Tata Steel yng Nghymru, a dylai Llywodraeth Cymru wneud pob ymdrech i weithio ochr yn ochr â'r cwmni a chynnal ei pherthynas gref â hwy, a gwneud pob ymdrech i gael Llywodraeth y DU i gydnabod pwysigrwydd y diwydiant, ac i weithredu'n unol â hynny. Gyda'r gostyngiad o 25 y cant yng ngweithlu Tata Steel, ynghyd â cholli 250 o swyddi ar ei safle yn Llanwern yr haf hwn, mae'r diwydiant o dan fygythiad yn gyson, ac mae angen rhoi camau ar waith i sicrhau bod Tata yn parhau i fod yn bresenoldeb allweddol yn niwydiant dur Cymru.

It is important that all Governments support the use of domestically produced steel in capital projects, for example. That would have both long-term and short-term benefits to the Welsh economy. In line with the Welsh Government statement indicating that procurement needs to be fair and open, this needs to be enforced effectively, ensuring high standards for quality and safety. We would welcome comments from the Minister on how the Welsh Government's broad procurement policy,

Mae'n bwysig fod pob Llywodraeth yn cefnogi'r defnydd o ddur a gynhyrchir yn ddomestig mewn prosiectau cyfalaf, er enghraifft. Byddai hynny'n creu manteision hirdymor a byrdymor i economi Cymru. Yn unol â datganiad Llywodraeth Cymru a nodai fod angen i brosesau caffael fod yn deg ac yn agored, mae angen rhoi hyn ar waith yn effeithiol, gan sicrhau safonau uchel o ansawdd a diogelwch. Byddem yn croesawu sylwadau gan y Gweinidog ynglŷn â sut y mae polisi caffael cyffredinol Llywodraeth Cymru,

'meets absolutely with the spirit of the steel charter'.

'yn bodloni ysbryd y siarter [dur] yn llwyr'.

Alas, we haven't got a UK Government Minister here to respond in the same way. There needs to be a combined effort from the Welsh Government, Scottish Government, Westminster and trade unions to plan for the future of the steel industry. However, the Welsh Government alone is capable of easing the pressure on the steel industry and David Rees referred to this. Cutting business rates on plant and machinery, as the Welsh Liberal Democrats have proposed, would make a positive start to tackling the financial difficulties that Tata and others face. Taking this action would show our commitment to supporting the steel industry and have a positive impact upon the relationship with steel companies.

Ysywaeth, nid oes gennym un o Weinidogion Llywodraeth y DU yma i ymateb yn yr un ffordd. Mae angen ymdrech ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, San Steffan ac undebau llafur i gynllunio ar gyfer dyfodol y diwydiant dur. Fodd bynnag, gall Llywodraeth Cymru ei hun leddfu'r pwysau ar y diwydiant dur a chyfeiriodd David Rees at hyn. Byddai torri ardrethi busnes ar offer a pheiriannau, fel y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cynnig, yn ddechrau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r anawsterau ariannol y mae Tata ac eraill yn eu hwynebu. Byddai rhoi'r camau hyn ar waith yn dangos ein hymrwymiad i gefnogi'r diwydiant dur ac yn effeithio'n gadarnhaol ar y berthynas â chwmnïau dur.

I think, Presiding Officer, many Members made lots of points about this and I'm not going to repeat everything they've said. But, certainly, the cost of energy is going to be a key point in saving and keeping the steel industry as a vibrant industry and one that creates jobs and prosperity in Wales. We need to emphasise the point specifically in responding to the UK Government.

Lywydd, rwy'n credu bod llawer o'r Aelodau wedi gwneud llawer o bwyntiau ynglŷn â hyn ac nid wyf am ailadrodd popeth a ddywedwyd. Ond, yn sicr, mae cost ynni yn mynd i fod yn bwynt allweddol o ran arbed a chadw'r diwydiant dur yn ddiwydiant bywiog ac yn un sy'n creu swyddi a ffyniant yng Nghymru. Mae angen i ni bwysleisio'r pwynt yn benodol wrth ymateb i Lywodraeth y DU.

15:36

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We've had speakers from all the parties, but I still have quite a list, so can I ask you to be as concise as possible so that I hope to be able to call everyone? Jenny Rathbone.

Rydym wedi cael siaradwyr o bob plaid, ond mae gennyf restr go faith o hyd, felly a gaf fi ofyn i chi fod mor gryno â phosibl er mwyn i mi allu galw pawb? Jenny Rathbone.

15:36

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'd just like to reiterate the condolences expressed by my colleagues David Rees and John Griffiths to the two men who lost their lives at Celsa here in Cardiff, carrying out the essential jobs that they were doing—outlining just what an important industry it is, but also what a dangerous industry it can be. So far, the attitude of the UK Government to the challenges faced by the steel industry has really been pretty modest and the exemptions from green levies in the autumn statement announced last week are really small change compared with the sorts of investments that organisations like Tata have already invested in trying to make their processes more energy efficient.

Hoffwn ailadrodd y cydymdeimlad a fynegodd fy nghyd-Aelodau, David Rees a John Griffiths, â'r ddau ddyn a gollodd eu bywydau yn Celsa yma yng Nghaerdydd, wrth iddynt wneud eu swyddi hanfodol—gan amlinellu diwydiant mor bwysig ydyw, ond hefyd diwydiant mor beryglus y gall fod. Hyd yn hyn, mae agwedd Llywodraeth y DU at yr heriau a wynebir gan y diwydiant dur wedi bod yn ddigon cymedrol a dweud y gwir ac yn wir, arian mân mewn gwirionedd yw'r eithriadau rhag ardollau gwyrdd yn natganiad yr hydref a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf o gymharu â'r mathau o fuddsoddiadau y mae sefydliadau megis Tata wedi'u gwneud eisoes i geisio gwneud eu prosesau yn fwy effeithlon o ran ynni.

Steel shouldn't be in the dire position it's in today as a result of the unfair competition from some countries that have been engaging in both undercutting our domestic producers on both price and quality. We should bear in mind that every tonne of Chinese steel imported into Newport docks is generating two to three times more carbon emissions than if it had been produced locally—two to three times more carbon emissions. So, we don't need to be just mindful of food miles: we need to be mindful of steel miles as well as part of our strategy to meet our climate change obligations. And our European partners really need to factor this in when deciding what constitutes fair competition, as well as the European strategy for collectively meeting the climate challenge obligations that we all face. We, as consumers, also have a role to play here. If we want to support Welsh steel, we should, perhaps, buy Heinz baked beans or Nissan cars made with Welsh steel rather than products that are made with steel that's trying to undercut them. So, we don't just need a fair trade label, we need a fair steel label as well.

Ni ddylai dur fod yn y sefyllfa enbyd y mae ynddi heddiw o ganlyniad i'r gystadleuaeth annheg gan rai gwledydd a fu'n codi prisiau is na'n cynhyrchwyr domestig am ddeunydd o ansawdd salach. Dylem gofio bod pob tunnell o ddur Tsieineaidd a fewnforiwyd i ddociau Casnewydd yn cynhyrchu dwy neu dair gwaith yn fwy o allyriadau carbon na phe bai wedi'i gynhyrchu'n lleol—dwy neu dair gwaith cymaint o allyriadau carbon. Felly, nid milltiroedd bwyd yn unig sydd angen i ni eu cadw mewn cof: mae angen i ni fod yn ymwybodol o filltiroedd dur yn ogystal, yn rhan o'n strategaeth i gyflawni ein hymrwymiadau o ran newid yn yr hinsawdd. Ac mae gwir angen i'n partneriaid Ewropeaidd gynnwys hyn wrth benderfynu beth sy'n gystadleuaeth deg, yn ogystal â'r strategaeth Ewropeaidd ar gyfer cydgyflawni'r rhwymedigaethau sy'n deillio o her yr hinsawdd rydym oll yn ei hwynebu. Mae gennym ninnau hefyd, fel defnyddwyr, rôl i'w chwarae yma. Os ydym am gefnogi dur Cymru, efallai y dylem brynu ffa pob Heinz neu geir Nissan a wnaed â dur Cymru yn hytrach na chynhyrchion a wneir o ddur gan gystadleuwyr sy'n codi prisiau is amdano. Felly, nid label masnach deg yn unig sydd ei angen arnom, mae angen label dur teg hefyd.

Steel is the only material with a truly closed recycling loop. Steel isn't consumed; it is used again and again without any loss of quality or strength. So, as long as our waste handlers are effective at sorting waste into what can be reused or recycled, we can be sure that the steel produced today will still be available to us tomorrow or 50 years hence. It isn't just one more commodity that we might or might not like to have. It's an essential component part of the solution to our twenty-first century challenges. This is reflected in the fact that Tata is a member of the Ultra-Low Carbon dioxide (CO2) Steelmaking partnership of 48 European organisations committed to reducing the carbon dioxide emissions of steel production by 50 per cent by 2050. As a high energy user, I also am very respectful of the work that Tata has done in being at the forefront of generating its own energy. In 2010, they were generating 50 MW of their own electricity. By 2015, this had increased to 75 MW of generated electricity. Just to put this into an ordinary person's language: this is enough energy for 150,000 households. So, this is—. David.

Dur yw'r unig ddeunydd â dolen ailgylchu wirioneddol gaeedig. Ni chaiff dur ei dreulio; caiff ei ddefnyddio dro ar ôl tro heb golli ansawdd na chryfder. Felly, cyn belled â bod ein gweithwyr trin gwastraff yn didoli gwastraff yn effeithiol yn ôl yr hyn y gellir ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu, gallwn fod yn sicr y bydd y dur a gynhyrchir heddiw yn dal ar gael i ni yfory neu ymhen 50 mlynedd. Nid nwydd arall y gallem fod ei eisiau neu ddim o'i eisiau ydyw. Mae'n rhan hanfodol o'r ateb i heriau'r unfed ganrif ar hugain. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y ffaith fod Tata yn aelod o'r bartneriaeth Carbon deuocsid (CO2) isel iawn ar gyfer cynhyrchu dur, partneriaeth sy'n cynnwys 48 o sefydliadau Ewropeaidd sydd wedi ymrwymo i leihau allyriadau carbon deuocsid cynhyrchiant dur 50 y cant erbyn 2050. Fel diwydiant sy'n defnyddio llawer o ynni, rwyf hefyd yn parchu'n fawr y gwaith y mae Tata wedi'i wneud yn arwain ar gynhyrchu ei ynni ei hun. Yn 2010, roeddent yn cynhyrchu 50 MW o'u trydan eu hunain. Erbyn 2015, roedd wedi cynyddu i 75 MW o gynhyrchiant trydan. I roi hyn yn iaith pobl gyffredin: mae'n ddigon o ynni i bweru 150,000 o gartrefi. Felly, mae'n—. David.

15:39

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking the intervention. Do you agree with me, therefore, that companies like Tata, who are recycling waste gases to use as energy, should be getting incentives from the UK Government for that way forward, because it is beneficial to the environment, but it's also beneficial to the industry?

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. A ydych yn cytuno, felly, y dylai cwmnïau fel Tata, sy'n ailgylchu nwyon gwastraff i'w defnyddio fel ynni, gael cymhellion gan Lywodraeth y DU ar gyfer y ffordd hon ymlaen, am ei fod yn fuddiol i'r amgylchedd, a hefyd yn fuddiol i'r diwydiant?

15:40

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. And it requires us to have a holistic, sustainable energy policy fit for the twenty-first century, which, unfortunately, we are lacking at the moment.

Yn hollol. Ac mae'n galw am bolisi ynni cyfannol a chynaliadwy sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ac nid oes gennym bolisi o'r fath ar hyn o bryd, yn anffodus.

One of the things that they've done, which has been brilliant, is capture the steam produced in their cooling system and then convert it back into electricity and use it for their own production requirements. They completely rebuilt blast furnace No. 4, with a £210 million investment, which has hugely improved its efficiency and the environmental performance of it. The most important thing for me is that Tata Steel is the lead industrial partner in SPECIFIC, the Sustainable Product Engineering Centre for Innovation in Functional Coatings, which is going to help us generate buildings as power stations, and generate over a third of the UK's requirements for renewable energy by 2020. So, we absolutely have to have Tata Steel in Wales, and I hope that the Welsh Government will be able to play its part in ensuring that we have sustainable energy policies so that we can continue to have them here.

Un o'r pethau y maent wedi ei wneud, sydd wedi bod yn wych, yw dal y stêm a gynhyrchir yn eu system oeri a'i droi'n ôl yn drydan i'w ddefnyddio at eu gofynion cynhyrchu eu hunain. Maent wedi ailadeiladu ffwrnais chwyth Rhif 4 yn gyfan gwbl, gyda buddsoddiad o £210 miliwn, sydd wedi gwella ei heffeithlonrwydd a'i pherfformiad amgylcheddol yn helaeth. Y peth pwysicaf i mi yw mai Tata Steel yw'r partner diwydiannol arweiniol yn y Ganolfan Beirianneg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Gweithredol Arloesol (SPECIFIC), sy'n mynd i'n helpu i greu adeiladau fel gorsafoedd pŵer, a chynhyrchu dros draean o ofynion ynni adnewyddadwy y DU erbyn 2020. Felly, mae'n gwbl hanfodol i ni gael Tata Steel yng Nghymru, ac rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu chwarae ei rhan i sicrhau bod gennym bolisïau ynni cynaliadwy fel y gallwn barhau i'w cadw yma.

15:41

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You don't have to sit down before you finish speaking; you can actually stand up and finish speaking.

Nid oes raid i chi eistedd i lawr cyn i chi orffen siarad; gallwch sefyll ar eich traed a gorffen siarad.

15:41

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you.

Diolch.

15:41 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I too would like to associate myself with the condolences expressed by many Members here. As someone who worked in the aluminium industry for 11 years, I'm all too well aware of the dangers in this industry. Steel's been at the crucible of Welsh industry for over 100 years. It has a long history in this country and we owe it to the workers in the industry, and to our wider reliant economy, to do what we can to save it, because it's clear that, in recent years, Governments have taken their eyes off the ball in their approach to steel making in Wales.

Hoffwn innau hefyd ategu'r cydymdeimlad a fynegwyd gan lawer o'r Aelodau yma. Fel rhywun a fu'n gweithio yn y diwydiant alwminiwm am 11 mlynedd, rwy'n ymwybodol iawn o'r peryglon yn y diwydiant hwn. Mae dur wedi bod ym mhair diwydiant Cymru ers dros 100 mlynedd. Mae iddo hanes hir yn y wlad hon ac mae'n ddyletswydd arnom i weithwyr y diwydiant, ac i'n heconomi ddibynnol ehangach, i wneud yr hyn a allwn i'w achub, oherwydd mae'n amlwg nad yw Llywodraethau yn y blynyddoedd diwethaf wedi cadw llygaid ar gynhyrchiant dur yng Nghymru.

Since its peak production of the 1990s, steel production in Wales has seen a decline. Under the watch of Governments, both Labour and Conservative, there's been a steady drop in the number of steelworkers and production. In the 1990s, Wales produced 6,500 to 7,500 tonnes of crude steel per year. Last year, that figure reached a low of 4,400 kilotonnes. The number of people employed in the industry fell from 14,500 to 7,300. The number of people now is practically at its lowest point for the last 40 years.

Ers ei benllanw yn y 1990au, gwelwyd lefelau cynhyrchiant dur yn gostwng yng Nghymru. O dan oruchwyliaeth Llywodraethau Llafur a Cheidwadol, bu gostyngiad cyson yn nifer y gweithwyr dur ac yn y cynhyrchiant. Yn y 1990au, cynhyrchai Cymru 6,500 i 7,500 tunnell o ddur crai bob blwyddyn. Y llynedd, cyrhaeddodd y ffigur hwnnw isafbwynt o 4,400 cilodunnell. Gostyngodd nifer y bobl a gyflogid yn y diwydiant o 14,500 i 7,300. Mae nifer y bobl bellach ar ei bwynt isaf i bob diben ers 40 mlynedd.

Still, in 2014, even with the steady drawdown of the industry over recent decades, 37 per cent of UK crude steel was actually produced at Welsh plants, and, as an Assembly, we must find a way to protect existing works and ensure the security of workers and their families. I welcome recent developments at Newport with the opening of Liberty Steel, despite the sad recent mothballing of Llanwern and the job uncertainty—I think that's a better word—in Tredegar. So, we must do what we can to stabilise the industry.

Eto i gyd, yn 2014, hyd yn oed gyda dirywiad cyson y diwydiant dros y degawdau diwethaf, cynhyrchwyd 37 y cant o ddur crai y DU mewn gweithfeydd yng Nghymru mewn gwirionedd, ac fel Cynulliad, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd i ddiogelu'r gweithfeydd presennol a sicrhau diogelwch gweithwyr a'u teuluoedd. Rwy'n croesawu datblygiadau diweddar yng Nghasnewydd gydag agor Liberty Steel, er gwaethaf y camau trist i gau'r safle yn Llanwern dros dro yn ddiweddar a'r ansicrwydd—credaf fod hwnnw'n air gwell—ynglŷn â swyddi yn Nhredegar. Felly, mae'n rhaid i ni wneud yr hyn a allwn i sefydlogi'r diwydiant.

This isn't just about steel; the shrinkage in steel production and its workforce mirror other scale backs across other sectors of the Welsh economy. Chemicals and metal productions more generally have also suffered significant decline. There must be consensus in recognising that there's been a long and sustained drawback of Welsh heavy industry—decline that began before the Tories came to power, so fault cannot be laid squarely at the door of the current occupant of No. 10, and before the current high cost of energy became a factor, or indeed the current dumping of Chinese steel onto the European market. This all happened before then.

Nid ymwneud â dur yn unig y mae hyn; mae'r crebachu a welwyd yn y diwydiant dur a'i weithlu yn ddrych o'r torri'n ôl a welwyd mewn sectorau eraill yn economi Cymru. Mae cynhyrchiant cemegau a metel yn fwy cyffredinol hefyd wedi dioddef dirywiad sylweddol. Rhaid cael consensws i gydnabod bod dirywiad hir a chyson wedi bod yn digwydd ymhlith diwydiannau trwm Cymru—dirywiad a ddechreuodd cyn i'r Torïaid ddod i rym, felly ni ellir rhoi'r bai i gyd wrth ddrws preswylydd presennol Rhif 10, a chyn i gost uchel ynni ar hyn o bryd ddod yn ffactor, neu'n wir, cyn i ddur o Tsieina gael ei ddadlwytho ar y farchnad Ewropeaidd. Digwyddodd hyn i gyd cyn hynny.

So, what can we do? Well, I recognise that the Welsh Government, to be fair, is limited in its ability to intervene—yet another case, I would say, for greater powers for this Assembly to stop having to rely on Westminster for so much. But, we must advocate effectively on behalf of one of our great industries. We must look at what we can do in terms of business rates and procurement. It makes no sense that Tata-owned Jaguar Land Rover does not use British steel in its car manufacturing. I would hope the Welsh Government will commit to engaging more effectively with industries that use steel, and encourage, as far as possible, the use of Welsh steel.

Felly, beth allwn ni ei wneud? Wel, a bod yn deg, rwy'n cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn gyfyngedig o ran ei gallu i ymyrryd—achos arall eto, ddywedwn i, dros sicrhau mwy o bwerau i'r Cynulliad hwn er mwyn rhoi'r gorau i orfod dibynnu ar San Steffan am gymaint. Ond mae'n rhaid i ni ddadlau'n effeithiol ar ran un o'n diwydiannau mawr. Mae'n rhaid i ni edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud o ran ardrethi busnes a chaffael. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr nad yw Jaguar Land Rover, sy'n eiddo i Tata, yn defnyddio dur Prydain wrth weithgynhyrchu eu ceir. Byddwn yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ymgysylltu'n fwy effeithiol â diwydiannau sy'n defnyddio dur, ac yn annog y defnydd o ddur Cymru cyn belled ag y bo modd.

I also think that, given the current state of instability in the market, it would be a dereliction of our duties to not begin now to prepare more effectively for job losses if they come. There are communities that still rely heavily on steel, and it is the duty of Government, I feel, to prepare for the worst, if it comes. I hope it doesn't come, but I know—and some may feel that this is defeatist language, but my memories are of the loss of industry in my communities in Abertridwr and Caerphilly. The colliery behind my house has closed and the aluminium factory that I worked in has closed. So, my memories are long and painful. If we can do something to ensure that any job losses can be mitigated by support and investment in new industries, then we must. We cannot abandon our communities and our workers.

O ystyried sefyllfa ansefydlog y farchnad ar hyn o bryd, rwyf hefyd yn meddwl y byddem yn esgeuluso ein dyletswyddau pe na baem yn dechrau paratoi'n fwy effeithiol yn awr ar gyfer colli swyddi os daw hi i hynny. Mae yna gymunedau sy'n dal i ddibynnu'n helaeth ar ddur, ac rwy'n teimlo ei bod hi'n ddyletswydd ar y Llywodraeth i baratoi ar gyfer y gwaethaf, os daw hi i hynny. Rwy'n gobeithio na ddaw hi, ond rwy'n gwybod—ac efallai y bydd rhai yn teimlo fy mod yn siarad yn wangalon, ond rwy'n cofio pan gollwyd diwydiant o fy nghymunedau yn Abertridwr a Chaerffili. Mae'r lofa y tu ôl i fy nhŷ wedi cau ac mae'r ffatri alwminiwm y bûm yn gweithio ynddi wedi cau. Felly, mae fy atgofion yn rhai hir a phoenus. Os gallwn wneud rhywbeth i sicrhau y gellir lliniaru effaith colli swyddi drwy gymorth a buddsoddi mewn diwydiannau newydd, yna mae'n rhaid i ni wneud hynny. Ni allwn droi ein cefnau ar ein cymunedau a'n gweithwyr.

15:45

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I place my interest on the record in that my brother is an employee of Caparo in Tredegar?

A gaf fi gofnodi buddiant, gan fod fy mrawd yn gweithio i Caparo yn Nhredegar?

I think it's quite clear that a Member representing Ebbw Vale would want to take part in this debate. If any community in this country has seen the real impact of the loss of steel, it is the community of Blaenau Gwent and Ebbw Vale.

Rwy'n credu ei bod yn eithaf clir y byddai Aelod sy'n cynrychioli Glynebwy eisiau cymryd rhan yn y ddadl hon. Os oes un gymuned yn y wlad hon wedi gweld gwir effaith colli dur, cymuned Blaenau Gwent a Glynebwy yw honno.

The closure of the works in Ebbw Vale had a devastating impact on the town, had a devastating impact on the community, the society and the economy, and that impact is something that is with us today. The communities of the heads of the Valleys established the industrial revolution. We've seen the impact of industry that created the communities in which we live today and we've seen the impact—the human impact—when we lose those industries, not simply because of industrial or technological change, but because of the carelessness of a Government that didn't care either about the industry or the economy or the communities that that industry and economy sustained. We've seen the human cost of a Government that stands back and does nothing or does little. In that context, I want—[Interruption.]

Mae cau'r gweithfeydd yng Nglynebwy wedi cael effaith ddinistriol ar y dref, wedi cael effaith ddinistriol ar y gymuned, y gymdeithas a'r economi, ac mae'r effaith honno yn rhywbeth sydd yn gyda ni heddiw. Cymunedau blaenau'r Cymoedd a gychwynnodd y chwyldro diwydiannol. Rydym wedi gweld effaith y diwydiant a greodd y cymunedau rydym yn byw ynddynt heddiw ac rydym wedi gweld yr effaith—effaith ar bobl—pan fyddwn yn colli'r diwydiannau hynny, nid oherwydd newid diwydiannol neu dechnolegol, ond oherwydd diofalwch Llywodraeth nad oedd yn poeni am y diwydiant na'r economi na'r cymunedau roedd y diwydiant hwnnw a'r economi honno yn eu cynnal. Rydym wedi gweld cost ddynol Llywodraeth sy'n camu yn ôl a gwneud fawr ddim, os o gwbl. Yn y cyd-destun hwn, rwyf eisiau—[Torri ar draws.]

I won't take an intervention at the moment. I want to thank the Minister here in the Chamber, answering this debate, for the way in which she responded to the recent crisis in steel. I want to thank her for the way in which she sought to, and has looked to, support the industry in Wales—the way in which she didn't wait for a telephone call or an e-mail or a letter, but responded, not because she was asked to, but because she knew it was the right thing to do for our communities and for the industry and for the economy of this country. We've seen 5,000 job losses in the last two months. That is an emergency—it is an industrial emergency to which the UK Government should be responding with a sense of active intervention in the market.

Nid wyf am dderbyn ymyriad ar hyn o bryd. Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog yma yn y Siambr, wrth ateb y ddadl hon, am y modd y mae hi wedi ymateb i'r argyfwng diweddar yn y diwydiant dur. Rwyf am ddiolch iddi am y ffordd y mae hi wedi ceisio, ac wedi edrych ar gynorthwyo'r diwydiant yng Nghymru—y ffordd nad arhosodd am alwad ffôn neu e-bost neu lythyr, ond ymateb yn lle hynny, nid am fod rhywun wedi gofyn iddi wneud, ond am ei bod hi'n gwybod mai dyna'r peth iawn i'w wneud dros ein cymunedau a thros ddiwydiant ac economi'r wlad. Rydym wedi gweld 5,000 o swyddi'n cael eu colli yn ystod y ddeufis diwethaf. Mae hynny'n argyfwng—mae'n argyfwng diwydiannol y dylai Llywodraeth y DU ymateb iddo gydag ymdeimlad o ymyrraeth weithredol yn y farchnad.

I want to see three things happen in the next period. This very much reflects the points that have been made by my good friends the Members for Port Talbot and for Newport East. First of all, we need to see protection. We need to see protection for an industry that, clearly, is suffering from global overcapacity at the moment, but we also know that countries are taking action to protect their industries and what I want to know is: why isn't the UK Government taking action to protect our industry? Why aren't they going to Brussels and saying that we need a European response to this? We need to ensure that the borders of the European Union are there to protect the industries within the union and to ensure that our industries are able to sustain themselves over this period of overcapacity and will be able then to continue to be the foundation of our economy when this period has come to an end. So, we do need the protection for the industry today and over the coming period.

Rwyf am weld tri pheth yn digwydd yn y cyfnod nesaf. Mae hyn yn adlewyrchu'n gryf y pwyntiau a wnaed gan fy nghyfeillion, yr Aelodau dros Bort Talbot a thros Ddwyrain Casnewydd. Yn gyntaf oll, mae angen i ni weld diogelwch. Mae angen i ni weld diogelwch i ddiwydiant sy'n amlwg yn dioddef yn sgil gorgapasiti byd-eang ar hyn o bryd, ond rydym hefyd yn gwybod bod gwledydd yn gweithredu i ddiogelu eu diwydiannau a'r hyn rwyf am ei wybod yw: pam nad yw Llywodraeth y DU yn rhoi camau ar waith i ddiogelu ein diwydiant? Pam nad ydynt yn mynd i Frwsel i ddweud bod angen i ni gael ymateb Ewropeaidd i hyn? Mae angen i ni sicrhau bod ffiniau'r Undeb Ewropeaidd yno i ddiogelu'r diwydiannau yn yr undeb ac i sicrhau bod ein diwydiannau yn gallu cynnal eu hunain dros y cyfnod hwn o orgapasiti ac y byddant yn gallu parhau wedyn i fod yn sylfaen i'n heconomi pan fydd y cyfnod hwn wedi dod i ben. Felly, mae angen y diogelwch ar gyfer y diwydiant heddiw a thros y cyfnod i ddod.

Then we need support for the industry—support that has already been outlined by my good friend Jenny Rathbone, the Member for Cardiff Central, in terms of providing answers to the energy issues, but also in terms of procurement. We need that sustained support over a period of time, once the period of market volatility has come to an end. But what do we need then? We need a strategy to build and to sustain and to grow this industry into the future. Energy has to be a key part of that, but also a sense of the steel industry as a part of the foundational economy of Blaenau Gwent, of the Heads of the Valleys, of Wales, of the United Kingdom and of this part of Europe. If we are able to do that, then we will be able to respond in a way that the current crisis demands that we do respond. I hope that the Welsh Government will continue to put pressure on the United Kingdom Government and will continue to fight the corner for the steel industry and for the communities and the economy of Wales.

Yna, rydym angen cymorth i'r diwydiant—cymorth sydd eisoes wedi'i amlinellu gan fy nghyfaill Jenny Rathbone, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, i ddarparu atebion i'r problemau ynni, ond hefyd o ran caffael. Mae arnom angen y cymorth parhaus hwnnw dros gyfnod o amser, pan fydd y cyfnod o ansefydlogrwydd yn y farchnad wedi dod i ben. Ond beth fydd ei angen arnom wedyn? Mae angen strategaeth ar gyfer adeiladu a chynnal a thyfu'r diwydiant hwn yn y dyfodol. Rhaid i ynni fod yn rhan allweddol o hynny, ond hefyd ymdeimlad o'r diwydiant dur fel rhan o economi sylfaenol Blaenau Gwent, Blaenau'r Cymoedd, Cymru, y Deyrnas Unedig a'r rhan hon o Ewrop. Os gallwn wneud hynny, yna gallwn ymateb yn y ffordd y mae'r argyfwng presennol yn galw arnom i ymateb. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac y bydd yn parhau i frwydro dros y diwydiant dur a thros gymunedau ac economi Cymru.

15:50

## Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Byddaf yn fyr iawn. Fel un sydd yn dod o dref y sosban—a'n cân ni yw 'Sosban Fach'—rwy'n cytuno'n llwyr â beth mae Alun Davies newydd ei ddweud. Beth sy'n fy mhoeni i yn fwy nag unrhyw beth arall yw bod yna Lywodraethau ar draws Ewrop, a Llywodraethau yn yr Unol Daleithiau, yn gwneud rhywbeth i amddiffyn eu diwydiannau, a beth rwy'n ei weld fan hyn yw diffyg ymateb cadarn oddi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae pethau yn gallu cael eu gwneud ynglŷn ag ynni, ac ynglŷn â phrynu dur sy'n dod i mewn o Tsieina—ei wrthod e—ac yn y blaen. Os yw Llywodraethau eraill yn gallu ei wneud e, pam nad yw Llywodraeth San Steffan yn gallu ei wneud e?

I will be very brief. As one who comes from 'tref y sosban'—and our song is 'Sosban Fach'—I agree entirely with what Alun Davies has just said. What concerns me more than anything else is that there are Governments across Europe, and Governments in the United States, that are doing something to safeguard their industries, and what I see here is a lack of robust response from the UK Government. Things can be done in terms of energy, and in terms of purchasing steel imported from China—refusing it—and so forth. If other Governments can do it, why can't the Westminster Government do it?

15:50

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to speak on behalf of the Government. Edwina Hart.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i siarad ar ran y Llywodraeth. Edwina Hart.

15:50

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you, Presiding Officer. Before I start, like David Rees, who opened the debate, I would like to pass on my condolences following the recent tragic events at the Celsa site in Cardiff. I visited the site yesterday and have been informed that the appropriate authorities and the company are working closely together in resolving the issues that happened, and, obviously, things will develop in the future.

Diolch i chi, Lywydd. Cyn i mi ddechrau, fel David Rees, a agorodd y ddadl, hoffwn gyfleu fy nghydymdeimlad yn dilyn y digwyddiadau trasig diweddar ar safle Celsa yng Nghaerdydd. Ymwelais â'r safle ddoe a chefais wybod bod yr awdurdodau priodol a'r cwmni yn cydweithio'n agos i ddatrys yr hyn a ddigwyddodd, ac yn amlwg, bydd pethau'n datblygu yn y dyfodol.

When Mike commented about steel, for many of us, steel is in the blood. We're only a generation removed from when parents, uncles, aunts and still existing members of our families worked within the steel industry. I grew up opposite a steel plant called the Elba works in Gorseinon. It's now a housing estate. We are all quite close to that in terms of what was produced and manufactured in a Welsh context.

Pan sonodd Mike am ddur, i lawer ohonom, mae dur yn y gwaed. Nid oes ond cenhedlaeth rhyngom a phan oedd rhieni, ewythrod, modrybedd ac aelodau o'n teuluoedd sy'n dal yn fyw yn gweithio yn y diwydiant dur. Cefais fy magu gyferbyn â gwaith dur a elwir yn waith dur Elba yng Ngorseinon. Mae'n stad o dai bellach. Rydym i gyd yn eithaf agos at hynny o ran yr hyn a gynhyrchid ac a weithgynhyrchid mewn cyd-destun Cymreig.

Recent industry announcements have made it clear that the UK steel industry is now at the most critical point in its history. 'How can you have a nation that doesn't produce steel?' is the crucial question for all of us. If there are major infrastructure projects, it should be British or Welsh steel that should be in there developing them. It's important that we recognise that point.

Mae cyhoeddiadau diweddar ynglŷn â'r diwydiant wedi'i gwneud yn glir fod diwydiant dur y DU bellach ar y pwynt mwyaf allweddol yn ei hanes. 'Sut y gallwch chi gael cenedl nad yw'n cynhyrchu dur?' yw'r cwestiwn allweddol i bob un ohonom. Os ceir prosiectau seilwaith mawr, dur Prydain neu ddur o Gymru a ddylai fod yn eu datblygu. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y pwynt hwnnw.

At the beginning of this year, the UK helped three operating integrated steel plants. If you'd said that 30 or 40 years ago, nobody would've believed you. We're now in the position where SSI Teesside has been liquidated and permanently closed. Tata Steel has confirmed that another, Scunthorpe, does not have a future in its group, with the decision on those operations to be made before the end of the fiscal year. The third is at Port Talbot in south Wales, and that is also suffering.

Ar ddechrau'r flwyddyn hon, helpodd y DU dri gwaith dur integredig gweithredol. Pe baech wedi dweud hynny 30 neu 40 mlynedd yn ôl, ni fyddai neb wedi eich credu. Rydym yn awr mewn sefyllfa lle y mae SSI Teesside wedi cael ei ddirwyn i ben a'i gau'n barhaol. Mae Tata Steel wedi cadarnhau nad oes dyfodol i waith dur arall, Scunthorpe, yn ei grŵp, gyda'r penderfyniad ar y gweithfeydd hynny i'w wneud cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r trydydd safle ym Mhort Talbot yn ne Cymru, sydd hefyd yn dioddef.

It is also clear that the state of the European steel industry is continuing to deteriorate, faced by the combination of a surge in unfair competition from cheap imports and depressed global prices. But others have said in this debate, whether it was Keith Davies, Alun or William Graham, that there are issues about this. Because, if you look at the map of the world, which is the only area that isn't protected? It's Europe. When we look at other issues as well—people talk about what's going on—we need to recognise that China is producing more steel than America and Europe together and it is exporting it across the globe. On the docks of Newport, there might be steel going out, but there's also Chinese, and also Russian, steel and, I understand now, Italian steel coming in, as the Italians have allegedly nationalised two plants in the steel industry.

Mae hefyd yn amlwg fod cyflwr y diwydiant dur yn Ewrop yn parhau i ddirywio, ac mae'n wynebu cyfuniad o gynnydd mawr mewn cystadleuaeth annheg gan fewnforion rhad a phrisiau isel yn fyd-eang. Ond mae eraill wedi dweud yn y ddadl hon, naill ai Keith Davies, Alun neu William Graham, fod problemau'n codi o hyn. Oherwydd, os edrychwch ar fap o'r byd, pa ardal yw'r unig un sydd heb ei diogelu? Ewrop. Pan edrychwn ar faterion eraill hefyd—mae pobl yn siarad am yr hyn sy'n digwydd—mae angen i ni gydnabod bod Tsieina yn cynhyrchu mwy o ddur nag America ac Ewrop gyda'i gilydd ac mae'n ei allforio i bob cwr o'r byd. Ar ddociau Casnewydd, efallai fod dur yn mynd allan, ond mae yna ddur o Tsieina, a Rwsia hefyd, yn dod i mewn, ac yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall yn awr, mae yna ddur o'r Eidal yn dod i mewn hefyd, gan fod yr Eidalwyr wedi gwladoli dwy o'r gweithfeydd yn y diwydiant dur yn ôl y sôn.

Now, steel is a fundamental cornerstone of our manufacturing sector, sustaining thousands of jobs, often in areas, as I think as David alluded to, with below-average gross domestic product, and it provides above-average salaries. The sector also drives significant indirect employment and sustains diverse supply chains, research and development and innovation—we've only got to look at the point that Jenny Rathbone made in terms of SPECIFIC—and the latest figures indicate that primary steel industry and its supply chain in Wales accounts for close on 20,000 jobs.

Nawr, mae dur yn un o gonglfeini sylfaenol ein sector gweithgynhyrchu, sy'n cynnal miloedd o swyddi, yn aml mewn ardaloedd, fel y soniodd David rwy'n credu, gyda chynnyrch domestig gros is na'r cyfartaledd, ac mae'n darparu cyflogau uwch na'r cyfartaledd. Mae'r sector hefyd yn ysgogi cyflogaeth anuniongyrchol sylweddol ac yn cynnal cadwyni cyflenwi amrywiol, ymchwil a datblygu ac arloesi—nid oes ond angen i ni edrych ar y pwynt a wnaeth Jenny Rathbone am SPECIFIC—ac mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod y diwydiant dur sylfaenol a'i gadwyn gyflenwi yng Nghymru yn cynnal yn agos at 20,000 o swyddi.

We have, for many years, been in regular dialogue, and have a very close relationship, with the industry in Wales, and we continue to concentrate on how we can support such an important industry through dialogue, both at ministerial and official level. We are doing everything that we can to see a sustainable future for the steel industry in Wales.

Ers blynyddoedd lawer, rydym wedi cynnal deialog reolaidd, a pherthynas agos iawn, gyda'r diwydiant yng Nghymru, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar sut y gallwn gefnogi diwydiant mor bwysig drwy ddeialog, ar lefel gweinidogion a swyddogion. Rydym yn gwneud popeth a allwn i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r diwydiant dur yng Nghymru.

Over recent weeks, we've been represented in meetings at both UK and European level. At the UK Government emergency summit on steel, I pressed for urgent and meaningful actions. I've also convened an urgent meeting with representatives of the steel industry in Wales along with the trade unions, which I updated Members on recently. In that meeting the gravity of the situation was made clear by all. I subsequently wrote to the UK Government, setting out the issues raised at this meeting, and have since discussed this with the appropriate UK Government Minister.

Dros yr wythnosau diwethaf, cawsom ein cynrychioli mewn cyfarfodydd ar lefel y DU ac Ewrop. Yn uwchgynhadledd argyfwng Llywodraeth y DU ar ddur, pwysais am gamau brys ac ystyrlon. Hefyd, trefnais gyfarfod brys gyda chynrychiolwyr y diwydiant dur yng Nghymru, ynghyd â'r undebau llafur, a rhoddais y newyddion diweddaraf ynglŷn â hynny i'r Aelodau yn ddiweddar. Yn y cyfarfod hwnnw tynnodd pawb sylw clir at ddifrifoldeb y sefyllfa. Yn dilyn hynny, ysgrifennais at Lywodraeth y DU, yn nodi'r materion a godwyd yn y cyfarfod hwn, ac rwyf wedi trafod y mater wedi hynny gyda'r Gweinidog priodol yn Llywodraeth y DU.

Peter Black raised a very important issue, which is the use of British and Welsh steel and all those issues. We all know the issues around energy costs, and that is only something that's in the gift of the UK Government, and I think Members have adequately covered the issue that this is too little, too late on this particular agenda. In terms of steel, we can deal with procurement, which Jane Hutt already has in terms of our procurement rules—the UK are now following suit. There's the indirect procurement, which has also been raised. If we've got Wylfa, where is the steel going to come from? If we are looking at Hinkley Point across the way, where's that steel coming from? So, you're duty bound at UK level to look at what you're putting into place.

Crybwyllodd Peter Black fater pwysig iawn, sef y defnydd o ddur Prydain a Chymru a'r holl faterion hynny. Rydym i gyd yn gwybod am y materion sy'n ymwneud â chostau ynni. Llywodraeth y DU yn unig a all wneud rhywbeth ynglŷn â hynny, ac rwy'n meddwl bod yr Aelodau wedi ymdrin yn ddigonol â'r ffaith fod hyn yn rhy ychydig, yn rhy hwyr ar yr agenda benodol hon. O ran dur, gallwn ymdrin â chaffael, a gwnaeth Jane Hutt hynny eisoes mewn perthynas â'n rheolau caffael—mae'r DU yn awr yn dilyn ein hesiampl. Soniwyd hefyd am gaffael anuniongyrchol. Os oes gennym Wylfa, o ble y daw'r dur? Os edrychwn ar Hinkley Point draw acw, o ble y daw'r dur hwnnw? Felly, mae'n ddyletswydd arnoch ar lefel y DU i edrych ar yr hyn rydych yn ei roi ar waith.

The third point that I made to the UK Government is a strong point—we should be encouraging companies, and this point has been made in the debate, to actually use Welsh and British steel. We will be speaking to the anchor companies in Wales and others about what we think their obligations are on this for another industry, because, one day, if the industry goes in Wales, they won't have a choice about where they're going to procure, and they might not then like the procurement routes that they have to go along in terms of security and getting the steel that they require.

Mae'r trydydd pwynt a wneuthum i Lywodraeth y DU yn bwynt cryf—dylem fod yn annog cwmnïau, a gwnaed y pwynt yn y ddadl, i ddefnyddio dur o Gymru a Phrydain. Byddwn yn siarad â'r cwmnïau angori yng Nghymru ac eraill am yr hyn y credwn yw eu rhwymedigaethau i ddiwydiant arall yn hyn o beth, oherwydd, pe bai'r diwydiant yn diflannu rhyw ddydd yng Nghymru, ni fyddai ganddynt ddewis ynglŷn â ble i gaffael, ac efallai bryd hynny na fyddant yn hoffi'r llwybrau caffael y bydd yn rhaid iddynt eu dilyn o ran diogelwch a chael y dur y bydd ei angen arnynt.

I've also been in contact with the Scottish Minister for Business, Energy and Tourism to update them on the outcomes of our meetings and had the opportunity of speaking to see if there's any closer work we've got together. I've established the industry taskforce, and the Deputy Minister for Skills and Technology will be discussing some of the issues around training and that levy issue with them when they meet together on 7 December. I've also said I'll look at business rates paid by companies in the industry. Of course, currently, the UK Government are reviewing business rates, but then, on the other hand, they're devolving business rates to mayors, so that's not a consistent policy in helping industry across the piece.

Bûm mewn cysylltiad hefyd â Gweinidog Busnes, Ynni a Thwristiaeth yr Alban i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ganlyniadau ein cyfarfodydd a chefais gyfle i siarad i weld a oes yna waith agosach y gallwn ei wneud gyda'n gilydd. Rwyf wedi sefydlu tasglu'r diwydiant, a bydd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn trafod rhai o'r materion sy'n ymwneud â hyfforddiant a mater yr ardoll gyda hwy pan fyddant yn cyfarfod ar 7 Rhagfyr. Rwyf hefyd wedi dweud yr edrychaf ar ardrethi busnes a delir gan gwmnïau yn y diwydiant. Wrth gwrs, ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn adolygu ardrethi busnes, ond wedyn, ar y llaw arall, maent yn datganoli ardrethi busnes i feiri, felly nid yw'n bolisi cyson i helpu diwydiant yn gyffredinol.

We will be looking at these issues, provided we can do something that doesn't give rise to state aid issues. The UK Government has established working groups on public procurement—which I've covered—competitiveness and productivity and international comparisons. We know all the information on this; they are working through this and we are there, but it is essential that these key issues raised by industry in respect of unfair steel imports, energy and environment are actually dealt with. Because, when we talk about Europe, you'll remember that the European steel industry doesn't have the problems about energy costs that the UK steel industry has. If you're looking for allies, and people want to keep business elsewhere, where are your allies? The issues about energy costs lie at home.

Byddwn yn edrych ar y materion hyn, ar yr amod y gallwn wneud rhywbeth nad yw'n arwain at broblemau o ran cymorth gwladwriaethol. Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu gweithgorau ar gaffael cyhoeddus—y soniais amdanynt—cystadleurwydd a chynhyrchiant a chymariaethau rhyngwladol. Gwyddom yr holl wybodaeth ar hyn; maent yn gweithio drwy hyn ac rydym yno, ond mae'n hanfodol bod y materion allweddol a grybwyllwyd gan y diwydiant mewn perthynas â mewnforion dur annheg, ynni a'r amgylchedd yn cael eu trafod mewn gwirionedd. Oherwydd, pan soniwn am Ewrop, fe gofiwch nad yw'r diwydiant dur Ewropeaidd yn wynebu'r un problemau o ran costau ynni â diwydiant dur y DU. Os ydych yn chwilio am gynghreiriaid, a bod pobl yn awyddus i gadw busnes mewn mannau eraill, lle mae eich cynghreiriaid? Gartref y mae'r problemau gyda chostau ynni.

I also think we need a fundamental rethink about state aid rules that apply to the steel sector, because, at the end of the day, they are outdated; the world has moved on since we had these discussions about state aid on steel. I've repeatedly made these points, I have to say, to the UK Government.

Rwyf hefyd yn credu bod angen ailfeddwl yn sylfaenol am reolau'r cymorth gwladwriaethol sy'n berthnasol i'r sector dur, oherwydd, yn y pen draw, maent yn hen ffasiwn; mae'r byd wedi symud ymlaen ers i ni gael y trafodaethau hyn ynglŷn â chymorth gwladwriaethol ar gyfer dur. Rhaid i mi ddweud fy mod wedi gwneud y pwyntiau hyn dro ar ôl tro i Lywodraeth y DU.

I welcome the statement that was made about looking at it at the Commission level, but we do have to press these issues at the Commission level all the time. I welcome the Competitiveness Council's recognition of the gravity of the situation, but we've got to ensure they recognise that there'll be no viability for even the European steel industry if we don't deal with these issues. I've urged the Commission to implement and strengthen trade defence measures, and we are certainly taking a very proactive approach via our Brussels office. In the medium term, we're looking at issues around investment with the European fund for strategic investments, and my officials are looking at all opportunities.

Rwy'n croesawu'r datganiad a wnaed ynglŷn ag edrych arno ar lefel y Comisiwn, ond mae'n rhaid i ni bwyso'r materion hyn ar lefel y Comisiwn drwy'r amser. Rwy'n croesawu'r ffaith fod y Cyngor Cystadleurwydd yn cydnabod difrifoldeb y sefyllfa, ond mae'n rhaid i ni sicrhau eu bod yn cydnabod nad oes dyfodol hyfyw i'r diwydiant dur Ewropeaidd hyd yn oed os nad awn i'r afael â'r materion hyn. Rwyf wedi annog y Comisiwn i weithredu a chryfhau mesurau diogelu masnach, ac rydym yn bendant wedi mabwysiadu ymagwedd ragweithiol iawn drwy ein swyddfa ym Mrwsel. Yn y tymor canolig, rydym yn edrych ar faterion yn ymwneud â buddsoddi gyda'r gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddiadau strategol, ac mae fy swyddogion yn edrych ar bob cyfle.

We're committed to our engagement with the industry, and the First Minister and I have met recently with the chief executive officer of Tata to discuss the issues, really, at first hand. We will be tireless in trying to give what support we can to the industry. In terms of Caparo, I visited Wrexham when it was gloomy. There has been an improvement there in terms of keeping the jobs; hopefully, it'll be the same in Tredegar. Yesterday, I visited Trostre and other steel plants in south Wales, and I'll be visiting Shotton next week.

Rydym wedi ymrwymo i'n hymgysylltiad â'r diwydiant, a chyfarfu'r Prif Weinidog a minnau â phrif swyddog gweithredol Tata yn ddiweddar i drafod y materion yn uniongyrchol. Byddwn yn mynd ati'n ddiflino i roi unrhyw gymorth y gallwn ei roi i'r diwydiant. O ran Caparo, ymwelais â Wrecsam pan oedd pethau'n edrych yn ddigalon. Bu gwelliant yno o ran cadw swyddi; bydd yr un peth yn wir yn Nhredegar, gobeithio. Ddoe, ymwelais â Throstre a gweithfeydd dur eraill yn ne Cymru, a byddaf yn ymweld â Shotton yr wythnos nesaf.

These are serious challenges. The First Minister has written to the Prime Minister and the European Commission Vice-President for Jobs, Growth, Investment and Competitiveness to emphasise the importance of swift and decisive action. I don't want to agree with Lindsay Whittle in many ways, can I say, about you have to be prepared for the worst, but people are thinking the worst, and the point is, as a Government, you have a duty to look at all aspects of this. But I can assure you we're in dialogue with the companies and we're in dialogue with the trade unions, and, if we can have the support of this Assembly on this motion, we will keep up the pressure on the UK Government. Steel is in our blood; these jobs are in our blood. This is about a manufacturing strategy—it isn't about steel. We need industry in Wales and we want to carry on with what we're doing in Wales.

Mae'r rhain yn heriau difrifol. Mae Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog ac Is-Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd sy'n gyfrifol am Swyddi, Twf, Buddsoddi a Chystadleurwydd i bwysleisio'r angen am weithredu'n gyflym a phendant. Nid wyf eisiau cytuno â Lindsay Whittle mewn sawl ffordd, os caf ddweud, fod yn rhaid i chi fod yn barod am y gwaethaf, ond mae pobl yn meddwl y gwaethaf, a'r pwynt yw, fel Llywodraeth, mae dyletswydd arnoch i edrych ar bob agwedd ar hyn. Ond gallaf eich sicrhau ein bod yn trafod gyda'r cwmnïau a chyda'r undebau llafur, ac os gallwn gael cefnogaeth y Cynulliad i'r cynnig hwn, byddwn yn cadw'r pwysau ar Lywodraeth y DU. Mae dur yn ein gwaed; mae'r swyddi hyn yn ein gwaed. Mae hyn yn ymwneud â strategaeth weithgynhyrchu—nid yw'n ymwneud â dur. Mae arnom angen diwydiant yng Nghymru ac rydym am barhau â'r hyn rydym yn ei wneud yng Nghymru.

15:59

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Aled Roberts to reply to the debate.

Galwaf ar Aled Roberts i ymateb i'r ddadl.

15:59

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Can I thank Members for the contributions, which I think showed the importance of steel, but, as the Minister's just concluded, not really only of steel, but the whole of the manufacturing sector as far as Wales and the whole of the UK are concerned? I think, in reality, Alun Davies's comments about the impact of closures in Ebbw Vale are something that Ken Skates, Mark Isherwood and I, from attending the twenty-fifth anniversary celebrations of the closure of Brymbo steelworks, would actually reflect upon as well—and Shotton also, obviously. It's worth remembering, Lindsay, that despite you saying that that 1990s were the height of the British steel industry, actually, Brymbo, Shotton and Ebbw Vale were closing during that same period, and I think a number of Members have referred to the shrinking in the UK steel industry over time.

Diolch, Lywydd. A gaf fi ddiolch i'r Aelodau am y cyfraniadau? Credaf eu bod yn dangos pa mor bwysig yw dur, ond, fel y soniodd y Gweinidog wrth gloi yn awr, nid dur yn unig mewn gwirionedd, ond y sector gweithgynhyrchu yn gyffredinol yng Nghymru a'r DU gyfan? Mewn gwirionedd, rwy'n meddwl bod sylwadau Alun Davies am effaith cau yng Nglynebwy yn rhywbeth y byddai Ken Skates, Mark Isherwood a minnau yn myfyrio arnynt hefyd, wedi i ni fynychu digwyddiad i gofio pum mlynedd ar hugain ers i waith dur Brymbo gau—a Shotton hefyd, yn amlwg. Mae'n werth cofio, Lindsay, er i chi ddweud mai'r 1990au oedd penllanw'r diwydiant dur ym Mhrydain, mewn gwirionedd roedd Brymbo, Shotton a Glynebwy yn cau yn ystod yr un cyfnod, ac rwy'n credu bod nifer o'r Aelodau wedi cyfeirio at y crebachu yn y diwydiant dur yn y DU dros gyfnod o amser.

It's worth remembering, however, as other Members have said, that even the shrunken steel industry still plays a significant part, and I think the Minister has reminded us that it's not just the 8,000 jobs that David Rees referred to, but the 20,000 jobs in the supply chain. There are small successes—Caparo Wire in Wrexham. We're hoping that Caparo in Tredegar will be the same.

Mae'n werth cofio, fodd bynnag, fel y mae Aelodau eraill wedi'i ddweud, fod hyd yn oed y diwydiant dur wedi crebachu yn dal i chwarae rhan bwysig, ac rwy'n credu bod y Gweinidog wedi ein hatgoffa nad yw'n ymwneud yn unig â'r 8,000 o swyddi y cyfeiriodd David Rees atynt, ond yr 20,000 o swyddi yn y gadwyn gyflenwi hefyd. Cafwyd llwyddiannau bach—Caparo Wire yn Wrecsam. Rydym yn gobeithio y bydd yr un peth yn wir am Caparo yn Nhredegar.

But the reality is that, if we actually allow this inaction—. I think it's apparent this afternoon, the frustration with regard to the UK Government that is coming across, because all Members who have spoken, including Conservative Members, to be fair, have identified that the real issues are the reality with regard to energy costs, the over-production at a world level, and the fact that Europe seems to be the only region of the world that isn't willing to take action with regard to protecting its own industries.

Ond y gwir amdani yw, os ydym o ddifrif yn caniatáu diffyg gweithredu—. Rwy'n credu bod y rhwystredigaeth â Llywodraeth y DU yn amlwg y prynhawn yma, gan fod yr holl Aelodau a siaradodd, gan gynnwys Aelodau Ceidwadol, a bod yn deg, wedi nodi mai'r problemau go iawn yw'r realiti o ran costau ynni, gorgynhyrchu ar lefel fyd-eang, a'r ffaith ei bod yn ymddangos mai Ewrop yw'r unig ran o'r byd nad yw'n barod i weithredu i ddiogelu ei diwydiannau ei hun.

I don't have sufficient time to go through the comments in detail, but I think David Rees, in opening, identified that current levels of disadvantage for the UK steel industry are somewhere in the region of £431 million—a figure that staggered me, if I'm to be totally honest. He did ask, of course, that the Welsh Government go on to consider issues such as plant and machinery, an issue that he raised previously, although we accept that this is a discussion that is taking place within the overall environment of business rates. But I think there are issues that we need to consider here in Wales.

Nid oes gennyf ddigon o amser i fynd drwy'r sylwadau yn fanwl, ond rwy'n meddwl mai David Rees, wrth agor, a nododd fod y lefelau presennol o anfantais i'r diwydiant dur yn y DU rywle oddeutu £431 miliwn—ffigur a'm dychrynnodd, a bod yn gwbl onest. Gofynnodd, wrth gwrs, i Lywodraeth Cymru fwrw ati i ystyried materion fel offer a pheiriannau, mater a grybwyllodd o'r blaen, er ein bod yn derbyn ei bod yn drafodaeth sy'n digwydd yng nghyd-destun cyffredinol ardrethi busnes. Ond rwy'n meddwl bod yna faterion sydd angen i ni eu hystyried yma yng Nghymru.

William Graham did accept that we do need to deal with some of the anti-dumping measures at an EU level. Mike Hedges, I think, showed the steel in the blood that the Minister referred to. He lost me completely on the manufacturing processes and the temperatures needed, as somebody who got an E grade in his O-level chemistry; but I think it showed his expertise as far as the industry is concerned. Bethan took us back to the twelfth century in her particular area, and made a very interesting point, actually, that I'd not considered: the fact that a lot of the Welsh industry is, of course, reliant on upping demand within the white goods sectors, and domestic capacity rather than some of the infrastructure projects that we all naturally turn to.

Derbyniai William Graham fod angen i ni ymdrin â rhai o'r mesurau gwrth-ddadlwytho ar lefel yr UE. Rwy'n meddwl mai Mike Hedges a ddangosodd y dur yn y gwaed y cyfeiriodd y Gweinidog ato. Collodd fi'n llwyr ar y prosesau gweithgynhyrchu a'r tymheredd sydd ei angen, fel rhywun a gafodd radd E mewn cemeg lefel O; ond rwy'n meddwl ei fod wedi dangos ei arbenigedd o ran y diwydiant. Aeth Bethan â ni yn ôl i'r ddeuddegfed ganrif yn ei hardal hi, a gwnaeth bwynt diddorol iawn, mewn gwirionedd, nad oeddwn wedi'i ystyried: y ffaith fod llawer o'r diwydiant yng Nghymru, wrth gwrs, yn dibynnu ar wella galw yn y sector nwyddau gwynion, a chapasiti domestig yn hytrach na rhai o'r prosiectau seilwaith rydym i gyd yn tueddu i sôn amdanynt.

John Griffiths did say that there was a mixed picture in Newport East. I think all of us, actually, were very pleased that the works there reopened after being mothballed, but he did remind us that the UK Government not only needs to take decisions at a UK level, but also needs to use its levers at a European level to ensure that the Commission actually deals with these issues. As a number of speakers have already said, I think whilst we acknowledge that the CSR recently stated that the UK Government needs to address the issue of energy costs, in reality, 2017, with the current pressures that the industry is facing, is going to be too little, too late.

Dywedodd John Griffiths fod darlun cymysg yn Nwyrain Casnewydd. Rwy'n meddwl bod pob un ohonom, mewn gwirionedd, yn falch iawn fod y gwaith yno'n ailagor ar ôl cau dros dro, ond roedd yn ein hatgoffa nid yn unig fod angen i Lywodraeth y DU wneud penderfyniadau ar lefel y DU, ond bod angen iddi ddefnyddio ei phwerau hefyd ar lefel Ewropeaidd i sicrhau bod y Comisiwn yn mynd i'r afael â'r materion hyn mewn gwirionedd. Fel y mae nifer o siaradwyr eisoes wedi dweud, er ein bod yn cydnabod bod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant wedi datgan yn ddiweddar fod angen i Lywodraeth y DU fynd i'r afael â chostau ynni, rwy'n credu bod 2017, gyda'r pwysau presennol y mae'r diwydiant yn eu hwynebu, yn mynd i fod yn rhy ychydig, yn rhy hwyr.

Peter Black reminded us that we can have a brighter future. It doesn't look very bright at the moment, but he did actually ask, as I think some of us did during the steel debate in March, about the charter that UK Steel were calling for, and did suggest that we need to look at other issues, such as VAT on alloys et cetera, and consistency as far as standards, with the dumping of Chinese steel. Jenny Rathbone also—[Interruption.] Sorry.

Cawsom ein hatgoffa gan Peter Black y gallwn gael dyfodol mwy disglair. Nid yw'n edrych yn ddisglair iawn ar hyn o bryd, ond mewn gwirionedd fe ofynnodd, fel y gwnaeth rhai ohonom yn ystod y ddadl ar ddur ym mis Mawrth, am y siarter y galwai UK Steel amdani, ac awgrymodd fod angen i ni edrych ar faterion eraill, megis TAW ar aloion ac yn y blaen, a chysondeb o ran y safonau, a dadlwytho dur Tsieina. Cawsom ein hatgoffa gan Jenny Rathbone hefyd—[Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf.

16:04

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can confirm that we have looked at the spirit of the charter, and we're continuing with ongoing work in this particular area to confirm to Members that we took our commitment to what we could do on it very seriously.

Gallaf gadarnhau ein bod wedi edrych ar ysbryd y siarter, ac rydym yn parhau gyda gwaith sydd ar y gweill yn y maes penodol hwn, i gadarnhau i'r Aelodau ein bod yn llwyr o ddifrif ynghylch ein hymrwymiad i'r hyn y gallem ei wneud yn ei gylch.

16:04

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure we'd all welcome that particular statement this afternoon.

Rwy'n siŵr y byddem i gyd yn croesawu'r datganiad hwnnw y prynhawn yma.

Jenny Rathbone did remind us that perhaps we ought to ensure that we purchase Heinz baked beans and Nissan cars. I'm not too sure about the Nissan cars myself, but I appreciate the sentiment, because of course in north-east Wales we would get into trouble with Toyota if we favoured one brand more than the other. Lindsay, yes, I think most of us would hope that we don't actually have to plan for the worst-case scenario, and I think you said it on that basis; but I think we all appreciate the sentiment behind the ideas, really. Alun Davies underlined the fact that we've got these three issues of protection, support and a strategy as far as manufacturing is concerned going forward.

Cawsom ein hatgoffa gan Jenny Rathbone efallai y dylem sicrhau ein bod yn prynu ffa pob Heinz cheir Nissan. Nid wyf yn rhy siŵr am geir Nissan fy hun, ond rwy'n gwerthfawrogi'r teimlad, oherwydd, wrth gwrs, yng ngogledd-ddwyrain Cymru, byddem yn mynd i drafferth gyda Toyota pe baem yn ffafrio un brand yn fwy na'r llall. Lindsay, byddem, rwy'n meddwl y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn gobeithio na fydd yn rhaid i ni gynllunio ar gyfer y sefyllfa waethaf, a chredaf eich bod wedi'i ddweud ar y sail honno; ond rwy'n meddwl ein bod i gyd yn gwerthfawrogi'r teimlad sydd wrth wraidd y syniadau mewn gwirionedd. Tanlinellodd Alun Davies y ffaith fod tri mater yn codi mewn perthynas â gweithgynhyrchu yn y dyfodol, sef diogelwch, cymorth a strategaeth.

Keith Davies—in probably the briefest, but the most succinct contribution this afternoon—asked why we have a situation where Governments throughout Europe and in America are willing to intervene, yet we seem to have reluctance as far as intervention in the market is concerned at a UK level. I think the Minister's comments underlined that fact—the fact that we now have Italian steel coming into Newport—

Gofynnodd Keith Davies—yn y cyfraniad byrraf ond mwyaf cryno y prynhawn yma yn ôl pob tebyg—pam y mae gennym sefyllfa lle y mae Llywodraethau ledled Ewrop ac yn America yn barod i ymyrryd, ac eto ymddengys ein bod yn amharod i ymyrryd yn y farchnad ar lefel y DU. Rwy'n credu bod sylwadau'r Gweinidog wedi tanlinellu'r ffaith honno—y ffaith fod dur o'r Eidal bellach yn dod i mewn i Gasnewydd—

16:05

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wind up.

Dowch i ben.

16:05

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—where the Italian Government clearly has intervened. I just think that we need to keep up the pressure, because it's only through keeping up the pressure that we will ensure that action is actually taken to protect this very valuable industry.

[Yn parhau.]—lle y mae'n amlwg fod Llywodraeth yr Eidal wedi ymyrryd. Rwy'n meddwl fod angen i ni barhau i bwyso, gan mai drwy barhau i bwyso yn unig y byddwn yn sicrhau bod camau'n cael eu rhoi ar waith mewn gwirionedd i ddiogelu'r diwydiant hynod werthfawr hwn.

16:05

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

# 4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Adolygiad o Wariant a Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliannau 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 11 a 12 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 9, 10 ac 13 yn enw Elin Jones. Os caiff gwelliant 7 ei gynnig, bydd gwelliant 13 yn cael ei ddad-ddethol.*

# 4. Welsh Conservatives Debate: The UK Government's Spending Review and Autumn Statement

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendments 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 11 and 12 in the name of Aled Roberts, and amendments 9, 10 and 13 in the name of Elin Jones. If amendment 7 is moved, amendment 13 will be deselected.*

16:05

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 4, which is the Welsh Conservatives' debate on the UK Government's spending review and autumn statement. I call on Nick Ramsay to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar yr adolygiad o wariant a datganiad yr hydref Llywodraeth y DU. Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5898 Paul Davies

Motion NDM5898 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adolygiad o wariant a datganiad yr hydref Llywodraeth y DU;

2. Yn croesawu cyflwyno llawr Barnett sy'n 115 y cant o wariant cymharol y pen yn Lloegr; a

3. Yn nodi y bydd gwariant cyfalaf yng Nghymru yn codi dros £900 miliwn.

*Cynigiwyd y cynnig.*

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes the UK Government's spending review and autumn statement;

2. Welcomes the introduction of a Barnett Floor at 115 per cent of comparable spending per head in England; and

3. Notes that capital spending in Wales will rise by over £900 million.

*Motion moved.*

16:06

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I'm pleased to move the motion today, tabled in the name of Paul Davies, on behalf of the Welsh Conservatives. Last week, the Chancellor delivered the UK Government's comprehensive spending review. We hugely welcome the review, which we believe puts Wales first and prioritises communities right across our country. We believe that this spending review delivers economic security so that the UK can live within its means, creates financial security for families in Wales and national security for all. We have before us a commitment to a living wage, an increase in the basic state pension and protection for the value of disability benefits, all of which will be touched on by later speakers.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n falch o gynnig y cynnig heddiw, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies, ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Yr wythnos diwethaf, cyflwynodd y Canghellor adolygiad cynhwysfawr o wariant Llywodraeth y DU. Rydym yn croesawu'r adolygiad yn fawr, a chredwn ei fod yn rhoi Cymru yn gyntaf ac yn blaenoriaethu cymunedau ar hyd a lled ein gwlad. Rydym yn credu bod yr adolygiad o wariant hwn yn darparu sicrwydd economaidd i'r DU allu byw yn unol â'i chyllid, yn creu sicrwydd ariannol i deuluoedd yng Nghymru a diogelwch cenedlaethol i bawb. Ger ein bron mae gennym ymrwymiad i gyflog byw, cynnydd ym mhensiwn sylfaenol y wladwriaeth a diogelwch i werth y budd-daliadau anabledd, y bydd pob un ohonynt yn cael sylw gan siaradwyr diweddarach.

That said, I'm not sitting here—or standing, I should say—with rose or blue-tinted glasses, saying that everything is wonderful when it comes to how Wales is funded. However, as the second point in our motion highlights, this spending review has finally delivered the long-called-for Barnett funding floor. Now, many Members in this Chamber and others outside have been calling for some time for Barnett reform, ideally, or for Wales to have at the very least a funding floor to provide a guaranteed level of public spending. Of course, it's not just a matter of having a floor, it's the level that matters, too, and we welcome the setting of the floor at 115 per cent, well within the 114-117 per cent range identified by the Holtham commission. I'm delighted that the UK Government has continued its commitment to devolution in Wales by answering this call. As a result of this floor, the Welsh Government will continue to benefit if the relative level of funding they receive is higher than 115 per cent per head, and also benefit from the certainty that it won't fall below that level.

Wedi dweud hynny, nid wyf yn eistedd yma—neu sefyll, dylwn ddweud—yn gwisgo sbectol binc, neu las, gan ddweud bod popeth yn wych o ran y modd y caiff Cymru ei hariannu. Fodd bynnag, fel y mae'r ail bwynt yn ein cynnig yn ei nodi, mae'r adolygiad o wariant wedi cyflwyno'r llawr Barnett y bu cymaint o alw amdano. Nawr, mae llawer o'r Aelodau yn y Siambr hon ac eraill y tu allan wedi bod yn galw ers tro am ddiwygio Barnett, yn ddelfrydol, neu i Gymru gael cyllid gwaelodol o leiaf i allu darparu lefel warantedig o wariant cyhoeddus. Wrth gwrs, nid mater o gael cyllid gwaelodol yn unig ydyw, mae'r lefel yn bwysig hefyd, ac rydym yn croesawu'r ffaith fod y cyllid gwaelodol wedi'i osod ar 115 y cant, gryn dipyn o fewn yr ystod o 114-117 y cant a nodwyd gan gomisiwn Holtham. Rwyf wrth fy modd fod Llywodraeth y DU wedi parhau â'i hymrwymiad i ddatganoli yng Nghymru drwy ateb yr alwad hon. O ganlyniad i'r cyllid gwaelodol hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gael budd os yw lefel gymharol y cyllid a gaiff yn uwch na 115 y cant y pen, ac yn elwa hefyd ar y sicrwydd na fydd yn disgyn o dan y lefel honno.

At this point, I should also point out that we will be supporting the Welsh Government's amendment, which reiterates the need to have a formal inter-Government agreement to secure a long-lasting outcome. I couldn't have written it better myself, Minister, and we will be supporting that. It's common sense, and we are happy for a united voice from this Assembly to go out.

Ar y pwynt hwn, dylwn nodi hefyd y byddwn yn cefnogi gwelliant Llywodraeth Cymru, sy'n ailadrodd yr angen i gael cytundeb rhyng-Lywodraethol ffurfiol i sicrhau canlyniad sy'n hir ei barhad. Ni allwn fod wedi'i ysgrifennu yn well fy hun, Weinidog, a byddwn yn cefnogi'r gwelliant hwnnw. Synnwyr cyffredin ydyw, ac rydym yn hapus i lais unedig fynd o'r Cynulliad hwn.

We recognise that Wales needs a long-term guarantee of funding. Indeed, it's likely that the floor won't kick in for a while yet, anyway, until spending starts to increase, and one parliament is not enough in the longer term, but it is a start, and it's more than we had under previous Governments. I would hope that our support for this is echoed across the whole Chamber. We've all recognised that there's been a significant convergence in the Welsh Government's funding since the start of devolution, and at least the UK Government is looking seriously at this issue.

Rydym yn cydnabod bod Cymru angen i gyllid gael ei warantu'n hirdymor. Yn wir, mae'n debygol na fydd y cyllid gwaelodol yn dod yn weithredol am ychydig eto, beth bynnag, hyd nes y bydd gwariant yn dechrau cynyddu, ac nid yw un cyfnod seneddol yn ddigon yn y tymor hir, ond mae'n fan cychwyn, ac mae'n fwy nag a gawsom dan Lywodraethau blaenorol. Byddwn yn gobeithio y bydd ein cefnogaeth i hyn yn cael ei adleisio ar draws y Siambr gyfan. Rydym i gyd wedi cydnabod y bu cydgyfeirio sylweddol yng nghyllid Llywodraeth Cymru ers dechrau datganoli, ac mae Llywodraeth y DU o leiaf yn edrych o ddifrif ar y mater hwn.

If I can turn to the issue of capital spending, the third point of our motion notes that capital spending in Wales will rise by over £900 million. There have been serious concerns expressed in this Chamber about the Assembly's capital budget. Funding now available for infrastructure investment via the block grant through to 2020-21 will rise by 16.9 per cent, which I hope all Members will recognise is a significant amount of money for capital projects and investment on infrastructure. This additional money is very much welcomed, and I hope that it will be used carefully and effectively by the Welsh Government to fund a number of important projects across the country—because it's not just the Assembly receiving this money, it's of course the decisions and the priorities that the Welsh Government have for it.

Os caf droi at wariant cyfalaf, mae trydydd pwynt ein cynnig yn nodi y bydd gwariant cyfalaf yng Nghymru yn £900 miliwn yn uwch. Mynegwyd pryderon difrifol yn y Siambr hon am gyllideb cyfalaf y Cynulliad. Bydd arian sydd ar gael yn awr ar gyfer buddsoddi yn y seilwaith drwy'r grant bloc hyd at 2020-21 yn codi 16.9 y cant, ac rwy'n gobeithio y bydd pob un o'r Aelodau yn cydnabod bod hwn yn swm sylweddol o arian i brosiectau cyfalaf a buddsoddi ar seilwaith. Mae'r arian ychwanegol hwn i'w groesawu'n fawr, ac rwy'n gobeithio y bydd yn cael ei ddefnyddio'n ofalus ac yn effeithiol gan Lywodraeth Cymru i ariannu nifer o brosiectau pwysig ar draws y wlad—gan nad y Cynulliad yn unig sy'n cael yr arian, wrth gwrs, ond y penderfyniadau a'r blaenoriaethau sydd gan Lywodraeth Cymru ar ei gyfer.

As Members here, we are all aware there are still significant backlogs in the repair bills for schools and transport projects, and social housing in Wales needs substantial investment. The Welsh Government has an infrastructure investment plan in place, and that has been welcomed by all parties here today. Welsh Conservatives, for our part, hope that the additional capital spending in the spending review will complement the Wales infrastructure investment plan priorities and, ultimately, enhance our public services here in Wales.

Fel yr Aelodau yma, rydym i gyd yn ymwybodol fod ôl-groniadau sylweddol yn y biliau atgyweirio ar ysgolion a phrosiectau trafnidiaeth, ac mae angen buddsoddiad sylweddol ar dai cymdeithasol yng Nghymru. Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun buddsoddi yn y seilwaith ar waith, ac mae wedi cael croeso gan bob plaid yma heddiw. O'n rhan ninnau, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn gobeithio y bydd y gwariant cyfalaf ychwanegol yn yr adolygiad o wariant yn ategu blaenoriaethau'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru ac yn y pen draw, yn gwella ein gwasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru.

I must mention the national health service. Welsh Conservatives welcome the £3.3 billion increase in the health budget in England for 2015-16, a 1.5 per cent increase in real terms, and a far cry from the real-terms cuts that have been made to the NHS budget by the Welsh Government here in Wales over the last five years. I know they talk about cash spend staying the same, but that is not the same as real-terms cuts. The Minister knows full well—[Interruption.] In a moment. The Minister knows full well that we need to protect spend on the NHS in real terms—in cash terms is simply not enough. Sorry, Alun; I give way to the Member.

Rhaid i mi sôn am y gwasanaeth iechyd gwladol. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu'r cynnydd o £3.3 biliwn yn y gyllideb iechyd yn Lloegr ar gyfer 2015-16, sy'n gynnydd o 1.5 y cant mewn termau real, ac yn wahanol iawn i'r toriadau mewn termau real a wnaed i gyllideb y GIG gan Lywodraeth Cymru yma yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf. Rwy'n gwybod eu bod yn siarad am wariant arian parod yn aros yr un fath, ond nid yw hynny yr un fath â thoriadau mewn termau real. Mae'r Gweinidog yn gwybod yn iawn—[Torri ar draws.] Mewn eiliad. Mae'r Gweinidog yn gwybod yn iawn fod angen i ni ddiogelu gwariant ar y GIG mewn termau real—nid yw'n ddigon mewn arian parod. Mae'n ddrwg gennyf, Alun; rwy'n ildio i'r Aelod.

16:10 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. I do hear you repeating this, but the reality, as we've learnt recently, is that spending per head on health in Wales is 7 per cent above that in England. You've got to recognise these numbers.

Diolch yn fawr iawn. Rwy'n eich clywed yn ailadrodd hyn, ond y gwirionedd, fel y clywsom yn ddiweddar, yw bod gwariant y pen ar iechyd yng Nghymru 7 y cant yn uwch nag yn Lloegr. Mae'n rhaid i chi gydnabod y ffigurau hyn.

16:10 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, of course, you would expect spending per head in Wales to be higher, because we've had a higher need over the past 30, 40, 50 years, so it started off at a higher level, but the point is it's not high enough. Indeed, you support reform of the Barnett formula; you can't support that and say Wales should receive more money, and at the same time say that money that's given to the Assembly to spend on the health budget isn't going to be spent here. But, it's a valid point, Minister emeritus; it's always good to hear from you.

Wel, wrth gwrs, byddech yn disgwyl i wariant y pen yng Nghymru fod yn uwch, am fod yr angen wedi bod yn fwy dros y 30, 40, 50 mlynedd diwethaf, felly fe ddechreuodd ar lefel uwch, ond y pwynt yw nad yw'n ddigon uchel. Yn wir, rydych yn cefnogi diwygio fformiwla Barnett; ni allwch gefnogi hynny a dweud y dylai Cymru gael mwy o arian, a dweud ar yr un pryd nad yw arian a roddir i'r Cynulliad i'w wario ar y gyllideb iechyd yn mynd i gael ei wario yma. Ond mae'n bwynt dilys, Weinidog emeritws; mae hi bob amser yn dda clywed gennych.

This is our priority, it is the people's priority, and it should be the Welsh Government's priority, too. [Interruption.] Well, we think it's good to hear from you; I'm not sure about your front bench—they're very quiet.

Dyma ein blaenoriaeth, dyma flaenoriaeth y bobl, a dylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, hefyd. [Torri ar draws.] Wel, rydym yn credu ei bod yn dda clywed gennych; nid wyf yn siŵr am eich mainc flaen—maent yn dawel iawn.

Turning to the issue of policing, there was plenty of very welcome announcements in the Chancellor's statement, not least of all the UK Government's commitment, in spite of rumours from the benches over there, to protect police spending in real terms over the spending review period, to maintain strong front-line policing and to concentrate spending as well on the all-important anti-terrorism budget. This is a particularly poignant announcement in light of the tragic Paris attacks, which recognises the need to ensure the Government is doing all that it can to better protect and serve our communities, as well as equip our county to defeat any terrorist threats.

Gan droi at fater plismona, cafwyd cyhoeddiadau i'w croesawu'n fawr yn natganiad y Canghellor, nid yn lleiaf ymrwymiad Llywodraeth y DU, er gwaethaf sibrydion o'r meinciau draw acw, i ddiogelu gwariant yr heddlu mewn termau real dros gyfnod yr adolygiad o wariant, er mwyn cynnal plismona cryf ar y rheng flaen ac i ganolbwyntio gwariant hefyd ar y gyllideb wrth-derfysgaeth hollbwysig. Mae hwn yn gyhoeddiad arbennig o ingol yng ngoleuni'r ymosodiadau trasig ym Mharis, cyhoeddiad sy'n cydnabod yr angen i sicrhau bod y Llywodraeth yn gwneud popeth yn ei gallu i ddiogelu a gwasanaethu ein cymunedau yn well, yn ogystal â chyfarparu ein gwlad i drechu unrhyw fygythiadau terfysgol.

Local police forces across Wales are now much more able to better plan for the short and medium term, knowing their budgets are protected for the review period. Indeed, we believe that this will increase the effectiveness of elected police and crime commissioners, and underpins the effectiveness of keeping policing at a local level, making joint operations stronger, more robust and financially sustainable.

Gall heddluoedd lleol ar draws Cymru gynllunio'n llawer gwell bellach ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig, gan wybod bod eu cyllidebau wedi'u diogelu ar gyfer cyfnod yr adolygiad. Yn wir, credwn y bydd hyn yn cynyddu effeithiolrwydd y comisiynwyr heddlu a throseddu etholedig, ac mae'n sail i effeithiolrwydd cadw plismona ar lefel leol, gan wneud gweithrediadau ar y cyd yn gryfach, yn fwy cadarn a chynaliadwy yn ariannol.

It's also worth noting that the Chancellor also announced that the defence budget is set to rise from £34 billion to £40 billion by 2020, with extra cash for security services.

Mae hefyd yn werth nodi bod y Canghellor hefyd wedi cyhoeddi y bydd y gyllideb amddiffyn yn codi o £34 biliwn i £40 biliwn erbyn 2020, gydag arian ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau diogelwch.

Turning to tax credits, Members will no doubt be aware of the fact that, due to the British economy's unprecedented growth, welfare reforms will be delivered without the changes to tax credits that were feared. Therefore, the rate at which a claimant's award is reduced for every additional £1 they earn over the income threshold will continue to remain at 41 per cent of gross income from April 2016. The Labour Party can't have it both ways. They can't complain about cuts to tax credits, and then when the Chancellor says 'We're going to keep them'—then you're not happy because that wasn't what you were expecting. You must accept that that is a good outcome for people in Wales. In addition, the income threshold, which is basically the level of income at which a claimant's tax credit award begins to be taken away, will also remain at £6,420 from April next year.

Gan droi at gredydau treth, yn ddiau, o ganlyniad i dwf digynsail yr economi ym Mhrydain, yn ddi-os bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r ffaith y bydd diwygiadau lles yn cael eu cyflwyno heb y newidiadau i gredydau treth a ofnid. Felly, bydd cyfradd lleihau'r dyfarniad i hawlydd am bob £1 ychwanegol a enillant dros y trothwy incwm yn parhau ar 41 y cant o'r incwm gros o fis Ebrill 2016. Ni all y Blaid Lafur ei chael hi'r ddwy ffordd. Ni allant gwyno am doriadau i gredydau treth, ac yna pan fydd y Canghellor yn dweud 'Rydym yn mynd i'w cadw'—rydych yn anhapus wedyn am nad dyna roeddech yn ei ddisgwyl. Mae'n rhaid i chi dderbyn ei fod yn ganlyniad da i bobl Cymru. Yn ogystal, mae'r trothwy incwm, sef yn y bôn, lefel yr incwm y bydd dyfarniad credyd treth yr hawlydd yn dechrau cael ei ddidynnu, yn aros ar £6,420 o fis Ebrill y flwyddyn nesaf.

I won't spend too much going into the ins and outs of the implications of this for working-class families—[Interruption.] In one moment—across Britain, as I'm aware that other Members will want to discuss this further. However, I will say this: the UK Government and the Chancellor have listened to concerns about changes to tax credits. I give way to Julie Morgan.

Ni threuliaf ormod o amser ar fanylion y goblygiadau hyn i deuluoedd dosbarth gweithiol—[Torri ar draws.] Mewn eiliad—ar draws Prydain, gan fy mod yn ymwybodol y bydd Aelodau eraill yn awyddus i drafod hyn ymhellach. Fodd bynnag, fe ddywedaf hyn: mae Llywodraeth y DU a'r Canghellor wedi gwrando ar bryderon ynglŷn â newidiadau i gredydau treth. Ildiaf i Julie Morgan.

16:13

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Doesn't Nick Ramsay accept that the only reason the tax credits plan was dropped was because Labour in the House of Lords, led by Patricia Hollis, forced the Government to do it?

Onid yw Nick Ramsay yn derbyn mai'r unig reswm nad aeth y cynllun credydau treth yn ei flaen oedd oherwydd bod Llafur yn Nhŷ'r Arglwyddi, dan arweiniad Patricia Hollis, wedi gorfodi'r Llywodraeth i'w dynnu'n ôl?

16:14

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I take that as a welcome for the UK Government's policy on tax credits; it's a shame that you couldn't simply be clear about your support for the policy.

Cymeraf hynny fel croeso i bolisi Llywodraeth y DU ar gredydau treth; mae'n drueni na allech fod yn glir am eich cefnogaeth i'r polisi.

As a result, and because of the improvement in the public finances, the simplest thing to do was not to phase these changes in, but to avoid them altogether. That's what you wanted. That is what has happened—the Chancellor and the UK Government have listened.

O ganlyniad, ac oherwydd y gwelliant yn y cyllid cyhoeddus, y peth symlaf i'w wneud oedd peidio â chyflwyno'r newidiadau hyn yn raddol, ond eu hosgoi yn gyfan gwbl. Dyna roeddech ei eisiau. Dyna sydd wedi digwydd—mae'r Canghellor a Llywodraeth y DU wedi gwrando.

On the Cardiff city deal, Members are also aware that the UK Government is working with the Cardiff capital region and the Welsh Government to support the delivery of an ambitious city deal for Cardiff. The spending review announces the Government's in-principle commitment to support a new infrastructure fund for the Cardiff capital region, and whilst I note the Lib Dem amendment, we will not be supporting it. Quite simply, further details on the funding, including the level and the timing of any payments, will be dependent on further discussions between the UK Government, the Welsh Government and the Cardiff capital region. So, I don't believe there's any lack of clarity in relation to this project that is not going to be cleared up, and I would assume that the Welsh Government would appreciate that as well.

Ar gytundeb dinas Caerdydd, mae'r Aelodau hefyd yn ymwybodol fod Llywodraeth y DU yn gweithio gyda phrifddinas-ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddarparu cytundeb dinas uchelgeisiol i Gaerdydd. Mae'r adolygiad o wariant yn cyhoeddi ymrwymiad y Llywodraeth mewn egwyddor i gefnogi cronfa seilwaith newydd ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd, ac er fy mod yn nodi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, ni fyddwn yn ei gefnogi. Yn syml, bydd rhagor o fanylion am y cyllid, gan gynnwys y lefel ac amseriad unrhyw daliadau, yn ddibynnol ar drafodaethau pellach rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a phrifddinas-ranbarth Caerdydd. Felly, nid wyf yn credu bod unrhyw ddiffyg eglurder mewn perthynas â'r prosiect hwn nad ymdrinnir ag ef, a byddwn yn tybied y byddai Llywodraeth Cymru yn sylweddoli hynny hefyd.

Finally, Presiding Officer, if I can touch on the subject of S4C—. I understand Members' frustration regarding the reduction of funding for S4C and concerns about the delivery of Welsh-language broadcasting, and we see that amendments have been tabled to this effect. Welsh Conservatives share those concerns, and as some of my colleagues have already made clear, we will do what we can to protect S4C's independence for the future.

Yn olaf, Lywydd, os caf gyffwrdd â mater S4C—. Rwy'n deall rhwystredigaeth yr Aelodau ynghylch cwtogi cyllid ar gyfer S4C a phryderon am y ddarpariaeth ddarlledu yn y Gymraeg, ac rydym yn gweld bod gwelliannau wedi'u cyflwyno i'r perwyl hwn. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn rhannu'r pryderon, ac fel y mae rhai o fy nghyd-Aelodau eisoes wedi dweud, byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i ddiogelu annibyniaeth S4C ar gyfer y dyfodol.

In closing, Presiding Officer, we believe that the spending review delivered a financial programme for Wales that will deliver for our communities. This is an autumn statement that delivers on the commitment that was made to the British people that the UK Government would put their security first. For Wales, the introduction of a funding floor is crucial and ensures that our country will not be short-changed in the future. The Conservative Party and the Welsh Conservatives have a proud record in delivering on devolution for Wales, and the Chancellor's statement last week again supports that. I urge Members to support our motion.

Wrth gloi, Lywydd, credwn fod yr adolygiad o wariant wedi cyflwyno rhaglen ariannol i Gymru a fydd yn darparu ar gyfer ein cymunedau. Mae hwn yn ddatganiad yr hydref sy'n cyflawni'r ymrwymiad a wnaed i bobl Prydain y byddai Llywodraeth y DU yn rhoi eu diogelwch yn gyntaf. Ar gyfer Cymru, mae cyflwyno cyllid gwaelodol yn hanfodol ac yn sicrhau na chaiff ein gwlad gam yn y dyfodol. Mae gan y Blaid Geidwadol a'r Ceidwadwyr Cymreig hanes balch o gyflawni ar ddatganoli i Gymru, ac mae datganiad y Canghellor yr wythnos diwethaf yn cefnogi hynny unwaith eto. Anogaf yr Aelodau i gefnogi ein cynnig.

16:16

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

I have selected the 13 amendments to the motion. If amendment 7 is moved, amendment 13 will be deselected. I call on the Minister for Finance and Government Business to move formally amendment 1, tabled in her name.

Rwyf wedi dethol y 13 o welliannau i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 7, bydd gwelliant 13 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn ei henw, yn ffurfiol.

*Gwelliant 1—Jane Hutt*

*Amendment 1—Jane Hutt*

*Cefnogwyd gan Aled Roberts*

*Supported by Aled Roberts*

*Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2:*

*At the end of point 2 insert:*

*'ac yn nodi'r angen i gael cytundeb rhyng-lywodraethol ffurfiol er mwyn sicrhau canlyniad sy'n hir ei barhad'.*

*'and notes the need to have a formal inter-government agreement to secure a long-lasting outcome'.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

16:16

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Formally.

Yn ffurfiol.

16:16

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. I call on Peter Black to move amendments 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 11 and 12, tabled in the name of Aled Roberts. Peter Black.

Diolch. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 11 a 12, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Peter Black.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Mewnosod pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Yn croesawu tro pedol Llywodraeth DU ar ddileu'r system credydau treth, ond yn nodi â phryder y gallai toriadau i gredyd cynhwysol arwain at golliadau tebyg ar gyfer teuluoedd incwm isel erbyn 2020.*

*Welcomes the UK Government U-turn on scrapping tax credits, but notes with concern that cuts to universal credit could result in similar loss for low-income families by 2020.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at yr oedi o ran trydaneiddio prif reilffordd y Great Western o Lundain i Abertawe a diffyg gwybodaeth ddiweddar am drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru.*

*Regrets the delay in the delivery of electrification of the Great Western mainline from London to Swansea and lack of update on the electrification of the North Wales line.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y diffyg eglurder ynghylch faint o gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer bargen dinas Caerdydd.*

*Regrets the lack of clarity over the extent of financial support for a city deal for Cardiff.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith yr hepgorwyd prosiect morlyn llanw Bae Abertawe o ddatganiad yr hydref.*

*Regrets the omission of the Swansea Bay Tidal Lagoon project from the autumn statement.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y toriad o 22 y cant yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd y DU sy'n bygwth ein gallu i gyrraedd targedau newid hinsawdd a datgarboneiddio yng Nghymru.*

*Regrets the 22 per cent cut to the UK Department for Energy and Climate Change, which threatens our ability to meet climate change and decarbonisation targets in Wales.*

*Gwelliant 7—Aled Roberts*

*Gwelliant 7—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y toriad o £1.7 miliwn mewn cyllid ar gyfer S4C, er gwaethaf yr ymrwymiad ym maniffesto Ceidwadwyr Cymru i '(d)diogelu arian ac annibyniaeth olygyddol S4C'.*

*Regrets the £1.7 million cut in funding for S4C, despite the Welsh Conservatives manifesto commitment to 'safeguard the funding and editorial independence of S4C'.*

*Gwelliant 8—Aled Roberts*

*Gwelliant 8—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i weithio gyda'i gilydd i ddiweddaru dadansoddiad Gerry Holtham o danariannu Cymru, ac yna cynyddu'r grant bloc i lefel deg.*

*Calls on the UK Government and the Welsh Government to work together to update the analysis of Gerry Holtham on Wales's underfunding, and then increase the block grant to the equitable level.*

*Gwelliant 11—Aled Roberts*

*Gwelliant 11—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at gael gwared ar fwrsariaethau nyrsio yn Lloegr a'r ffaith eu bod yn cael eu disodli gan fenthyciadau, a fydd yn cael effaith negyddol ar gynllunio gweithlu yn y dyfodol a recriwtio yn y GIG yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau a fydd cyllid ar gyfer astudiaethau nyrsio yng Nghymru yn parhau.*

*Regrets the scrapping of nursing bursaries in England and their replacement with loans, which will impact negatively on future workforce planning and recruitment for the NHS in Wales and calls on the Welsh Government to confirm whether funding for nursing studies in Wales will remain.*

*Gwelliant 12—Aled Roberts*

*Gwelliant 12—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at gapio budd-daliadau tai i'r gyfradd lwfans tai lleol yn y sector cymdeithasol sy'n peryglu'r bobl fwyaf agored i niwed ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro effaith y penderfyniad hwn ar ddigartrefedd a gwasanaethau llety eraill a gefnogir yng Nghymru.*

*Regrets the capping of housing benefit to the local housing allowance rate in the social sector which presents a risk to the most vulnerable and calls on the Welsh Government to clarify the impact of this decision on homelessness and other supported accommodation services in Wales.*

*Cynigiwyd gwelliannau 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 11 a 12.*

*Amendments 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 11 and 12 moved.*

16:16

**Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I move all of those amendments.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n cynnig pob un o'r gwelliannau hynny.

The Welsh Liberal Democrats welcome the progress made on devolution and fair funding for Wales and welcome this opportunity to debate this development. But we do have a number of concerns about the autumn statement that we've outlined in one or two amendments that we've tabled today to this motion.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu'r cynnydd a wnaed ar ddatganoli ac ariannu teg i Gymru ac yn croesawu'r cyfle hwn i drafod y datblygiad hwn. Ond mae gennym nifer o bryderon ynglŷn â datganiad yr hydref ac rydym wedi'u hamlinellu yn yr un neu ddau o welliannau a gyflwynwyd gennym i'r cynnig hwn heddiw.

Of course, the introduction of a funding floor, which Nick Ramsay referred to, was initially announced by Danny Alexander when he was Chief Secretary to the Treasury and I welcome the progress that has been made on this. However, I think we do have to accept that the funding floor that we have in front of us is not a permanent funding floor, which is what Danny Alexander was looking to introduce. In fact, it's just until the end of this Parliament. Of course, the issue with that is that we're not expecting public spending to grow during this Parliament and therefore the funding floor will not be brought to bare.

Wrth gwrs, yn wreiddiol cyflwynwyd cyllid gwaelodol, y cyfeiriodd Nick Ramsay ato, gan Danny Alexander pan oedd yn Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ac rwy'n croesawu'r cynnydd a wnaed ar hyn. Fodd bynnag, credaf fod yn rhaid i ni dderbyn nad yw'r cyllid gwaelodol sydd gennym o'n blaenau yn gyllid gwaelodol parhaol, sef yr hyn a fwriadai Danny Alexander ei gyflwyno. Yn wir, cyllid gwaelodol tan ddiwedd y Senedd hon ydyw. Wrth gwrs, y broblem gyda hynny yw nad ydym yn disgwyl i wariant cyhoeddus dyfu yn ystod y Senedd hon ac felly ni roddir y cyllid gwaelodol ar waith.

So, I think in the interest of fairness, and the interest of ensuring that we do protect the Welsh Government and the Welsh Assembly's position, we need to have a permanent funding floor. That's why we're happy to support amendment 1, tabled by Jane Hutt, to ensure that we actually have a long-lasting outcome and one that is going to protect the Welsh Assembly's spending, even when we do have a period of growth in public expenditure, which is not anticipated in the current Parliament. So, I think, yes, we're making progress, but we're not quite there, and I think we do need to recognise that as part of this debate.

Felly, a bod yn deg, ac er mwyn sicrhau ein bod yn diogelu Llywodraeth Cymru a sefyllfa'r Cynulliad, rwy'n credu bod angen i ni gael cyllid gwaelodol parhaol. Dyna pam rydym yn hapus i gefnogi gwelliant 1, a gyflwynwyd gan Jane Hutt, i sicrhau ein bod mewn gwirionedd yn cael canlyniad sy'n hir ei barhad ac sy'n mynd i ddiogelu gwariant y Cynulliad, hyd yn oed pan fyddwn yn cael cyfnod o dwf mewn gwariant cyhoeddus, nas rhagwelir yn ystod y Senedd bresennol. Felly, rwy'n credu ein bod yn gwneud cynnydd, ond nid ydym yno eto, ac rwy'n meddwl bod angen i ni gydnabod hynny yn rhan o'r ddadl hon.

Obviously on tax credits, we're very, very, very relieved that the UK Government has retreated on tax credits after the Liberal Democrats tabled a motion to kill them in the House of Lords and combined with other parties to effectively end that. However, I do think we have to recognise that this is not the end of that issue. We're still looking at a UK Government commitment to cut £12 billion from the welfare budget, and of course the effective cut in tax credits have really been deferred because the Government is hoping to recover them through cuts to universal benefit over a period of time, and I think we have to recognise—

Yn amlwg, ar gredydau treth, mae'n rhyddhad mawr iawn i ni fod Llywodraeth y DU wedi camu'n ôl rhag gweithredu ar gredydau treth wedi i'r Democratiaid Rhyddfrydol gyflwyno cynnig i atal hynny yn Nhŷ'r Arglwyddi ac uno â phleidiau eraill i roi terfyn ar y camau hynny i bob pwrpas. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni gydnabod nad dyma ddiwedd y mater. Rydym yn dal i edrych ar ymrwymiad Llywodraeth y DU i dorri £12 biliwn oddi ar y gyllideb les, ac wrth gwrs, gohiriwyd y toriad yn y credydau treth mewn gwirionedd am fod y Llywodraeth yn gobeithio'u hadfer drwy doriadau i fudd-daliadau cyffredinol dros gyfnod o amser, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni gydnabod—

*Andrew R.T. Davies a gododd—*

*Andrew R.T. Davies rose—*

16:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Andrew R.T. Davies.

Andrew R.T. Davies.

16:18 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wasn't it your members who were voting for the universal credit when it was first put through the House of Commons under the last coalition Government? Surely you're just trying to jump on a bandwagon here, like all Lib Dems tend to.

Onid eich aelodau chi a bleidleisiodd am y credyd cynhwysol pan ddechreuodd ar ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin o dan y Llywodraeth glymblaid ddiwethaf? 'Does bosibl nad ydych ond yn ceisio canlyn y llif yma, fel y mae pawb o'r Democratiaid Rhyddfrydol yn tueddu i wneud.

16:18 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Andrew, you know more about bandwagons than I ever hope to know. [Assembly Members: 'Oh.'] Certainly, I'm not opposing universal credit; I'm referring to the cuts that you're bringing into universal credit, not the principle of universal credit itself, and the fact that changes to employment support allowance and housing benefit will effectively ensure that you claw back the money that Osborne was originally going to cut from that budget. So, really, this is a deferred cut rather than an avoided cut, and I think we have to recognise that.

Andrew, rydych yn gwybod mwy am ganlyn y llif nag y gallwn i byth obeithio'i wybod. [Aelodau'r Cynulliad: 'O.'] Yn sicr, nid wyf yn gwrthwynebu credyd cynhwysol; rwy'n cyfeirio at y toriadau rydych wedi'u cyflwyno i gredyd cynhwysol, nid yr egwyddor o gredyd cynhwysol ynddo'i hun, a'r ffaith y gallai newidiadau i'r lwfans cyflogaeth a chymorth a budd-dal tai sicrhau i bob pwrpas eich bod yn adennill yr arian roedd Osborne yn mynd i'w dorri o'r gyllideb yn wreiddiol. Felly, mewn gwirionedd, gohirio toriad yw hyn yn hytrach nag osgoi toriad, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni gydnabod hynny.

The Liberal Democrats worked hard whilst in coalition to deliver electrification of the Great Western main line from London to Swansea by 2018, but we very much regret that this has now been pushed back to 2024. This is referred to in amendment 3. The uncertainty now that surrounds this project is a major blow to all the stations west of Cardiff—Swansea, Bridgend, Neath Port Talbot—and will significantly undermine efforts to attract business to the region. The fact that there is no clear costing for this work, no start date and no budget means there is a very real threat that it will not happen at all. We need some clarification over the future of this project. I think that we do need to have that clarification. I think that applies too to the Swansea bay tidal lagoon, which did not get a single mention in the autumn statement. The Government are making huge cuts to renewable industries across the UK to make short-term savings rather than long-term investment, and the tidal lagoon project hangs by a thread because we have not yet had a commitment by the UK Government to that particular scheme.

Gweithiodd y Democratiaid Rhyddfrydol yn galed yn y glymblaid i drydaneiddio prif reilffordd y Great Western o Lundain i Abertawe erbyn 2018, ond rydym yn gresynu'n fawr iawn fod hyn bellach wedi'i wthio ymlaen i 2024. Cyfeirir at hyn yng ngwelliant 3. Mae'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth y prosiect yn awr yn ergyd fawr i'r holl orsafoedd i'r gorllewin o Gaerdydd—Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot—a bydd yn tanseilio ymdrechion i ddenu busnes i'r rhanbarth yn sylweddol. Mae'r ffaith na cheir costau clir ar gyfer y gwaith, na dyddiad dechrau na chyllideb yn golygu bod bygythiad gwirioneddol na fydd yn digwydd o gwbl. Mae arnom angen rhywfaint o eglurhad ynglŷn â dyfodol y prosiect. Rwy'n credu bod angen i ni gael yr eglurhad hwnnw. Credaf fod hynny'n wir hefyd am forlyn llanw bae Abertawe, na chafodd ei grybwyll o gwbl yn natganiad yr hydref. Mae'r Llywodraeth yn gwneud toriadau enfawr i ddiwydiannau ynni adnewyddadwy ledled y DU er mwyn gwneud arbedion yn y tymor byr yn hytrach na buddsoddiadau hirdymor, ac mae prosiect y morlyn llanw yn y fantol gan nad ydym eto wedi cael ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i'r cynllun hwnnw.

The renewables sector provides economic growth. It can create and support thousands of jobs in the Swansea bay area, but instead of embracing renewable technology, the UK Government is cutting the Department of Energy and Climate Change by 22 per cent—cuts that include nearly £0.5 billion to green taxes for energy-intensive industries and cuts to solar and onshore wind of £130 million, the ending of subsidies and possibly 27,000 solar job losses. Those cuts will affect our economy, our climate, and the public's pocket, cutting back spending on energy efficiency, which will lead to many families paying more for their energy bills and an increase in fuel poverty.

Mae'r sector ynni adnewyddadwy yn darparu twf economaidd. Gall greu a chefnogi miloedd o swyddi yn ardal bae Abertawe, ond yn hytrach na chroesawu technoleg adnewyddadwy, mae Llywodraeth y DU yn torri 22 y cant oddi ar gyllideb yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd—toriadau sy'n cynnwys bron £0.5 biliwn o doriad i drethi gwyrdd ar gyfer diwydiannau ynni-ddwys, toriadau o £130 miliwn i ynni solar a gwynt ar y tir, rhoi diwedd ar gymorthdaliadau a cholli 27,000 o swyddi mewn ynni solar o bosibl. Bydd y toriadau hyn yn effeithio ar ein heconomi, ein hinsawdd, a phoced y cyhoedd, gan dorri'n ôl ar wariant ar effeithlonrwydd ynni, a fydd yn arwain at lawer o deuluoedd yn talu mwy am eu hynni ac yn arwain at gynnydd mewn tlodi tanwydd.

Clearly, there are a lot of amendments I need to get through, Presiding Officer, and I have very little time.

Yn amlwg, mae yna lawer o welliannau sydd angen i mi eu trafod, Lywydd, ac ychydig iawn o amser sydd gennyf.

I just wanted to talk particularly about S4C, which I think is a broken promise on behalf of the Conservatives, cutting the money from that tv station. Of course, I also wanted to refer to amendment 10, tabled by Plaid Cymru, which we'll be abstaining on because we think that, although, obviously, we'd look to invest all that money that is coming from the health consequential into the health service, we need to recognise that there are also negative consequentials, which mean that the Welsh Government will not receive all of that money. I think we need to ensure that, although we need to protect health, we need to be realistic about how much money we actually have to put into it.

Roeddwn eisiau sôn yn benodol am S4C, addewid y mae'r Ceidwadwyr wedi'i dorri, yn fy marn i, drwy dorri'r arian ar gyfer y sianel deledu. Wrth gwrs, rwyf hefyd yn awyddus i gyfeirio at welliant 10, a gyflwynwyd gan Blaid Cymru, a byddwn yn ymatal arno. Er y byddem yn anelu i fuddsoddi'r holl arian a ddaw o'r cyllid canlyniadol iechyd yn y gwasanaeth iechyd, yn amlwg, credwn fod angen i ni gydnabod bod yna gyllid canlyniadol negyddol hefyd, sy'n golygu na fydd Llywodraeth Cymru yn cael yr holl arian hwnnw. Er bod angen i ni ddiogelu iechyd, rwy'n credu bod angen i ni sicrhau ein bod yn realistig ynglŷn â faint o arian sydd gennym i'w roi at hynny mewn gwirionedd.

I hope, then, Presiding Officer, that we can support all the Welsh Liberal Democrats' amendments.

Felly, Lywydd, rwy'n gobeithio y gallwn gefnogi pob un o welliannau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

16:21

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As amendment 7 has been moved, amendment 13 has been deselected. I call on Alun Ffred Jones to move amendments 9 and 10, tabled in the name of Elin Jones. Alun Ffred Jones.

Gan fod gwelliant 7 wedi'i dderbyn, mae gwelliant 13 wedi'i ddad-ddethol. Galwaf ar Alun Ffred Jones i gynnig gwelliannau 9 a 10, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Alun Ffred Jones.

*Gwelliant 9—Elin Jones*

*Amendment 9—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith na fydd Cymru—yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon—yn cael cyllid canlyniadol Barnett llawn o ganlyniad i brosiect cyflymder uchel 2.*

*Regrets that Wales—unlike Scotland and Northern Ireland—will not receive a full Barnett consequential as a result of the high speed 2 project.*

*Gwelliant 10—Elin Jones*

*Amendment 10—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi cynnydd o tua £945 miliwn yng nghyfran ganlyniadol Cymru o'r cynnydd mewn gwariant ar iechyd yn Lloegr ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i neilltuo'r swm hwn ar gyfer cyllidebau iechyd a gofal yng Nghymru.*

*Notes an increase of around £945 million to Wales's consequential share of increased health spending in England and calls for the Welsh Government to ring-fence this sum for health and care budgets in Wales.*

*Cynigiwyd gwelliannau 9 a 10.*

*Amendments 9 and 10 moved.*

16:22

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, a diolch am y cyfle i ddweud gair yn y ddadl yma. Mae yna beth camddehongli wedi bod o ddatganiad y Canghellor, wrth gwrs. Nid ydyw wedi newid cyfeiriad ynglŷn â gwariant cyhoeddus, ac mi fydd y teuluoedd hynny sydd ar incwm isel yn dal i golli arian gyda'r newidiadau i gredydau treth, ond ni fyddant yn gwneud hynny eleni.

Thank you very much, and thank you for the opportunity to contribute to this debate. There's been some misinterpretation of the Chancellor's statement, of course. He hasn't changed direction on public expenditure, and those families on low incomes will still lose out as a result of changes to tax credits, but they won't do that this year.

Rwyf am gyfeirio at dri mater sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Chymru. Yn gyntaf, mae'r Torïaid yn hawlio buddugoliaeth fod y Canghellor wedi sefydlu llawr i fformiwla Barnett ar lefel o 115 y cant o wariant cyfatebol yn Lloegr. Wel, mi fyddai hyn wedi bod yn newyddion da, yn arferol, oni bai am ddau beth. Yn gyntaf, nid yw'r llawr yn berthnasol—dim ond pan fydd gwariant yn cynyddu. Felly, ni fydd y penderfyniad yma yn cael fawr o effaith yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Yn ail, gan mai trefniant tymor byr ydy o, sydd yn para am gyfnod y Llywodraeth hon yn Llundain yn unig, nid ydy o'n rhoi'r sicrwydd tymor hir i Gymru ynglŷn â'i phatrwm cyllido, ac mae hwn yn wendid sylfaenol. Dyna pam y byddwn ni, wrth gwrs, yn cefnogi'r gwelliant sydd wedi cael ei gyflwyno yn enw'r Llywodraeth. Nid dyma'r ffordd i ddangos parch tuag at wlad fel Cymru gan Lywodraeth yn Llundain.

I want to refer to three issues that relate directly to Wales. First of all, the Conservatives are claiming a victory that the Chancellor has established a Barnett floor at a level of 115 per cent of corresponding expenditure in England. Well, this would have been good news, usually, if it weren't for two things. First of all, the floor isn't relevant—only when expenditure increases. Therefore, this decision will have virtually no impact during the term of this Government. Secondly, as this is a short-term arrangement that is only in place for the term of this Government in London, it doesn't provide that long-term assurance for Wales in terms of its funding pattern, and this is a fundamental weakness. This, of course, is why we will support the amendment tabled in the name of the Welsh Government. This isn't the way to show respect towards a nation such as Wales from a Government in London.

Gadewch imi droi at y ddau welliant y mae Plaid Cymru wedi'u cyflwyno yn enw Elin Jones. Mae'r cyntaf yn ymwneud ag arian gweddillol, neu arian sy'n dilyn y gwariant enfawr ar y trên cyswllt cyflym, HS2. Nid wyf yn siŵr a yw'r Llywodraeth yma yng Nghaerdydd o dan y camargraff ein bod ni'n derbyn arian ychwanegol o'r gwariant yma. Y gwir ydy nad ydy Cymru yn elwa cymaint â'r Alban a Gogledd Iwerddon o'r arian ychwanegol yma. Rydym yn elwa, wrth gwrs, o'r cynnydd cyffredinol yn y gwariant yng nghyllideb y DfT, ond nid ydym yn derbyn ein dyraniad Barnett—yr arian canlyniadol o'r cynllun yma. Rydym yn elwa rhyw gymaint, mae hynny'n wir, ond nid yn elwa fel y dylem ni gan nad ydy'r gwariant yma yn mynd i gael effaith fendithiol ar Gymru o gwbl. Wrth gwrs, fel y cyfeiriodd Peter Black, ni chafwyd unrhyw ddatganiad am drydaneiddio'r llinell i Abertawe, sydd wedi'i oedi tan 2024. Ac er gwaethaf yr holl glochdar gan y Torïaid am lein y gogledd, nid oes cyhoeddiad na chyllid ar gyfer honno o gwbl. Y gwir amdani ydy nad oes milltir o lein wedi'i thrydaneiddio yng Nghymru—ddim o dan Lafur yn ystod y cyfnod y buodd hi mewn Llywodraeth yn Llundain, ac ni chaiff yr un filltir ei thrydaneiddio yn ystod cyfnod y Llywodraeth yma ychwaith. Yr unig newyddion rydym ni wedi'i gael gan y Torïaid yn ddiweddar yma ydy cau swyddfeydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ym Mhorthmadog, Wrecsam ac Abertawe.

Let me turn to the amendments tabled by Plaid Cymru in the name of Elin Jones. The first relates to the consequential as a result of the huge expenditure on HS2. I'm not sure whether the Government here in Cardiff is under the misapprehension that we'll receive additional funding as a result of this expenditure. The truth is that Wales doesn't benefit as much as Scotland and Northern Ireland as a result of this expenditure. We do benefit, of course, from a general increase in the expenditure of the Department for Transport, but we don't receive a Barnett consequential from this programme. We do benefit somewhat, that is true, but we don't benefit as we should because this expenditure will not have a beneficial impact on Wales in any sense. Of course, as Peter Black mentioned, there's been no statement on the electrification of the line to Swansea, which has been deferred until 2024. And despite all the talk from the Conservatives about the north Wales line, there's no announcement or any funding for that either. The truth is that there isn't a single mile of electrified line in Wales—not under Labour during the time that they were in Government in London, and there won't be a single mile electrified during the period of this Government either. The only news that we've heard from the Conservatives recently is closing the HMRC offices in Porthmadog, Wrexham and Swansea.

Un cyhoeddiad arall, wrth gwrs, oedd yr un am y cynnydd o £16.7 biliwn yng y gyllideb iechyd erbyn y flwyddyn 2020-21, ac mae hwn i'w groesawu'n fawr iawn. Rydym ni ym Mhlaid Cymru wedi dweud yn glir y byddem ni, pe bai ni mewn Llywodraeth, yn gwario'r arian canlyniadol yma ar y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Ein hamcangyfrif ni ydy y bydd yna tua £945 miliwn yn dod i Gymru yn y cyfnod hyd at 2020-21, ac fel rŷm ni wedi ei ddweud, mae yna addewid pendant gennym ni y byddem ni'n clustnodi'r arian ychwanegol yma ar wariant ar iechyd ac ar y gwasanaethau cymdeithasol, gan ein bod ni'n gwybod bod y ddau beth—[Torri ar draws.]—yna'n cyfrannu at iechyd a lles ein pobl ni.

One other announcement made, of course, was that on the increase of £16.7 billion in the health budget by 2020-21, and this is to be warmly welcomed. We in Plaid Cymru have stated clearly that, if we were in Government, we would spend that consequential on the health and social services of Wales. Our estimate is that there will be some £945 million as a consequential to Wales in the period until 2020-21, and as I said, there is a clear pledge from us that we would ring-fence that funding for expenditure on health and social services, because we know that both aspects—[Interruption.]—contribute towards the health and wellbeing of our people.

16:26

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Andrew R.T. Davies.

Andrew R.T. Davies.

16:26

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm grateful to Plaid's finance spokesperson for highlighting the extra money that will be coming by the decision that was made by the Westminster Government to put this money into the NHS in England, but how much of that extra money that you say you're going to ring-fence will go into your comprehensive reorganisation of the health service, rather than into front-line services? How much will your reorganisation cost to do?

Rwy'n ddiolchgar i lefarydd cyllid Plaid Cymru am dynnu sylw at yr arian ychwanegol a ddaw yn sgil penderfyniad Llywodraeth San Steffan i roi'r arian hwn i'r GIG yn Lloegr, ond faint o'r arian ychwanegol y dywedwch eich bod yn mynd i'w glustnodi a fydd yn mynd tuag at eich cynlluniau cynhwysfawr i ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd, yn hytrach nag at wasanaethau rheng flaen? Faint fydd eich ad-drefnu yn ei gostio?

16:26

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, ein gobaith ni yw y byddai unrhyw newid i'r gwasanaeth iechyd, yn y pen draw, yn arbed arian, ac yn sicr yn gwneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol achos, ar hyn o bryd, mae cael dwy drefn ar wahân yn creu biwrocratiaeth gwbl ddiangen ac mae'n ddryslyd iawn, iawn. Ond, mater i'w drafod eto yw hwnnw. Yn sicr, mi fyddem ni'n cadarnhau bod yr arian ychwanegol yna'n cael ei wario ar iechyd ac ar y gwasanaethau cymdeithasol.

Well, our hope is that any change to the health service would ultimately save money and would certainly make the service more effective, because, at the moment, having two separate systems creates entirely unnecessary bureaucracy, which can be very, very confusing. But that's an issue for another day. We would certainly confirm that that additional funding would be spent on health and care.

Un sylw arall i gloi, mae cyfeiriad wedi cael ei wneud, fel rhan o'r datganiad, fod y Canghellor yn brolio mai buddsoddi yn y celfyddydau oedd y buddsoddiad gorau y gall cenedl ei wneud, ac mi gyhoeddodd ef gynnydd o 2 y cant yn y gwario ar Arts England dros y pum mlynedd nesaf. Ar yr un pryd, fe dorrwyd cyfraniad y DCMS i S4C o chwarter. Dyna farn y Torïaid am werth darlledu ac am werth diwylliant Cymraeg. Rhad arnoch chi, yn wir.

Just one further comment in closing: reference has been made that, as part of the statement, the Chancellor was boasting that investment in the arts was the best possible investment a nation could put in place, and announced an increase of 2 per cent in expenditure on Arts England over the next five years. Simultaneously, the DCMS contribution to S4C was cut by 25 per cent. That is how the Conservatives see the value of Welsh broadcasting and Welsh culture. You should be ashamed.

16:27

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Chancellor delivered good news to Wales last week. He has taken on board the recommendation from the Holtham commission and introduced an appropriate funding floor for Wales, which will complement the tax-varying powers that will force a future Welsh Government to review their actions through a more focused prism of responsibility, and hopefully—hopefully—inculcate an increased accountability for its decisions and actions.

Rhoddodd y Canghellor newyddion da i Gymru yr wythnos diwethaf. Mae wedi derbyn argymhelliad comisiwn Holtham ac wedi cyflwyno cyllid gwaelodol priodol ar gyfer Cymru, a fydd yn ategu'r pwerau amrywio trethi i orfodi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i adolygu ei gweithredoedd drwy brism sy'n canolbwyntio mwy ar gyfrifoldeb, a gobeithio—gobeithio—yn ysgogi mwy o atebolrwydd dros ei phenderfyniadau a'i gweithredoedd.

Alun Ffred Jones talked about the respect agenda, but the First Minister called for this and it was a Conservative UK Government that has provided it—something the last Labour UK Government refused to do. Indeed, Alistair Darling took Wales for granted—[Interruption.]—I've only just started, please wait a moment. Alistair Darling took Wales for granted. A safe Labour seat that will take what they're given was his attitude towards Wales, married, of course, with his fear of rattling the SNP cage.

Siaradodd Alun Ffred Jones am agenda parch, ond galwodd Prif Weinidog Cymru am hyn a Llywodraeth Geidwadol y DU sydd wedi'i roi—rhywbeth y gwrthododd Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU ei wneud. Yn wir, roedd Alistair Darling yn cymryd Cymru yn ganiataol— [Torri ar draws.]—newydd ddechrau rwyf fi, arhoswch eiliad. Roedd Alistair Darling yn cymryd Cymru yn ganiataol. Sedd ddiogel i Lafur a fydd yn cymryd yr hyn a gaiff ei roi iddi oedd ei agwedd tuag at Gymru, ac ofn y byddai'n ysgwyd cawell yr SNP, wrth gwrs.

We will receive an additional £900 million for capital projects that will be so vital for boosting our economy. In order to bring about equity of opportunity and bolster enterprise across Wales, we need to invest in infrastructure and this extra money will help us to do that. This was an autumn statement full of opportunities a future Welsh Government must take in order to make our country great. A future Welsh Government cannot and must not squander this chance.

Byddwn yn cael swm ychwanegol o £900 miliwn ar gyfer prosiectau cyfalaf a fydd mor hanfodol i hybu ein heconomi. Er mwyn sicrhau tegwch o ran cyfle a hybu menter ar draws Cymru, mae angen i ni fuddsoddi yn y seilwaith, a bydd yr arian ychwanegol hwn yn ein helpu i wneud hynny. Roedd hwn yn ddatganiad hydref llawn o gyfleoedd sy'n rhaid i Lywodraeth Cymru fanteisio arnynt yn y dyfodol er mwyn gwneud ein gwlad yn wych. Ni all, ac ni ddylai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wastraffu'r cyfle hwn.

The way to achieve this is through a formal agreement between UK and Welsh Governments to help cement a process that will lead to a lasting outcome. As Nick Ramsay has already said, we support the Labour Government that expresses this desire and we are glad that they acknowledge that the UK Government has delivered this.

Y ffordd o gyflawni hyn yw drwy gytundeb ffurfiol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i helpu i gryfhau proses a fydd yn arwain at ganlyniad parhaol. Fel y mae Nick Ramsay wedi'i ddweud eisoes, rydym yn cefnogi'r Llywodraeth Lafur sy'n mynegi'r dymuniad hwn ac rydym yn falch eu bod yn cydnabod bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno hyn.

But I want to turn to a subject that was raised in the second Liberal Democrat amendment that, although not devolved, affects us here in Wales, and I will dedicate most of my contribution to this topic. I'm sure everyone in this Chamber values the importance of an effective welfare system. It can act as a driver of social mobility by incentivising those who are unemployed to look for and secure work—the most effective tool for escaping the shackles of poverty.

Ond rwyf am droi at bwnc a godwyd yn ail welliant y Democratiaid Rhyddfrydol sy'n effeithio arnom yma yng Nghymru er nad yw wedi'i ddatganoli, a byddaf yn neilltuo'r rhan fwyaf o fy nghyfraniad i'r pwnc hwn. Rwy'n siŵr fod pawb yn y Siambr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd system les effeithiol. Gall weithredu fel ysgogydd symudedd cymdeithasol drwy gymell pobl sy'n ddi-waith i chwilio am waith a'i gael—yr arf mwyaf effeithiol ar gyfer dianc rhag hualau tlodi.

An effective welfare system must also be in place for a compassionate Government to help those who are disadvantaged, ill, or in desperate need of help. In the case of tax credits, some families need that extra income without which life can become very difficult. And for that reason, I want to applaud and thank the Chancellor for listening to the concerns of MPs from all political colours and deciding against cutting tax credits. Listening isn't a sign of weakness—a lesson Welsh Government could learn. Listening is not a sign of weakness, but of a desire to find a solution and do the right thing.

Rhaid cael system les effeithiol ar waith hefyd er mwyn i Lywodraeth drugarog helpu pobl dan anfantais, pobl sâl, neu bobl sydd angen cymorth yn enbyd. Yn achos credydau treth, mae angen yr incwm ychwanegol hwn ar deuluoedd y gallai bywyd fod yn anodd iawn iddynt hebddo. Ac am y rheswm hwnnw, rwyf am gymeradwyo a diolch i'r Canghellor am wrando ar bryderon Aelodau Seneddol o bob lliw gwleidyddol a phenderfynu yn erbyn torri credydau treth. Nid yw gwrando yn arwydd o wendid—gwers y gallai Llywodraeth Cymru ei dysgu. Nid yw gwrando yn arwydd o wendid, ond o awydd i ddod o hyd i ateb a gwneud y peth iawn.

That said—

Wedi dweud hynny—

*Joyce Watson a gododd—*

*Joyce Watson rose—*

16:30

## Angela Burns [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

No, I won't, because, to be frank, I already know what you're going to say.

Na, ni wnaf, oherwydd, a bod yn onest, rwyf eisoes yn gwybod beth rydych chi'n mynd i'w ddweud.

16:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

She is not taking an intervention.

Nid yw'n cymryd ymyriad.

16:30

## Angela Burns [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

That said, the Chancellor's strategy of reducing the size of our welfare system is absolutely correct, and one I hope we can all agree on. The extent of the unsustainability of our welfare system is startling. The UK hosts 1 per cent of the world's population, but spends the equivalent of 7 per cent of the global welfare expenditure. When Gordon Brown introduced tax credits in 1997, he spent around £7 billion on the policy. Now, expenditure on the benefit is closer to £30 billion—over four times greater. Nine out of 10 families qualified for tax credits under Brown's chancellorship. Even some MPs claimed the benefit. That figure is now six out of 10 and it needs to go down even further. I hope the Chamber will see that by maintaining the current spend on our welfare system, a Government will not be helping people in the long term. Those who receive welfare must not become dependent on welfare. They need to be helped into long-term, sustainable employment.

Wedi dweud hynny, mae strategaeth y Canghellor o leihau maint ein system les yn gwbl gywir, ac yn un y gobeithiaf y gall pawb ohonom gytuno arni. Mae graddau anghynaliadwyedd ein system les yn syfrdanol. Mae'r DU yn cynnal 1 y cant o boblogaeth y byd, ond yn gwario'r hyn sy'n gyfwerth â 7 y cant o'r gwariant byd-eang ar les. Pan gyflwynodd Gordon Brown gredydau treth yn 1997, gwariodd oddeutu £7 biliwn ar y polisi. Yn awr, mae gwariant ar y budd yn agosach at £30 biliwn—dros bedair gwaith yn fwy. Roedd naw o bob 10 o deuluoedd yn gymwys i gael credydau treth o dan gangelloriaeth Brown. Roedd rhai Aelodau Seneddol hyd yn oed yn hawlio'r budd-dal. Mae'r ffigur yn awr yn chwech o bob 10 ac mae angen iddo fynd i lawr ymhellach eto. Rwy'n gobeithio y bydd y Siambr yn gweld nad yw Llywodraeth yn helpu pobl yn y tymor hir drwy gynnal y gwariant cyfredol ar ein system les. Ni ddylai rhai sy'n derbyn lles fynd yn ddibynnol ar les. Mae angen eu helpu i gael gwaith hirdymor a chynaliadwy.

The Chancellor is addressing this point. He has produced measures that will complement the introduction of universal credit and will deter dependency and promote individual agency. He has done this by increasing the personal allowance, thereby taking 160,000 people in Wales out of income tax altogether. He has done this by cutting income tax for 1 million people. He has done this by introducing the national living wage. Together, these reforms will help reduce dependency on the state and provide individual responsibility. They are the elements that make up the Chancellor's vision of a low-tax, low-welfare and high-wage society.

Mae'r Canghellor yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn. Mae wedi creu mesurau a fydd yn ategu'r broses o gyflwyno credyd cynhwysol a bydd yn atal dibyniaeth ac yn hyrwyddo gweithrediad yr unigolyn. Gwnaeth hyn drwy gynyddu'r lwfans personol, a thrwy hyn, gall 160,000 o bobl yng Nghymru roi'r gorau i dalu treth incwm. Gwnaeth hyn drwy dorri treth incwm i 1 filiwn o bobl. Gwnaeth hyn drwy gyflwyno'r cyflog byw cenedlaethol. Gyda'i gilydd, bydd y diwygiadau hyn yn helpu i leihau dibyniaeth ar y wladwriaeth ac yn darparu cyfrifoldeb i'r unigolyn. Dyma'r elfennau sy'n rhan o weledigaeth y Canghellor o gymdeithas â lefelau isel o drethi a lles, a chyflogau da.

A Government must trust that the people it serves can make the decisions that best serve their interests. It must help people help themselves. A bloated welfare system will not achieve this goal. It must be leaner and better targeted. It must help people get into work and stay in work, not replace work. This vision is what is best for Wales. A Welsh Conservative Government would help make that vision a reality.

Rhaid i Lywodraeth fod yn hyderus y gall y bobl y mae'n eu gwasanaethu wneud y penderfyniadau sydd orau i'w lles. Rhaid iddi helpu pobl i helpu eu hunain. Ni fydd system les chwyddedig yn cyflawni'r nod hwnnw. Rhaid iddi fod yn llai gwastraffus ac wedi'i thargedu'n well. Rhaid iddi helpu pobl i gael gwaith ac i aros mewn gwaith, nid cymryd lle gwaith. Dyma'r weledigaeth orau i Gymru. Byddai Llywodraeth Geidwadol yng Nghymru yn helpu i wireddu'r weledigaeth honno.

16:32

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This spending review will deliver another five years of cuts for people in Wales, and the situation is very difficult still, despite the u-turn by George Osborne on the tax credits, which, of course, I do welcome. But, I repeat that if it hadn't been for the Labour Lords, supported by other parties, led by Patricia Hollis in the House of Lords, the tax credit cuts would have gone ahead. I must say that one of the things that I found most sickening in all this debate was the sight of the Tory millionaires rushing back to the House of Lords to push these cuts through. All I can say—[Interruption.]

Bydd yr adolygiad hwn o wariant yn darparu pum mlynedd arall o doriadau i bobl yng Nghymru, ac mae'r sefyllfa yn anodd iawn o hyd, er gwaethaf y tro pedol gan George Osborne ar y credydau treth, sydd i'w groesawu wrth gwrs. Ond rwy'n ailadrodd, oni bai am Arglwyddi Llafur, gyda chefnogaeth pleidiau eraill, o dan arweiniad Patricia Hollis yn Nhŷ'r Arglwyddi, byddai'r toriadau i'r credyd treth wedi cael eu cyflwyno. Rhaid i mi ddweud mai un o'r pethau mwyaf ffiaidd yn y ddadl hon oedd gweld y miliwnyddion Torïaid yn rhuthro'n ôl i Dŷ'r Arglwyddi i wthio'r toriadau hyn drwodd. Y cyfan a ddywedaf yw—[Torri ar draws.]

16:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order, order.

Trefn, trefn, trefn.

16:33

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

All I can say is: thank goodness for the House of Lords. Thank goodness for a second Chamber. It's a pity they're not elected, but they certainly did the business here.

Y cyfan a ddywedaf yw: diolch byth am Dŷ'r Arglwyddi. Diolch byth am ail Siambr. Mae'n drueni nad ydynt yn etholedig, ond yn bendant, maent wedi cael y maen i'r wal ar hyn.

As it is, the cuts are delayed and will still hit the working poor and vulnerable people hardest. It is those people who are suffering the most thanks to the UK Government's policies. Under the universal credit proposals, working households with children will lose an average a year of £1,300 in 2020. The Institute for Fiscal Studies has said that around 2.6 million working families in the UK will be, on average, £1,600 a year worse off as a result of UK Government benefit changes. So, the situation is still grim. Of course, the so-called living wage is the beefed-up minimum wage and these figures take into account the changes to the living wage.

Fel y mae, mae'r toriadau wedi cael eu gohirio, a byddant yn dal i daro'r bobl dlawd sy'n gweithio a phobl agored i niwed yn galetach na neb arall. Dyna'r bobl sy'n dioddef fwyaf, diolch i bolisïau Llywodraeth y DU. O dan y cynigion ar gyfer y credyd cynhwysol, bydd aelwydydd sy'n gweithio ac sydd â phlant yn colli £1,300 y flwyddyn ar gyfartaledd yn 2020. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dweud y bydd tua 2.6 miliwn o deuluoedd sy'n gweithio yn y DU £1,600 y flwyddyn ar gyfartaledd yn waeth eu byd o ganlyniad i newidiadau i fudd-daliadau gan Lywodraeth y DU. Felly, mae'r sefyllfa'n dal i fod yn enbyd. Wrth gwrs, yr hyn a elwir yn gyflog byw yw'r isafswm cyflog wedi'i gryfhau ac mae'r ffigurau hyn yn ystyried y newidiadau i'r cyflog byw.

In any case, in Wales, thank goodness for the Welsh Government, which has protected its citizens as much as it can, particularly with its help such as free prescriptions, which particularly help working families. I also welcome the work that's been done on infrastructure here in Wales, because there's no doubt, through infrastructure, that we do build the wealth in the country. I think one of the worst things that's happened since the Conservatives took control at all in Westminster is George Osborne's drastic cut in capital funding after he first came to power in 2010, when he cut off growth in the economy. I think that's one of the worst things that's happened. So, well done to the Welsh Government for what it's done to try to protect people in Wales.

Beth bynnag, yng Nghymru, diolch byth am Lywodraeth Cymru, sydd wedi diogelu ei dinasyddion gymaint ag y gall, yn enwedig gyda'i chymorth megis presgripsiynau am ddim, sy'n cynorthwyo teuluoedd sy'n gweithio yn arbennig. Rwyf hefyd yn croesawu'r gwaith a wnaed ar y seilwaith yma yng Nghymru, oherwydd nid oes unrhyw amheuaeth ein bod, drwy seilwaith, yn cynyddu cyfoeth yn y wlad. Rwy'n credu mai un o'r pethau gwaethaf a ddigwyddodd ers i'r Ceidwadwyr ddod i rym yn San Steffan yw toriad llym George Osborne i gyllid cyfalaf ar ôl iddo ddod i rym am y tro cyntaf yn 2010, pan aeth ati i atal twf yn yr economi. Rwy'n credu mai dyna un o'r pethau gwaethaf a ddigwyddodd. Felly, da iawn Lywodraeth Cymru am yr hyn a wnaeth i geisio diogelu pobl yng Nghymru.

However, there is only so much that can be done. On top of the already unprecedented cuts—and it's been acknowledged, even with the changes that there have been, these are the deepest cuts that have ever happened, and there will be an overall 3.6 per cent real-terms cut to the Welsh budget between now and 2019-20—I'm particularly concerned at how departments of local government may suffer with the changes that are coming through, and it's absolutely vital that we do what we can to protect local government.

Fodd bynnag, hyn a hyn yn unig y gellir ei wneud. Ar ben y toriadau digynsail a gafwyd eisoes—a chydnabuwyd, hyd yn oed gyda'r newidiadau a fu, mai dyma'r toriadau dyfnaf a ddigwyddodd erioed, a bydd toriad o 3.6 y cant yn gyffredinol mewn termau real i gyllideb Cymru rhwng nawr a 2019-20—rwy'n arbennig o bryderus ynglŷn â sut y gallai adrannau llywodraeth leol ddioddef yn sgil y newidiadau sy'n dod, ac mae'n gwbl hanfodol ein bod yn gwneud yr hyn a allwn i ddiogelu llywodraeth leol.

The other point that I wanted to briefly cover is the UK Government's plan to confer income tax varying powers on Wales without a referendum. I actually find this quite astonishing. In 1997, when devolution began, Scotland voted on having income tax raising powers. That was along with the referendum that they made. It was deliberately not put in the proposals for Wales because I think everybody knew that there wasn't an appetite for it here in Wales. Now, the Tories are putting it forward, and I'm not saying whether I'm for or against it, but it's been foisted on us without a referendum. I really think that this indicates the lack of trust that the Conservatives have in the Welsh people, because I do think that if we did have a referendum on income tax raising powers, it would not be won. That's the reason why it's now being put forward without a referendum. It's a bit like the issue with the mayors. The Tories have got this great belief in elected mayors, and part of the northern powerhouse devolution of power is dependent on having elected mayors there, because they know that in all the referenda that have been had on mayors, the majority of them have been lost. So, it seems that the Conservatives have lost confidence in the system of referenda.

Y pwynt arall roeddwn am roi sylw iddo'n fyr yw cynllun Llywodraeth y DU i roi pwerau i amrywio treth incwm i Gymru heb refferendwm. Mae hyn yn peri cryn syndod i mi. Yn 1997, pan ddechreuodd datganoli, pleidleisiodd yr Alban ar gael pwerau i godi treth incwm. Daeth hynny gyda'r refferendwm a gynhaliwyd. Ni chafodd ei gynnwys yn y cynigion ar gyfer Cymru yn fwriadol am fod pawb yn gwybod, rwy'n credu, nad oedd awydd yma yng Nghymru i weld hynny'n digwydd. Yn awr, mae'r Torïaid yn ei gyflwyno, ac nid wyf am ddweud fy mod o'i blaid neu yn ei erbyn, ond mae wedi'i wthio arnom heb refferendwm. Rwy'n credu o ddifrif fod hyn yn dangos y diffyg ymddiriedaeth sydd gan y Ceidwadwyr ym mhobl Cymru, gan fy mod yn meddwl, pe baem yn cynnal refferendwm ar bwerau codi treth incwm, ni fyddai'n cael ei dderbyn. Dyna pam y mae'n cael ei gyflwyno yn awr heb refferendwm. Mae'n debyg i raddau i fater y meiri. Mae'r Torïaid yn credu'n gryf mewn meiri etholedig, ac mae rhan o'r broses o ddatganoli grym i bwerdy'r gogledd yn dibynnu ar gael meiri etholedig yno, am eu bod yn gwybod bod y rhan fwyaf o'r holl refferenda a gafwyd ar feiri wedi'u colli. Felly, mae'n ymddangos bod y Ceidwadwyr wedi colli hyder yn y system refferenda.

16:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I'm sorry. I don't think that there's enough time for an intervention. Can you wind up, please?

Mae'n ddrwg gennyf. Nid wyf yn credu bod yna ddigon o amser ar gyfer ymyriad. A wnewch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

16:37 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I'll—

Fe—

16:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, you don't have to finish; just wind up. Thank you.

Na, nid oes rhaid i chi orffen; dim ond dirwyn i ben. Diolch.

16:37 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, fine. So, I think that the Conservatives have lost that trust in local democracy, and I find it quite astonishing that the income tax powers are coming without a referendum.

Ie, iawn. Felly, credaf fod y Ceidwadwyr wedi colli ymddiriedaeth mewn democratiaeth leol, ac rwy'n teimlo cryn syndod fod y pwerau treth incwm yn dod heb refferendwm.

16:37 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What a glum lot we're hearing. You are a glum lot on the other benches here today. Our motion offers Members of all parties the chance to stand behind a very modest acknowledgement that, after seven years of lean, the UK Government has managed to find a way of sharing just a little bit of the fat around. I can see from the amendments, and having listened to the contributions as well, that you've all been working very, very hard to find nothing good at all to say about this particular spending review, and are determined to be as grumpy as you possibly can. Why can't we have Wales to have a little bit of good news for a change? [Interruption.]

Am bethau digalon rydym yn eu clywed. Rydych yn griw digalon ar y meinciau eraill yma heddiw. Mae ein cynnig yn cynnig cyfle i Aelodau o bob plaid sefyll dros gydnabyddiaeth gymedrol iawn fod Llywodraeth y DU, ar ôl saith mlynedd heb fraster, wedi llwyddo i ddod o hyd i ffordd o rannu ychydig bach o fraster. Gallaf weld o'r gwelliannau, ac ar ôl gwrando ar y cyfraniadau hefyd, eich bod i gyd wedi bod yn gweithio'n galed dros ben i beidio â dod o hyd i unrhyw beth da i'w ddweud am yr adolygiad o wariant hwn, a'ch bod yn benderfynol o fod mor flin â phosibl. Pam na allwn adael i Gymru gael ychydig o newyddion da am newid? [Torri ar draws.]

*Alun Davies a gododd—*

*Alun Davies rose—*

16:38 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Very quickly, because I'm on the long speech—[Inaudible.]

Yn gyflym iawn, gan fy mod ar yr araith hir—[Anghlywadwy.]

16:38 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Suzy, don't mistake glumness for anger. Your Government is taking £50 million out of the pockets of my constituents—the most poor and vulnerable constituency in this place—and you expect me to cheer and be happy over it. I don't understand what planet you're living on.

Suzy, peidiwch â chamgymryd rhwng digalondid a dicter. Mae eich Llywodraeth yn mynd â £50 miliwn o bocedi fy etholwyr—yr etholaeth dlotaf a mwyaf agored i niwed yn y lle hwn—ac rydych yn disgwyl i mi godi fy nghalon a bod yn hapus am y peth. Nid wyf yn deall pa blaned rydych yn byw arni.

16:38 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

However, although Wales gains nothing from this gloom of Jeremiah that we've listened to—and I do include you in that one, I'm afraid, Alun—we have learned over the last 16 years that pretending that it's all Pollyanna is just as misleading as well. So, I've waded through the amendments to see whether I share any of your regrets.

Fodd bynnag, er nad yw Cymru yn elwa dim o'r math hwn o wae Jeremeia y buom yn gwrando arno—ac mae arnaf ofn fy mod yn eich cynnwys chi, Alun—rydym wedi dysgu dros y 16 mlynedd diwethaf fod esgus bod popeth yn fendigedig yr un mor gamarweiniol hefyd. Felly, rwyf wedi bustachu drwy'r gwelliannau i weld a wyf yn rhannu unrhyw rai o'ch rhesymau dros resynu.

Achos, Alun Ffred, nid wyf eisiau gweld fy mhlaid i ychwaith, yn y Llywodraeth yn Llundain, yn colli cyfleoedd i ddangos eu bod nhw'n deall eu cyfrifoldebau i Gymru.

Because, Alun Ffred, I don't want to see my own party either, in Government in London, missing opportunities to show that they understand their responsibilities to Wales.

So, we will be supporting amendment 3.

Felly, byddwn yn cefnogi gwelliant 3.

The First Minister was right yesterday to use the words that the Secretary of State himself has applied to rail companies in the recent past: 'Get on with it'. I would urge Network Rail to get on with it. I do regret that my region isn't getting the benefit of this singularly important piece of investment as quickly as it might, but my deeper regret, of course, is the 13-year delay, when the Labour Party—who are so enthusiastic about this now—failed to deliver 1 mm of electrified line, and failed to recognise, even, that my region would really benefit from this game-changing commitment.

Roedd y Prif Weinidog yn iawn ddoe i ddefnyddio'r geiriau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol ei hun wedi'u defnyddio wrth y cwmnïau rheilffyrdd yn ddiweddar: 'Get on with it'. Byddwn yn annog Network Rail i fwrw ati. Rwy'n gresynu nad yw fy rhanbarth yn cael budd o'r buddsoddiad pwysig hwn mor gyflym ag y gallai, ond rwy'n llawer mwy siomedig ynglŷn â'r oedi o 13 mlynedd, wrth gwrs, pan fethodd y Blaid Lafur—sydd mor frwd am hyn yn awr—â darparu 1 milimedr o reilffordd wedi'i thrydaneiddio, a methu â chydnabod, hyd yn oed, y byddai fy rhanbarth yn elwa'n fawr o'r ymrwymiad hwn sy'n newid popeth.

We also support amendment 5. Yes, I would have liked to have heard something about Swansea tidal lagoon last week as well. I still think that this, as the first in a series of lagoons, is another game changer for Wales. We could be a global centre of specialism as well as a major contributor to the UK's renewable energy base. The delay on the strike price is regrettable, but with the cost of energy being such an issue, as we heard in the last debate, at least we can understand why the decision is proving so difficult. What is Natural Resources Wales's excuse for the delay on the marine licence? I'm sure that the Welsh Government is regretting the egg on its own face in the story of delay as much as I regret the omission of any kind of update on the marine licence.

Rydym hefyd yn cefnogi gwelliant 5. Byddwn, fe fyddwn wedi hoffi clywed rhywbeth am forlyn llanw Abertawe yr wythnos diwethaf hefyd. Rwy'n dal i feddwl y bydd hyn eto, fel y cyntaf mewn cyfres o forlynnoedd, yn newid pethau yng Nghymru. Gallem fod yn ganolfan arbenigedd fyd-eang yn ogystal â chyfrannu'n helaeth at sylfaen ynni adnewyddadwy'r DU. Mae'r oedi ar y pris streic yn anffodus, ond gyda chost ynni'n destun y fath sylw, fel y clywsom yn y ddadl ddiwethaf, o leiaf gallwn ddeall pam y mae'n benderfyniad mor anodd. Beth yw esgus Cyfoeth Naturiol Cymru am yr oedi ar y drwydded forol? Rwy'n siŵr fod Llywodraeth Cymru yn gresynu at yr ŵy ar ei hwyneb ei hun yn hanes yr oedi lawn cymaint ag rwy'n gresynu at y ffaith yr hepgorwyd unrhyw ddiweddariad ar y drwydded forol.

We will also be supporting amendment 7, because you're right: my party made a commitment to safeguard the funding and editorial independence of S4C. I remain entirely confident for the editorial independence, but I will share this with you: I was relieved—very relieved—when I heard that the Department for Culture, Media and Sport was only facing a 5 per cent cut. You'll remember the consternation around the news that the department was being asked to model for 40 per cent cuts. I stood up in this Chamber only a few weeks ago and I said that I would be unhappy with any cut to the direct funding of S4C. So, when I heard the news, I hoped that DCMS wouldn't even waste time trying to shave 5 per cent off £7 million.

Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 7, oherwydd eich bod yn iawn: ymrwymodd fy mhlaid i ddiogelu cyllid ac annibyniaeth olygyddol S4C. Rwy'n parhau i fod yn gwbl hyderus ynghylch annibyniaeth olygyddol, ond rwyf am rannu hyn gyda chi: roeddwn yn falch—yn falch iawn—pan glywais mai 5 y cant yn unig o doriad a fyddai'n wynebu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Fe gofiwch y pryder ynglŷn â'r newyddion fod gofyn i'r adran fodelu ar gyfer toriadau o 40 y cant. Codais yn y Siambr hon ychydig wythnosau'n ôl i ddweud y byddwn yn anhapus ag unrhyw doriad i gyllid uniongyrchol S4C. Felly, pan glywais y newyddion, roeddwn yn gobeithio na fyddai'r DCMS yn gwastraffu amser yn ceisio eillio 5 y cant oddi ar £7 miliwn.

So, I am at a loss, Members, with this £1.7 million. In the context of broadcasting, that's a saving that will barely be noticed. It is the equivalent of the salary of Graham Norton—the money that he's had from the taxpayer in this last year, or just a smidge more. Yet, for S4C, which is already on the tightest of margins, this is, as you said, a 25 per cent cut. There is no justification at all for S4C to bear a cut five times greater than the department itself has had to.

Felly, nid wyf yn deall yr £1.7 miliwn hwn, Aelodau. Yng nghyd-destun darlledu, mae'n arbediad na fydd neb prin yn sylwi arno. Mae'n cyfateb i gyflog Graham Norton—yr arian y mae wedi'i gael gan y trethdalwyr dros y flwyddyn ddiwethaf, neu'r tamaid lleiaf yn fwy na hynny. Eto i gyd, i S4C, sydd eisoes yn gweithredu ar gyllideb eithriadol o dynn, mae'n doriad o 25 y cant, fel y dywedoch. Nid oes unrhyw gyfiawnhad o gwbl dros wneud i S4C ysgwyddo toriad sydd bum gwaith yn fwy na'r hyn sy'n rhaid i'r adran ei hun ei ysgwyddo.

Moreover, the direct payment by DCMS relates absolutely to S4C's public service broadcasting obligations. It is my firm view that by cutting the direct payment by this proportion, it is up to the UK Government to show that it has not crossed the line between funding that has been safeguarded and that which has not. I can assure Members that the 25 per cent cut to the direct funding of S4C is a matter of regret to the Welsh Conservatives. We back the people of Wales in trying to ensure that S4C is treated fairly, and we will be making our own firm representations to the UK Government on this.

Ar ben hynny, mae'r taliad uniongyrchol gan DCMS yn ymwneud yn llwyr â rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus S4C. Rwy'n gadarn o'r farn mai mater i Lywodraeth y DU fydd dangos nad yw wedi croesi'r llinell rhwng cyllid a ddiogelir a chyllid nas diogelir drwy dorri'r taliad uniongyrchol i'r fath raddau. Gallaf sicrhau'r Aelodau fod toriad o 25 y cant i gyllid uniongyrchol S4C yn destun gofid i'r Ceidwadwyr Cymreig. Rydym yn cefnogi pobl Cymru drwy geisio sicrhau bod S4C yn cael ei thrin yn deg, a byddwn yn cyflwyno ein sylwadau cadarn ein hunain i Lywodraeth y DU ar hyn.

But, this is one mistake. The amendments today invite us to regret a number of things, but there is nothing I regret more than our NHS waiting lists, our poor rate of business start-ups, our lacklustre gross domestic product, our council tax hikes, the betrayal of a generation of Welsh children and teachers, and a Welsh Government that treats transparency and accountability as little more than high-scoring words in Scrabble. So, yes—come on—

Ond un camgymeriad yw hwn. Mae'r gwelliannau heddiw yn ein gwahodd i resynu at nifer o bethau, ond nid oes unrhyw beth rwy'n gresynu ato'n fwy na rhestrau aros ein GIG, ein cyfradd wael o fusnesau newydd, ein cynnyrch domestig gros di-fflach, y codiadau yn ein treth gyngor, bradychu cenhedlaeth o blant ac athrawon Cymru, a Llywodraeth Cymru sy'n trin tryloywder ac atebolrwydd fel fawr mwy na geiriau sgôr uchel mewn gêm o Scrabble. Felly, ie—dowch—

16:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you wind up now?

A wnewch chi ddirwyn i ben yn awr?

16:42

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—let Wales enjoy a bit of good news for a change. We've put up with gloom for so long, we've forgotten what good news looks like when we see it.

[Yn parhau.]—gadewch i Gymru fwynhau ychydig o newyddion da am newid. Rydym wedi dioddef digalondid ers cymaint o amser, rydym wedi anghofio sut beth yw newyddion da pan fyddwn yn ei weld.

16:43

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have a short, but what I believe to be a very important point to raise that has arisen recently, and I speak further to amendment 12. The capping of housing benefit is yet another example, in my opinion, of an ill-thought-through cap that will, as this amendment suggests, hurt the most vulnerable. I note that the High Court has ruled that the UK Government actually discriminated against disabled people when it failed to exempt some unpaid carers from its cap on benefits. The inclusion of the carer's allowance in the calculation of the benefit cap, and the consequences of this, is something that I have raised in this Chamber before.

Mae gen i bwynt byr, ond pwysig iawn yn fy marn i am rywbeth sydd wedi codi yn ddiweddar, ac rwy'n siarad ymhellach am welliant 12. Mae capio budd-dal tai yn enghraifft arall eto, yn fy marn i, o gap difeddwl a fydd, fel y mae'r gwelliant hwn yn awgrymu, yn brifo'r bobl fwyaf agored i niwed. Nodaf fod yr Uchel Lys wedi dyfarnu bod Llywodraeth y DU wedi gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl mewn gwirionedd pan fethodd ag eithrio gofalwyr di-dâl o'i gap ar fudd-daliadau. Mae cynnwys lwfans gofalwyr wrth gyfrif y cap ar fudd-daliadau, a chanlyniadau hyn, yn rhywbeth rwyf wedi'i grybwyll yn y Siambr hon o'r blaen.

The court stated that the failure to exempt people who act as carers for relatives was, and I quote:

Dywedodd y llys, o ran y methiant i eithrio pobl sy'n gweithredu fel gofalwyr am berthnasau,

'not making any savings for public funds',

nad oedd yn arbed unrhyw arian i gyllid cyhoeddus.

and urged the Secretary of State for Work and Pensions to give, and I quote again, 'serious reconsideration' as to whether it is necessary to retain the benefit cap for people who provide at least 35 hours' care a week.

Anogodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau i ailystyried yn ddifrifol a oes angen cadw'r cap ar fudd-daliadau ar gyfer pobl sy'n darparu o leiaf 35 awr o ofal yr wythnos.

Many carers freely provide, as we've often said across this Chamber, care to the most vulnerable in our communities, and carers have been estimated to save the taxpayer in Wales over £8 billion every year. I have no doubt that many in this Chamber would agree that this court ruling is a welcome development. I would like to call on the Government here to seek to influence the Secretary of State for Work and Pensions, who, after all, has responsibility for Wales, to act according to the court ruling when implementing the spending review in his department.

Mae llawer o ofalwyr yn darparu gofal yn rhad ac am ddim, fel rydym wedi'i ddweud yn aml ar draws y Siambr hon, i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau, ac amcangyfrifwyd bod gofalwyr yn arbed dros £8 biliwn i drethdalwyr Cymru bob blwyddyn. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddai llawer yn y Siambr hon yn cytuno bod dyfarniad y llys yn ddatblygiad i'w groesawu. Hoffwn alw ar y Llywodraeth yma i geisio dylanwadu ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, sydd, wedi'r cyfan, â chyfrifoldeb dros Gymru, i weithredu'n unol â dyfarniad y llys wrth roi'r adolygiad o wariant ar waith yn ei adran.

16:45

## Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the opportunity to take part in this important debate and to put on record my thanks to the UK Government for delivering a spending review that will deliver economic security and help deliver a high wage, low tax, lower welfare economy.

Croesawaf y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon ac i gofnodi fy niolch i Lywodraeth y DU am gyflwyno adolygiad o wariant a fydd yn sicrhau diogelwch economaidd ac yn helpu i sicrhau economi o gyflogau da, trethi isel a llai o les.

Labour would have us believe that we borrow our way out of a borrowing crisis that they generated. They would have us return to a high-tax, low-wage economy and the days of tax and spending, ignoring the consequences. The spending review has continued the excellent work undertaken by the last Government to bring public finances under control. Yes, there have been difficult decisions, but we can only have economic security if we live within our means. [Interruption.]

Byddai Llafur am i ni gredu ein bod yn benthyg ein ffordd allan o argyfwng benthyca a grëwyd ganddynt hwy. Byddent am i ni ddychwelyd at economi o drethi uchel a chyflogau isel a dyddiau treth a gwariant, gan anwybyddu'r canlyniadau. Mae'r adolygiad o wariant wedi parhau â'r gwaith rhagorol a wnaed gan y Llywodraeth ddiwethaf i ddod â chyllid cyhoeddus o dan reolaeth. Do, gwnaed penderfyniadau anodd, ond ni allwn gael sicrwydd economaidd os nad ydym yn byw ar y cyllid sydd gennym. [Torri ar draws.]

16:46

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking an intervention? Jeff Cuthbert.

A ydych yn derbyn ymyriad? Jeff Cuthbert.

16:46

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If it's the case that you're no longer borrowing to get us out of the economic situation, why has the national debt doubled to £1.5 trillion?

Os yw'n wir nad ydych bellach yn benthyca i'n cael ni allan o'r sefyllfa economaidd, pam y mae'r ddyled genedlaethol wedi dyblu i £1.5 triliwn?

16:46

## Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There we are.

Dyna ni.

The Welsh Labour Government and their friends in Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats take great glee in attacking the spending review but they do not say where the money would come from to pay for the things the UK Government have been forced to cut. We will soon have tax-raising powers in Wales, therefore the other three parties should tell the Welsh taxpayers how much they will put up taxes in order to pay for the extra commitments they want to make.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru a'i chyfeillion ym Mhlaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn mynd ati'n frwd iawn i ymosod ar yr adolygiad o wariant, ond nid ydynt yn dweud o ble y dôi'r arian i dalu am y pethau y mae Llywodraeth y DU wedi'i gorfodi i'w torri. Yn fuan bydd gennym bwerau i godi trethi yng Nghymru, felly dylai'r tair plaid arall ddweud wrth drethdalwyr Cymru i ba raddau y maent eisiau cynyddu trethi er mwyn talu am yr ymrwymiadau ychwanegol y maent am eu gwneud.

Focusing on one of the complaints, renewable energy, there has been massive criticism by the other parties here about the reduction of feed-in tariffs and other subsidies for renewables. These subsidy schemes have been massively exploited by large energy companies at huge cost to taxpayers and energy bills. Subsidy in renewables is there to drive innovation and support burgeoning technologies. But it is not a blank cheque. Any subsidy must strike the right balance between supporting the industry and value for the taxpayers.

Gan ganolbwyntio ar un o'r cwynion, ynni adnewyddadwy, cafwyd beirniadaeth enfawr gan y pleidiau eraill yma ynghylch gostwng y tariffau cyflenwi trydan a chymorthdaliadau eraill ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae'r cynlluniau cymhorthdal hyn wedi'u hecsbloetio'n aruthrol gan gwmnïau ynni mawr ar gost enfawr i drethdalwyr a thalwyr biliau ynni. Mae cymorthdaliadau ynni adnewyddadwy yno i ysgogi arloesi ac i gefnogi technolegau sy'n datblygu Ond nid yw'n siec wag. Rhaid i unrhyw gymhorthdal sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cefnogi'r diwydiant a gwerth i drethdalwyr.

Approximately 1 million homes in Wales will benefit from a £30 reduction as a result of changes introduced by the UK Conservative Government. We heard in an earlier debate Labour AMs calling on the UK Government to bring down energy bills in order to support our steel industry, yet these same AMs want us to deliver massive subsidies to the renewables sector. These subsidies have not delivered innovation or diversification of our energy sector. [Interruption.] Please.

Bydd tua 1 filiwn o gartrefi yng Nghymru yn elwa o ostyngiad o £30 o ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Geidwadol y Deyrnas Unedig. Clywsom ACau Llafur mewn dadl gynharach yn galw ar Lywodraeth y DU i ostwng biliau ynni er mwyn cefnogi ein diwydiant dur, ac eto yr un ACau hyn sydd am i ni gyflwyno cymorthdaliadau enfawr i'r sector ynni adnewyddadwy. Nid yw'r cymorthdaliadau wedi cyfrannu at arloesi nac arallgyfeirio yn ein sector ynni. [Torri ar draws.] Os gwelwch yn dda.

16:48 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for taking an intervention. You've identified myself, possibly, as one of the AMs calling for energy cuts for the intensive industries, which is critical, but you also talked about subsidies for innovative approaches. Do you therefore agree that there should be a strike price agreed for the tidal lagoon, which is innovative and moving forward?

Diolch i chi am dderbyn ymyriad. Rydych wedi nodi, o bosibl, fy mod i'n un o'r ACau sy'n galw am doriadau i gostau ynni ar gyfer y diwydiannau ynni-ddwys, sy'n hanfodol, ond rydych wedi sôn hefyd am gymorthdaliadau ar gyfer dulliau arloesol. A ydych, felly, yn derbyn y dylid cytuno ar bris streic ar gyfer y morlyn llanw, sy'n arloesol ac yn symud ymlaen?

16:48 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm coming to that.

Rwy'n dod at hynny.

These subsidies have not delivered innovation or diversification of our energy sector. The subsidies have simply lined the pockets of large energy companies who have built large windfarms or solar arrays.

Nid yw'r cymorthdaliadau hyn wedi arwain at arloesi nac arallgyfeirio yn ein sector ynni. Yn syml, mae'r cymorthdaliadau wedi mynd i bocedi cwmnïau ynni mawr sydd wedi adeiladu ffermydd gwynt mawr neu araeau paneli solar.

Many opposition and Welsh Government AMs have criticised the UK Government for not agreeing to the Swansea tidal lagoon strike price in the CSR. The UK Government are committed to and supportive of the tidal lagoon but we need to agree a price for the energy generated that the country can afford, and, more importantly, that our children can afford. After all, the Swansea tidal lagoon will deliver energy for generations.

Mae llawer o ACau yr wrthblaid a Llywodraeth Cymru wedi beirniadu Llywodraeth y DU am beidio â chytuno pris streic morlyn llanw Abertawe yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i'r morlyn llanw, ac yn gefnogol iawn iddo ond mae angen i ni gytuno pris ar gyfer yr ynni a gynhyrchir y gall y wlad ei fforddio, ac yn bwysicach, y gall ein plant ei fforddio. Wedi'r cyfan, bydd y morlyn llanw yn Abertawe yn cyflenwi ynni am genedlaethau.

The voting public supported the Conservative Government in order to improve public finances. They are delivering improvements and at the same time are delivering affordable investment. Opposition parties want us to spend more but won't tell us how they will pay for it. It is time the other parties told us where the funds are coming from; after all, the outgoing Labour Chief Secretary to the Treasury told us they had spent all the money. Thank you very much.

Mae'r cyhoedd sy'n pleidleisio yn cefnogi'r Llywodraeth Geidwadol er mwyn gwella cyllid cyhoeddus. Maent yn sicrhau gwelliannau ac ar yr un pryd yn darparu buddsoddiad fforddiadwy. Mae'r gwrthbleidiau am i ni wario mwy ond nid ydynt yn dweud wrthym sut y byddant yn talu amdano. Mae'n bryd i'r pleidiau eraill ddweud wrthym o ble y daw'r arian; wedi'r cyfan, dywedodd Prif Ysgrifennydd Llafur y Trysorlys wrthym wrth adael eu bod wedi gwario'r arian i gyd. Diolch yn fawr iawn.

16:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

16:50 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Llywydd, I do welcome the opportunity to respond to this debate. I want to start by making it clear, as I have done over the last week, that the spending review and autumn statement won't relieve the ongoing and significant pressures on public services in Wales. We're still facing an overall real-terms cut of 3.6 per cent between 2015-16 and 2019-20, and a 4.5 per cent real-terms cut to our revenue budget. So, our settlement remains exceptionally challenging, particularly as the real-terms cut to our budget comes on top of five years of cuts to the Welsh Government budget, and our resource and capital budgets remain below the level set in 2010 in real terms and, overall, by 2020, our budget will be 11 per cent lower.

Llywydd, rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb i'r ddadl hon. Rwyf am ddechrau drwy ei gwneud yn glir, fel y gwneuthum dros yr wythnos ddiwethaf, na fydd yr adolygiad o wariant a datganiad yr hydref yn lleddfu'r pwysau parhaus a sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn dal i wynebu toriad cyffredinol mewn termau real o 3.6 y cant rhwng 2015-16 a 2019-20, a thoriad o 4.5 y cant mewn termau real i'n cyllideb refeniw. Felly, mae ein setliad yn parhau i fod yn eithriadol o heriol, yn enwedig gan fod y toriad mewn termau real i'n cyllideb yn dod ar ben pum mlynedd o doriadau i gyllideb Llywodraeth Cymru, ac mae ein cyllidebau arian a chyfalaf yn parhau i fod yn is na'r lefel a osodwyd mewn termau real yn 2010 ac yn gyffredinol, erbyn 2020, bydd ein cyllideb 11 y cant yn is.

Yes, of course I welcome the delay—it is a delay—in planned cuts to tax credits. Both Peter Black and Alun Ffred Jones are right on this: tax credits will be phased out by 2018, and the planned cuts to universal credit haven't been reversed. This does mean that the longer-term impact remains broadly the same. And, of course, it's important, as Julie Morgan has stated, and referred to the IFS on this point—that Mr Johnson from the IFS said that the long-term cost of the move to abandon changes to tax credit planned for next year would be nil, and

Ydw, wrth gwrs fy mod yn croesawu'r gohirio—a gohiriad ydyw—yn y toriadau a gynlluniwyd i gredydau treth. Mae Peter Black ac Alun Ffred Jones yn iawn ar hyn: bydd credydau treth yn cael eu dileu'n raddol erbyn 2018, ac nid yw'r toriadau arfaethedig i gredyd cynhwysol wedi'u gwrthdroi. Golyga hyn fod yr effaith fwy hirdymor yn aros fwy neu lai yr un fath. Ac wrth gwrs, mae'n bwysig, fel y dywedodd Julie Morgan, a chyfeiriodd at y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar y pwynt hwn—fod Mr Johnson o'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dweud na fyddai unrhyw gost hirdymor yn deillio o'r cam i roi'r gorau i newidiadau i'r credyd treth a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf, a

'the long term generosity of the welfare system will be cut just as much as was ever intended',

'the long term generosity of the welfare system will be cut just as much as was ever intended',

in terms of the move to universal credit.

o ran y newid i gredyd cynhwysol.

I'm pleased that Gwenda Thomas was able to outline further changes to housing benefit, in support of the Liberal Democrats' amendment 12, and the concerns that she's raised in terms of the impact of capping housing benefits on the social sector. We need to look, of course, at that court ruling in terms of those impacts.

Rwy'n falch fod Gwenda Thomas wedi gallu amlinellu newidiadau pellach i fudd-dal tai, i gefnogi gwelliant 12 y Democratiaid Rhyddfrydol, a'r pryderon y mae hi wedi'u crybwyll o ran effaith capio budd-daliadau tai ar y sector cymdeithasol. Mae angen i ni edrych, wrth gwrs, ar ddyfarniad y llys o ran yr effeithiau hynny.

I'm very pleased that we've got strong support across this Chamber in terms of our real concerns and the anger, of course, that there is about cuts to S4C. We were told before the UK general election that a Conservative Government would safeguard funding for S4C, but, six months in, the UK Government has cut the funding for S4C. We had a very strong statement from Suzy Davies, which we welcome and respect, in supporting amendment 7, and, of course, backed by Peter Black and Alun Ffred Jones as well. I think that will have a powerful impact in terms of this debate today, and that is important.

Rwy'n falch iawn ein bod wedi cael cefnogaeth gref ar draws y Siambr hon o ran ein pryderon go iawn a'n dicter, wrth gwrs, ynghylch toriadau i S4C. Dywedwyd wrthym cyn etholiad cyffredinol y DU y byddai Llywodraeth Geidwadol yn diogelu cyllid ar gyfer S4C, ond chwe mis yn ddiweddarach, mae Llywodraeth y DU wedi torri cyllid ar gyfer S4C. Cawsom ddatganiad cryf iawn gan Suzy Davies, ac rydym yn croesawu ac yn parchu hynny, wrth gefnogi gwelliant 7, a gefnogir gan Peter Black ac Alun Ffred Jones hefyd wrth gwrs. Rwy'n credu y bydd i hynny effaith gref o ran y ddadl hon heddiw, ac mae hynny'n bwysig.

I think, Presiding Officer, that many of us have recognised—indeed, it's been highlighted in this debate—that this was a spending review of missed opportunity. It was silent on the negotiations for the Swansea tidal lagoon. I wrote to the Chancellor, and that was one of the key infrastructure projects that I said was a UK infrastructure project that we need to take forward.

Lywydd, rwy'n meddwl bod llawer ohonom wedi cydnabod—yn wir, mae wedi cael sylw yn y ddadl hon—fod hwn yn adolygiad cynhwysfawr o wariant sydd wedi colli cyfle. Ni soniodd air am y trafodaethau ar forlyn llanw Abertawe. Ysgrifennais at y Canghellor, a dyna oedd un o'r prosiectau seilwaith allweddol y dywedais ei fod yn brosiect seilwaith ar gyfer y DU sydd angen i ni fwrw ymlaen arno.

16:53 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm most grateful to you for taking an intervention. You are the finance Minister here. If you had responsibility, would you agree a strike price of £168?

Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am dderbyn ymyriad. Chi yw'r Gweinidog cyllid yma. Pe baech chi'n gyfrifol amdano, a fyddech yn cytuno ar bris streic o £168?

16:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We don't have the powers, unfortunately, but there are ways and means—as I'm sure you would be quite aware—in which you can ensure that that strike price could be met. After all, the Treasury has found ways and means of meeting the cost of Hinkley Point. There are ways and means in which we can ensure that this dynamic and pioneering new infrastructure project, which, as you say—and I'm glad for your support for Swansea tidal lagoon in terms of supporting the Liberal Democrats' amendment—we should be able to take forward. Most importantly, it is a private sector-led infrastructure project, which is crucial in terms of the opportunities for renewable energy, and it is of benefit to the whole of the UK and energy infrastructure.

Nid oes gennym y pwerau, yn anffodus, ond mae yna ffyrdd a dulliau—fel y gwyddoch, rwy'n siŵr—o sicrhau y gellir talu'r pris streic. Wedi'r cyfan, mae'r Trysorlys wedi dod o hyd i ddull a modd o dalu am Hinkley Point. Mae yna ddull a modd o sicrhau y bydd y prosiect seilwaith newydd deinamig a blaengar hwn, fel y dywedwch, yn symud yn ei flaen—ac rwy'n falch o'ch cefnogaeth i forlyn llanw Abertawe drwy gefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol. Yn bwysicaf oll, mae'n brosiect seilwaith a arweinir gan y sector preifat, sy'n hanfodol o ran y cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy, ac mae o fudd i'r DU gyfan a'r seilwaith ynni.

It was silent also, of course, on the UK Government commitment—detailed commitment—to the Cardiff capital city region deal, silent on the devolution of air passenger duty—Scotland's got it, and Northern Ireland's got long haul—and also added to the uncertainty as to when the electrification of the Great Western main line through to Swansea would be completed.

Ni ddywedodd air chwaith, wrth gwrs, am ymrwymiad Llywodraeth y DU—ymrwymiad manwl—i gytundeb prifddinas-ranbarth Caerdydd, dim gair am ddatganoli toll teithwyr awyr—fel sydd gan yr Alban, a Gogledd Iwerddon ar gyfer teithiau pell—ac ychwanegodd at yr ansicrwydd ynglŷn â pha bryd y byddai'r gwaith trydaneiddio ar brif reilffordd Great Western i Abertawe yn cael ei gwblhau.

I think it's important that we look at the bigger picture, the tough choices that we have to make as we move towards our budget next week. Of course, I will be bringing you a budget next week, a draft budget for 2016-17. It is important that we recognise what this means in terms of our Barnett consequentials in the spending review. Of course, while we welcome them, we have to treat them with caution, because there are negative consequentials as well as positive. Across all programmes, the consequentials only amount to £110 million for 2016-17. I will, of course, be announcing the level of Welsh Government investment in the health service in the draft budget. But I would also say, 'Let's look at some of the commentators about the spend on the additional funding for front-line health services in England'. The Health Foundation, what did they say?

Rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni edrych ar y darlun llawnach, y dewisiadau anodd sy'n rhaid i ni eu gwneud wrth i ni symud tuag at ein cyllideb yr wythnos nesaf. Wrth gwrs, byddaf yn cyflwyno cyllideb yr wythnos nesaf, gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17. Mae'n bwysig i ni gydnabod beth y mae hyn yn ei olygu o ran ein symiau canlyniadol Barnett yn yr adolygiad o wariant. Wrth gwrs, er ein bod yn eu croesawu, mae'n rhaid i ni eu trin yn ofalus, oherwydd mae yna symiau canlyniadol negyddol yn ogystal â rhai cadarnhaol. Ar draws pob rhaglen, cyfanswm o £110 miliwn yn unig o symiau canlyniadol a geir ar gyfer 2016-17. Byddaf yn cyhoeddi lefel buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y gwasanaeth iechyd yn y gyllideb ddrafft wrth gwrs. Ond byddwn hefyd yn dweud, 'Gadewch i ni edrych ar rai o'r sylwebwyr ar y gwariant ar y cyllid ychwanegol i wasanaethau iechyd rheng flaen yn Lloegr'. Y Sefydliad Iechyd, beth y maent hwy wedi'i ddweud?

'The Spending Review has substantially redefined and shrunk the scope of NHS services to be protected from reductions in spending. This means big reductions in wider health services, which is a false economy.'

'The Spending Review has substantially redefined and shrunk the scope of NHS services to be protected from reductions in spending. This means big reductions in wider health services, which is a false economy.'

So, we have to beware of those consequentials and what they will mean. I want to come on to—

Felly, mae'n rhaid i ni fod yn wyliadwrus o'r symiau canlyniadol a'r hyn a olygant. Rwyf eisiau dod at—

16:55

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you giving way? No.

A ydych yn ildio? Nac ydych.

16:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

[Continues.]—the key question of fair funding for Wales. All parties in this Chamber have repeatedly called for greater transparency and fairness in our funding arrangements, and for reform of the Barnett formula. This is not just an issue that the Welsh Government has identified. As all speakers have said, it's been universally recognised that the formula does Wales no favours, and needs to be addressed in the long term. In March, the Prime Minister acknowledged that there was a problem with Barnett in Wales, but let's look at what the UK Government did announce last week. The Chancellor committed to a floor and a level of relative funding for this Parliament, but, at the next spending review, he said that this floor would be re-set. Now, let's be clear—I welcome the fact that the UK Government recognise the work of the Holtham commission, and set the floor at 115 per cent, within the range of relative need that the commission estimated. There were recommendations of both the Holtham and Silk commissions on the need to secure fair funding, supported by all parties in this Senedd. This is where our strength has been so powerful, hence the announcement of 115 per cent does represent a step forward. But, as has been said today, the Chancellor's commitment is for five years and five years only, and we know, as the UK Treasury knows, that our relative funding will remain towards the top of the Holtham range, with no prospect of falling below 115 per cent over the next five years.

[Yn parhau.]—fater allweddol ariannu teg i Gymru. Mae pob plaid yn y Siambr hon wedi galw dro ar ôl tro am fwy o dryloywder a thegwch yn ein trefniadau ariannu, ac am ddiwygio fformiwla Barnett. Nid Llywodraeth Cymru yn unig sydd wedi nodi'r mater hwn. Fel y mae pob siaradwr wedi dweud, cydnabyddir yn gyffredinol nad yw'r fformiwla yn ffafrio Cymru mewn unrhyw fodd, ac mae angen mynd i'r afael â hyn yn y tymor hir. Ym mis Mawrth, cydnabu'r Prif Weinidog fod yna broblem gyda Barnett yng Nghymru, ond gadewch i ni edrych ar yr hyn a gyhoeddodd Llywodraeth y DU yr wythnos diwethaf. Ymrwymodd y Canghellor i gyllid gwaelodol a lefel o gyllid cymharol ar gyfer y Senedd hon, ond yn yr adolygiad nesaf o wariant, dywedodd y byddai lefel y cyllid gwaelodol hwn yn cael ei ailosod. Nawr, gadewch i ni fod yn glir—rwy'n croesawu'r ffaith fod Llywodraeth y DU yn cydnabod gwaith comisiwn Holtham, ac wedi gosod y llawr ar 115 y cant, o fewn yr ystod o angen cymharol a amcangyfrifwyd gan y comisiwn. Cafwyd argymhellion gan gomisiwn Holtham a chomisiwn Silk ar yr angen i sicrhau cyllid teg a ddenodd gefnogaeth pob plaid yn y Senedd hon. Dyma lle y mae ein cryfder wedi bod mor bwerus, a dyna pam y mae'r cyhoeddiad o 115 y cant yn gam ymlaen. Ond fel y dywedwyd heddiw, ymrwymiad am bum mlynedd a roddodd y Canghellor, a phum mlynedd yn unig, a gwyddom, fel y gŵyr Trysorlys y DU, y bydd ein cyllid cymharol yn aros tuag at ben uchaf ystod Holtham, heb unrhyw bosibilrwydd o syrthio islaw 115 y cant dros y pum mlynedd nesaf.

It's very important that we put this on record this afternoon, because we look to the next spending review. The UK Government then would say at that point that the floor is re-set. And, as Alun Ffred Jones said, clearly, the commitment doesn't provide any security to our funding in the long term, and therefore doesn't address fair funding for Wales. I've always said, and it's been recognised today, that the case to secure a lasting fair funding settlement is one that stands in its own right, and is supported by all parties in the Assembly.

Mae'n bwysig iawn ein bod yn cofnodi hyn y prynhawn yma, oherwydd ein bod yn edrych tuag at yr adolygiad nesaf o wariant. Byddai Llywodraeth y DU yn dweud ar y pwynt hwnnw y dylid ailosod y cyllid gwaelodol. Ac fel y dywedodd Alun Ffred Jones, mae'n amlwg nad yw'r ymrwymiad yn diogelu ein cyllid mewn unrhyw fodd yn y tymor hir, ac felly nid yw'n cynnig ariannu teg i Gymru. Rwyf wedi dweud erioed, ac mae wedi'i gydnabod heddiw, fod yr achos dros sicrhau setliad ariannu teg parhaol yn un sy'n sefyll yn ei hawl ei hun, ac wedi'i gefnogi gan bob plaid yn y Cynulliad.

I've written to the Chief Secretary seeking an agreement to secure a lasting outcome that will be fair to both Governments and will resolve fair funding once and for all, and I'm meeting him next Monday. I'm very pleased that Nick Ramsay in his opening remarks talked about a united approach, and I think that's what we've achieved. I thank all parties for supporting my amendment. I think the achievement of cross-party support can't be underestimated, especially now I'm meeting the Chief Secretary. We need to have a formal inter-government agreement, and I propose to secure a long-lasting outcome.

Rwyf wedi ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd yn gofyn am gytundeb i sicrhau canlyniad parhaol a fydd yn deg i'r ddwy Lywodraeth, ac a fydd yn sicrhau ariannu teg unwaith ac am byth, ac rwy'n ei gyfarfod ddydd Llun nesaf. Rwy'n falch iawn fod Nick Ramsay yn ei sylwadau agoriadol wedi siarad am ymagwedd unedig, ac rwy'n meddwl mai dyna rydym wedi'i gyflawni. Diolch i bob plaid am gefnogi fy ngwelliant. Rwy'n credu nad oes modd bychanu'r ffaith ein bod wedi sicrhau cefnogaeth drawsbleidiol, yn enwedig gan fy mod yn awr yn cyfarfod â'r Prif Ysgrifennydd. Mae angen i ni gael cytundeb ffurfiol rhwng y llywodraethau, ac rwy'n bwriadu sicrhau canlyniad sy'n hir ei barhad.

So, this was a spending review of smoke and mirrors, as I said. There are tough choices and more pain to come for public finances, and, particularly, vulnerable people and working people on low incomes, and £12 billion more of welfare benefit cuts to come. But we have the opportunities to secure a fairer funding deal for Wales as a result of this spending review, and we must grasp this today. So, I urge you to, and I'm glad you're going to, support my amendment. I support all amendments put forward by the Welsh Liberal Democrats, as well as Plaid Cymru's amendment 13.

Felly, roedd hwn yn adolygiad o wariant o fwg a drychau, fel y dywedais. Mae yna ddewisiadau anodd a mwy o boen i ddod i gyllid cyhoeddus, ac yn arbennig, i bobl agored i niwed a phobl sy'n gweithio ar incwm isel, a £12 biliwn yn rhagor o doriadau i ddod i fudd-daliadau lles. Ond mae gennym gyfle i sicrhau cytundeb ariannu tecach i Gymru o ganlyniad i'r adolygiad o wariant hwn, a rhaid i ni fachu ar y cyfle heddiw. Felly, rwy'n eich annog, ac rwy'n falch eich bod yn mynd i gefnogi fy ngwelliant. Rwy'n cefnogi'r holl welliannau a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn ogystal â gwelliant 13 Plaid Cymru.

16:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I now call on Andrew R.T. Davies to reply to the debate. Andrew R.T. Davies.

Diolch. Galwaf yn awr ar Andrew R.T. Davies i ymateb i'r ddadl. Andrew R.T. Davies.

16:58 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer, and I welcome the opportunity to round this debate up, which has been a pleasure to bring as the Welsh Conservatives in the Assembly, reflecting on the autumn statement of this time last week, an autumn statement of which clearly the Welsh Government did their best to try and paint a picture of doom and gloom, as Suzy Davies pointed out in her contribution. What was most satisfying for me was to hear the First Minister on Tuesday debating the point about whether there was going to be any net new money, when, in fact, at the end of the statement there clearly was new money on the table when it came to health; there was new money when it came to capital expenditure. As Nick Ramsay pointed out about capital expenditure in particular, there was £900 million, which was the highest allocation of extra money to any of the devolved administrations.

Diolch i chi, Lywydd, ac rwy'n croesawu'r cyfle i gloi'r ddadl hon y bu'n bleser gennyf ei chyflwyno ar ran y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad, i ystyried datganiad yr hydref yr adeg hon yr wythnos diwethaf, datganiad yr hydref yr ymdrechodd Llywodraeth Cymru ei gorau glas i geisio creu darlun o ofid a gwae yn ei chylch, fel y dywedodd Suzy Davies yn ei chyfraniad. Yr hyn oedd fwyaf boddhaol i mi oedd clywed y Prif Weinidog ddydd Mawrth yn dadlau'r pwynt ynglŷn ag a oedd unrhyw arian net newydd yn mynd i fod ar gael, pan ddaeth hi'n amlwg mewn gwirionedd, ar ddiwedd y datganiad, fod arian newydd ar y bwrdd ar gyfer iechyd; roedd yna arian newydd ar gyfer gwariant cyfalaf. Fel y dywedodd Nick Ramsay am wariant cyfalaf yn arbennig, roedd yna £900 miliwn, sef y dyraniad mwyaf o arian ychwanegol i unrhyw un o'r gweinyddiaethau datganoledig.

It's also worth pointing out as well with this budget that there has been the Barnett funding floor put in place, which Labour failed to do in 13 years. I know the Minister in her contribution spent a long time talking about that, as did others spend a long time talking about it, and how it was limited to five years. Well, if it's not in party manifestos in 2020, people will know not to vote for those parties, because it's for the lifetime of this Parliament, you can't bind a future Parliament, and ultimately, it will be in the Welsh Conservative manifesto for 2020. Therefore, the people of Wales will have a choice to know which party does stand up and deliver for the people of Wales.

Mae'n werth tynnu sylw hefyd gyda'r gyllideb hon fod cyllid gwaelodol Barnett wedi'i roi yn ei le, rhywbeth y methodd y Blaid Lafur â'i wneud mewn 13 mlynedd. Rwy'n gwybod bod y Gweinidog wedi treulio amser hir yn ei chyfraniad yn siarad am hynny, fel y treuliodd eraill amser hir yn siarad am y peth, a sut y mae wedi'i gyfyngu i bum mlynedd. Wel, os nad yw ym maniffestos y pleidiau yn 2020, bydd pobl yn gwybod na ddylent bleidleisio dros y pleidiau hynny, am mai dros oes y Senedd hon y mae i fod: ni allwch rwymo Senedd yn y dyfodol, ac yn y pen draw, bydd yn cael ei gynnwys ym maniffesto'r Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer 2020. Felly, gall pobl Cymru ddewis gwybod pa blaid sy'n sefyll ac yn cyflawni dros bobl Cymru.

I did note in the Minister's contribution—I did offer her the opportunity to agree the strike price of £168 for the Swansea tidal lagoon—I note she went on for a minute and a half and didn't take up the offer of agreeing that, which probably tells you all you need to know about the Welsh Government's position at the moment.

Nodais yng nghyfraniad y Gweinidog—cynigais gyfle iddi gytuno i'r pris streic o £168 ar gyfer morlyn llanw Abertawe—a nodais ei bod wedi bwrw rhagddi am funud a hanner heb dderbyn y cynnig i gytuno arno, sy'n dweud popeth sydd angen i chi ei wybod am safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd mae'n debyg.

We, in principle, support the Swansea tidal lagoon. The Chancellor has said that; he said that in the spring budget. There are negotiations around the strike price; the company understand that. Ultimately, the Government also here have a responsibility, as has been pointed out, about Natural Resources Wales and the marine licenses—they still have not been agreed, so where you can make action and make progress, you choose not to do anything on that front.

Mewn egwyddor, rydym yn cefnogi morlyn llanw Abertawe. Mae'r Canghellor wedi dweud hynny; dywedodd hynny yng nghyllideb y gwanwyn. Ceir trafodaethau ynghylch y pris streic; mae'r cwmni'n deall hynny. Yn y pen draw, mae gan y Llywodraeth yma gyfrifoldeb hefyd, fel y nodwyd, o ran Cyfoeth Naturiol Cymru a'r trwyddedau morol—maent yn dal heb eu cytuno, felly lle y gallwch weithredu a gwneud cynnydd, rydych yn dewis peidio â gwneud unrhyw beth yn ei gylch.

Also, you talked, Minister, about the city deal. The city deal only arrived at the Treasury's door some two weeks ago. If you, as a finance Minister or any one of your colleagues could turn round proposals that quickly, wouldn't that be a wonderful concept? You know, timely intervention from the Welsh Government, something which I'm sure they don't fully understand. Again, as the Chancellor said in his autumn statement, we agree in principle to the city deal. As an elected Member for Cardiff, I passionately want to see the city deal come forward, but deadline after deadline—deadline after deadline—coming forward through the summer was missed by the Government here in submitting that document to Westminster, and it didn't happen.

Hefyd, Weinidog, fe sonioch am y cytundeb dinas. Ni chyrhaeddodd y cytundeb dinas ddrws y Trysorlys hyd nes oddeutu pythefnos yn ôl. Oni fyddai'n wych pe baech hi, fel Gweinidog cyllid neu unrhyw un o'ch cyd-Aelodau, yn gallu ymdrin â chynigion mor gyflym â hynny? Wyddoch chi, ymyriad amserol gan Lywodraeth Cymru, rhywbeth rwy'n siŵr nad ydynt yn ei ddeall yn iawn. Unwaith eto, fel y dywedodd y Canghellor yn natganiad yr hydref, rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r cytundeb dinas. Fel Aelod etholedig dros Gaerdydd, rwy'n angerddol ynglŷn â gweld y cytundeb dinas yn cael ei ddatblygu, ond methodd y Llywodraeth yma â chyflwyno'r ddogfen honno i San Steffan o un dyddiad cau i'r llall—dyddiad cau ar ôl dyddiad cau—drwy'r haf, ac ni ddigwyddodd.

Also, I note the Member for Cardiff North's contribution where she talked about tax powers and responsibilities. Surely, that would be one thing a proactive Government would welcome; the ability to raise and spend a portion of its own money, to create economic activity, to create wealth. You used the example—the Member for Cardiff North did—about Manchester and the northern powerhouse, and how this was being forced on councils in the north. Well, all 10 council leaders—who happen to be Labour council leaders—as well as Tony Lloyd, who you sat with in the House of Commons, Julie, as an MP on the Labour benches, have embraced this. They have embraced directly-elected mayors and have spoken passionately about the sense of empowerment they feel in that particular field.

Hefyd, nodaf gyfraniad yr Aelod dros Ogledd Caerdydd pan siaradodd am bwerau a chyfrifoldebau treth. 'Does bosibl na fyddai hynny'n un peth y byddai Llywodraeth ragweithiol yn ei groesawu; y gallu i godi a gwario cyfran o'i harian ei hun, i greu gweithgarwch economaidd, i greu cyfoeth. Fe ddefnyddioch—yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, hynny yw—Fanceinion a phwerdy'r gogledd fel enghraifft, a sut y caiff hyn ei orfodi ar gynghorau yn y gogledd. Wel, mae pob un o'r 10 arweinydd cyngor—sy'n digwydd bod yn arweinwyr cynghorau Llafur—yn ogystal â Tony Lloyd a oedd yn Aelod gyda chi yn Nhŷ'r Cyffredin, Julie, fel AS ar y meinciau Llafur, wedi croesawu hyn. Maent wedi croesawu meiri wedi'u hethol yn uniongyrchol ac wedi siarad yn angerddol am eu teimlad o fod wedi'u hymrymuso yn y maes penodol hwnnw.

*Julie Morgan a gododd—*

*Julie Morgan rose—*

17:02 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'll gladly take the intervention.

Rwy'n falch o dderbyn ymyriad.

17:02 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the leader of the opposition accept that most cities have voted against elected mayors when they've been given the opportunity to do so?

A wnaiff arweinydd yr wrthblaid dderbyn bod y rhan fwyaf o ddinasoedd wedi pleidleisio yn erbyn meiri etholedig pan gawsant y cyfle i wneud hynny?

17:02 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

An equal number of cities have voted against and for. Bristol, for example, have a directly-elected city mayor, and Liverpool have one. Manchester have gone for a different model of negotiating an economic model with the Treasury, direct, which gives them responsibility in a whole area of fields and that ultimately is proving an empowerment for that great city in the north. Ultimately, the tax powers—[Interruption.] I've given you one intervention, Julie, I've got about six minutes to do the whole job of summing up. It's about empowerment of Government. This autumn statement, combined with the comprehensive spending review, clearly showed that the Welsh Conservatives in Government in London are delivering for Wales by delivering the income tax responsibilities here to Cardiff that will create better Government, more proactive Government. But I can understand why people would be very doubtful, in the hands of the current crop of Ministers, how those levers would be used constructively.

Mae'r un nifer o ddinasoedd wedi pleidleisio yn erbyn ag a bleidleisiodd o'u plaid. Mae gan ddinas Bryste, er enghraifft, faer a etholwyd yn uniongyrchol, ac mae gan Lerpwl un. Mae Manceinion wedi dewis model gwahanol o drafod model economaidd gyda'r Trysorlys, yn uniongyrchol, sy'n rhoi cyfrifoldeb iddynt mewn nifer o feysydd ac mae hynny yn y pen draw yn grymuso'r ddinas wych honno yn y gogledd. Yn y pen draw, mae'r pwerau treth—[Torri ar draws.] Rwyf wedi ildio i chi unwaith, Julie, mae gennyf oddeutu chwe munud i wneud yr holl waith crynhoi. Mae'n ymwneud â grymuso Llywodraeth. Mae datganiad yr hydref hwn, ynghyd â'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, wedi dangos yn glir fod y Ceidwadwyr Cymreig yn y Llywodraeth yn Llundain yn cyflawni dros Gymru drwy gyflwyno cyfrifoldebau treth incwm yma i Gaerdydd er mwyn creu gwell Llywodraeth, Llywodraeth fwy rhagweithiol. Ond gallaf ddeall pam y byddai pobl yn amheus iawn sut y byddai'r pwerau hynny'n cael eu defnyddio'n adeiladol yn nwylo'r cnwd presennol o Weinidogion.

It was also Alun Ffred's contribution, when he failed to mention once about income tax powers—something that, obviously, Plaid Cymru have talked about, which was quite ironic really, that the finance spokesman for Plaid Cymru chose not to raise that particular issue in the spending review. But he did go on about the extra money that has been made available for health, because of the UK Conservatives delivering extra money for the health budget in England and the consequential that will be coming through. One thing he didn't do was outline what their very comprehensive and costly reorganisation of the health service will cost the health service and the people of Wales. The third reorganisation here in Wales. I'll gladly take an intervention if you can give me the figure today of how much of that extra money will go into that costly, unnecessary reorganisation. Because you were in Government when the last reorganisation of the health service happened, only in 2009. You were voting for that reorganisation as part of that Government, and now some six years later you're going to the people of Wales to tell them you want to do it all over again. Well, I'm pretty sure the people of Wales will tell you what they think of that reorganisation in the ballot box, Plaid Cymru.

Hefyd, roedd cyfraniad Alun Ffred, pan fethodd â sôn unwaith am bwerau treth incwm—rhywbeth y mae Plaid Cymru yn amlwg wedi siarad amdano, ac roedd yn eithaf eironig mewn gwirionedd, fod llefarydd cyllid Plaid Cymru wedi dewis peidio â chrybwyll y mater hwnnw yn yr adolygiad o wariant. Ond aeth ymlaen am yr arian ychwanegol sydd wedi'i ddarparu ar gyfer iechyd am fod Ceidwadwyr y DU yn darparu arian ychwanegol ar gyfer y gyllideb iechyd yn Lloegr a'r swm canlyniadol a fydd yn dod yn ei sgil. Un peth na wnaeth oedd amlinellu faint y byddai eu prosesau ad-drefnu cynhwysfawr a chostus iawn i'r gwasanaeth iechyd yn ei gostio i'r gwasanaeth iechyd a phobl Cymru. Y drydedd broses ad-drefnu yma yng Nghymru. Rwy'n hapus i dderbyn ymyriad os gallwch roi ffigur i mi heddiw yn dweud faint o'r arian ychwanegol a fyddai'n mynd tuag at yr ad-drefnu costus a diangen hwnnw. Oherwydd roeddech chi yn y Llywodraeth pan gafodd y gwasanaeth iechyd ei ad-drefnu ddiwethaf, yn 2009. Roeddech yn pleidleisio dros yr ad-drefnu hwnnw fel rhan o'r Llywodraeth, ac yn awr, tua chwe blynedd yn ddiweddarach, rydych yn dweud wrth bobl Cymru eich bod am wneud y cyfan eto. Wel, rwy'n eithaf siŵr y bydd pobl Cymru yn dweud wrthych beth yw eu barn am yr ad-drefnu hwnnw yn y blwch pleidleisio, Blaid Cymru.

And then the Liberal Democrats. Peter Black with his series of amendments—I think about 11 in total, or certainly 10 in total—it's a lot, anyway. But the one amendment I did want to pick up on was on the electrification of the line from Cardiff to Swansea. We will be working tirelessly to make sure this happens. We do have dates for delivery on that—the 2019-24 envelope of investment from Network Rail. Regrettably, a lot of these big projects do cost a lot of money and run over budget. That is something that has been put to Network Rail to make sure they deliver. It will be delivered to Cardiff and then on to Swansea. And I do remind this Chamber that, when Labour were in Government for 13 years, they didn't deliver one centimetre—one centimetre—of electrification. And actually, at the end of their time in Government, there was less rail track in the United Kingdom than when they came in in 1997.

Ac yna'r Democratiaid Rhyddfrydol. Peter Black gyda'i gyfres o welliannau—tua 11 i gyd rwy'n meddwl, neu 10 yn sicr—mae'n llawer, beth bynnag. Ond un gwelliant roeddwn am roi sylw iddo oedd trydaneiddio'r rheilffordd o Gaerdydd i Abertawe. Byddwn yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae gennym ddyddiadau ar gyfer cyflwyno hynny—y cyfnod o fuddsoddiad gan Network Rail rhwng 2019 a 2024. Yn anffodus, mae llawer o'r prosiectau mawr hyn yn costio llawer o arian ac yn gwario mwy na'r gyllideb. Mae hynny'n rhywbeth y soniwyd wrth Network Rail yn ei gylch er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni. Bydd yn cael ei ddarparu i Gaerdydd, yna'n mynd ymlaen tuag at Abertawe. Ac rwy'n atgoffa'r Siambr hon, pan oedd y Blaid Lafur mewn Llywodraeth am 13 mlynedd, ni ddarparwyd un centimetr—un centimetr—o waith trydaneiddio. Ac mewn gwirionedd, ar ddiwedd eu cyfnod yn y Llywodraeth, roedd llai o drac rheilffordd yn y Deyrnas Unedig na phan ddaethant i rym yn 1997.

17:05

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Time's up.

Amser ar ben.

17:05

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will continue to invest in the rail infrastructure and invest in the economy of Wales, creating quality jobs and decent take-home pay that, ultimately, will deliver a prosperous future for everyone. I believe this motion commends the support of this Chamber.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y seilwaith rheilffyrdd a buddsoddi yn economi Cymru, gan greu swyddi o safon a chyflogau mynd adref gweddus a fydd, yn y pen draw, yn sicrhau dyfodol ffyniannus i bawb. Rwy'n credu bod y cynnig hwn yn haeddu cefnogaeth y Siambr hon.

17:05

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does anyone object? [Objection.] Object. We'll defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Gohiriwn yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair.*

## 5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Busnesau Bach

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 4 yn enw Elin Jones.*

## 5. Welsh Conservatives Debate: Small Businesses

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts, and amendment 4 in the name of Elin Jones.*

17:06

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 5 is the Welsh Conservatives debate on small businesses, and I call on William Graham to move the motion.

Eitem 5 yw Dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar fusnesau bach, a galwaf ar William Graham i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5896 Paul Davies

Motion NDM5896 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu bod busnesau bach yn rhan annatod o economïau cenedlaethol a chymunedol Cymru;

1. Believes that small businesses are an integral part of Wales's national and community economies.

2. Yn croesawu'r rôl y mae Dydd Sadwrn Busnesau Bach yn ei chwarae o ran hyrwyddo busnesau bach Cymru;

2. Welcomes the role that Small Business Saturday plays in championing Wales's small businesses.

3. Yn cydnabod y cyfraniad y mae busnesau bach yn ei wneud tuag at sicrhau hunaniaeth cymunedau lleol a hyrwyddo eu diwylliant a'u treftadaeth unigryw;

3. Recognises the contribution that small businesses make in ensuring the identity of local communities and promoting their unique culture and heritage;

4. Yn cydnabod bod busnesau bach, lleol yn darparu porth i gyflogaeth i lawer o bobl ifanc; a

4. Acknowledges that small, local businesses provide a gateway into employment for many young people; and

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

5. Calls on the Welsh Government to:

a) cynnig pecyn cymorth gwell i fusnesau bach i wella eu cyfraniad i fywyd economaidd-gymdeithasol Cymru;

a) Offer a better support package for small businesses to enhance the contribution they make to Welsh socio-economic life;

b) datblygu seilwaith ledled Cymru i wasanaethu rhagolygon twf busnesau bach yng Nghymru yn well.

b) Develop infrastructure across Wales to better serve the growth prospects for Wales's small businesses.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:06

### William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. May I move the motion in the name of Paul Davies?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi gynnig y cynnig yn enw Paul Davies?

Welsh business owners and entrepreneurs have been vital to Wales's economic recovery. They could not and did not move when times were hard. They struggled to remain in business, safeguarding much-needed jobs for people in Wales. Many Welsh SMEs cannot just relocate when times are difficult. This is why the Welsh Government must do their utmost to provide the support that enables our SMEs to prosper. Supporting them is vital to ensure the sustainability and diversity of the Welsh economy. With just over 2,000 medium-sized businesses, the Welsh economy lacks medium-sized firms, which is symptomatic of the lack of support offered to help small businesses grow. Although it is important to encourage the birth of new businesses, debate must also focus on sustaining existing SMEs, improving their longevity and enabling them to expand. Small businesses and microbusinesses are increasing employment opportunity in Wales, creating more than 25,000 jobs in 2013.

Mae perchnogion ac entrepreneuriaid busnes yng Nghymru wedi bod yn allweddol i adferiad economaidd Cymru. Nid oeddent yn gallu symud pan oedd hi'n galed, ac ni wnaethant hynny. Roeddent yn ei chael hi'n anodd parhau i gynnal eu busnesau, a diogelu swyddi mawr eu hangen i bobl yng Nghymru. Nid mater syml o adleoli pan fo pethau'n anodd yw hi i lawer o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Dyma pam y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud ei gorau glas i ddarparu'r gefnogaeth sy'n galluogi ein busnesau bach a chanolig i ffynnu. Mae'n hanfodol eu cefnogi er mwyn sicrhau bod economi Cymru yn gynaliadwy ac yn amrywiol. Mae economi Cymru yn brin o gwmnïau canolig eu maint, gydag ond ychydig dros 2,000 ohonynt yn bodoli, ac mae hyn yn symptom o ddiffyg cymorth i helpu busnesau bach i dyfu. Er ei bod yn bwysig annog busnesau newydd i ffurfio, rhaid canolbwyntio ein trafodaethau hefyd ar gynnal busnesau bach a chanolig sy'n bodoli eisoes, gan wella eu hirhoedledd a'u galluogi i ehangu. Mae busnesau bach a microfusnesau yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth yng Nghymru, gan greu mwy na 25,000 o swyddi yn 2013.

Wales is not short of entrepreneurial spirit, with 50,000 new enterprises being born in the last decade. However, the long-term sustainability of businesses declined over two years in Wales, highlighting the need for the Welsh Government to re-evaluate their support. In 2013, the business birth rate was the highest it had been for 10 years, but in 2014 it slowed slightly. Equally concerning is the slight increase in the death rate of Welsh businesses. Indeed, in 2014, SMEs in Wales accounted for 99.9 per cent of private sector business, three quarters of employment and more than half of turnover. But it is clear that business births are declining in Wales, and SMEs need clear lines of communication to ensure they can access support easily. At present, there are the underperforming Finance Wales, Business Wales and the national procurement service amongst many other outlets for regeneration and grant awarding, which makes accessing support complex for small businesses that don't have the time or manpower to search for help.

Nid yw Cymru yn brin o ysbryd entrepreneuraidd, a ffurfiwyd 50,000 o fentrau newydd dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd hirdymor busnesau wedi dirywio dros ddwy flynedd yng Nghymru, gan dynnu sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru ailwerthuso ei chefnogaeth. Yn 2013, roedd cyfradd y busnes newydd a grëwyd yn uwch nag y bu ers 10 mlynedd, ond yn 2014 fe arafodd ychydig. Yr un mor bryderus yw'r cynnydd bychan yn y gyfradd o fusnesau Cymru sy'n methu. Yn wir, yn 2014 yng Nghymru, busnesau bach a chanolig oedd 99.9 y cant o fusnesau'r sector preifat yng Nghymru, a darparent dri chwarter y swyddi a mwy na hanner y trosiant. Ond mae'n amlwg fod niferoedd busnesau newydd yn gostwng yng Nghymru, ac mae angen llwybrau cyfathrebu clir ar fusnesau bach a chanolig i sicrhau y gallant ddod o hyd i gymorth yn hawdd. Ar hyn o bryd, ceir Cyllid Cymru, sy'n tangyflawni, Busnes Cymru a'r gwasanaeth caffael cenedlaethol ymhlith nifer o asiantaethau eraill ar gyfer adfywio a rhoi grantiau, sy'n gwneud dod o hyd i gymorth yn gymhleth i fusnesau bach nad oes ganddynt amser na gweithlu i chwilio am help.

With Finance Wales being declared unfit for purpose back in 2013, having been found responsible for inflating interest rates, it lost its primary aim of economic development. Solutions to improve access to finance for Welsh SMEs have been slow and uninspiring. Earlier this year, the Institute of Welsh Affairs put out an economic strategy for Wales—a report that suggested that there had been little progress since devolution in 1999. This was followed by the Bevan Foundation's bleak and pessimistic view of the future over the next five years. And now we have, 'What Wales Could Be', a study commissioned by the Federation of Small Businesses to look at solutions to the Welsh economy. Indeed, few would disagree with their suggestion that there should be greater concentration on expanding the small and medium-sized firm sector in Wales.

Cyhoeddwyd bod Cyllid Cymru yn anaddas at y diben yn ôl yn 2013, ar ôl canfod ei fod yn gyfrifol am chwyddo cyfraddau llog, ac wedi colli golwg ar ei brif nod, sef datblygu economaidd. Mae atebion i wella mynediad at gyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig Cymru wedi bod yn araf ac yn ddi-fflach. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y Sefydliad Materion Cymreig strategaeth economaidd ar gyfer Cymru—adroddiad a awgrymai mai ychydig o gynnydd a wnaed ers datganoli yn 1999. I'w ddilyn, cafwyd darlun digalon a phesimistaidd Sefydliad Bevan o'r dyfodol dros y pum mlynedd nesaf. Ac yn awr mae gennym, 'What Wales Could Be', astudiaeth a gomisiynwyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach i edrych ar atebion i economi Cymru. Yn wir, ni fyddai llawer yn anghytuno â'u hawgrym y dylid canolbwyntio mwy ar ehangu'r sector busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru.

The Conservative UK Government has introduced initiatives to support to Welsh SMEs. The UK Government have administered loans to help employers take on workers. The increased employment allowance will help small businesses and charities meet the costs of taking on workers, enabling businesses to open up more job opportunities. The British Business Bank has guaranteed more than 1,100 loans to support small businesses in Wales, and the new enterprise allowance is helping thousands of people in Wales choose to end a life dependent on benefits to start their own business and be part of a new enterprise generation. Four thousand and seventy new businesses have been created through the scheme since 2011, with 540 in Cardiff, 410 in Swansea, 350 in Carmarthenshire, 290 in Pembrokeshire and 270 in Caerphilly. If the Welsh Government are intent on attracting inward investment, they must increase the social ask of large organisations and access to finance must be significantly improved.

Mae Llywodraeth Geidwadol y DU wedi cyflwyno mentrau i gefnogi busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU wedi gweinyddu benthyciadau i helpu cyflogwyr i gyflogi gweithwyr. Bydd y cynnydd yn y lwfans cyflogaeth yn helpu busnesau bach ac elusennau i dalu costau cyflogi gweithwyr, gan alluogi busnesau i sicrhau mwy o gyfleoedd gwaith. Mae Banc Busnes Prydain wedi gwarantu mwy na 1,100 o fenthyciadau i gefnogi busnesau bach yng Nghymru, ac mae'r lwfans menter newydd yn helpu miloedd o bobl yng Nghymru i ddewis rhoi diwedd ar oes o ddibyniaeth ar fudd-daliadau i ddechrau eu busnesau eu hunain a bod yn rhan o genhedlaeth fenter newydd. Crëwyd 4,070 o fusnesau newydd drwy'r cynllun ers 2011, gyda 540 yng Nghaerdydd, 410 yn Abertawe, 350 yn Sir Gaerfyrddin, 290 yn Sir Benfro a 270 yng Nghaerffili. Os yw Llywodraeth Cymru yn benderfynol o ddenu mewnfuddsoddiad, mae'n rhaid iddynt gynyddu'r galw ar sefydliadau mawr i gynnig atebion cymdeithasol a gwella mynediad at gyllid yn sylweddol.

Whilst the creation of a development bank is a good start towards improving things for our small businesses, there's a lot more that can be done. Finance needs to be geographically closer to business, though regional banking, lending and support can be offered on a basis of greater local knowledge. Our Invest Wales policy highlights the importance of this aspect of business banking. Indeed, as a local business owner myself, I supported Newport business improvement district and noted the support from 88 per cent of all businesses in central Newport. There are many successful examples of local businesses working in collaboration to create the right environment to attract a wider customer base and revive the economic fortunes of their towns and cities. For Newport, the Friars Walk development is seen as a welcome improvement, however, the city has one of the largest vacancy rates of empty shops in Wales, and the Centre for Retail Research has forecast the disappearance of Welsh high streets within 20 years if the current closure level continues.

Er bod y gwaith o greu banc datblygu yn ddechrau da tuag at wella pethau i'n busnesau bach, mae llawer mwy y gellir ei wneud. Mae angen i gyllid fod yn agosach at fusnesau yn ddaearyddol, er y gellid cynnig bancio, benthyciadau a chymorth rhanbarthol ar sail gwybodaeth fwy lleol. Mae ein polisi Buddsoddi Cymru yn amlygu pwysigrwydd yr agwedd hon ar fancio i fusnesau. Yn wir, fel perchennog busnes lleol fy hun, roeddwn yn cefnogi ardal wella busnes Casnewydd a nodais gefnogaeth 88 y cant o'r holl fusnesau yng nghanol Casnewydd. Ceir llawer o enghreifftiau llwyddiannus o fusnesau lleol yn gweithio ar y cyd i greu'r amgylchedd cywir ar gyfer denu sylfaen gwsmeriaid ehangach ac adfywio rhagolygon economaidd eu trefi a'u dinasoedd. Ar gyfer Casnewydd, ystyrir bod datblygiad Friars Walk yn welliant i'w groesawu, ond mae cyfraddau siopau gwag y ddinas gyda'r uchaf yng Nghymru, ac mae'r Ganolfan Ymchwil Manwerthu wedi rhagweld y bydd y stryd fawr yn diflannu yng Nghymru ymhen 20 mlynedd os yw'r lefelau cau presennol yn parhau.

With the establishment of business improvement districts and regional banking, we can encourage areas to revive and thrive. I'm minded to recall David Cameron's statement during our conference when he stated it was business that created jobs, not governments. With that in mind, Small Business Saturday this week is a groundbreaking initiative to celebrate the contribution that small business makes to our social fabric and regional economies.

Gyda sefydlu ardaloedd gwella busnes a bancio rhanbarthol, gallwn annog ardaloedd i adfywio a ffynnu. Rwy'n cofio datganiad David Cameron yn ystod ein cynhadledd pan ddywedodd mai busnesau sy'n creu swyddi, nid llywodraethau. Gyda hynny mewn golwg, mae Sadwrn Busnesau Bach yr wythnos hon yn fenter arloesol i ddathlu'r cyfraniad y mae busnesau bach yn ei wneud i'n gwead cymdeithasol ac i economïau rhanbarthol.

By highlighting the social and economic contribution small businesses make to communities, residents, in turn, are encouraged to show their support for their local businesses. Through mobilising mutual appreciation between business and customer, small businesses are promoted and championed. Home-grown firms are anchored to the local communities they operate in, supporting local jobs and driving wealth creation. An example of this is Happus, based in Caerphilly, which supplies affordable computer hardware, enabling access for the 5 million plus people in the UK who aren't able to afford new products and services that most take for granted. Happus demonstrate their commitment to social good by stating:

Drwy dynnu sylw at gyfraniad cymdeithasol ac economaidd busnesau bach i gymunedau, anogir trigolion yn eu tro i ddangos eu cefnogaeth i'w busnesau lleol. Trwy ysgogi gwerthfawrogiad o'i gilydd rhwng busnesau a chwsmeriaid, caiff busnesau bach eu hybu a'u hyrwyddo. Mae cwmnïau cynhenid wedi'u hangori wrth y cymunedau lleol y maent yn gweithredu ynddynt, gan gefnogi swyddi lleol ac ysgogi cyfoeth. Enghraifft o hyn yw Happus, yng Nghaerffili, sy'n cyflenwi caledwedd cyfrifiadurol fforddiadwy i alluogi mynediad ar gyfer y 5 miliwn a mwy o bobl yn y DU nad ydynt yn gallu fforddio cynhyrchion a gwasanaethau newydd y mae'r rhan fwyaf yn eu cymryd yn ganiataol. Mae Happus yn dangos eu hymrwymiad i les cymdeithasol drwy ddweud:

‘We are small, we think big, we are local but act national and deliver beyond our means and with this comes a sense of pride and if we can pay the bills along the journey then we have a sense of achievement every day!’

‘We are small, we think big, we are local but act national and deliver beyond our means and with this comes a sense of pride and if we can pay the bills along the journey then we have a sense of achievement every day!’

Initiatives such as Small Business Saturday can showcase local business and work to change communities’ shopping behaviours to support local businesses. ‘The Local Shop Report Wales’ showed that around 50 per cent of shops show optimism in Wales for sales for 2015, yet only 7 per cent had actually experienced any upturn. This shows that the entrepreneurial spirit is there, yet our small shops are not receiving the support they require. Indeed, stores in Wales invest more per store than any other part of the United Kingdom.

Gall mentrau fel Sadwrn Busnesau Bach roi sylw i fusnesau lleol a gweithio i newid ymddygiad siopa cymunedau i gefnogi busnesau lleol. Dangosodd Adroddiad Siopau Lleol Cymru fod tua 50 y cant o siopau yn optimistig ynglŷn â gwerthiant yng Nghymru ar gyfer 2015, ac eto 7 y cant yn unig a oedd wedi profi unrhyw adferiad. Dengys hyn fod yr ysbryd entrepreneuraidd yno, ac eto nid yw ein siopau bach yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Yn wir, mae siopau yng Nghymru yn buddsoddi mwy fesul siop nag unrhyw ran arall o’r Deyrnas Unedig.

The Welsh Government must ensure they create a level playing field between large firms and SMEs. They must promote responsible behaviour and extend greater support to SMEs, which fundamentally rely on community connections. Whilst the UK economy has recovered during the last three years, numerous reports show that bank lending has not kept pace with the growing economy. Similar to other studies on funding SMEs, the Welsh Government’s ‘Access to Finance Review’ has detailed the continuing decline in bank lending. This has led to Welsh businesses struggling to obtain finance, with an estimated £500 million funding gap. There’s a greater need for clarity on behalf of the Welsh Government, to disclose how this funding will be addressed.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau eu bod yn creu cyfle teg rhwng cwmnïau mawr a busnesau bach a chanolig eu maint. Rhaid iddynt hyrwyddo ymddygiad cyfrifol a rhoi mwy o gefnogaeth i fusnesau bach a chanolig, sy’n dibynnu’n sylfaenol ar gysylltiadau cymunedol. Er bod economi’r DU wedi gwella yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, dengys nifer o adroddiadau nad yw lefelau benthyca gan fanciau yn cyrraedd lefel y twf yn yr economi. Yn debyg i astudiaethau eraill ar gyllid busnesau bach a chanolig, manylodd ‘Adolygiad Mynediad i Gyllid’ Llywodraeth Cymru ar y gostyngiad parhaus yn y lefelau benthyca gan fanciau. Mae hyn wedi arwain at fusnesau yng Nghymru yn ei chael hi’n anodd dod o hyd i gyllid, gydag amcangyfrif o £500 miliwn o fwlch cyllid. Mae angen mwy o eglurder ar ran Llywodraeth Cymru, i ddatgelu sut yr eir i’r afael â’r bwlch cyllid hwn.

Business rate relief is one of the strongest tools at the Welsh Labour Government’s disposal to get the economy in Wales moving. The overwhelming number of businesses seeking further retail relief reveals the desperate need to reduce the burden on business rates on Wales’s SMEs. The Welsh Conservatives want to improve business rate relief by abolishing business rates for all businesses with a rateable value of under £12,000 per annum, and provide tapering relief for all those with a rateable value of up to £15,000.

Rhyddhad ardrethi busnes yw un o’r arfau cryfaf sydd ar gael i Lywodraeth Lafur Cymru allu symud yr economi yng Nghymru. Mae’r nifer helaeth o fusnesau sy’n ceisio rhyddhad manwerthu pellach yn dangos yr angen dybryd i leihau baich ardrethi busnes ar fusnesau bach a chanolig Cymru. Mae’r Ceidwadwyr Cymreig am wella rhyddhad ardrethi busnes drwy ddileu ardrethi busnes i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o dan £12,000 y flwyddyn, a darparu rhyddhad sy’n lleihau’n raddol ar gyfer busnesau â gwerth ardrethol o hyd at £15,000.

Business confidence is reduced, vacancy rates are increasing and business birth rates in Wales remain lower than the United Kingdom average. Wales has a strong entrepreneurial spirit, with almost all of Welsh businesses being micro or small in size. They urgently need to be rewarded with the support they deserve to be nurtured and encouraged. Simple measures on infrastructure can have a big impact for small businesses. Improving access to reliable internet connections and local transport services can give direct benefits to all Welsh SMEs, improving their prospects for future growth.

Mae llai o hyder gan fusnesau, mae cyfraddau siopau gwag ar gynnydd a chyfraddau busnesau newydd yng Nghymru yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Mae gan Gymru ysbryd entrepreneuraidd cryf, gyda bron bob un o fusnesau Cymru yn ficrofusnes neu’n fach o ran ei faint. Mae angen dybryd iddynt gael eu gwobrwyo â’r gefnogaeth y maent yn ei haeddu er mwyn eu meithrin a’u hannog. Gall camau gweithredu syml ar seilwaith effeithio’n fawr ar fusnesau bach. Gall gwella cysylltiadau rhyngrwyd dibynadwy a gwasanaethau trafnidiaeth lleol ddarparu manteision uniongyrchol i’r holl fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, gan wella eu rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol.

You may have heard comments today about Cardiff urgently needing an improved railway station. Developing Cardiff Airport and establishing a south Wales metro are attractive prospects for potential businesses looking to invest in south Wales. However, reliable and functional rail and bus services, particularly in rural communities, are a lifeline for small businesses, their employees and customers.

Efallai eich bod wedi clywed sylwadau heddiw fod angen gorsaf reilffordd well ar frys yng Nghaerdydd. Mae datblygu Maes Awyr Caerdydd a sefydlu metro de Cymru yn rhagolygon deniadol i fusnesau posibl sy’n ystyried buddsoddi yn ne Cymru. Fodd bynnag, mae gwasanaethau trên a bws dibynadwy ac ymarferol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, yn achubiaeth i fusnesau bach, eu gweithwyr a’u cwsmeriaid.

17:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the four amendments to the motion and I call on William Powell to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig a galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Mewnosod ar ddiwedd is-bwynt 5a:*

*At the end of sub-point 5a insert:*

*'gan gynnwys creu gweinyddiaeth busnes bach o fewn banc datblygu Cymru, sydd â'r dasg o ddarparu cymorth busnes mewn "siop un stop" a mynediad amrywiol at gyllid'.*

*'including creating a small business administration within a Welsh development bank, tasked with providing business support in a "one-stop shop" and varied access to finance'.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Mewnosod ar ddiwedd is-bwynt 5b:*

*At the end of sub-point 5b insert:*

*'gan gynnwys seilwaith digidol'.*

*'including digital infrastructure'.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:*

*Add as new sub-point at end of point 5:*

*mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal microfusnesau yng Nghymru rhag tyfu, er mwyn datblygu 'Mittelstand' yng Nghymru.*

*tackle barriers that prevent microbusinesses in Wales from growing, in order to develop a Welsh 'Mittelstand'.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 2 a 3.*

*Amendments 1, 2 and 3 moved.*

17:15 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I rise to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts and the Welsh Liberal Democrat group. I very much welcome this important debate today and the way in which William Graham has introduced it.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Codaf i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts a grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Rwy'n croesawu'r ddadl bwysig hon heddiw yn fawr iawn a'r ffordd y'i cyflwynwyd gan William Graham.

I absolutely agree that small businesses are an integral part of the Welsh economy. It's the duty of the Welsh Government and this National Assembly to ensure that those small companies have the opportunity to grow and to develop. This leads me to our first amendment today. To create a vibrant economy, we need not only to help new businesses to be established, but we also need to give them an environment where they can grow and thrive, a point to which I shall return shortly.

Cytunaf yn llwyr fod busnesau bach yn rhan annatod o economi Cymru. Mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru, a'r Cynulliad Cenedlaethol hwn i sicrhau bod cwmnïau bach yn cael cyfle i dyfu ac i ddatblygu. Mae hyn yn fy arwain at ein gwelliant cyntaf heddiw. I greu economi fywiog, nid yn unig y mae angen helpu i sefydlu busnesau newydd, ond hefyd mae angen darparu amgylchedd ar eu cyfer lle y gallant dyfu a ffynnu, pwynt y byddaf yn dychwelyd ato cyn bo hir.

But many companies that want to grow simply don't have the support and the advice that they require in order to do so. At every development stage, they need a one-stop shop where they can receive access to finance, legal advice, and other support, so that those who want to expand can do so. We believe that creating a small business administration would be an answer that is simple and easy to use.

Ond nid yw llawer o'r cwmnïau sydd eisiau tyfu yn cael y cymorth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt er mwyn iddynt allu gwneud hynny. Ar bob cam datblygu, mae angen siop un stop lle y gallant gael mynediad at gyllid, cyngor cyfreithiol, a chymorth o fathau eraill, er mwyn i'r rhai sydd eisiau ehangu allu gwneud hynny. Credwn y byddai creu gweinyddiaeth busnes bach yn ateb sy'n syml ac yn hawdd i'w defnyddio.

As a part of the Welsh development bank, our small businesses administration would also represent us abroad, helping us to develop vital new export markets for Welsh businesses. Wales has consistently had trouble marketing abroad since the demise of the Welsh Development Agency, notwithstanding our reservations with regard to that particular organisation. Our new small business administration will assist in helping SMEs to find the best way to export, and to provide the capital, guarantees and vitally, also, the equity for infrastructure projects in order to develop Wales's full potential and, indeed, its digital infrastructure, which leads me neatly to our second amendment.

Fel rhan o fanc datblygu Cymru, byddai ein gweinyddiaeth busnes bach hefyd yn ein cynrychioli dramor, gan ein helpu i ddatblygu marchnadoedd allforio allweddol newydd i fusnesau Cymru. Mae Cymru wedi cael trafferth marchnata dramor yn gyson ers tranc Awdurdod Datblygu Cymru, er gwaethaf ein hamheuon ynghylch y sefydliad hwnnw. Bydd ein gweinyddiaeth busnes bach newydd yn cynorthwyo drwy helpu busnesau bach a chanolig i ddod o hyd i'r ffordd orau o allforio, ac i ddarparu'r cyfalaf, y gwarantau, ac yn allweddol hefyd, yr ecwiti ar gyfer prosiectau seilwaith er mwyn datblygu potensial Cymru yn llawn ac yn wir, ei seilwaith digidol, sy'n fy arwain yn daclus at ein hail welliant.

Digital infrastructure is a vital step to allowing Welsh businesses to expand. In my own region of Mid and West Wales, many businesses find rural notspots incapacitating in terms of their potential business growth. Because of the changing nature of shopping habits, we find a situation where it's very difficult to have the digital presence that is required. Digital connectivity allows businesses to become more productive, more cost-effective and more competitive on a global stage. Digital infrastructure is as important as transport infrastructure in allowing these microbusinesses to expand, and this point must not be overlooked. Indeed, it's also very important in the context of farm and rural businesses, particularly given the need to move to an online system with all manner of record keeping.

Mae seilwaith digidol yn gam hanfodol i ganiatáu i fusnesau Cymru ehangu. Yn fy rhanbarth i, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae mannau gwan gwledig yn rhwystro potensial llawer o fusnesau i dyfu. Oherwydd y newid yn natur arferion siopa, gwelwn sefyllfa lle y mae'n anodd iawn sicrhau'r presenoldeb digidol sydd ei angen. Mae cysylltedd digidol yn caniatáu i fusnesau fod yn fwy cynhyrchiol, yn fwy costeffeithiol ac yn fwy cystadleuol ar lwyfan byd-eang. Mae seilwaith digidol yr un mor bwysig â seilwaith trafnidiaeth o ran caniatáu i'r microfusnesau hyn ehangu, ac ni ddylid esgeuluso'r pwynt hwn. Yn wir, mae hefyd yn bwysig iawn yng nghyd-destun busnesau fferm a busnesau gwledig, yn enwedig o ystyried yr angen i symud at system ar-lein a phob math o gofnodion i'w cadw.

Returning to my earlier point about growth, our final amendment asks for the barriers that prevent microbusinesses from expanding to be better understood and, hopefully, removed, allowing those businesses to expand to form a Welsh 'Mittelstand'. Inward investment can create jobs, but there's a gap in our economy between those huge global investors and home-grown small businesses. We need to create a more robust and stable economy by nurturing our own 'Mittlestand'. When microbusinesses grow, they tend to become embedded, as William Graham said, in their local communities, investing in their workforces, and maintaining their social responsibilities and, indeed, their long-term focus. By contrast, large inward investors don't always embed themselves in the community, and, when things get tough, they can be very quick to remove themselves from the scene.

Gan ddychwelyd at fy mhwynt cynharach ynghylch twf, mae ein gwelliant olaf yn galw am ddealltwriaeth well o'r rhwystrau sy'n atal microfusnesau rhag ehangu, gyda'r gobaith o chwalu'r rhwystrau hynny er mwyn caniatáu i fusnesau ehangu i ffurfio 'Mittelstand' Cymreig. Gall mewnfuddsoddiad greu swyddi, ond ceir bwlch yn ein heconomi rhwng buddsoddwyr byd-eang enfawr a busnesau bach cynhenid. Mae angen i ni greu economi fwy cadarn a sefydlog drwy feithrin ein 'Mittlestand' ein hunain. Pan fydd ficrofusnesau'n tyfu, maent yn tueddu i wreiddio yn eu cymunedau lleol, fel y dywedodd William Graham, gan fuddsoddi yn eu gweithluoedd, a chynnal eu cyfrifoldebau cymdeithasol ac yn wir, eu ffocws hirdymor. Ar y llaw arall, nid yw mewnfuddsoddwyr mawr bob amser yn ymwreiddio yn y gymuned, a phan fydd pethau'n mynd yn anodd, gallant ddiflannu o'r fan yn sydyn iawn.

But many of our small businesses don't get the opportunity to expand, as I said earlier. The barriers they face when trying to expand into new markets are sometimes insurmountable. As they expand, issues like a lack of expertise in HR, in procurement, in marketing or expertise also in exporting itself can leave them in difficulties. Indeed, many companies expand to a point and then, because of these barriers, they sell out to multinationals rather than continuing to grow. Rachel's Dairy in my own region is a prime example of this—a small, family business that expanded and is now a very well-known brand throughout Wales. Whilst they remain a valuable part of the Ceredigion local economy, parts of their production have moved, as colleagues may know, from Wales to France. We need to ensure these companies have a choice: to sell and to grow. At the moment, there is no such choice.

Ond nid yw llawer o'n busnesau bach yn cael cyfle i ehangu, fel y dywedais yn gynharach. Mae'r rhwystrau a wynebant wrth geisio ehangu i farchnadoedd newydd yn anorchfygol weithiau. Wrth iddynt ehangu, gall materion fel diffyg arbenigedd ym maes Adnoddau Dynol, caffael a marchnata neu ddiffyg arbenigedd mewn allforio eu harwain i drafferthion. Yn wir, mae llawer o gwmnïau yn ehangu i bwynt, ac yna, oherwydd y rhwystrau hyn, yn gwerthu i gwmnïau rhyngwladol yn hytrach na pharhau i dyfu. Mae Rachel's Dairy yn fy rhanbarth i yn enghraifft berffaith o hyn—busnes bach, teuluol sy'n ehangu ac sydd bellach yn frand adnabyddus iawn ledled Cymru. Er eu bod yn parhau i fod yn rhan werthfawr o economi leol Ceredigion, mae rhannau o'u cynhyrchiant wedi symud o Gymru i Ffrainc, fel y bydd fy nghyd-Aelodau'n gwybod o bosibl. Mae angen i ni sicrhau bod dewis gan y cwmnïau hyn: i werthu ac i dyfu. Ar hyn o bryd, ni cheir dewis o'r fath.

I would like, finally, to address amendment 4, tabled by Elin Jones. I thank her for tabling this amendment. However, I have not seen any costings for this at this time, and given that 95 per cent of Welsh businesses are microbusinesses, this would be very costly to deliver in Wales. The Welsh Lib Dems would rather see a more radical review of business rates in Wales, but outside of that we cannot support, at this stage, an uncosted and arbitrary proposal. Diolch yn fawr.

Yn olaf, hoffwn gyfeirio at welliant 4, a gyflwynwyd gan Elin Jones. Diolch iddi am gyflwyno'r gwelliant hwn. Fodd bynnag, hyd yn hyn nid wyf wedi gweld unrhyw gostau ar gyfer hyn, ac o ystyried bod 95 y cant o fusnesau Cymru yn ficrofusnesau, byddai'n gostus iawn i'w gyflawni yng Nghymru. Byddai'n well gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru weld adolygiad mwy radical o ardrethi busnes yng Nghymru, ond ar wahân i hynny, ar hyn o bryd ni allwn gefnogi cynnig mympwyol heb ei gostio. Diolch yn fawr.

17:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Rhun ap Iorwerth to move amendment 4, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliant 4, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Amendment 4—Elin Jones*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:*

*Add as new sub-point at end of point 5:*

*ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach i gynnwys pob busnes â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai, sicrhau na fydd mentrau newydd yn talu unrhyw ardrethi busnes am y flwyddyn gyntaf y byddant yn gweithredu ac ailasesu'r eiddo at ddibenion ardrethi busnes bob tair blynedd.*

*extend the small business rate relief scheme to cover all businesses with a rateable value of £15,000 or less, ensure that new enterprises will not pay any business rates for the first year of operation and revaluate properties for business rates purposes every three years.*

*Cynigiwyd gwelliant 4.*

*Amendment 4 moved.*

17:20

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, a diolch i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r testun yma ar gyfer dadl y prynhawn yma. Mae'r amseru'n briodol iawn, wrth gwrs, achos ei bod hi'n ddiwrnod busnesau bach ddydd Sadwrn yma, fel rydym wedi'i glywed yn barod. Rwy'n sicr iawn yn barod i gynnig fy llais i i'r alwad ar bobl i feddwl ddydd Sadwrn yma am yr hyn sy'n cael ei gynnig gan fusnesau bach a siopau bach yn eu hardaloedd nhw, ac i gefnogi'r busnesau hynny. Wrth gwrs, nid cyd-ddigwyddiad ydy bod Dydd Sadwrn Busnesau Bach yn cael ei gynnal ychydig wythnosau cyn y Nadolig. Rwy'n sicr yn gobeithio y bydd busnesau ar hyd a lled Ynys Môn a Chymru gyfan, wrth gwrs, yn elwa ddydd Sadwrn yma wrth i bobl fynd allan a gwario, a gwneud eu siopa Nadolig yn lleol, gan wybod nid yn unig eu bod nhw'n gallu prynu cynnyrch da am bris rhesymol, efo gwasanaeth rhagorol o fewn eu milltir sgwâr nhw, ond eu bod nhw, drwy wneud hynny, yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd y busnesau yna ar gyfer y dyfodol. Rwy'n gobeithio y bydd pobl sydd yn siopa'n lleol y penwythnos yma yn cael blas eto ar wneud hynny ac yn cael eu hatgoffa pa mor braf ydy hi i allu treulio amser yn siopa o fewn eu cymunedau.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, and thank you to the Conservatives for introducing this subject for debate this afternoon. The timing is very appropriate, of course, because it is Small Business Saturday this week, as we have heard already. I'm certainly willing to add my voice to the call for people to celebrate what is offered by small enterprises and small shops in their areas, and to support those businesses. Of course, it's no coincidence that Small Business Saturday happens a few weeks before Christmas. I certainly hope that businesses across Anglesey and the whole of Wales, of course, will benefit on Saturday as people go out and spend, and do their Christmas shopping locally, knowing that not only they can buy good produce for a reasonable price, with an excellent service within their own patch, but also by doing that, they're helping to secure the sustainability of those businesses for the future. I hope that people who do shop locally this weekend will have another taste of doing that and are reminded of how nice it is to be able to spend time shopping in their communities.

Un gwelliant rŷm ni wedi'i gyflwyno i'r cynnig yma heddiw. Ni fyddwch yn synnu ein bod ni wedi'i gyflwyno fo. Os ydym yn treulio amser y prynhawn yma yn sôn am beth allwn ni ei wneud i helpu busnesau bach, rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig ein bod ni'n rhoi sylw penodol i ardrethi busnes. Mae o'n un o'r prif arfau y gallwn ni ei ddefnyddio i helpu busnesau bach. Mae o wedi'i brisio'n llawn. Rydym, efo'r gwelliant yma, yn ailddatgan ein barn ni y dylem ni fod yn ymestyn rhyddhad ardrethi busnes i gymaint o fusnesau â phosib, mewn difrif. Rŷm ni'n sôn am gynnwys busnesau sydd â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai. Rŷm ni yn gweld bod yna fudd mewn rhoi cyfle i fusnesau ymsefydlu cyn dechrau talu ardrethi. Rŷm ni yn credu hefyd bod eisiau edrych eto ar ba mor aml mae gwerth ardrethol yn cael ei asesu. Mae yna ormod o fusnesau yn fy etholaeth i yn cael eu cosbi oherwydd damweiniau neu sefyllfaoedd hanesyddol sydd ddim yn adlewyrchu'r realiti economaidd cyfredol, ac rwy'n siŵr bod llawer o Aelodau yn y Siambr yma yn clywed am straeon tebyg yn eu hetholaethau hwythau.

We have tabled one amendment to this motion today. You won't be surprised that we have tabled it. If we do spend time this afternoon discussing what we can do to help small businesses, I think that it's important that we pay particular attention to business rates. It is one of the main tools that we can use to assist small businesses. It is fully costed. We have, in this amendment, restated our view that we really should be extending small business rate relief to as many businesses as possible. We are talking about including businesses with a rateable value of £15,000 or less. We do feel that it would be of benefit to allow businesses to establish themselves before they start to pay business rates. We also believe that we need to reconsider how frequently rateable value is assessed. There are too many businesses in my constituency that are penalised due to accidents or historical situations that do not reflect the current economic reality, and I'm sure that many Members in this Chamber hear of similar cases in their own constituencies.

O ran gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, atal ein pleidlais fyddwn ni ar welliant 1, a hynny am nad ydym eisiau clymu ein dwylo o ran sut y dylai fanc datblygu weithio. Nid oes gennyf wrthwynebiad i rai o'r syniadau a oedd yn cael eu crybwyll wrth i'r gwelliannau gael eu cyflwyno—dim gwrthwynebiad i'r egwyddor o sefydlu rhyw fath o weinyddiaeth fusnesau bach. Mae'r Siambr yma'n gwybod, rwy'n meddwl, pa mor frwd ydy Plaid Cymru dros sefydlu'r banc datblygu. Rydym wedi galw yn hirach na neb, am wn i, i gael banc o'r fath, ond mae gwaith i'w wneud o hyd, rwy'n meddwl, ar wneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud y mwyaf o'r cyfle yma. Rwy'n gwybod bod y Llywodraeth hefyd yn edrych ar fireinio'r syniad ac ar ddatblygu'r model iawn ar gyfer y banc. Nid wyf eisiau comitio i un model heddiw.

In terms of the Liberal Democrat amendments, we will abstain on amendment 1 because we don't want to tie our hands in terms of how a development bank should work. I have no opposition to some of the ideas that were put forward as the amendments were moved. I have no objection to the principle of establishing some kind of small business administration. I think that this Chamber knows how eager Plaid Cymru is to see the development bank established. I think that we have called for such a bank for longer than anyone, I think, but there is still work to be done in ensuring that we make the most of this opportunity. I know that the Government is also looking at fine-tuning the idea and developing the right model for the bank. I do not want to commit to a particular model here today.

Mi wnawn ni, er hynny, gefnogi'r ail welliant, sy'n hollol gywir, wrth gwrs, yn tanlinellu pwysigrwydd seilwaith ddigidol, a gwelliant 3 sy'n annog twf busnesau bach.

However, we will support the second amendment, which quite rightly underlines, of course, the importance of a digital infrastructure, as well as amendment 3, which encourages the growth of microbusinesses.

Rŵan, roeddwn mewn cyfarfod nos Lun—cyfarfod cyntaf grŵp busnes Llangefni, menter newydd sydd wedi'i threfnu gan Fenter Gymdeithasol Llangefni. Mi oedd yn gyfarfod da. Fe gawson ni drafodaeth dda, llawn pryderon, wrth gwrs, ynglŷn â dyddiau sy'n gallu bod yn anodd iawn o hyd i fusnesau bach mewn llawer o ffyrdd, ond mi oedd yna egni yno. Mi oedd yna frwdfrydedd yno i droi pethau o gwmpas, ac rwy'n gwybod bod yr un egni yn bodoli mewn grwpiau tebyg, ac mewn siambrau masnach ar draws Cymru, ond mae angen help arnyn nhw. Mae angen arnynt gefnogaeth drwy'r system ardrethi, fel y gwnes i grybwyll yn benodol, ond hefyd drwy reolau cynllunio, drwy gynlluniau cymorth busnes, a chefnogaeth o ran argaeledd cyllid, cefnogaeth i gyflogi staff, buddsoddiad mewn trafnidiaeth, trefniadau parcio, a buddsoddiad mewn isadeiledd. Mae'r rhestr yn un faith, wrth reswm. Nid ydy fyth yn hawdd rhoi strategaeth at ei gilydd, ond beth sy'n bwysig ydy bod angen un.

Now, I attended a meeting on Monday evening—the first meeting of the Llangefni business group, a new initiative organised by the Llangefni Social Enterprise. It was a positive meeting. We had a good debate, with many concerns expressed, of course, about some dark days for small businesses in many ways, but there was energy there. There was an enthusiasm to turn things around, and I know that the same enthusiasm exists in some similar groups, and in chambers of commerce across Wales, but they do need help. They need support through the business rates system, as I specifically mentioned, but also through planning regulations, through business support schemes, and support in terms of the availability of finance, support in employing staff, investment in transport, parking arrangements, and investment in infrastructure. The list is endless, of course. It is never easy to put a strategy together, but what is important is that we need to have one.

Mae'r alwad yn ddigon syml heddiw: mae angen, rywsut, inni sicrhau bod yna well pecyn neu strategaeth—galwch o beth liciwch chi. Mae angen gwell pecyn o gymorth i helpu'n busnesau—y rhai yn Llangefni nos Lun, a miloedd o rai tebyg ar hyd a lled y wlad yma—er mwyn gallu defnyddio eu hegni nhw a defnyddio eu dyfeisgarwch nhw er budd economi a chymdeithas ledled Cymru.

Our call is quite clear today: we somehow need to ensure that there is a more effective package or a strategy—call it what you will. We need a better package of support for businesses—those in Llangefni on Monday evening, and thousands of similar ones across Wales—so that we can harness their energy and enthusiasm for the benefit of the economy and society across Wales.

17:25

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It's always a pleasure to speak on small business here, especially as, as has been referred to, we have Small Business Saturday coming up, and I do hope we all actually go out there and support our local businesses—not just now but all the time.

Mae bob amser yn bleser siarad am fusnesau bach yma, yn enwedig gan fod gennym y Sadwrn Busnesau Bach, fel y cyfeiriwyd ato, i ddod, ac rwy'n gobeithio y byddwn i gyd yn mynd yno i gefnogi ein busnesau lleol—nid yn awr yn unig ond drwy'r amser.

Small and medium-sized enterprises in Wales account for 99.9 per cent of private sector business, three quarters of employment and 59 per cent of turnover. Recent stats have shown encouraging growth in the number of Welsh enterprises, although growth rates still lag far behind the UK average. This growth indicates a strengthening economy, and whilst confidence is increasing, it is disappointing to note that the likelihood, still, of Welsh businesses reaching the three-year survival mark stands at 58.8 per cent—well below the UK average.

Mentrau bach a chanolig eu maint yw 99.9 o fusnesau'r sector preifat yng Nghymru, a darparant dri chwarter y swyddi a 59 y cant o'r trosiant. Mae ystadegau diweddar wedi dangos cynnydd calonogol yn nifer y mentrau yng Nghymru, er bod y cyfraddau twf yn dal i fod ymhell islaw cyfartaledd y DU. Mae'r twf hwn yn dystiolaeth o economi sy'n cryfhau, ac er bod hyder ar gynnydd, siomedig yw nodi mai 58.8 y cant o debygolrwydd sydd yna o hyd y bydd busnesau Cymru yn goroesi am dair blynedd neu fwy—ymhell islaw cyfartaledd y DU.

It is essential that we reward the confidence of our entrepreneurs and business owners by putting in place an effective support package to ensure that more and more Welsh businesses hit the three and five-year—and beyond—survival rate. UK Government initiatives have assisted thousands of small start-up businesses here in Wales, such as the increased employment allowance, enabling businesses to open up job opportunities, taking on skilled staff; the British Business Bank, which has guaranteed more than 1,100 loans to support small businesses in Wales; and the new enterprise allowance that has helped thousands of people across Wales to start their own businesses.

Mae'n hanfodol ein bod yn gwobrwyo hyder ein hentrepreneuriaid a pherchnogion busnesau drwy roi pecyn cymorth effeithiol ar waith i sicrhau bod mwy a mwy o fusnesau Cymru yn cyrraedd y gyfradd oroesi tair a phum mlynedd—a thu hwnt. Mae mentrau Llywodraeth y DU wedi cynorthwyo miloedd o fusnesau newydd bach yma yng Nghymru, megis y lwfans cyflogaeth sydd wedi cynyddu, gan alluogi busnesau i gynnig cyfleoedd gwaith a chyflogi staff medrus; Banc Busnes Prydain, sydd wedi gwarantu mwy na 1,100 o fenthyciadau i gefnogi busnesau bach yng Nghymru; a'r lwfans menter newydd sydd wedi helpu miloedd o bobl ledled Cymru i ddechrau eu busnesau eu hunain.

However, the Welsh Government's inward investment policies and objectives have been labelled 'generic and mimetic' in a recent Federation of Small Businesses report. The Finance Wales initiative remains unfit for purpose, and the impact of enterprise zones on SMEs is not even being recorded, so how on earth do we expect to monitor progress?

Fodd bynnag, mae adroddiad diweddar gan y Ffederasiwn Busnesau Bach wedi disgrifio polisïau ac amcanion mewnfuddsoddi Llywodraeth Cymru fel rhai generig ac efelychol. Mae menter Cyllid Cymru yn parhau i fod yn anaddas at y diben, ac nid yw effaith ardaloedd menter ar fusnesau bach a chanolig yn cael ei gofnodi hyd yn oed, felly sut ar y ddaear y gallwn ddisgwyl monitro cynnydd?

Furthermore, the FSB have highlighted the need to increase the social ask of larger organisations to ensure that inward investment has a positive effect on all aspects of our economy. One way in which this could be done is by ensuring that large supermarkets sign up to promote our local Welsh produce—red meat and dairy products to name just two—with dedicated aisle space and thorough signing up to our red meat charter.

Ar ben hynny, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi tynnu sylw at yr angen i gynyddu atebion cymdeithasol i sicrhau bod mewnfuddsoddiad sefydliadau mwy yn effeithio'n gadarnhaol ar bob agwedd ar ein heconomi. Un ffordd o wneud hyn yw sicrhau bod archfarchnadoedd mawr yn hybu ein cynnyrch Cymreig lleol—cig coch a chynhyrchion llaeth, i enwi dim ond dau—drwy neilltuo gofod ar eu cyfer ar yr eil a thrwy gefnogi ein siarter cig coch.

Small businesses are often significant players in the creation and protection of local identities and communities, and can be key to promoting their unique culture and heritage. The FSB have highlighted the importance of small businesses in terms of local job creation, which then, in turn, drives the local economy and wealth creation—it keeps that wheel going around. Innovative initiatives such as Small Business Saturday help to showcase local businesses and talent, and certainly encourage people to shop local. However, we need to build on the success of Small Business Saturday all year round. Local and community-led regeneration is key to delivering jobs and growth in our towns and our high streets. The First Minister, in 2012, stated:

'We will never go back to the days when the high streets were full of shops'.

Well, I ask him why not? The Welsh Conservatives want to overturn this attitude. We have faith in our local communities, we have faith in our SMEs and we have faith in our entrepreneurs. Through simple measures and engagement—for example, introducing free parking schemes, encouraging local procurement by our councils, ensuring reliable and effective transport and communications infrastructure and effectively managing our own town centres—I truly believe that we will see busy bustling high streets again. Whilst we all pooh-pooh the idea of online trading, I actually do quite a bit of online shopping, but a lot of my stuff actually comes from businesses that have opened up in the high street actually now running very successful passing-trade businesses and online shopping.

It is crucial that we put our SMEs at the heart of our economic policy, improving access to finance, extending business rate relief and establishing an independent arm's-length body to deliver fair and efficient infrastructure developments. We, the Welsh Conservatives, have these policies in place, and come 6 May next year, I hope that we have the chance to actually help our small businesses and actually give them greater initiatives. I am pleased that the Small Business Saturday initiative has enabled us to bring these issues to the Chamber once again, and I hope once more that we see a real change in response from the Welsh Government. It's time to wake up and smell the coffee. It's time to start helping our SMEs: the lifeblood of our economy, and the backbone of our communities.

Mae busnesau bach yn aml yn chwarae rhan bwysig yn creu a diogelu hunaniaeth a chymunedau lleol, a gall fod yn allweddol i hyrwyddo eu diwylliant a'u treftadaeth unigryw. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi tynnu sylw at bwysigrwydd busnesau bach yn creu swyddi lleol, sydd wedyn, yn eu tro, yn ysgogi'r economi leol a chreu cyfoeth —mae'n cadw'r olwyn i droi. Mae mentrau arloesol megis Sadwrn Busnesau Bach yn helpu i roi sylw i fusnesau a thalent leol, ac yn sicr yn annog pobl i siopa'n lleol. Fodd bynnag, mae angen i ni adeiladu ar lwyddiant Sadwrn Busnesau Bach drwy gydol y flwyddyn. Mae mentrau adfywio lleol a arweinir gan y gymuned yn allweddol i ddarparu swyddi a thwf yn ein trefi ac ar ein strydoedd mawr. Yn 2012, dywedodd Prif Weinidog Cymru:

'Ni fyddwn fyth yn mynd yn ôl i'r dyddiau pan oedd y stryd fawr yn llawn siopau'.

Wel, rwyf am ofyn iddo, pam ddim? Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn awyddus i newid yr agwedd hon. Mae gennym ffydd yn ein cymunedau lleol, mae gennym ffydd yn ein busnesau bach a chanolig ac mae gennym ffydd yn ein hentrepreneuriaid. Trwy gamau syml ac ymgysylltiad—er enghraifft, cyflwyno cynlluniau parcio am ddim, annog caffael lleol gan ein cynghorau, sicrhau seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu dibynadwy ac effeithiol a rheoli ein canol trefi ein hunain yn effeithiol—rwy'n credu'n wirioneddol y gwelwn strydoedd mawr prysur a bywiog unwaith eto. Er ein bod i gyd yn gwgu ar y syniad o fasnachu ar-lein, rwy 'n gwneud cryn dipyn o siopa ar-lein fy hun, ond daw llawer o fy stwff mewn gwirionedd gan fusnesau sydd wedi agor ar y stryd fawr sy'n mynd ati yn awr i gynnal busnesau llwyddiannus iawn ar gyfer cwsmeriaid sy'n mynd heibio a siopa ar-lein.

Mae'n hanfodol ein bod yn rhoi ein busnesau bach a chanolig ynghanol ein polisi economaidd, yn gwella mynediad at gyllid, yn ymestyn rhyddhad ardrethi busnes ac yn sefydlu corff hyd braich annibynnol i gyflwyno datblygiadau seilwaith teg ac effeithlon. Mae gennym ni, y Ceidwadwyr Cymreig, y polisïau hyn ar waith, a phan ddaw 6 Mai y flwyddyn nesaf, rwy'n gobeithio y cawn gyfle iawn i helpu ein busnesau bach a rhoi mwy o fentrau iddynt mewn gwirionedd. Rwy'n falch bod menter Sadwrn Busnesau Bach wedi ein galluogi i gyflwyno'r materion hyn i'r Siambr unwaith eto, ac rwy'n gobeithio unwaith eto y gwelwn newid go iawn yn ymateb Llywodraeth Cymru. Mae'n bryd deffro ac wynebu realiti. Mae'n bryd dechrau helpu ein busnesau bach a chanolig: calon ein heconomi, ac asgwrn cefn ein cymunedau.

17:30 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. It gives me great pleasure to speak in this debate today. I'd like to remind the Tories that there is a connectedness, actually, between the money in people's pockets and the money that they spend in the high street. And I would like to remind them that the majority of people who work in Wales are employed within the public sector—a sector that they have absolutely decimated with their mismanagement of the economy. Also, the fact that the spending review that they have just proclaimed is actually predicated—[Interruption.] No, not now. According to the Institute for Fiscal Studies, it is predicated on very limited growth, and probably will have to be revisited. So, that is the first thing that I want to say.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n rhoi pleser mawr i mi siarad yn y ddadl hon heddiw. Hoffwn atgoffa'r Torïaid fod yna gysylltioldeb, mewn gwirionedd, rhwng yr arian ym mhocedi pobl a'r arian y maent yn ei wario ar y stryd fawr. A hoffwn eu hatgoffa bod y rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio yng Nghymru yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus—sector y maent wedi'i anrheithio'n gyfan gwbl drwy gamreoli'r economi. Hefyd, mae'r ffaith fod yr adolygiad o wariant y maent newydd ei gyhoeddi mewn gwirionedd wedi'i seilio—[Torri ar draws.] Na, nid yn awr. Yn ôl y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, mae wedi'i seilio ar dwf cyfyngedig iawn, ac mae'n debyg y bydd yn rhaid ailedrych arno. Felly, dyna'r peth cyntaf rwyf am ei ddweud.

The second thing that I want to say on this is that I welcome any initiative whatsoever that promotes small businesses. I used to run small businesses myself. I think that one day a year, Small Business Saturday, is a good idea, but won't actually help the businesses in the long term. If everybody shops one day a year in their local shop, I don't think the shop will be there the following 12 months, just waiting for those people to come in.

Yr ail beth rwyf am ei ddweud ar hyn yw fy mod yn croesawu unrhyw fenter o gwbl sy'n hyrwyddo busnesau bach. Roeddwn yn arfer rhedeg busnesau bach fy hun. Credaf fod un diwrnod y flwyddyn, y Sadwrn Busnesau Bach, yn syniad da, ond ni fydd yn helpu busnesau mewn gwirionedd yn y tymor hir. Os yw pawb yn siopa yn eu siop leol ar un diwrnod o'r flwyddyn, nid wyf yn meddwl y bydd y siop yno ymhen 12 mis, yn aros i'r bobl hynny ddod i mewn.

So, that is why I want to move swiftly on and look at what is really happening in our high streets. There was a BBC 2 series recently that Robert Peston had about the history of shopping in Britain. In that final episode, he looked at how our high streets have been hard-hit in recent years by the rise of online shopping and also the financial crash. It did show that our shopping experience has changed, and it also looked ahead at how we will shop in the future. That is something that we equally looked at on the Enterprise and Business Committee, too. Rather than wringing our hands or furrowing our brows, the outlook is actually quite positive. Times have changed and high streets have evolved. If we were to look at a high street 150 years ago, the market towns would have been full of stables and inns, and very little else. But change is an opportunity, and it is small businesses that are best placed to benefit from that evolution, because they do offer a special experience: the social interaction, the convenience, the enjoyable day out that most people enjoy.

Felly, dyna pam rwy'n awyddus i symud yn ymlaen yn gyflym ac edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd ar y stryd fawr. Roedd gan Robert Peston gyfres ar BBC 2 yn ddiweddar am hanes siopa ym Mhrydain. Yn y bennod olaf, edrychai ar sut y mae ein strydoedd mawr wedi cael eu taro'n galed yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan y cynnydd mewn siopa ar-lein a hefyd y cwymp ariannol. Dangosodd fod ein profiad siopa wedi newid, ac edrychai hefyd ar sut y byddwn yn siopa yn y dyfodol. Mae hynny'n rhywbeth y buom ninnau'n edrych arno yn yr un modd yn y Pwyllgor Menter a Busnes hefyd. Yn hytrach nag anobeithio, mae'r rhagolygon mewn gwirionedd yn eithaf cadarnhaol. Mae'r oes wedi newid ac mae strydoedd mawr wedi esblygu. Pe baem yn edrych ar stryd fawr 150 mlynedd yn ôl, byddai trefi marchnad yn llawn o stablau a thafarnau, ac ychydig iawn heblaw hynny. Ond mae newid yn gyfle, a busnesau bach sydd yn y sefyllfa orau i fanteisio ar yr esblygiad am eu bod yn cynnig profiad arbennig: y rhyngweithio cymdeithasol, yr hwylustod, y diwrnod pleserus allan y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei fwynhau.

It's wider than commercialism, and we've heard plenty about commercialism here this afternoon. If we're looking at businesses and if we're looking at town centres—and we did this, again, in that inquiry—we also have to look at the night-time economy that exists within our high street. We have to look at the culture economy, the tourism economy, and we have to package all those things and put them together. That is what this Government is doing. We are doing this through a number of initiatives: under the Vibrant and Viable Places programme, local authorities are sharing more than £100 million for regenerating some schemes and some town centres. We've got the coastal communities fund, and Communities First areas. We have extended the small business rate relief scheme and the retail relief scheme, and almost three quarters of Welsh businesses have seen their bills come down significantly, and many have been taken out of business rates altogether. We have seen some benefit from a wide range of support packages, including the SME investment fund, the Wales economic growth fund, the microbusiness loan fund, and the JEREMIE fund. I think it is somewhat at odds with the debate today to say, or to imply, that it is only the Tories who care about business, that it is only the Tories who understand business. I, as I said to you, was in business long before I ever came here, and I think I do—

Mae'n ehangach na masnacheiddiwch, ac rydym wedi clywed digon am fasnacheiddiwch yma y prynhawn yma. Os ydym yn edrych ar fusnesau ac os ydym yn edrych ar ganol trefi—ac unwaith eto, gwnaethom hynny yn ystod yr ymchwiliad—rhaid i ni edrych hefyd ar economi'r nos sy'n bodoli ar ein stryd fawr. Mae'n rhaid i ni edrych ar economi diwylliant, economi twristiaeth, ac mae'n rhaid i ni becynnu'r holl bethau hyn a'u rhoi gyda'i gilydd. Dyna'r hyn y mae'r Llywodraeth hon yn ei wneud. Rydym yn gwneud hyn drwy nifer o fentrau: o dan y rhaglen Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid, mae awdurdodau lleol yn rhannu mwy na £100 miliwn ar gyfer adfywio cynlluniau a chanol trefi. Mae gennym gronfa cymunedau arfordirol, ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Rydym wedi ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach a'r cynllun rhyddhad manwerthu, ac mae biliau bron i dri chwarter busnesau Cymru wedi gostwng yn sylweddol, a llawer wedi gallu rhoi'r gorau i dalu ardrethi busnes yn gyfan gwbl. Rydym wedi gweld budd o ystod eang o becynnau cymorth, gan gynnwys y gronfa fuddsoddi busnesau bach a chanolig, cronfa twf economaidd Cymru, cronfa benthyciadau i ficrofusnesau, a'r gronfa Cyd-adnoddau Ewropeaidd ar gyfer Busnesau Micro i Ganolig (JEREMIE). Rwy'n credu y byddai dweud, neu awgrymu, mai'r Torïaid yn unig sy'n malio am fusnes, mai'r Torïaid yn unig sy'n deall busnes, yn mynd yn groes i'r ddadl heddiw braidd. Fel y dywedais, roeddwn yn y byd busnes ymhell cyn i mi ddod yma, ac rwy'n credu fy mod—

17:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

17:35 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—somehow, understand business. It is the Tories themselves who have failed—

[Yn parhau.]—rywsut, yn deall busnes. Y Torïaid eu hunain sydd wedi methu—

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

17:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Quickly, now.

Yn gyflym, yn awr.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

17:35 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—it is the Labour Party who are the shopkeepers of Britain.

[Yn parhau.]—y Blaid Lafur sy'n cadw'r siop ym Mhrydain.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

17:35 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful for the opportunity to contribute to this debate, which highlights the vital role played by small businesses in our economy and our communities. Unlike large companies, which can relocate to other regions and even to other countries, should they so wish, small businesses are embedded in the communities they are based in. They provide job opportunities and trade in the localities they serve.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon, sy'n tynnu sylw at rôl hanfodol busnesau bach yn ein heconomi a'n cymunedau. Yn wahanol i gwmnïau mawr, sy'n gallu symud i ranbarthau eraill a hyd yn oed i wledydd eraill os dymunant, mae busnesau bach yn ymwreiddio yn y cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Maent yn darparu cyfleoedd gwaith a masnach yn yr ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu.

Indeed, small businesses and microbusinesses created more than 25,000 new jobs in Wales in 2013. According to the Federation of Small Businesses Wales, everyone in Wales looking for a job could be employed if every small and medium-sized enterprise recruited one more person. But, we have to recognise that the private sector in Wales is too small, and there are problems within the existing private sector, with medium-sized enterprises making up less than 1 per cent of the total number of businesses in Wales. In 2013, the business birth rate was the highest it had been for 10 years. I am concerned that this birth rate slowed down in 2014, and the death rate of Welsh businesses rose slightly over the same period. The Welsh Government needs a strategy to support the private sector in Wales, with clear and coherent policies to encourage business start-ups. They must also use the powers at their disposal to create the conditions that will give our small and medium-sized businesses the opportunities to grow and to thrive.

Yn wir, crëodd busnesau bach a microfusnesau fwy na 25,000 o swyddi newydd yng Nghymru yn 2013. Yn ôl Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, gallai pawb yng Nghymru sy'n chwilio am swydd gael gwaith pe bai pob menter fach a chanolig ei maint yn recriwtio un unigolyn arall. Ond mae'n rhaid i ni gydnabod bod y sector preifat yng Nghymru yn rhy fach, a cheir problemau yn y sector preifat fel y mae, gyda llai nag 1 y cant o gyfanswm nifer y busnesau yng Nghymru yn fentrau canolig eu maint. Yn 2013, roedd y gyfradd o fusnesau newydd yn uwch nag y bu ers 10 mlynedd. Rwy'n pryderu bod y gyfradd hon wedi arafu yn 2014, a bod y gyfradd o fusnesau yng Nghymru a ddaeth i ben wedi codi ychydig dros yr un cyfnod. Mae angen strategaeth ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r sector preifat yng Nghymru, gyda pholisïau clir a chydlynol i annog busnesau newydd. Hefyd, rhaid iddi ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi i greu'r amodau a fydd yn rhoi cyfle i'n busnesau bach a chanolig eu maint dyfu a ffynnu.

Access to finance must be improved as a matter of urgency. Finance Wales has been under review for two years, after being called unfit for purpose. We believe access to finance needs to be localised to stimulate the economy. Regionalising the availability of finance with a regional manager known to the local business community, and aware of the needs and requirements of his or her region, will have benefits in terms of raising awareness of the financial assistance available and the supply of funding.

Rhaid gwella mynediad at gyllid ar frys. Mae Cyllid Cymru wedi bod dan arolwg ers dwy flynedd, ar ôl cael ei alw'n anaddas at y diben. Credwn fod angen i fynediad at gyllid fod yn lleol er mwyn ysgogi'r economi. Bydd rhanbartholi argaeledd cyllid gyda rheolwr rhanbarthol sy'n gyfarwydd i'r gymuned fusnes leol, ac sy'n ymwybodol o anghenion a gofynion ei ardal, yn sicrhau manteision o ran codi ymwybyddiaeth o'r cymorth ariannol sydd ar gael a chyflenwad cyllid.

Business rates, rent and wages are the three largest outgoings for small businesses. Abolishing rates for businesses with a rateable value below £12,000, and providing tapered relief for those up to £15,000, would provide timely help to allow companies to focus on expanding their business and to take on new staff.

Ardrethi busnes, rhent a chyflogau yw'r tri alldaliad mwyaf i fusnesau bach. Byddai dileu ardrethi ar gyfer busnesau â gwerth ardrethol o lai na £12,000 a darparu rhyddhad sy'n lleihau'n raddol i fusnesau â gwerth ardrethol hyd at £15,000 yn darparu cymorth amserol i ganiatáu i gwmnïau ganolbwyntio ar ehangu eu busnes a chyflogi staff newydd.

Enterprise zones can make an important contribution to growing the economy, but progress so far in Wales has been patchy. Between April 2014 and March 2015, 536 jobs were created in the Cardiff enterprise zone, and 473 in Deeside. In contrast, only seven jobs were created in the Ebbw Vale enterprise zone over the same period, and seven in St Athan. The Welsh Government must take this opportunity to reassess and refresh its approach to enterprise zones to address the current serious imbalance of outcomes. Deputy Presiding Officer, Wales does not lack people with entrepreneurial skills and the drive to start their own businesses, what is lacking in Wales is the Welsh Government providing the support they need to promote wealth creation and employment. By taking the measures we have outlined today, we can create a climate that allows our small and medium-sized businesses to grow and thrive in Wales.

Gall ardaloedd menter wneud cyfraniad pwysig i dyfu'r economi, ond mae'r cynnydd yng Nghymru hyd yma wedi bod yn anghyson. Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, crëwyd 536 o swyddi yn ardal fenter Caerdydd, a 473 yng Nglannau Dyfrdwy. Ar y llaw arall, saith o swyddi'n unig a grëwyd yn ardal fenter Glynebwy dros yr un cyfnod, a saith yn Sain Tathan. Rhaid i Lywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle hwn i ailasesu ac adnewyddu ei hymagwedd tuag at ardaloedd menter er mwyn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd difrifol presennol yn y canlyniadau. Ddirprwy Lywydd, nid yw Cymru yn brin o bobl sy'n meddu ar sgiliau entrepreneuraidd a'r ysgogiad i ddechrau eu busnesau eu hunain. Yr hyn sy'n ddiffygiol yng Nghymru yw Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r cymorth sydd ei angen i ysgogi cyfoeth a chreu cyflogaeth. Trwy fabwysiadu'r mesurau a amlinellwyd gennym heddiw, gallwn greu hinsawdd sy'n caniatáu i'n busnesau bach a chanolig eu maint dyfu a ffynnu yng Nghymru.

In my own private life, I was an accountant and I dealt with loads of small businesses. I know the people who work six to seven days a week, and they create wealth. They are the backbone of our businesses. I can very proudly say that David Cameron's Cabinet Minister is one—the business Minister. He actually comes from a very humble background, and he went to the markets with his father to sell clothes. Look at the improvement he made through the businesses that he was involved with, and what his place is now. Business does not only give you an incentive to work in life; it actually takes away the dependence on the state, for them to stand on their own two feet, for themselves, for their family and for their own country. Thank you very much.

Yn fy mywyd personol, cyfrifydd oeddwn i a byddwn yn ymwneud â llawer o fusnesau bach. Rwy'n adnabod y bobl sy'n gweithio chwech neu saith diwrnod yr wythnos, ac maent yn creu cyfoeth. Hwy yw asgwrn cefn ein busnesau. Gallaf ddweud yn falch iawn fod Gweinidog Cabinet David Cameron yn un—y Gweinidog busnes. Daw o gefndir gostyngedig iawn mewn gwirionedd, a byddai'n mynd i'r marchnadoedd gyda'i dad i werthu dillad. Edrychwch ar y gwelliannau a wnaeth drwy'r busnesau a ymwnâi â hwy, a ble y mae yn awr. Nid yn unig y mae busnes yn rhoi cymhelliant i chi weithio mewn bywyd; mae'n dileu'r ddibyniaeth ar y wladwriaeth mewn gwirionedd, er mwyn iddynt allu sefyll ar eu traed eu hunain, drostynt eu hunain, dros eu teuluoedd a thros eu gwlad. Diolch yn fawr iawn.

17:40

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now entering its third year, Small Business Saturday UK is a not-for-profit campaign, highlighting small business success and encouraging support for small businesses. It was a privilege to be the only Assembly Member at the Welsh launch of Small Business Saturday UK 2015 in Cardiff castle, and to welcome the Small Business Saturday UK bus to Wrexham for its north Wales visit on its UK-wide 27-stop tour. It was also great to meet a range of small businesses exhibiting at each event.

Ymgyrch ddi-elw yw Sadwrn Busnesau Bach y DU, sydd bellach yn dechrau ar ei thrydedd flwyddyn, ar gyfer amlygu llwyddiant busnesau bach ac i annog cefnogaeth i fusnesau bach. Roedd yn fraint cael bod yr unig Aelod Cynulliad yn lansiad Sadwrn Busnesau Bach y DU 2015 yng Nghymru yng nghastell Caerdydd, a chroesawu bws Sadwrn Busnesau Bach y DU i Wrecsam ar gyfer ei ymweliad â gogledd Cymru ar ei daith ar draws y DU gan aros mewn 27 o lefydd. Pleser hefyd oedd cyfarfod ag amrywiaeth o fusnesau bach a oedd yn arddangos ym mhob digwyddiad.

In collaboration with Mold Town Council and Mold Business Forum, the north Wales Federation of Small Businesses will this year be concentrating their efforts for Small Business Saturday in Mold, and I look forward to joining them this Saturday, 5 December, in Daniel Owen square, featuring free branded cotton carrier bags for shoppers, live music, public displays and workshops. I commend it to you all.

Ar y cyd â Chyngor Tref yr Wyddgrug a Fforwm Busnes yr Wyddgrug, eleni bydd Ffederasiwn Busnesau Bach gogledd Cymru yn canolbwyntio eu hymdrechion ar Sadwrn Busnesau Bach yn yr Wyddgrug, ac edrychaf ymlaen at ymuno â hwy ddydd Sadwrn nesaf, 5 Rhagfyr, yn sgwâr Daniel Owen, lle y byddant yn darparu bagiau siopa cotwm wedi'u brandio am ddim i siopwyr, cerddoriaeth fyw, arddangosiadau cyhoeddus a gweithdai. Rwy'n ei argymell i bawb ohonoch.

Ninety nine per cent of Wales, 231,110 businesses, employ fewer than 250 people, providing over 50 per cent of jobs. The number of new businesses in Wales has grown slightly, but with the Welsh Government responsible for business development in Wales, it is worrying that the business birth rate in Wales remains below the UK average.

Mae 99 y cant o Gymru, 231,110 o fusnesau, yn cyflogi llai na 250 o bobl, gan ddarparu dros 50 y cant o'r swyddi. Mae nifer y busnesau newydd yng Nghymru wedi cynyddu ychydig, ond gyda Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddatblygu busnes yng Nghymru, mae'n destun pryder fod y gyfradd o fusnesau newydd yng Nghymru yn parhau islaw cyfartaledd y DU.

The number of small and medium enterprises in Wales increased 29 per cent in the decade to 2014, lagging behind the 35 per cent UK increase. In 2014, there were fewer business start-ups per 10,000 working-age people in Wales than in all of the 12 devolved nations and English regions, except Northern Ireland and north-east England.

Mae nifer y mentrau bach a chanolig yng Nghymru wedi cynyddu 29 y cant yn y degawd hyd at 2014, sydd islaw'r cynnydd o 35 y cant yn y DU. Yn 2014, roedd llai o fusnesau newydd am bob 10,000 o bobl o oedran gweithio yng Nghymru nag yn unrhyw un o'r 12 o wledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr, ac eithrio Gogledd Iwerddon a gogledd-ddwyrain Lloegr.

In the north Wales context, it remains particularly concerning that west Wales and the Valleys, including four north Wales counties, are still the worst-performing economic sub-regions in the UK, and that GDP per head in Flintshire and Wrexham fell from 104 per cent to 92 per cent of the EU average in the decade after 2000.

Yng nghyd-destun gogledd Cymru, mae'n parhau'n destun pryder mawr mai gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gynnwys pedair o siroedd gogledd Cymru, yw'r is-ranbarthau economaidd sy'n perfformio waethaf yn y DU o hyd, a bod cynnyrch domestig gros y pen yn Sir y Fflint a Wrecsam wedi gostwng o 104 y cant i 92 y cant o gyfartaledd yr UE yn y degawd ar ôl 2000.

UK unemployment has fallen to a seven-year low, but Wales has the highest unemployment rate amongst the UK nations. With 557,000 working-age people in Wales not in employment, Wales is clearly in need of a co-ordinated approach to stimulate jobs, growth and prosperity. This means working with business indeed, not empty rhetoric.

Mae diweithdra yn y DU wedi gostwng i lefel is nag y bu ers saith mlynedd, ond Cymru sydd â'r gyfradd ddiweithdra uchaf o wledydd y DU. Gyda 557,000 o bobl o oedran gweithio yng Nghymru nad ydynt mewn cyflogaeth, mae'n amlwg fod angen dull cydgysylltiedig yng Nghymru o ysgogi swyddi, twf a ffyniant. Mae hyn yn golygu gweithio gyda busnesau yn wir, yn hytrach na rhethreg wag.

As June's independent report for the Federation of Small Businesses on the impact of Welsh housing legislation states:

Fel y mae adroddiad annibynnol mis Mehefin ar ran y Ffederasiwn Busnesau Bach ar effaith deddfwriaeth tai yng Nghymru yn datgan:

'We can find little evidence that the Welsh Government has undertaken any serious research into the impact of its legislation'.

'We can find little evidence that the Welsh Government has undertaken any serious research into the impact of its legislation'.

It said that FSB Wales had strongly argued for better regulation, designed to make it easier for businesses to comply, and for regulators to enforce appropriately. Instead, the report states that the recent and proposed housing legislation takes a largely sledgehammer-to-crack-a-nut-approach, rather than being targeted.

Dywedai fod y Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru wedi dadlau'n gryf dros reoleiddio gwell, wedi'i gynllunio i'w gwneud yn haws i fusnesau gydymffurfio, ac i reoleiddwyr roi camau gorfodi ar waith yn briodol. Yn lle hynny, mae'r adroddiad yn nodi bod y ddeddfwriaeth tai ddiweddar ac arfaethedig yn arfer dull sy'n mynd ati i raddau helaeth i dorri cneuen â gordd yn hytrach na'i fod wedi'i dargedu.

This summer, I was presented with a consultants' report on public procurement from an SME perspective, which stated that bids are often won on price that is then found to be lacking on essential resources, often included in the losing bids, yet not picked up in the tender-making process. It adds that the Welsh Government have announced targets for SME involvement in public sector work, but seem to rely on larger firms then subcontracting a proportion to SMEs.

Yr haf hwn, cefais adroddiad gan ymgynghorwyr ar gaffael cyhoeddus o safbwynt busnesau bach a chanolig, a oedd yn datgan bod cynigion yn aml yn ennill ar sail pris, ond canfyddir wedyn eu bod yn brin o adnoddau hanfodol, sy'n aml wedi'u cynnwys yn y cynigion aflwyddiannus, ond heb gael eu nodi yn ystod y broses dendro. Mae'n ychwanegu bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi targedau ar gyfer cyfranogiad busnesau bach a chanolig mewn gwaith sector cyhoeddus, ond maent i'w gweld yn ddibynnol ar gwmnïau mwy o faint yn is-gontractio cyfran o'r gwaith wedyn i fusnesau bach a chanolig.

Significant investment in north Wales has been announced by the UK Government: the Wrexham super prison and Wylfa Newydd, a nuclear power station, will bring diverse and skilled jobs to the region. The Federation of Small Businesses in north Wales notified me that the Fit for Nuclear service helps manufacturing companies in England get ready to bid for work in the civil nuclear supply chain, but all projects must be complete before April 2016. When I wrote to this economy Minister asking what plans she had to develop a similar programme for companies in Wales, she replied wrongly that this programme was open to all UK companies. When I subsequently raised this with her in the Chamber, she referred only to the general help available to any Welsh business. If it's not already too late, we need urgent delivery by this Minister of a fit-for-nuclear programme for small and medium businesses in Wales. We also need implementation of the Welsh Conservative Invest Wales initiative to encourage local growth by using Finance Wales funding to regionalise access to finance for small businesses, encouraging high-street lending, not just state banking. As I said at October's launch of the FSB manifesto for the 2016 election, I support its call for a new economic approach that builds on the foundations of small businesses in every part of Wales and allows more localised approaches to economic development.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU fuddsoddiad sylweddol yng ngogledd Cymru: bydd y carchar mawr yn Wrecsam a Wylfa Newydd, gorsaf ynni niwclear, yn dod â swyddi amrywiol a medrus i'r rhanbarth. Cefais ar ddeall gan y Ffederasiwn Busnesau Bach yng ngogledd Cymru fod y gwasanaeth Fit for Nuclear yn helpu cwmnïau gweithgynhyrchu yn Lloegr i baratoi ar gyfer cyflwyno cynigion am waith yn y gadwyn gyflenwi niwclear sifil, ond rhaid i bob prosiect fod wedi'i gwblhau cyn mis Ebrill 2016. Pan ysgrifennais at Weinidog yr economi i ofyn pa gynlluniau oedd ganddi i ddatblygu rhaglen debyg ar gyfer cwmnïau yng Nghymru, atebodd yn anghywir fod y rhaglen hon yn agored i bob cwmni yn y DU. Pan grybwyllais hyn wrthi wedyn yn y Siambr, cyfeiriodd yn unig at y cymorth cyffredinol sydd ar gael i unrhyw fusnes yng Nghymru. Os nad yw hi eisoes yn rhy hwyr, mae angen i'r Gweinidog ddarparu rhaglen 'fit for nuclear' ar frys ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Mae arnom angen gweithredu menter y Ceidwadwyr Cymreig, Buddsoddi Cymru, i annog twf lleol drwy ddefnyddio arian gan Cyllid Cymru i ranbartholi mynediad at gyllid i fusnesau bach, gan annog benthyca ar y stryd fawr, nid banciau gwladol yn unig. Fel y dywedais ym mis Hydref wrth lansio maniffesto y Ffederasiwn Busnesau Bach ar gyfer etholiad 2016, rwy'n cefnogi eu galwad am ymagwedd economaidd newydd sy'n adeiladu ar sylfeini busnesau bach ym mhob rhan o Gymru ac sy'n caniatáu dulliau mwy lleol o ddatblygu'r economi.

17:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And I call the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

A galwaf ar Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

17:45

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Small and medium-sized businesses in Wales account for 99 per cent of enterprises in Wales, 62 per cent of employment and 36 per cent of turnover. Their growth is, of course, critical to the growth of the Welsh economy. Mohammad Asghar was actually wrong when he said we have no coherent policy in Wales. I hope from my contribution today I will indicate we do have a very coherent policy in relation to encouraging SMEs and microbusinesses.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru yw 99 y cant o'r mentrau yng Nghymru, a darparant 62 y cant o gyflogaeth a 36 y cant o'r trosiant. Mae eu twf, wrth gwrs, yn allweddol i dwf economi Cymru. Roedd Mohammad Asghar yn anghywir mewn gwirionedd pan ddywedodd nad oes gennym bolisi cydgysylltiedig yng Nghymru. Rwy'n gobeithio, yn fy nghyfraniad heddiw, y byddaf yn dangos bod gennym bolisi cydgysylltiedig iawn mewn perthynas ag annog busnesau bach a chanolig a microfusnesau.

I very much welcome campaigns such as Small Business Saturday, but I do totally agree—William Graham alluded to Small Business Saturday, but I also agree with other comments made. It's not just about one day a year; it's about the commitment we all give to small businesses in our constituencies and the way that we shop in certain areas.

Rwy'n croesawu ymgyrchoedd fel Sadwrn Busnesau Bach yn fawr iawn, ond rwy'n cytuno'n llwyr—cyfeiriodd William Graham at Sadwrn Busnesau Bach, ond rwyf hefyd yn cytuno â sylwadau eraill a wnaed. Nid yw'n ymwneud ag un diwrnod y flwyddyn yn unig; mae'n ymwneud â'r ymrwymiad rydym i gyd yn ei wneud i fusnesau bach yn ein hetholaethau a'r modd rydym yn siopa mewn rhai ardaloedd.

This year, through Business Wales, we're supporting 24 entrepreneurs, as an example, at the Cardiff Christmas market, taking cabins for a period of up to five days between 12 November and 5 December, in the run-up to Small Business Saturday. This has proved to be very important and very helpful to businesses in the past because the campaign encourages people to use small shops and businesses in the run-up to Christmas, and it's a day to celebrate and show support for our small businesses and all they do for their communities. But we always need to be doing that all the time; it's not just one day in the year, or the run-up to Christmas.

Eleni, drwy Busnes Cymru er enghraifft, rydym yn cefnogi 24 o entrepreneuriaid ym marchnad Nadolig Caerdydd, i gymryd cabanau am gyfnod o hyd at bum niwrnod rhwng 12 Tachwedd a 5 Rhagfyr yn y cyfnod yn arwain at Sadwrn Busnesau Bach. Bu hyn yn bwysig ac yn ddefnyddiol iawn i fusnesau yn y gorffennol am fod yr ymgyrch yn annog pobl i ddefnyddio siopau a busnesau bach yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig, ac mae'n ddiwrnod i ddathlu a dangos cefnogaeth i'n busnesau bach a phopeth y maent yn ei wneud i'w cymunedau. Ond mae'n rhaid i ni ei wneud drwy'r amser; nid am un diwrnod yn ystod y flwyddyn, neu'r cyfnod cyn y Nadolig.

There's no doubt that small businesses make a very important contribution to local communities across Wales, and are essential in providing employment opportunities. We recognise the unique challenges that Wales's rurality and geography bring for all businesses, including small businesses, and this is reflected in our targeted and geographically-focused measures, such as enterprise zones.

Nid oes amheuaeth fod busnesau bach yn gwneud cyfraniad pwysig iawn i gymunedau lleol ledled Cymru, ac maent yn hanfodol ar gyfer darparu cyfleoedd cyflogaeth. Rydym yn cydnabod yr heriau unigryw sy'n deillio o natur wledig a daearyddiaeth Cymru i bob busnes, gan gynnwys busnesau bach, ac adlewyrchir hyn yn ein mesurau sydd wedi'u targedu ac sy'n darparu ffocws daearyddol, megis ardaloedd menter.

It's a pity really there wasn't a greater understanding on the other side of the Chamber about enterprise zones, and about the difficulty of establishing enterprise zones somewhere like Ebbw Vale, being realistic about how long it will take to get jobs in and hopeful that we can deliver in the long term. Some locations are much easier than others.

Mae'n drueni mewn gwirionedd na chafwyd mwy o ddealltwriaeth ar yr ochr arall i'r Siambr ynglŷn ag ardaloedd menter, a'r anhawster i sefydlu ardaloedd menter mewn llefydd fel Glynebwy, gan fod yn realistig ynglŷn â faint o amser a gymer i ddod â swyddi i mewn a'n gobaith y gallwn gyflawni yn y tymor hir. Mae rhai lleoliadau yn llawer haws nag eraill.

We've also focused on local growth zones, city regions and, of course, the BID process. I think, in terms of business improvement districts—which William Graham also alluded to—we've supplied a lot of funding in these areas. We're funding BIDs for Abergavenny, Aberystwyth, Bridgend, Llanelli, Neath, Pant and Merthyr industrial estates, Pontypridd, Caernarfon, Bangor and Colwyn Bay. [Interruption.] My apologies, Deputy Presiding Officer.

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar ardaloedd twf lleol, dinas-ranbarthau ac wrth gwrs, proses yr ardaloedd gwella busnes (AGB). O ran ardaloedd gwella busnes—y cyfeiriodd William Graham atynt hefyd—rwy'n meddwl ein bod wedi darparu llawer o arian yn yr ardaloedd hyn. Rydym yn ariannu AGB ar gyfer y Fenni, Aberystwyth, Pen-y-bont ar Ogwr, Llanelli, Castell-nedd, ystadau diwydiannol Pant a Merthyr, Pontypridd, Caernarfon, Bangor a Bae Colwyn. [Torri ar draws.] Fy ymddiheuriadau, Ddirprwy Lywydd.

As a Government, we're already making progress on a range of actions to help businesses, and these include actions—[Interruption.] Excuse me.

Fel Llywodraeth, rydym eisoes yn gwneud cynnydd ar amrywiaeth o gamau gweithredu i helpu busnesau, ac mae'r rhain yn cynnwys camau gweithredu— [Torri ar draws.] Esgusodwch fi.

17:48 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister give way? [Laughter.]

A wnaiff y Gweinidog ildio? [Chwerthin.]

17:48 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Perhaps I will.

Efallai y gwnaf.

17:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Inaudible.]

[Anghlywadwy.]

17:48 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I feel I've got a chance of the longest intervention in the history of this Chamber, so I thought I'd make a speech. Minister, you mentioned the success of the BIDs, business investment districts. They haven't, of course, all been accepted. You mentioned Abergavenny. I know a significant amount of money did go into that, but, ultimately, that was voted down in a democratic vote by the businesses in Abergavenny. So, do you recognise that it's not just a question of funding, it has to be moulded to the local community in a way that they will accept?

Rwy'n teimlo fy mod i wedi cael cyfle i gael yr ymyrraeth hiraf yn hanes y Siambr hon, felly roeddwn yn meddwl y byddwn i'n gwneud araith. Weinidog, fe sonioch am lwyddiant yr AGB, ardaloedd buddsoddiad busnes. Nid yw pob un ohonynt wedi cael eu derbyn wrth gwrs. Fe sonioch am y Fenni. Gwn fod swm sylweddol o arian wedi mynd tuag at hynny, ond yn y pen draw, pleidleisiwyd yn ei herbyn drwy bleidlais ddemocrataidd ymhlith busnesau yn y Fenni. Felly, a ydych yn cydnabod nad mater o arian yn unig yw hyn, mae'n rhaid ei fowldio i'r gymuned leol mewn modd y byddant yn ei dderbyn?

17:49 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I think that's absolutely correct. Where they have been successful—and Swansea kicked it off—there was a total buy-in and I think we've got to encourage businesses perhaps to buy into the support more, because I think it can be enormously successful.

Ydw, rwy'n credu bod hynny'n hollol gywir. Lle y maent wedi bod yn llwyddiannus—gydag Abertawe yn gyntaf—cafwyd cefnogaeth lwyr iddynt ac rwy'n credu bod yn rhaid i ni annog busnesau i fanteisio mwy ar y gefnogaeth, oherwydd credaf y gall fod yn hynod lwyddiannus.

As a Government, I think we have made progress on a range of issues; these include actions to make business access to finance easier to help to start and grow business, reviewing business rates policy, and supporting international trade and investment and developing infrastructure.

Fel Llywodraeth, rwy'n meddwl ein bod wedi gwneud cynnydd ar ystod o faterion; mae'r rhain yn cynnwys camau gweithredu i wneud mynediad busnesau at gyllid yn haws er mwyn helpu i ddechrau a thyfu busnesau, adolygu polisi ardrethi busnes, a chefnogi masnach ryngwladol a buddsoddiad a datblygu seilwaith.

Now, Business Wales provides business and entrepreneurs access to a wide range of information and guidance. I gave the figures recently: it was launched in January 2013, helped to create over 9,000 new businesses across Wales, creating over 12,000 jobs and safeguarding a further 3,000 jobs. It's pleasing to see the contribution that they're making to the economy as a whole. The latest stats show there are now 230,000 businesses in Wales compared to 208,000 in 2011, with employment within these businesses increasing to over 1 million over the same period.

Nawr, mae Busnes Cymru yn darparu mynediad i fusnesau ac entrepreneuriaid at ystod eang o wybodaeth ac arweiniad. Rhoddais y ffigurau yn ddiweddar: fe'i lansiwyd ym mis Ionawr 2013, ac mae wedi helpu i greu dros 9,000 o fusnesau newydd ar draws Cymru, gan greu dros 12,000 o swyddi a diogelu 3,000 o swyddi pellach. Mae'n braf gweld y cyfraniad a wnaethant i'r economi yn ei chyfanrwydd. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod 230,000 o fusnesau yng Nghymru bellach o'i gymharu â 208,000 yn 2011, gyda chyflogaeth yn y busnesau hyn yn cynyddu i dros 1 filiwn dros yr un cyfnod.

Last month, I announced the new arrangements on the Business Wales service. The devolution of business rates has provided an important opportunity to focus on developing the right regime in Wales, and we have announced quite a few substantial things—extension of small business rates relief, enhancement of the Wales retail relief scheme, and a further round of enterprise zone business schemes, but you will appreciate that, even in discussion and debate earlier, we were having discussions about business rates in relation to steel et cetera so we've got to get the balance right across the piece in terms of what we are undertaking.

Y mis diwethaf, cyhoeddais y trefniadau newydd ar gyfer gwasanaeth Busnes Cymru. Mae datganoli ardrethi busnes wedi bod yn gyfle pwysig i ganolbwyntio ar ddatblygu'r drefn gywir yng Nghymru, ac rydym wedi cyhoeddi cryn dipyn o bethau sylweddol—ymestyn y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, gwella cynllun rhyddhad manwerthu Cymru, a chylch arall o gynlluniau busnes ardaloedd menter, ond fe fyddwch yn deall, hyd yn oed yn y ddadl yn gynharach pan oeddem yn trafod ardrethi busnes mewn perthynas â dur ac ati, fod yn rhaid i ni sicrhau'r cydbwysedd cywir yn gyffredinol o ran yr hyn rydym yn ei wneud.

These measures are significant in terms of the investment in the Welsh economy, and I am grateful to Joyce Watson, who indicated the number of initiatives that we are undertaking. It's also important to recognise that it's not just the role and function of this Government but also local authorities, as was mentioned, about free parking and what they're doing on various issues to encourage developments in the high street. When local authorities are good and they understand the issues, you see the difference in the high street. Only last week, Sir Terry Matthews commented to me how much he enjoyed walking around Neath town centre. I can say in my own constituency that you'll see the improvement in towns like Gorseinon and Pontarddulais. It makes a real difference, I think, when there's activity there and you can get out and do the business.

Mae'r mesurau hyn yn arwyddocaol o ran y buddsoddiad yn economi Cymru, ac rwy'n ddiolchgar i Joyce Watson, a nododd nifer o fentrau rydym yn eu cyflawni. Mae hefyd yn bwysig cydnabod nad rôl a swyddogaeth i'r Llywodraeth hon yn unig yw hyn, ond i awdurdodau lleol hefyd, fel y crybwyllwyd, o ran parcio am ddim a'r hyn a wnânt ar faterion amrywiol i annog datblygiadau ar y stryd fawr. Pan fydd awdurdodau lleol yn dda ac yn deall y problemau, fe welwch y gwahaniaeth ar y stryd fawr. Yr wythnos diwethaf, dywedodd Syr Terry Matthews wrthyf cymaint y mae'n mwynhau cerdded o gwmpas canol tref Castell-nedd. Gallaf ddweud yn fy etholaeth fy hun eich bod yn gweld y gwelliant mewn trefi fel Gorseinon a Phontarddulais. Mae'n gwneud gwahaniaeth go iawn, rwy'n meddwl, pan fo rhywbeth yn digwydd yno a gallwch fynd allan a bwrw i'r busnes.

Obviously, in terms of money, we've got a plethora of schemes to help, and I don't take this criticism well, to be frank, because I think we've done a lot in terms of microbusinesses, life sciences and the economic growth fund. Let's remember in all of this that where people should go in the first place is to the banks, and we do have to look realistically at how the banks are helping businesses or not helping businesses, and I think pressure's got to be kept on them, because we do recognise that finance is a key issue for business, and we continually look at it.

Yn amlwg, o ran arian, mae gennym lu o gynlluniau i helpu, ac nid wyf yn cymryd y feirniadaeth hon yn dda, a bod yn onest, gan fy mod yn credu ein bod wedi gwneud llawer o ran microfusnesau, gwyddorau bywyd a'r gronfa twf economaidd. Gadewch i ni gofio yn hyn i gyd mai at y banciau y dylai pobl fynd yn y lle cyntaf, ac mae'n rhaid i ni edrych yn realistig ar sut y mae'r banciau yn helpu busnesau neu fel arall, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid dal i bwyso arnynt gan ein bod yn cydnabod bod cyllid yn fater allweddol i fusnesau, ac rydym yn edrych arno'n barhaus.

Reference has been made to Finance Wales, who I know recently appeared before the Finance Committee. We've taken all the criticism of it seriously, we've looked at their structure, we're looking at how they are going to develop a development bank, and it's very important that we recognise that they will take this work forward. So, these are important issues.

Cyfeiriwyd at Cyllid Cymru, y gwn eu bod wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid yn ddiweddar. Rydym wedi bod o ddifrif ynglŷn â'r holl feirniadaeth, rydym wedi edrych ar eu strwythur, rydym yn edrych ar sut y maent yn mynd i ddatblygu banc datblygu, ac mae'n bwysig iawn ein bod yn cydnabod y byddant yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Felly, mae'r rhain yn faterion pwysig.

Also, in practical terms, some of the issues for business that are raised with us are the Superfast Cymru project, how people are keen to have that level of investment in, and also as well looking for bespoke decisions for business and areas to help with interventions in terms of an adequate supply of land and property so we can include it. Also key to this will be what we do in terms of transport infrastructure, because that is also key in the developments we need to undertake.

Hefyd, yn ymarferol, rhai o'r problemau i fusnesau a grybwyllwyd wrthym yw prosiect Cyflymu Cymru, sut y mae pobl yn awyddus i gael y lefel honno o fuddsoddiad i mewn, ac edrych hefyd am benderfyniadau pwrpasol ar gyfer busnesau ac ardaloedd i helpu gydag ymyriadau o ran cyflenwad digonol o dir ac eiddo er mwyn i ni ei gynnwys. Hefyd, bydd yr hyn a wnawn ar y seilwaith trafnidiaeth yn allweddol i hyn, gan fod hynny hefyd yn hanfodol yn y datblygiadau sydd angen i ni eu cyflawni.

If I can turn to the amendments, we'll be opposing the first amendment from Aled Roberts, because Business Wales already provides a one-stop shop and works closely with Finance Wales, and that work is likely to be enhanced in the coming months. Business Wales is also currently strengthening its links with other financial institutions and, as I indicated, we're continuing work on the development bank.

Os caf droi at y gwelliannau, byddwn yn gwrthwynebu'r gwelliant cyntaf gan Aled Roberts, am fod Busnes Cymru eisoes yn darparu siop un stop ac yn gweithio'n agos gyda Cyllid Cymru, ac mae'r gwaith hwnnw'n debygol o gael ei ymestyn yn ystod y misoedd nesaf. Mae Busnes Cymru hefyd wrthi'n cryfhau ei gysylltiadau â sefydliadau ariannol eraill ac fel y dywedais, rydym yn parhau'r gwaith ar y banc datblygu.

We will be supporting amendment 2, because part of our vision to make Wales a truly digital nation is to have a world-class ICT structure, and we're certainly improving with the superfast project on business parks, industrial estates, through our contract with Airband, specialists in wireless broadband, and the Access Broadband Cymru scheme. We are also encouraging business to make the most of the structure.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 2, am mai rhan o'n weledigaeth i wneud Cymru yn genedl wirioneddol ddigidol yw cael strwythur TGCh o'r radd flaenaf, ac rydym yn sicr yn gwella gyda'r prosiect band eang cyflym iawn mewn parciau busnes, ystadau diwydiannol, drwy ein contract gydag Airband, arbenigwyr ar fand eang di-wifr, a chynllun Allwedd Band Eang Cymru. Rydym hefyd yn annog busnesau i fanteisio'n llawn ar y strwythur.

In terms of amendment 3, we will also be supporting that. We're taking action to tackle barriers that prevent microbusinesses in Wales from growing, and it's easier to access finance and all those issues and, of course, supporting international trade and investment. Inward investment is key to us for what we do, but I think sometimes people are bit misty-eyed about the role of the Welsh Development Agency historically on this particular issue.

O ran gwelliant 3, byddwn hefyd yn cefnogi hwnnw. Rydym yn gweithredu i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal microfusnesau yng Nghymru rhag tyfu, a'i gwneud yn haws cael gafael ar gyllid a'r materion hynny ac wrth gwrs, yn cefnogi masnach ryngwladol a buddsoddiad. Mae mewnfuddsoddiad yn allweddol i'r hyn a wnawn, ond rwy'n meddwl weithiau fod pobl yn hiraethu gormod braidd am rôl Awdurdod Datblygu Cymru yn hanesyddol ar y mater penodol hwn.

In terms of amendment 4, we will be opposing, because I am currently considering the extension of the enhanced small business rate relief scheme in discussions with my colleague the Finance Minister, and the UK Government, of course, is looking at the issues around re-evaluation.

O ran gwelliant 4, byddwn yn ei wrthwynebu am fy mod wrthi ar hyn o bryd yn ystyried ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi estynedig i fusnesau bach mewn trafodaethau gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog cyllid, ac mae Llywodraeth y DU, wrth gwrs, yn edrych ar y materion sy'n ymwneud ag ailwerthuso.

Can I say that, Rhun ap Iorwerth, when he spoke about it, spoke about the local things that he was involved in? I think we've all got a duty to be involved in things like Llangefni and to do what we can locally to encourage initiatives from small businesses. But can I say it's been a very welcome debate and discussion that shows that the Assembly understands the importance of small businesses to the Welsh economy?

A gaf fi ddweud fod Rhun ap Iorwerth, pan siaradodd am y peth, wedi sôn am y pethau lleol roedd ef yn rhan ohonynt? Rwy'n credu bod dyletswydd arnom i gyd i fod yn rhan o bethau fel Llangefni a gwneud yr hyn a allwn yn lleol i annog mentrau gan fusnesau bach. Ond a gaf fi ddweud ei bod wedi bod yn ddadl i'w chroesawu'n fawr ac yn drafodaeth sy'n dangos bod y Cynulliad yn deall pwysigrwydd busnesau bach i economi Cymru?

17:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

And I call on the gallant Nick Ramsay to reply. [Laughter.]

A galwaf ar y gwrol Nick Ramsay i ymateb. [Chwerthin.]

17:54

## Nick Ramsay [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Rick Namsay's here again. [Laughter.] Thank you, Deputy Presiding Officer. We can give the Minister's voice a well-deserved rest now. As William Graham said in opening, this is, as the Minister's just called it, a very important debate. I think we all recognise that. This debate has been about encouraging a diverse economy. William Graham also mentioned the document 'What Wales Could Be', the FSB report into expanding the economy and growing small businesses. And yes, a development bank is a huge step forward. We, in the Welsh Conservatives, have proposed Invest Wales. It's been clear that there have been issues with Finance Wales. Whatever you think the extent of those issues might have been, there have been issues that we are assured, and we have been assured in the Finance Committee, are being addressed. But they have caused very real problems for those who want better support for businesses and more timely access to finance when SMEs need it.

Mae Rick Namsay yma eto. [Chwerthin.] Diolch, Ddirprwy Lywydd. Gallwn roi hoe haeddiannol iawn i lais y Gweinidog yn awr. Fel y dywedodd William Graham wrth agor, mae hon fel y mae'r Gweinidog newydd ei ddweud, yn ddadl bwysig iawn. Rwy'n credu ein bod i gyd yn cydnabod hynny. Dadl oedd hi ynghylch annog economi amrywiol. Soniodd William Graham hefyd am y ddogfen 'What Wales Could Be', adroddiad y Ffederasiwn Busnesau Bach ar ehangu'r economi a thyfu busnesau bach. Ac ydy, mae banc datblygu yn gam mawr ymlaen. Rydym ni, yn y Ceidwadwyr Cymreig, wedi argymell Buddsoddi Cymru. Mae wedi bod yn amlwg fod problemau wedi bod gyda Cyllid Cymru. Beth bynnag yw eich barn am faint y problemau hynny, cawn ein sicrhau, a chawsom ein sicrhau yn y Pwyllgor Cyllid, eu bod yn cael sylw. Ond maent wedi achosi problemau real iawn i'r rhai sydd eisiau gwell cymorth i fusnesau a mynediad mwy amserol at gyllid pan fo'i angen ar fusnesau bach a chanolig.

Yes, we are supporting the Plaid Cymru amendment. Welsh Conservatives have long called for a reformed business rate regime, slightly different to Plaid's policy, but there is general agreement that we need to take businesses—well, we say up to a £12,000 rateable value, with tapered relief above that; you're saying up to £15,000. But there is general recognition across the Chamber, I think, that there needs to be a greater measure of support for businesses at that level of business rate pay.

Ydym, rydym yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi galw ers amser am drefn ardrethi busnes ddiwygiedig, ychydig yn wahanol i bolisi Plaid Cymru, ond mae yna gytundeb cyffredinol fod angen i ni sicrhau bod busnesau—wel, rydym yn dweud hyd at werth ardrethol o £12,000 gyda rhyddhad sy'n lleihau'n raddol uwchlaw hynny; rydych yn dweud hyd at £15,000. Ond ceir cydnabyddiaeth gyffredinol ar draws y Siambr, rwy'n credu, fod angen cael mwy o gefnogaeth i fusnesau ar y lefel honno o dâl ardrethi busnes.

William Powell brought in the rural dimension, which should not be ignored, and you spoke about embedding microbusinesses in their local communities, which is a key part of their growth. And, yes, I think there is agreement, Will, that larger companies don't always connect. Some do, and some do their best to connect, but they certainly don't connect as well as those locally based, locally grown businesses. You also made an important point that it's not just about them starting out in that rural community position, or that urban position, whatever it might be—when they do grow, it's important that they do keep those links. That's not always successful.

Cyflwynodd William Powell y dimensiwn gwledig na ddylid ei anwybyddu, ac fe siaradoch am wreiddio microfusnesau yn eu cymunedau lleol, sy'n rhan allweddol o'u twf. Ac ydw, rwy'n meddwl bod yna gytundeb, Will, nad yw cwmnïau mwy bob amser yn ymgysylltu. Mae rhai yn ei wneud, ac mae rhai yn gwneud eu gorau i ymgysylltu, ond yn sicr nid ydynt yn ymgysylltu cystal â busnesau lleol, sydd wedi tyfu'n lleol. Hefyd, gwnaethoch bwynt pwysig nad yw'n ymwneud yn unig â'u bod yn dechrau arni yn y sefyllfa gymunedol wledig honno, neu'r sefyllfa drefol honno, beth bynnag y bo—pan fyddant yn tyfu, mae'n bwysig eu bod yn cadw'r cysylltiadau hynny. Ni lwyddir i wneud hynny bob tro.

So, whether rural or urban, businesses will only grow if they are nurtured and if we look at reducing their initial costs. As Rhun ap Iorwerth called for: a better package for businesses.

Felly, boed wledig neu drefol, ni fydd busnesau ond yn tyfu os ydynt yn cael eu meithrin ac os edrychwn ar leihau eu costau cychwynnol. Fel y galwodd Rhun ap Iorwerth amdano: pecyn cymorth gwell i fusnesau.

Janet Finch-Saunders, my colleague here, she loves Small Business Saturday. You mention it at every opportunity, Janet, and why not? The premise of Small Business Saturday is certainly the right one, but, as the Minister said, and as many Members have said, it's not just a case of having Small Business Saturday, it's about having small business every day, and supporting small businesses throughout the year, and also recognising the connection they have to their local identity.

Janet Finch-Saunders, fy nghyd-Aelod yma, mae hi wrth ei bodd gyda'r Sadwrn Busnesau Bach. Rydych yn sôn amdano ar bob cyfle, Janet, a pham lai? Mae cysyniad y Busnesau Bach Sadwrn yn sicr yn un cywir, ond fel y dywedodd y Gweinidog, ac fel y mae nifer o Aelodau wedi dweud, nid mater o gael Sadwrn Busnesau Bach yn unig yw hyn, mae'n ymwneud â chael busnesau bach bob dydd, a chefnogi busnesau bach ar hyd y flwyddyn, a chydnabod y cysylltiad sydd rhyngddynt a'u hunaniaeth leol hefyd.

As Janet Finch-Saunders was speaking, I was mindful of my Save Monmouthshire campaign and the importance of existing councils as a brand. We know too well within Wales the problems of losing brands. We've spoken about the WDA earlier in this debate and there's no doubt at all that local authorities may have their issues and may have their problems, but, certainly, in the case of my local authority—and I'm sure others as well—there is a brand that has been developed over a number of years. The Minister herself attended the Monmouthshire business awards, as did I, recently, and it was clear that there was a brand there that people were buying into, that small businesses were buying into and that worked. So, let's be careful that we don't sacrifice this brand on the altar of reorganisation. I can see that the Minister likes that phrase.

Wrth i Janet Finch-Saunders siarad, cofiais am fy ymgyrch Achub Sir Fynwy a phwysigrwydd cynghorau presennol fel brand. Gwyddom yn rhy dda yng Nghymru am broblemau colli brandiau. Fe siaradom am Awdurdod Datblygu Cymru yn gynharach yn y ddadl hon ac nid oes amheuaeth o gwbl fod gan awdurdodau lleol eu problemau ond yn sicr, yn achos fy awdurdod lleol i—ac eraill hefyd, rwy'n siŵr—mae yna frand sydd wedi'i ddatblygu dros nifer o flynyddoedd. Mynychodd y Gweinidog wobrau busnes Sir Fynwy yn ddiweddar, fel y gwnes innau, ac roedd yn amlwg fod brand yno roedd pobl yn ei gefnogi, a busnesau bach yn ei gefnogi, ac roedd yn gweithio. Felly, gadewch i ni fod yn ofalus nad ydym yn aberthu'r brand hwn ar allor ad-drefnu. Gallaf weld bod y Gweinidog yn hoffi'r ymadrodd hwnnw.

I've got to say, Joyce Watson, you're right—you didn't expect that, did you—many people in Wales are employed in the public sector. But there is no public sector—this is my addition to what you said—without a private sector that is making the money and paying its taxes. We need both. What you didn't mention in your contribution, and you sadly don't mention, although you did mention that you had run a small business, was the need to grow the private sector, to make the private sector larger so that it's more supportive of the public sector. That's what we're calling for on this side of the Chamber—a far more successful all-round economy, with the two parts supporting each other. But I did like your idyllic picture of Victorian high streets with inns and stables. I can assure you we don't want to return to that.

Mae'n rhaid i mi ddweud, Joyce Watson, rydych chi'n iawn—nid oeddech yn disgwyl hynny, nac oeddech?—cyflogir llawer o bobl yng Nghymru yn y sector cyhoeddus. Ond ni cheir sector cyhoeddus—dyma fy ychwanegiad at yr hyn a ddywedoch—heb sector preifat sy'n gwneud arian ac yn talu ei drethi. Mae arnom angen y ddau. Yr hyn na siaradoch chi amdano yn eich cyfraniad, ac nad ydych yn sôn amdano, yn anffodus, er i chi ddweud eich bod yn arfer rhedeg busnes bach, oedd yr angen i dyfu'r sector preifat, i wneud y sector preifat yn fwy er mwyn iddo allu cefnogi'r sector cyhoeddus yn well. Galw am hynny rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr—economi gyflawn lawer mwy llwyddiannus, gyda'r ddwy ran yn cynnal ei gilydd. Ond roeddwn yn hoffi eich darlun hyfryd o strydoedd mawr Fictoraidd gyda thafarndai a stablau. Gallaf eich sicrhau nad ydym yn dymuno dychwelyd at hynny.

Mark Isherwood spoke about FSB Wales calling for the need for a greater analysis of the effects of Welsh Government legislation on business. I think we need this across the board. Yes, Wylfa Newydd will bring jobs and investment to north Wales—that is to be welcomed. You made a big plug for Invest Wales; you said how we need to look at better supporting business and better providing finance—not just in closed off, non-transparent corridors, but also out there in the high street.

Siaradodd Mark Isherwood am Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn galw am yr angen am ddadansoddiad ehangach o effeithiau deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar fusnes. Rwy'n credu bod angen hyn yn gyffredinol. Bydd, bydd Wylfa Newydd yn dod â swyddi a buddsoddiad i ogledd Cymru—mae hynny i'w groesawu. Fe roesoch hysbyseb i Buddsoddi Cymru; fe ddywedoch sut y mae angen i ni edrych ar gefnogi busnesau yn well a darparu cyllid yn well—nid mewn coridorau caeedig anhryloyw yn unig, ond allan ar y stryd fawr hefyd.

To be fair to the Minister, you also spoke of the need in terms of a development bank, as well, to get more finance out there. You, like the rest of us, are well aware of the issues that there have been over the last few years, where, first of all, businesses have not even been aware of the existence of Finance Wales. The Minister was right to say that Finance Wales, or the development bank, should not be the first port of call for finance. The banks have a big role to play in providing finance. That's not been entirely successful over the last few years, certainly since 2008, and we need efforts to make sure the banks do adhere to their responsibilities. But, beyond that, when there is a failure to provide that kind of finance, we need to make sure that Finance Wales, or the development bank, or Invest Wales, as we would reconstitute it, is there as a safety net to catch those businesses that, for the future, could really do a lot to generate growth and to drive the economy forward but, sometimes, at the moment feel that they don't have access to that support that they need.

I fod yn deg â'r Gweinidog, fe sonioch am yr angen mewn perthynas â banc datblygu, yn ogystal, i sicrhau bod mwy o gyllid ar gael. Rydych chi, fel y gweddill ohonom, yn ymwybodol iawn o'r problemau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, pan nad oedd busnesau, yn gyntaf oll, yn ymwybodol o fodolaeth Cyllid Cymru hyd yn oed. Roedd y Gweinidog yn iawn i ddweud nad at Cyllid Cymru, neu'r banc datblygu, y dylid mynd yn gyntaf i gael cyllid. Mae gan y banciau rôl fawr i'w chwarae yn darparu cyllid. Ni fu hynny'n gwbl lwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf, yn sicr ers 2008, ac mae angen i ni ymdrechu i sicrhau bod y banciau yn glynu at eu cyfrifoldebau. Ond y tu hwnt i hynny, pan fo methiant i ddarparu'r math hwnnw o gyllid, mae angen i ni wneud yn siŵr fod Cyllid Cymru, neu'r banc datblygu, neu Buddsoddi Cymru, fel y byddem yn ei ailsefydlu, yno fel rhwyd ddiogelwch i ddal y busnesau a allai wneud llawer yn y dyfodol i gynhyrchu twf a gyrru'r economi yn ei blaen, ond sydd weithiau, ar hyn o bryd, yn teimlo nad ydynt yn gallu dod o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnynt.

You did mention business investment districts. I think there's wide agreement—there's support for those. I know Julie James has been a passionate advocate for BIDs. I highlighted, in my timely intervention earlier, the problems there were in Abergavenny and, although investment had gone in and Welsh Government support had gone in, there was a lack of buy-in by the local community into the BID that was presented. So, I think, in future, we need to make sure that the business investment districts are better tailored to the locality. There is no one size that fits all for business investment; it needs to be responsive to their needs at that point in time.

Fe sonioch am ardaloedd buddsoddiad busnes. Rwy'n credu bod yna gytundeb eang—mae yna gefnogaeth i'r rheini. Gwn fod Julie James wedi hyrwyddo AGB yn frwdfrydig. Tynnais sylw, yn fy ymyriad amserol yn gynharach, at y problemau yn y Fenni ac er bod buddsoddiad wedi'i wneud a Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth, roedd diffyg cefnogaeth gan y gymuned leol i'r AGB a gyflwynwyd. Felly, yn y dyfodol, rwy'n meddwl bod angen i ni wneud yn siŵr fod yr ardaloedd buddsoddiad busnes yn cael eu teilwra'n well i'r ardal. Nid oes un ateb sy'n addas i bawb ar gyfer buddsoddi mewn busnes; mae angen iddo allu ymateb i'w hanghenion ar y pryd.

So, all of these issues do need to be addressed. We have put forward this motion today to try and make sure that investment in business in the future is better, that we better support our small and medium-sized enterprises and, indeed, provide that framework, that arena and that regime within which Welsh businesses can grow more successfully in the future. With that, I urge the Members here to support our motion.

Felly, mae angen mynd i'r afael â'r holl faterion hyn. Rydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw i geisio gwneud yn siŵr fod buddsoddi mewn busnesau yn y dyfodol yn well, ein bod yn cefnogi ein busnesau bach a chanolig eu maint yn well ac yn wir, yn darparu'r fframwaith, yr arena a'r drefn er mwyn i fusnesau Cymru allu tyfu'n fwy llwyddiannus yn y dyfodol. Gyda hynny, rwy'n annog yr Aelodau yma i gefnogi ein cynnig.

18:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:01

## 6. Cyfnod Pleidleisio

## 6. Voting Time

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

So, we'll vote on the Welsh Conservatives debate on the UK Government's spending review and autumn statement. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11. There voted against 34. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Felly, pleidleisiwn ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig ar adolygiad o wariant a datganiad yr hydref Llywodraeth y DU. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid. Pleidleisiodd 34 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 11, Yn erbyn 34, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 11, Against 34, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5898](#)

[Result of the vote on motion NDM5898](#)

18:02

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We will now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 45. No votes against. Therefore, amendment 1 is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 45 o blaid. Ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 45, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 45, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5898](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5898](#)

18:02

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 2 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 34. There voted against 11. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Pleidleisiodd 11 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 2.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 34, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 34, Against 11, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5898](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5898](#)

18:02

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 3 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 45. No votes against. Therefore, amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 45 o blaid. Ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 3.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 45, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 45, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5898](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5898](#)

18:03

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 34. Eleven votes against. Therefore, amendment 4 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Pleidleisiodd 11 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 4.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 34, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 34, Against 11, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5898

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5898

18:03

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 5 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 45. No votes against. Therefore, amendment 5 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 5 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 45 o blaid. Ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 5.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 45, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 45, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5898

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5898

18:03

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 6 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 34. Eleven votes against. Therefore, amendment 6 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 6 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Pleidleisiodd 11 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 6.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 34, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 34, Against 11, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5898

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5898

18:03

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 7 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 45. No votes against. Therefore, amendment 7 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 7 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 45 o blaid. Ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 7.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 45, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 45, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnig NDM5898

Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5898

18:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 8 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 34. No votes against. Eleven abstentions. Therefore, amendment 8 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 8 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Roedd 11 yn ymatal. Felly, derbyniwyd gwelliant 8.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 34, Yn erbyn 0, Ymatal 11.*

*Amendment agreed: For 34, Against 0, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnig NDM5898

Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5898

18:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 9 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11. There voted against 34. Therefore, amendment 9 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 9 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid. Pleidleisiodd 34 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 9.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 34, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 11, Against 34, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i gynnig NDM5898

Result of the vote on amendment 9 to motion NDM5898

18:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call for a vote on amendment 10 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour seven. There voted against 23, and there were 15 abstentions. Therefore, amendment 10 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 10 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 7 o blaid. Pleidleisiodd 23 yn erbyn, ac roedd 15 yn ymatal. Felly, gwrthodwyd gwelliant 10.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 7, Yn erbyn 23, Ymatal 15.*

*Amendment not agreed: For 7, Against 23, Abstain 15.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 10 i gynnig NDM5898

Result of the vote on amendment 10 to motion NDM5898

18:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call for a vote on amendment 11, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11. There voted against 23, and there were 11 abstentions. Therefore, amendment 11 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 11, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid. Pleidleisiodd 23 yn erbyn, ac roedd 11 yn ymatal. Felly, gwrthodwyd gwelliant 11.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 23, Ymatal 11.*

*Amendment not agreed: For 11, Against 23, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 11 i gynnig NDM5898

Result of the vote on amendment 11 to motion NDM5898

18:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call for a vote on amendment 12, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 34. No votes against. There were 11 abstentions. Therefore, amendment 12 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 12, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Roedd 11 yn ymatal. Felly, derbyniwyd gwelliant 12.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 34, Yn erbyn 0, Ymatal 11.*

*Amendment agreed: For 34, Against 0, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 12 i gynnig NDM5898

Result of the vote on amendment 12 to motion NDM5898

18:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Amendment 13 was deselected.

Mae gwelliant 13 wedi'i ddad-ddethol.

*Cafodd gwelliant 13 ei ddad-ddethol.*

*Amendment 13 deselected.*

Cynnig NDM5898 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5898 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi adolygiad o wariant a datganiad yr hydref Llywodraeth y DU;

1. Notes the UK Government's spending review and autumn statement;

2. Yn croesawu cyflwyno llawr Barnett sy'n 115 y cant o wariant cymharol y pen yn Lloegr ac yn nodi'r angen i gael cytundeb rhyng-lywodraethol ffurfiol er mwyn sicrhau canlyniad sy'n hir ei barhad; a

2. Welcomes the introduction of a Barnett Floor at 115 per cent of comparable spending per head in England and notes the need to have a formal inter-government agreement to secure a long-lasting outcome; and

3. Yn croesawu tro pedol Llywodraeth DU ar ddileu'r system credydau treth, ond yn nodi â phryder y gallai toriadau i gredyd cynhwysol arwain at golliadau tebyg ar gyfer teuluoedd incwm isel erbyn 2020.

3. Welcomes the UK Government U-turn on scrapping tax credits, but notes with concern that cuts to universal credit could result in similar loss for low-income families by 2020.

4. Yn nodi y bydd gwariant cyfalaf yng Nghymru yn codi dros £900 miliwn.

4. Notes that capital spending in Wales will rise by over £900 million.

5. Yn gresynu at yr oedi o ran trydaneiddio prif reilffordd y Great Western o Lundain i Abertawe a diffyg gwybodaeth ddiweddar am drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru.

5. Regrets the delay in the delivery of electrification of the Great Western mainline from London to Swansea and lack of update on the electrification of the North Wales line.

6. Yn gresynu at y diffyg eglurder ynghylch faint o gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer bargen dinas Caerdydd.

6. Regrets the lack of clarity over the extent of financial support for a city deal for Cardiff.

7. Yn gresynu at y ffaith yr hepgorwyd prosiect morlyn llanw Bae Abertawe o ddatganiad yr hydref.

7. Regrets the omission of the Swansea Bay Tidal Lagoon project from the autumn statement.

8. Yn gresynu at y toriad o 22 y cant yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd y DU sy'n bygwth ein gallu i gyrraedd targedau newid hinsawdd a datgarboneiddio yng Nghymru.

8. Regrets the 22 per cent cut to the UK Department for Energy and Climate Change, which threatens our ability to meet climate change and decarbonisation targets in Wales.

9. Yn gresynu at y toriad o £1.7 miliwn mewn cyllid ar gyfer S4C, er gwaethaf yr ymrwymiad ym maniffesto Ceidwadwyr Cymru i '(d)diogelu arian ac annibyniaeth olygyddol S4C'.

9. Regrets the £1.7 million cut in funding for S4C, despite the Welsh Conservatives manifesto commitment to 'safeguard the funding and editorial independence of S4C'.

10. Yn galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i weithio gyda'i gilydd i ddiweddaru dadansoddiad Gerry Holtham o danariannu Cymru, ac yna cynyddu'r grant bloc i lefel deg.

10. Calls on the UK Government and the Welsh Government to work together to update the analysis of Gerry Holtham on Wales's underfunding, and then increase the block grant to the equitable level.

11. Yn gresynu at gapio budd-daliadau tai i'r gyfradd lwfans tai lleol yn y sector cymdeithasol sy'n peryglu'r bobl fwyaf agored i niwed ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro effaith y penderfyniad hwn ar ddigartrefedd a gwasanaethau llety eraill a gefnogir yng Nghymru.

11. Regrets the capping of housing benefit to the local housing allowance rate in the social sector which presents a risk to the most vulnerable and calls on the Welsh Government to clarify the impact of this decision on homelessness and other supported accommodation services in Wales.

18:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 34. Eleven votes against. Therefore, the motion as amended is agreed.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Pleidleisiodd 11 yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Derbyniwyd cynnig NDM5898 fel y'i diwygiwyd: O blaid 34, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Motion NDM5898 as amended agreed: For 34, Against 11, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5898 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5898 as amended.

18:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now vote on the Welsh Conservatives' debate on small businesses. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38. Seven votes against. Therefore, the motion is agreed without amendment.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig ar fusnesau bach. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid. Pleidleisiodd 7 yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 38, Yn erbyn 7, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 38, Against 7, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5896

Result of the vote on motion NDM5896

18:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

A wnaiff yr Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

18:07

## 7. Dadl Fer: Gwastraffu ein Talent? Menywod a'r Economi yng Nghymru

## 7. Short Debate: Wasting our Talent? Women and the Economy in Wales

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 7 is the short debate, and I call on Christine Chapman to speak on the topic that she has chosen.

Eitem 7 yw'r ddadl fer, a galwaf ar Christine Chapman i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.

18:07 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. It's staggering to think that, in 2015, many women still have very low expectations about their futures. According to recent research by City and Guilds, girls still expect to earn £7,000 a year less than boys. Since the start of devolution in 1999, this Chamber has held many debates about women's role in the economy. Certainly in that time we have seen some progress, but my belief is that Wales could be doing so much better. Indeed, much of our talent is being wasted.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n syfrdanol meddwl, yn 2015, fod llawer o fenywod yn dal i fod â disgwyliadau isel iawn am eu dyfodol. Yn ôl ymchwil diweddar gan City and Guilds, mae merched yn dal i ddisgwyl ennill £7,000 y flwyddyn yn llai na bechgyn. Ers dechrau datganoli yn 1999, mae'r Siambr hon wedi cynnal nifer o ddadleuon ynglŷn â rôl menywod yn yr economi. Yn sicr, yn y cyfnod hwnnw rydym wedi gweld rhywfaint o gynnydd, ond rwyf o'r farn y gallai Cymru wneud cymaint yn well. Yn wir, mae llawer o'n talent yn cael ei wastraffu.

The stark picture in Wales shows that there is still a gap when it comes to women's participation in the economy. According to the Office for National Statistics, 67 per cent of women aged 16 to 64 are in work, compared to 72 per cent of men. Women are three times more likely to be doing part-time work than men—44 per cent, compared to 14 per cent of men. More women are working below the living wage and are struggling to make ends meet. Across the whole Welsh economy, women face a gender pay gap of 16.2 per cent, and women's employment is typically found within low-paid sections of the economy.

Mae'r darlun llwm yng Nghymru yn dangos bod yna fwlch pan ddaw i gyfranogiad menywod yn yr economi. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 67 y cant o fenywod rhwng 16 a 64 oed sy'n gweithio, o'i gymharu â 72 y cant o ddynion. Mae menywod dair gwaith yn fwy tebygol o fod yn gwneud gwaith rhan-amser na dynion—44 y cant, o'i gymharu â 14 y cant o ddynion. Mae mwy o fenywod yn gweithio am lai na'r cyflog byw ac yn cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd. Ar draws economi Cymru gyfan, mae menywod yn wynebu bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 16.2 y cant, ac yn nodweddiadol mae cyflogaeth menywod i'w weld mewn rhannau o'r economi lle y mae'r cyflogau'n isel.

In terms of women's leadership there are still shortfalls. The 2014 Equality and Human Rights Commission 'Who Runs Wales?' study found that just 2 per cent of companies in Wales had women in their most senior positions, down from 4 per cent in 2012. They aptly describe a lost decade for gender equality, noting that,

O ran arweinyddiaeth menywod, mae yna ddiffygion o hyd. Canfu astudiaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Pwy sy'n Rhedeg Cymru?', yn 2014 mai 2 y cant yn unig o gwmnïau yng Nghymru oedd â menywod yn eu swyddi uchaf, 4 y cant yn is na 2012. Yn briodol iawn, disgrifiant y degawd coll ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau, gan nodi,

'little or no visible progress is being made in getting women to the most senior positions in the private sector.'

'ni chafodd dim neu fawr ddim cynnydd ei wneud, i bob pwrpas, i gael menywod yn y swyddi uchaf yn y sector preifat.'

Research published jointly by NIACE, the National Institute for Adult Continuing Education, last month suggests one possible cause for this: men are more likely to receive workplace training than women, and they are also more likely to receive a pay rise as the result of that training. NIACE explains that this could be linked to more women being employed on a part-time basis or in low-paid, low-skilled jobs.

Mae ymchwil a gyhoeddwyd ar y cyd gan NIACE, y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion, y mis diwethaf yn awgrymu un rheswm posibl am hyn: mae dynion yn fwy tebygol o gael hyfforddiant yn y gweithle na menywod, ac maent hefyd yn fwy tebygol o gael codiad cyflog o ganlyniad i hyfforddiant o'r fath. Mae NIACE yn egluro y gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r ffaith fod mwy o fenywod yn cael eu cyflogi ar sail ran-amser neu mewn swyddi heb lawer o sgiliau ac ar gyflogau isel.

Now, self-employment has also been suggested as one way to enhance women's contribution to the economy, but even here the data suggests that we face challenges relating to gender. Women's self-employment has increased over the last 10 years in Wales by 30 per cent, but nevertheless it's still far short of the UK average. As we know, there's a particular challenge around the whole STEM agenda. To take just one example, one in four chartered engineers in Sweden are women, but in Wales it is only one in 20.

Nawr, awgrymwyd bod hunangyflogaeth hefyd yn un ffordd o wella cyfraniad menywod i'r economi, ond hyd yn oed yma mae'r data yn awgrymu ein bod yn wynebu heriau'n ymwneud â rhyw. Mae hunangyflogaeth ymhlith menywod wedi cynyddu 30 y cant dros y 10 mlynedd diwethaf yng Nghymru, serch hynny mae'n dal i fod ymhell islaw cyfartaledd y DU. Fel y gwyddom, mae yna her arbennig yn gysylltiedig ag agenda STEM. I nodi un enghraifft yn unig, mae un o bob pedwar o beirianwyr siartredig Sweden yn fenywod, ond yng Nghymru un o bob 20 sy'n fenywod.

As Cardiff University's Dr Alison Parken has pointed out recently, the net effect is that various forms of gender segregation combine, meaning we will have gender pay gaps forever unless we do something about the employment structure.

Fel y nododd Dr Alison Parken o Brifysgol Caerdydd yn ddiweddar, yr effaith net yw bod gwahanol fathau o wahanu ar sail rhyw yn cyfuno, sy'n golygu y bydd gennym fylchau cyflog rhwng y rhywiau am byth oni bai ein bod yn gwneud rhywbeth am y strwythur cyflogaeth.

But, we shouldn't forget that inequality affects all of us, both men and women. As Richard Wilkinson and Kate Pickett, in their groundbreaking work 'The Spirit Level', argue, women's low status in society is linked with the most unequal societies, and the most unequal societies have the worst health, the worst outcomes, the highest rates of crime and the lowest levels of trust—all these things we would reject. It's no coincidence that some of the countries that are deemed happiest, like Iceland, Finland, Norway, Sweden and Denmark, are almost the most equal in terms of gender equality. Clearly, then, Wales needs the talent of all its citizens if it wants a strong economy and, if we want real change, then we must take bold radical steps.

Ond ni ddylem anghofio bod anghydraddoldeb yn effeithio ar bob un ohonom, yn ddynion a menywod. Fel y mae Richard Wilkinson a Kate Pickett, yn eu gwaith arloesol 'The Spirit Level', yn dadlau, mae cysylltiad rhwng statws isel menywod mewn cymdeithas a'r cymdeithasau mwyaf anghyfartal, a'r cymdeithasau mwyaf anghyfartal sydd â'r iechyd gwaethaf, y canlyniadau gwaethaf, y cyfraddau uchaf o droseddu a'r lefelau isaf o ymddiriedaeth—yr holl bethau hyn y byddem yn eu gwrthod. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad mai rhai o'r gwledydd sy'n cael eu hystyried hapusaf, fel Gwlad yr Iâ, y Ffindir, Norwy, Sweden a Denmarc, yw'r rhai mwyaf cyfartal, bron iawn, o ran cydraddoldeb rhywiol. Yn amlwg felly, mae angen talent ei holl ddinasyddion ar Gymru os yw am economi gref, ac os ydym am newid gwirioneddol, yna mae'n rhaid i ni roi camau radical a beiddgar ar waith.

Since 2011, the cross-party group on women and the economy has turned the spotlight on some of these issues. This group, which I chair, with the secretariat ably provided by Chwarae Teg, has looked specifically at some common themes affecting women's full contribution to the Welsh economy. It has also offered some fresh insights, which I am keen for the Welsh Government to take on board. For example, it has explored the causes of the gender pay gap, gender segregation and women's representation in the workplace.

Ers 2011, mae'r grŵp trawsbleidiol ar fenywod a'r economi wedi rhoi sylw i rai o'r materion hyn. Mae'r grŵp hwn, rwy'n ei gadeirio, gyda'r ysgrifenyddiaeth yn cael ei darparu'n fedrus gan Chwarae Teg, wedi edrych yn benodol ar rai themâu cyffredin sy'n effeithio ar gyfraniad llawn menywod i economi Cymru. Mae hefyd wedi cynnig rhai syniadau ffres, ac rwy'n awyddus i Lywodraeth Cymru roi sylw iddynt. Er enghraifft, mae wedi archwilio achosion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gwahanu ar sail rhyw a chynrychiolaeth menywod yn y gweithle.

We've seen how the fundamental challenge is the need to work with girls to change attitudes. We've looked at how women can be supported in the workplace to achieve their potential and considered practical steps to improve the utilisation of women's skills. We've discussed how modern workplace practices can support or prohibit women's participation and why, ultimately, employers benefit when they support all of their employees. We've explored how people with caring responsibilities in the home—and let's not forget that the majority of these are women—can be made economically active in the workplace, and we've discussed how we can nurture the creative potential waiting to be harnessed within women entrepreneurs.

Rydym wedi gweld mai'r her sylfaenol yw'r angen i weithio gyda merched i newid agweddau. Rydym wedi edrych ar sut y gellir cynorthwyo menywod yn y gweithle i gyrraedd eu potensial ac wedi ystyried camau ymarferol i wella'r defnydd o sgiliau menywod. Rydym wedi trafod sut y gall arferion yn y gweithle modern gefnogi neu wahardd cyfranogiad merched a pham, yn y pen draw, y bydd cyflogwyr yn elwa o gefnogi eu holl weithwyr. Rydym wedi archwilio sut y gellir gwneud pobl â chyfrifoldebau gofalu yn y cartref—a gadewch i ni beidio ag anghofio bod y mwyafrif o'r rhain yn fenywod—yn economaidd weithgar yn y gweithle, ac rydym wedi trafod sut y gallwn feithrin y potensial creadigol sy'n aros i gael ei ddefnyddio mewn entrepreneuriaid sy'n fenywod.

I would like to pay tribute to the work undertaken by the Welsh Government, too. I know that they've been involved in the single equality scheme, the all-Wales women's network, the advancing equality fund, the Agile Nation project and Women Making a Difference, just to note a number of these schemes. We should also mark the important way in which our Presiding Officer has kept gender equality at the top of the political agenda through her excellent Women in Public Life campaign.

Hoffwn roi teyrnged i'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru hefyd. Rwy'n gwybod eu bod wedi bod yn rhan o'r cynllun cydraddoldeb sengl, rhwydwaith menywod Cymru gyfan, y gronfa hyrwyddo cydraddoldeb, prosiect Cenedl Hyblyg a Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth, i nodi rhyw gymaint o'r cynlluniau hyn. Dylem hefyd nodi'r ffordd bwysig y mae ein Llywydd wedi cadw cydraddoldeb rhywiol ar frig yr agenda wleidyddol drwy ei hymgyrch ardderchog, Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus.

However, I think we'd all agree that there is still much more to be done. This includes matters that I think are a real barrier, still, to women's participation and that stubbornly remain, such as the fact that women's skills are still underutilised in the workplace. Analysis of data from a skills and employment survey carried out by the Wales Institute of Social and Economic Research, Data and Methods found that women doing part-time work were particularly affected. I think all of these barriers point to a need for a much more holistic approach to women's equality. We can't isolate women's contribution to the economy from the rest of their lives, and this is, I think, where the Welsh Government can take a lead.

Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod pawb ohonom yn cytuno bod llawer mwy i'w wneud. Mae hyn yn cynnwys materion y credaf eu bod yn rhwystr go iawn o hyd i gyfranogiad menywod ac maent yn parhau'n ystyfnig, megis y ffaith na wneir defnydd digonol o hyd o sgiliau menywod yn y gweithle. Canfu dadansoddiad o ddata o arolwg sgiliau a chyflogaeth a gynhaliwyd gan y Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru yr effeithir yn benodol ar fenywod sy'n gwneud gwaith rhan-amser. Rwy'n credu bod pob un o'r rhwystrau hyn yn dynodi bod angen ymagwedd lawer mwy cyfannol at gydraddoldeb menywod. Ni allwn ynysu cyfraniad menywod i'r economi oddi wrth weddill eu bywydau, a dyma lle y gall Llywodraeth Cymru roi arweiniad, rwy'n credu.

Our schools must be crucibles for inspiring both young women and men. They should not be beset by gendered expectations of what they should or should not do, and I think that, with the Donaldson review of the curriculum and the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which, amongst its seven goals, sets out an aim of creating a more equal Wales, we have a real opportunity here to help our young people reach their potential.

Rhaid i'n hysgolion fod yn beiriau i ysbrydoli menywod a dynion ifanc. Ni ddylent gael eu boddi gan ddisgwyliadau ar sail rhywedd o'r hyn y dylent neu na ddylent ei wneud, a chydag adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n nodi, ymhlith ei saith nod, y nod o greu Cymru sy'n fwy cyfartal, rwy'n credu bod gennym gyfle gwirioneddol yma i helpu ein pobl ifanc i gyrraedd eu potensial.

Whilst I welcome these both, I am keen for a much more specific and targeted approach towards addressing cultural barriers towards women's full involvement in the Welsh economy. In education, for example, the ways in which classrooms are set up and subjects are taught potentially disadvantage girls. This has been highlighted by Chwarae Teg's fair foundations programme, and I would welcome regular updates on how we are responding to this, because I think the cultural changes we need really start at a very young age and we really need to be serious about this.

Er fy mod yn croesawu'r rhain, rwy'n awyddus i weld ymagwedd lawer mwy penodol ac wedi'i thargedu tuag at fynd i'r afael â rhwystrau diwylliannol i gyfranogiad llawn menywod yn economi Cymru. Ym maes addysg, er enghraifft, gallai'r ffyrdd y caiff dosbarthiadau eu gosod a'r modd y caiff pynciau eu dysgu roi merched dan anfantais. Cafodd hyn ei amlygu gan raglen sylfeini teg Chwarae Teg, a byddwn yn croesawu diweddariadau rheolaidd ar sut y dylem ymateb i hyn, gan fy mod yn meddwl bod y newidiadau diwylliannol sydd eu hangen arnom mewn gwirionedd yn dechrau ar oedran ifanc iawn, ac mae gwir angen i ni fod o ddifrif ynglŷn â hyn.

So, in conclusion, then, Deputy Presiding Officer, I believe that inequality still remains as a taken-for-granted aspect of modern life—normal and inevitable; something we just accept. This must change if we are not to waste Wales's precious resources.

I gloi, felly, Ddirprwy Lywydd, rwy'n credu bod anghydraddoldeb yn parhau i fod yn agwedd sy'n cael ei chymryd yn ganiataol yn y byd modern—normal ac anochel; yn rhywbeth rydym yn ei dderbyn. Rhaid i hyn newid os nad ydym am wastraffu adnoddau gwerthfawr Cymru.

18:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister for Skills and Technology to reply—Julie James.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i ateb—Julie James.

18:15 **Julie James** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I'm very delighted to reply to this excellent debate. Chris: I want to pay tribute to Chris's work on the cross-party group, which has maintained the spotlight on this very important area of everybody's life all the way through its work. And, indeed, before I had this role, I was an enthusiastic member of it.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n falch iawn o ymateb i'r ddadl ragorol hon. Chris: Hoffwn roi teyrnged i waith Chris yn y grŵp trawsbleidiol, sydd wedi cynnal y sylw ar y maes pwysig hwn o fywyd pawb yr holl ffordd drwy ei waith. Ac yn wir, cyn i mi gael y swyddogaeth hon, roeddwn yn aelod brwd ohono.

I want to do two things as well: I want to agree to both of the things that Chris set out in the last part of her debate. I absolutely agree that the schools must be crucibles for inspiring young women and young men in all areas of their work, but also for inspiring all of the healthy relationship work, all of the gender equality work, and all of the equality work in general that she's highlighted. So, I'm more than happy to take that back and give reports to the cross-party group, and anywhere else, on how we're going with that. And exactly the same on the fair foundations programme. I'd be more than happy to come and report back to the group on how we are implementing that programme, which is very important, and I wholly endorse your remarks on that.

Rwyf am wneud dau beth hefyd: rwyf am gytuno â dau o'r pethau a nododd Chris yn rhan olaf ei dadl. Cytunaf yn llwyr fod yn rhaid i'r ysgolion fod yn beiriau ar gyfer ysbrydoli menywod a dynion ifanc ym mhob agwedd ar eu gwaith, ond hefyd ar gyfer ysbrydoli'r holl waith ar berthynas iach rhwng pobl, yr holl waith ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau, a'r holl waith cydraddoldeb y tynnodd sylw atynt yn gyffredinol. Felly, rwy'n fwy na pharod i fynd â hynny'n ôl a rhoi adroddiadau i'r grŵp trawsbleidiol, ac unrhyw le arall, ar ein cynnydd ar hynny. Ac yn union yr un fath gyda'r rhaglen sylfeini teg. Byddwn yn fwy na pharod i adrodd yn ôl wrth y grŵp ar sut rydym yn gweithredu'r rhaglen honno, sy'n bwysig iawn, ac ategaf eich sylwadau ar hynny'n llwyr.

I just wanted to highlight a couple of other things that I think are worth highlighting. One is the importance of self confidence in all of this and the really great results from the Agile Nation project that Chwarae Teg has taken part in. I had the real privilege of presenting some of the awards in that project, and some of the life stories of the women there really demonstrated that, actually, self-belief is what was crucial there, and we can so change that in the lives of our young women. Absolutely.

Hoffwn dynnu sylw at un neu ddau o bethau eraill rwy'n meddwl ei bod yn werth tynnu sylw atynt. Un yw pwysigrwydd hunanhyder yn hyn i gyd a chanlyniadau gwych y prosiect Cenedl Hyblyg y mae Chwarae Teg wedi bod yn rhan ohono. Cefais y fraint o gyflwyno rhai o'r gwobrau yn y prosiect hwnnw, ac roedd rhai o straeon bywyd rhai o'r menywod yno mewn gwirionedd yn dangos mai hunan-gred yw'r hyn a oedd yn hollbwysig yno, a gallwn wneud cymaint i newid hynny ym mywydau ein menywod ifanc. Yn bendant.

We're also working with an enormous number of key organisations. I think that we have done quite a lot. So, for example, all our Business Wales start-up services, we've got 44 per cent of those with female clients. Forty-four per cent of our role models are female, although it should be 50 per cent. We're signed up to the 50/50 programme in the Welsh Government. We're signed up to the 50/50 programme for the senior civil service also, so, we're very much on board with this. I could list, Deputy Presiding Officer, an enormous number of projects that are aimed at addressing this really serious issue in Welsh society, but I know that you'll start telling me that I'm running out of time, so I won't do that. But, believe me, they are there.

Rydym hefyd yn gweithio gyda nifer enfawr o sefydliadau allweddol. Rwy'n meddwl ein bod wedi gwneud cryn dipyn. Felly, er enghraifft, ein holl wasanaethau Busnes Cymru ar gyfer busnesau newydd, mae gennym 44 y cant o'r rheini gyda chleientiaid benywaidd. Mae 44 y cant o'n modelau rôl yn fenywod, er y dylai fod yn 50 y cant. Rydym wedi cefnogi rhaglen 50/50 Llywodraeth Cymru. Rydym yn cefnogi'r rhaglen 50/50 ar gyfer yr uwch wasanaeth sifil hefyd, felly, rydym yn gefnogol iawn i hyn. Ddirprwy Lywydd, gallwn restru nifer enfawr o brosiectau sy'n anelu at fynd i'r afael â'r mater hynod o bwysig hwn yng nghymdeithas Cymru, ond gwn y byddwch yn dweud wrthyf fod fy amser yn dod i ben, felly ni wnaf hynny. Ond credwch fi, maent yno.

The true point is that, actually, progress is still slow and it could go faster. I personally want to pledge that we, as a Government, will do everything in our power to make sure that, at the very earliest stage, people start to understand that, actually, you can be anybody you want to be, and that we continue that all the way through women's lives, including through our childcare programmes, our support for young carers and people at home—you're quite right that women are mostly that—and, actually, our really hard work on ensuring that the gender bias and unconscious bias in society can be countered by all of our programmes at the really crucial ages that the fair foundations report highlights—six to eight, I think they were, and 11 to 14 in particular—when society most channels both women and men into particular gender stereotypes.

Y pwynt go iawn mewn gwirionedd, yw bod y cynnydd yn dal i fod yn araf a gallai fynd yn gyflymach. Yn bersonol, rwyf am addo ein bod ni, fel Llywodraeth, yn mynd i wneud popeth yn ein gallu i sicrhau, ar y cam cynharaf un, fod pobl yn dechrau deall, mewn gwirionedd, y gallwch fod yn unrhyw un rydych am fod, a'n bod yn parhau â hynny yr holl ffordd drwy fywydau menywod, gan gynnwys drwy ein rhaglenni gofal plant, ein cefnogaeth i ofalwyr ifanc a phobl yn eu cartrefi—rydych yn hollol iawn mai menywod yn bennaf yw'r rheini—ac mewn gwirionedd, ein gwaith caled iawn ar sicrhau bod modd i bob un o'n rhaglenni wrthsefyll y rhagfarn ar sail rhyw a'r rhagfarn anymwybodol yn y gymdeithas ar yr oedrannau cwbl allweddol y mae'r adroddiad sylfeini teg yn eu hamlygu—chwech i wyth oed, rwy'n meddwl, ac 11 i 14 oed yn enwedig—pan fo cymdeithas yn cyfeirio menywod a dynion fwyaf yn ôl stereoteipiau rhyw.

So, I think really all I want to say is, 'Thank you so much for bringing this up'. I absolutely do pledge to come back to you on how we're implementing the specific things you mentioned and I recommend the very long list of really important projects that we're sponsoring in this regard to absolutely everybody in Welsh society, because, as Chris rightly pointed out, a more equal society is actually a more productive, happier and healthier society. So, thank you, Chris.

Felly, rwy'n meddwl mewn gwirionedd mai'r cyfan rwyf am ei ddweud yw, 'Diolch yn fawr i chi am dynnu sylw at hyn'. Rwy'n addo'n bendant y dof yn ôl atoch i ddweud sut rydym yn gweithredu'r pethau penodol y sonioch amdanynt ac rwy'n argymell y rhestr hir iawn o brosiectau gwirioneddol bwysig a noddwn yn hyn o beth i bawb yn ddiwahân yn y gymdeithas yng Nghymru, oherwydd, fel y nododd Chris yn gywir, mae cymdeithas sy'n fwy cyfartal mewn gwirionedd yn gymdeithas sy'n fwy cynhyrchiol, yn hapusach ac yn iachach. Felly, diolch i chi, Chris.

18:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much. That concludes today's proceedings.

Diolch yn fawr iawn. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:18.*

*The meeting ended at 18:18.*